


**Drafft ar gyfer
Ymgynghoriad**

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for
South West Wales



Chwefror 2025

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

**Atodiad 5: Aseiad Effaith Integredig Dros
Dro - Atodiad D (Adroddiad Cwmpasu)**



Aseiad Effaith Integredig (yn ymgorffori Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Llesiant Integredig) o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Adroddiad Cwmpasu

RHAGFYR 2024

Aseiad Effaith Integredig (yn ymgorffori Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Llesiant Integredig) o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Adroddiad Cwmpasu

Awdur CW

Gwirydd ST ac AJ

Adolygydd CA

Cymeradwywr AP

Dyddiad RHAGFYR 2024

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Gwirydd	Adolygydd	Cymeradwywr	Newidiadau
F1	Medi 2024	AL ac AK	CW	ST	AP	Drafft cyntaf i'w adolygu gan y cleient
F2	Hydref 2024	CW	AJ	CA	AP	Diweddariad yn dilyn adolygiad gan y cleient
F3	Rhagfyr 2024	CW	ST	CA	AP	Diweddariad yn dilyn ymgynghoriad

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 11 Rhagfyr 2024, ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi dyddiedig 18 Gorffennaf 2024 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac Arcadis Consulting (UK) Limited ("Arcadis") at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson arall/bersonau eraill ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd o'r fath neu ddibyniaeth arno gan unrhyw drydydd parti arall.

Cynnwys

1	Cefndir Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru a'r Asesiad Effaith Integredig	1
2	Y Broses Asesu Amgylcheddol Strategol.....	18
3	Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd	21
4	Data Sylfaenol a Nodi Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol	28
5	Proses Arfarnu a'r Fframwaith IIA	48
6	Y Camau Nesaf.....	64

Atodiadau

Atodiad A

Geirfa a Chynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd

Atodiad B

Data Sylfaenol, Materion Allweddol a Chyfleoedd

Atodiad C

Cydweddoldeb Mewnol Amcanion IIA

Tablau

Tabl 1-1: Crynodeb o Sgrinio Asesiadau Integredig	5
Tabl 1-2: Diffiniad o Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	10
Tabl 1-3: Y pum ffordd o weithio, a'r CTRh De-orllewin Cymru / IIA.....	13
Tabl 3-1: Crynodeb o'r adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni	22
Tabl 3-2: Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol	24
Tabl 4-1: Materion a Chyfleoedd Allweddol yn Ymwneud â Chynnaladwyedd sy'n codi o adolygu'r Llinell Sylfaen	31
Tabl 5-1: Egluro'r amcanion.....	49
Tabl 5-2: Cwestiynau ac Amcanion yr IIA	51
Tabl 5-3: Pynciau Cyfarwyddeb SEA a phrif Amcanion IIA sy'n berthnasol.....	63

Ffigurau

Ffigur 1-1: Amlinelliad o Broses IIA a CTRh De-orllewin Cymru.....	8
Ffigur 1-2: Nodau Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio	12
Ffigur 2-1: Camau yn y broses IIA (wedi'u haddasu o OPDM 2005)	20

Byrfoddau

Byrfodd	Diffiniad
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
ARhAA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
CCRA	Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd
CJC	Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin
CO ₂	Carbon Deuocsid
CRIA	Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
yACA	Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
DBEIS	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DfT	Yr Adran Drafnidiaeth
EqIA	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
GHG	Nwyon Tŷ Gwydr
HIA	Asesu'r Effaith ar Iechyd
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
IIA	Asesiad Effaith Integredig
IWBA	Arfarniad Llesiant Integredig
NECP	Cynllun Cenedlaethol Ynni a Hinsawdd
NO ₂	Nitrogen Deuocsid
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
NTDP	Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth
PM _{2.5}	Deunydd Gronynnol 2.5
PM ₁₀	Deunydd Gronynnol 10
AGAp	Ardal Gwarchodaeth Arbennig Posibl
RTDP	Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol
SA	Arfarniad o Gynaliadwyedd
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
SEA	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SMNR	Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
SoNaRR	Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
SoFA	Datganiad o'r Arian sydd ar Gael
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SDCau	Draenio Trefol Cynaliadwy

Asesiad Effaith Integredig (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Llesiant Integredig) o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru
Adroddiad Cwmpasu

Byrfodd	Diffiniad
CTRh De-orllewin Cymru	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru
TfW	Trafnidiaeth Cymru
ULEV	Y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn
CCUHP	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
WeITAG	Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru
WTS	Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

1 Cefndir Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru a'r Asesiad Effaith Integredig

1.1 Crynodeb

- 1.1.1 Mae Arcadis Consulting (UK) Limited (Arcadis) yn datblygu Asesiad Effaith Integredig (IIA) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ac Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA), a fydd yn helpu i arwain datblygiad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru (CTRh De-orllewin Cymru). Mae CTRh De-orllewin Cymru yn cynnwys Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae'n cael ei baratoi gan Gydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru (CJC), ac mae'n ceisio gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru¹, gan ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy ar bob cam o'r broses o lunio'r cynllun.
- 1.1.2 Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn nodi polisi rhanbarthol yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTDP)² ac yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (WTS)³, i arwain y gwaith o gyflawni gwelliannau trafndiaeth ar draws pedwar awdurdod De-orllewin Cymru dros y cyfnod 2025-2030. Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cefnogi gweithrediad Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040⁴ a bydd yn cyd-fynd â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (Piblinell Prosiect 2021) a'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2021) sy'n dod i'r amlwg.
- 1.1.3 Megis ddechrau y mae datblygiad y CTRh. Bwriedir cyhoeddi fersiwn drafft o'r CTRh ar gyfer ymgynghoriad llawn ddechrau 2025 a'r gobaith yw y bydd y CTRh yn cael ei fabwysiadu yng nghanol 2025.
- 1.1.4 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cam cwmpasu ffurfiol sy'n ofynnol ar gyfer agwedd proses SEA o'r broses IIA cyffredinol.

¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/> [Cyrchwyd: 22.08.24]

² Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022 i 2027. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth-2022-i-2027> [Cyrchwyd: 22.08.24]

³ Llywodraeth Cymru (2021) Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021> [Cyrchwyd: 22.08.24]

⁴ Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040-0> [Cyrchwyd: 22.08.24]

1.2 Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru?

1.2.1 Bydd CTRh newydd De-orllewin Cymru yn disodli'r Cydgynllun Trafnidiaeth Lleol presennol. Ei nod yw:

- Sefydlu gweledigaeth a nodau ar gyfer dyfodol trafndiaeth yn y rhanbarth
- Pennu polisiau lefel uchel sydd:
 - Yn cyflawni blaenoriaethau WTS
 - Diwallu anghenion pobl sy'n byw, yn gweithio, yn teithio drwy'r rhanbarth ac yn ymweld â hi
- Cynnwys Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n nodi cynlluniau blaenoriaeth ym mhob un o'r awdurdodau lleol.

1.3 Beth yw'r Asesiad Effaith Integredig?

1.3.1 Cefnogir y CTRh gan IIA a fydd yn ymgorffori asesiadau amgylcheddol a llesiant. Bydd yr IIA yn ymgorffori Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), sydd ill dau yn ofynion cyfreithiol. Yn unol ag arferion gorau caiff y rhain eu hintegreiddio i un broses gydlynol.

1.3.2 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i IWBA baratoi yn unol ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)⁵. Mae WelTAG yn nodi y gallai fod angen i IWBA gael ei ategu gan asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol perthnasol gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA); Asesiad Iaith Gymraeg; ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA). Er mwyn darparu dull cyfannol o ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru, cyfunir yr asesiadau hyn o fewn yr IIA hwn.

1.3.3 Mae'r angen i fabwysiadu ymagwedd integredig yn hanfodol i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae integreiddio asesiadau amgylcheddol, llesiant, cydraddoldeb, iaith ac iechyd mewn un broses yn sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn modd cyson a thryloyw. Mae hyn yn darparu mecanwaith cadarn a thrylwyr ar gyfer nodi materion a chyfleoedd, asesu effeithiau gan gynnwys effeithiau cronol ac anuniongyrchol, a monitro mewn modd cyfannol. Yn gyffredinol, bydd yr IIA yn hwyluso golwg mwy cyflawn o'r goblygiadau a'r cyfleoedd cynaliadwyedd sy'n deillio o CTRh De-orllewin Cymru.

⁵ Llywodraeth Cymru (2024) Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Ar gael yn <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-weltag.pdf> [Cyrchwyd: 02.10.24]

1.3.4 Mae'r IIA yn broses ar gyfer rhagfynegi a gwerthuso effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol cynllun neu bolisi, a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o lunio cynllun. Yn ogystal, gellir ei ddefnyddio hefyd i gofnodi effeithiau diwylliannol, sy'n ei alluogi i fod yn gyson â phedair cydran datblygu cynaliadwy yng nghyfraith Cymru. Disgrifir y rhain yn yr adrannau isod.

1.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.4.1 Mae SEA yn ofynnol mewn sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC 'ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd' (Y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol)⁶ a droswyd yn uniongyrchol i gyfraith Cymru drwy Reoliadau'r SEA⁷. Mae SEA yn broses systemig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni er mwyn sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu cyn gynted â phosibl yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae Erthygl 1 o'r Gyfarwyddeb SEA yn nodi mai'r nod yw:

“darparu ar gyfer lefel uchel o warchodaeth i'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i'r broses o baratoi a mabwysiadu cynlluniau, gan amcanu at hyrwyddo datblygu cynaliadwy”.

1.4.2 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) yn asesiad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cynllun a gynhaliwyd o ddechrau'r broses o wneud Cynllun er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r SA yn broses systematig ac ailadroddus, sy'n nodi ac yn adrodd i ba raddau y bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir eu defnyddio i ddiffinio datblygu cynaliadwy ac sy'n nodi cyfleoedd i wella perfformiad y cynllun mewn perthynas â'r rhain.

1.4.3 Mae'n arfer gorau integreiddio'r SA a'r SEA mewn un broses gydlynol.

1.4.4 Mae'r Gyfarwyddeb SEA yn nodi rhai pynciau yn Atodiad 1(f) y mae angen eu hystyried drwy gydol yr SEA ac a fydd felly'n elfen allweddol o'r IIA hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

⁶ Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd

⁷ Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (SI 2004/1656 (W/170)) ac yn Lloegr, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (SI 2004/1633)

- Bioamrywiaeth;
- Poblogaeth;
- Iechyd pobl;
- Ffawna;
- Flora;
- Pridd;
- Dŵr;
- Aer;
- Ffactorau hinsoddol;
- Ased perthnasol;
- Treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol;
- Tirwedd;
- Y gydberthynas rhwng y ffactorau uchod.

1.4.5 Mae canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth y DU⁸ (gweler hefyd Adran 2 yr adroddiad hwn) yn cyflwyno cyfres o gamau penodedig ar gyfer SEA. Mae'r un camau hyn yn cael eu mabwysiadu ar gyfer yr IIA hwn er bod y cwmpas yn ehangach na materion amgylcheddol. Serch hynny, rhaid cynnal egwyddorion a gofynion cyfreithiol y Rheoliadau SEA. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi ac yn egluro gofynion penodol y Gyfarwyddeb SEA y mae angen eu cyflawni. Rhan allweddol o'r broses Gwmpasu yw ei bod yn cael ei rhannu â'r ymgylgoreion statudol i gytuno ar gwmpas yr asesiad SEA (gweler adran 1.10).

1.5 Arfarniad Llesiant Integredig

1.5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori bod yn rhaid i fentrau trafndiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru sicrhau buddion llesiant i bobl yng Nghymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Adnodd allweddol ar gyfer gwneud hyn yw'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA). Mae WeITAG yn darparu canllawiau ar sut i gynnal IWBA ar gyfer rhaglenni, polisïau a phrosiectau trafndiaeth.

1.5.2 Mae'n rhaid i'r IWBA ar gyfer y De-orllewin ddangos sut yr aed i'r afael â llesiant yn y prosiect. Ar gyfer prosiectau trafndiaeth, dylai'r IWBA fynd i'r afael â phedwar cwestiwn allweddol yn seiliedig ar y pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

- Sut y bydd y rhaglen neu'r prosiect o fudd i bobl a chymunedau?
- Sut y bydd o fudd i'r amgylchedd?

⁸ ODPM (2005) A Practical Guide to Strategic Environmental Assessment Directive. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance> [Cyrchwyd: 22.07.24]

- Sut y bydd o fudd i leoedd a'r economi?
- Sut y bydd o fudd i ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg?

1.5.3 Mae WelTAG yn esbonio y dylid mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn yn ansoddol, gan ystyried y nodau manylach o dan bob uchelgais yn WTS; ac yn feintiol, gan ddefnyddio fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae WelTAG hefyd yn argymhell integreiddio sawl asesiad effaith arall (os oes angen y rhain) i ffurfio rhan o'r IWBA, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Y Gymraeg;
- Asesu'r Effaith ar Iechyd.

1.6 Asesiad Effaith Integredig

1.6.1 Mae'n bwysig nodi bod natur drawsbynciol yr asesiadau effaith sy'n gorgyffwrdd yn cael ei chydabod. Bydd natur yr asesiadau yn yr IIA yn ceisio sicrhau bod testunau'n cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd yn y pen draw, gan osgoi ailadrodd ar draws gwahanol bynciau cymaint â phosibl, heb roi mwy o bwys ar un maes pwnc dros faes pwnc arall.

Tabl 1-1: Crynodeb o Sgrinio Asesiadau Integredig

Asesiad Effaith	Crynodeb o Ganlyniadau Sgrinio Asesiadau Integredig
Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd	Gweler adran 1.4
Arfarniad Llesiant Integredig	Gweler adran 1.5
Asesu'r Effaith ar Iechyd	Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cael effaith bosibl ar iechyd a llesiant. Mae hyn oherwydd yr effeithiau andwyol posibl ar iechyd corfforol oherwydd llygryddion aer a ryddheir gan lawer o ddulliau trafndiaeth, ond hefyd effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant drwy annog teithio llesol. Bydd yr asesiad o iechyd yn seiliedig ar y fethodoleg eang, gyfranogol a chynhwysol fel y'i hyrwyddir yng Nghymru ac a ddisgrifir yn 'Asesu'r

Asesiad Effaith	Crynodeb o Ganlyniadau Sgrinio Asesiadau Integredig
	<p>Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol⁹ a bydd yn defnyddio penderfyniadau ehangach iechyd gan gynnwys llesiant fel fframwaith ar gyfer trafodaeth. Mae'r Fframwaith IWBA (a ddefnyddir i arfarnu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru) yn cwmpasu amcanion iechyd a llesiant sy'n adlewyrchu dangosyddion Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p>
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	<p>O dan y ddyletswydd cydraddoldeb (a nodir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹⁰), mae'n rhaid i lawer o awdurdodau cyhoeddus roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt, gan gynnwys hil, rhywioldeb, rhywedd ac anableddau.</p> <p>Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn cael effaith bosibl ar gydraddoldeb a hawliau dynol, yn bennaf oherwydd mynediad teg at drafnidiaeth a dewisiadau teithio llesol i bawb, gan gynnwys y rhai sy'n byw yn Ne-orllewin Cymru fwy gwledig. Mae'r naw grŵp nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Ndeddf Cydraddoldeb 2010 wedi'u sgrinio, ac mae'r grwpiau canlynol wedi'u sgrinio i'w hystyried ymhellach yn y broses asesu: hil, oedran, anabledd a rhyw (rhywedd). Bydd y nodweddion gwarchoddedig hyn yn cael eu hymgorffori yn yr amcanion a'r cwestiynau yn y Fframwaith IIA. Ar y cam hwn, mae'r holl nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynnwys yn yr asesiad. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses asesu, gan na ragwelir y bydd effeithiau ar rai grwpiau gwarchoddedig, gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil, a chrefydd.</p>
Asesiad o'r Gymraeg	<p>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011¹¹ a Safonau'r Gymraeg¹² yn ei gwneud yn ofynnol ystyried yr effeithiau canlynol:</p>

⁹ Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2012) Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/Whiasu_Guidance_Report_Welsh_WEB.pdf [Cyrchwyd: 23.08.24]

¹⁰ Deddf Cydraddoldeb 2010. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents> [Cyrchwyd: 23.08.24]

¹¹ Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh> [Cyrchwyd: 23.08.24]


¹² Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/441/contents/made/welsh> [Cyrchwyd: 23.08.24]

- Pa effaith, os o gwbl, y byddai CTRh De-orllewin Cymru yn ei chael ar y cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Sut y gallai CTRh De-orllewin Cymru gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- Sut y gellid datblygu CTRh De-orllewin Cymru fel nad yw'n cael nac yn lleihau unrhyw effeithiau andwyol y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cael effaith bosibl ar y Gymraeg. Felly, mae amcanion sy'n cwmpasu'r Gymraeg wedi'u hymgorffori yn y Fframwaith IIA. Byddwn yn sicrhau y caiff cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru gyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol eu hystyried a'u nodi lle y bo'n bosibl drwy'r gwaith hwn.

1.6.2 Mae Ffigur 2-1 yn dangos prif gamau'r broses IIA fel y maent yn cyd-fynd â phroses datblygu CTRh De-orllewin Cymru. Rhoddir esboniad manylach yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

Ffigur 1-1: Amlinelliad o Broses IIA a CTRh De-orllewin Cymru



1.7 Diben yr Adroddiad Cwmpasu

1.7.1 Er y bydd yr IIA yn ymgorffori SEA ac IWBA, mae gofyniad i baratoi Adroddiad Cwmpasu i fodloni gofynion y Rheoliadau SEA yn unig, ac felly nod yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw bodloni gofynion y Rheoliadau SEA hyn, a bydd iteriadau'r IIA yn y dyfodol yn integreiddio SEA ac IWBA.

1.7.2 Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynrychioli cam cychwynnol yr SEA ac yn gosod y cwmpas ar gyfer gweddill y broses. Mae'n ddull integredig a luniwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cyfraniad, ac mae'n dilyn y fethodoleg a nodir yn y canllawiau cyhoeddedig¹³ ac yn ceisio:

- Gosod cwmpas a manylder yr SEA;
- Nodi cynlluniau, polisiâu, rhaglenni a mentrau perthnasol a fydd yn llywio'r broses SEA a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru;
- Nodi gwybodaeth berthnasol am amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol presennol yn Ne-orllewin Cymru yn rhanbarthol sy'n berthnasol i drafnidiaeth;

¹³ ODPM (2005) A Practical Guide to Strategic Environmental Assessment Directive. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance> [Cyrchwyd: 22.07.24]

- Nodi materion a chyfleoedd allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd;
- Cyflwyno fframwaith arfarnu ar gyfer yr SEA, y gellir gwerthuso Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn ei erbyn.

1.7.3 Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynrychioli cam cyntaf y broses SEA ond fe'i defnyddiwyd fel cyfle i gyfuno gwybodaeth sylfaenol sy'n ddefnyddiol ar gyfer datblygu'r broses IIA ehangach. Un o ganlyniadau allweddol y Cam Cwmpasu yw'r Fframwaith asesu. At ddibenion y Rheoliadau SEA, dyma'r Fframwaith SEA. Cyfeirir at hyn fel y Fframwaith IIA i gefnogi'r dull integredig o asesu a gyflawnir. Datblygwyd hyn drwy adolygu'r cynlluniau, y polisiau a'r rhaglenni perthnasol, yn ogystal ag adolygiad o'r wybodaeth sylfaenol berthnasol, a nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol. Y Fframwaith IIA Drafft yw'r prif ddull asesu a ddefnyddiwyd yn ystod yr IIA ac mae'n cynnwys cyfres o 13 o Amcanion IIA Drafft sy'n ymdrin â materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a nodwyd, gan sicrhau bod gofynion pob un o'r asesiadau integredig yn cael eu cynnwys. Yn dilyn ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn, bydd yr Amcanion IIA Terfynol diwygiedig yn cael eu defnyddio i asesu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru wrth iddo ddatblygu (noder nad oes trefn pwysigrwydd ar gyfer yr Amcanion IIA hyn):

1. Cyfrannu at welliant mewn iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru
2. Creu'r amodau ar gyfer cyflawni gwelliant mewn cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb
3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy
4. Gwarchod a hyrwyddo diwylliant Cymru a gwella mynediad i fannau diwylliannol a hamdden
5. Annog gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg
6. Hyrwyddo cadwraeth a gwella asedau treftadaeth
7. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth a chyfrannu at newid dulliau teithio
8. Gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
9. Diogelu a gwella ansawdd aer
10. Gwarchod a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau a'n trefluniau
11. Hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
12. Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy
13. Galluogi gwarchod ardaloedd llonydd a thawel, ac atal llygredd sŵn a golau

1.8 Cydberthynas rhwng CTRh De-orllewin Cymru, y WTS, yr IIA a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1.8.1 Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn nodi gweledigaeth a nodau ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yn y rhanbarth a pholisïau lefel uchel yn unol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sef strategaeth drafnidiaeth genedlaethol 20 mlynedd Llywodraeth Cymru. Yr IIA yw'r broses arfarnu a ddefnyddir i ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru. Mae'n gosod datblygu cynaliadwy wrth galon y broses ac yn integreiddio ystod o asesiadau i mewn i adnodd asesu syml ond cynhwysfawr.

1.8.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁴, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2015, yn ceisio gosod Cymru'n uniongyrchol ar lwybr cynaliadwy i wella ein llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy a ddiffinnir fel:

Ystyr 'datblygu cynaliadwy' yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.

1.8.3 Yn hytrach na diben ynddo'i hun, mae datblygu cynaliadwy yn ffordd o wneud pethau ac mae'r Ddeddf yn llywio sut y dylai gyrff cyhoeddus weithredu i'w gyflawni. Mae'r Ddeddf yn darparu at ddiben a rennir drwy saith nod llesiant i Gymru. Mae'r nodau llesiant hyn yn anwahanadwy oddi wrth ei gilydd ac yn egluro'r hyn a olygir wrth lesiant Cymru (gweler Tabl 2-1).

1.8.4 Mae datblygu cynaliadwy yn broses sydd hefyd yn cyfrannu at wella llesiant. Mae'n cydnabod bod llawer o bethau sy'n pennu ansawdd bywyd person (ei lesiant), ac y gellir categorio'r rhain i gyd yn fras fel ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y nodau llesiant. Mae hyn yn golygu y gall gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant wella llesiant unigolion a Chymru gyfan.

Tabl 1-2: Diffiniad o Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan

¹⁴ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/> [Cyrchwyd: 22.08.24]

Nod	Disgrifiad o'r nod
	gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion¹⁵

Pwysigrwydd Integreiddio'r Saith Nod Llesiant i'r IIA

1.8.5 Bydd gan CTRh De-orllewin Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at gyflawni nodau llesiant dros y cyfnod o bum mlynedd, a bydd y dull arfarnu yn helpu'r CJC i ddeall lle gall CTRh De-orllewin Cymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad hwnnw.

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf> [Cyrchwyd: 22.08.24]

Defnyddiwyd y nodau llesiant hefyd i lywio'r adolygiad o'r dystiolaeth, nodi materion a strwythuro'r Fframwaith IIA.







Ffyrdd o Weithio

1.8.6 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir gan y Ddeddf yn rhan sylfaenol o'r ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – weithredu nawr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, gan ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

1.8.7 Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy (gweler Ffigur 2-3), sef:

- Edrych ar bethau o safbwynt yr **hirdymor** er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Mabwysiadu dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o bobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio **ar y cyd** ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- Deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd.

Ffigur 1-2: Nodau Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio

Nodau Llesiant	Ffyrdd o Weithio	
		Hirdymor
		Integreiddio
		Cydweithio
		Cynnwys
		Atal

Ffynhonnell: addaswyd o: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion¹⁶

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf> [Cyrchwyd: 22.08.24]

Y Pum Ffordd o Weithio, CTRh De-orllewin Cymru a'r IIA

1.8.8 Mae'r pum ffordd o weithio yn rhan annatod o broses baratoi CTRh De-orllewin Cymru ac felly, drwy hynny, yr IIA. Wrth ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru, bydd yr arbenigwyr asesu effaith integredig a'r lluniwr cynllun yn ystyried sut mae'r ffordd o weithio yn llywio'r hyn a wnawn. Mae Tabl 2-2 yn rhoi trosolwg o'n dull gweithredu.

Tabl 1-3: Y pum ffordd o weithio, a'r CTRh De-orllewin Cymru / IIA

Edrych ar bethau o safbwynt y hirdymor

Datblygu CTRh De-orllewin Cymru

Er ei fod yn gynllun 5 mlynedd, er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried y hirdymor, bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cael ei ddatblygu i ddarparu nodau, amcanion a blaenoriaethau a fydd yn sicrhau datblygiad cynaliadwy hirdymor De-orllewin Cymru drwy ei system drafnidiaeth. Yn bwysig, bydd CTRh De-orllewin Cymru hefyd yn cefnogi meddwl y tu hwnt i 2030 lle bynnag y bo modd, gan ddefnyddio tystiolaeth a thueddiadau, a cheisio deall canlyniadau dros yr amserlenni hiraf sydd ar gael.

Rôl IIA

Rôl yr IIA yw cefnogi penderfyniadau polisi a gwneud cynigion hirdymor yn CTRh De-orllewin Cymru. Mae'n nodi ac yn ystyried ystod eang o dystiolaeth gymdeithasol, amgylcheddol, ddiwylliannol ac economaidd. Mae'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni sylfaen, a'r gwaith o nodi materion a chyfleoedd, yn defnyddio corff manwl o dystiolaeth sy'n ystyried y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd y fframwaith profi yn profi polisi newydd ac yn asesu ei allu i gyflawni'r amcanion hirdymor. Bydd yr opsiynau a fydd yn cael eu datblygu a'u profi drwy'r IIA yn ystyried yn benodol y modd y cyflawnir newid strategol hirdymor. Mae Atodiad B yr Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi'r dystiolaeth sylfaenol sy'n edrych ar dueddiadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Mae hyn yn bwydo i mewn i'r broses o nodi materion allweddol a chyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â hwy, ac mae wedi llunio'r Fframwaith IIA ar gyfer asesu CTRh De-orllewin Cymru.

Ymgymryd â dull integredig

Datblygu CTRh De-orllewin Cymru

Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr NTDP, WTS, ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni; a Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040. Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn gwneud penderfyniadau pwysig ar opsiynau buddsoddi a fydd yn effeithio ar ddatblygiad De-orllewin Cymru yn y dyfodol.

Bydd ei bolisiâu'n cael eu hintegreiddio, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad i'r nodau llesiant, a'u datblygu drwy broses asesu fanwl â thystiolaeth. Yr IIA fydd y cyfrwng ar gyfer profi'r integreiddio hwn a sicrhau'r cyfraniad gorau posibl at gyflawni'r nodau llesiant.

Rôl IIA

Yr IIA yw'r dull integredig o ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru ac asesu ei bolisiâu newydd. Mae'n sicrhau dull cyfannol, gan rannu gwybodaeth a chydabod cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd pwnc ac felly'r nodau. Mae'r broses IIA yn cynnwys adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol perthnasol ar raddfa genedlaethol i ryngwladol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar synergeddau posibl, nodi cyfleoedd ac ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau. Fel rhan o'r IIA, cynhaliwyd hefyd asesiad cydweddoldeb o'r Fframwaith asesu er mwyn sicrhau bod unrhyw wrthdaro'n cael ei amlygu, ei ddatrys neu ei reoli yn ôl yr angen (gweler Atodiad C).

Bydd IIA CTRh De-orllewin Cymru yn seiliedig i raddau helaeth ar y Fframweithiau ISA a ddatblygwyd ar gyfer arfarnu'r WTS a'r NTDP, gan y bydd angen i CTRh De-orllewin Cymru fod yn unol â'r cynlluniau haen uwch hyn. Defnyddiwyd dull trawslywodraethol ar gyfer ISA y WTS. Roedd hyn yn cynnwys arweinwyr polisi arbenigol a oedd yn cwmpasu datgarboneiddio, trafndiaeth, cynllunio morol, adnoddau naturiol, gwarchod natur, tueddiadau'r dyfodol ac ystadegau. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod synergeddau a gwrthdaro yn cael eu nodi yn gynnar, gan sicrhau dull cadarn o asesu. Ar gyfer y WTS, sicrhaodd yr ymgynghoriad a'r gweithdy ISA ategol gyda rhanddeiliaid allweddol y casglwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar Adroddiad Cwmpasu drafft yr ISA gan gynnwys y Fframwaith drafft a'r dull integredig arfaethedig. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau gyda CNC yn benodol, i sicrhau y bydd penodoldeb y Fframwaith IIA, yn arbennig, yn berthnasol i arfarnu CTRh De-orllewin Cymru.

Y bwriad yw y bydd dull cydweithredol yn datblygu drwy gydol y broses i lenwi bylchau data, monitro a chynyddu ymgysylltiad â grwpiau rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb. Bydd y broses hon yn dechrau gydag ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu'r IIA.

Cynnwys pobl

Datblygu CTRh De-orllewin Cymru

Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru.

Cynhelir ymgysylltiad ar y CTRh drafft fel a ganlyn:

- mewnbwn rhanddeiliaid i ddatblygiad y cynllun, gan gynnwys ymgynghori mewnol ac allanol gyda rhanddeiliaid allweddol.

-
- ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu ar ddogfen y cynllun drafft.
 - cofnodi allbynnau'r ymarfer ymgynghori.
 - dadansoddi adborth a llunio adroddiad ymgynghori.
 - mewnbwn ymgynghori i fireinio'r cynllun

Amcanion yr ymgysylltu yw:

1. Gwneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r broses ddatblygu ar gyfer CTRh De-orllewin Cymru
2. Sicrhau bod yr ymgynghoriad yn gynhwysol ac yn darparu cyfleoedd i ystod amrywiol o randdeiliaid a'r cyhoedd gymryd rhan.
3. Sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uchel o'r cynllun a gynigir.

Rôl IIA

Mae'r IIA yn gyfle pwysig i ymgynghori ar lunio CTRh De-orllewin Cymru wrth iddo fynd rhagddo. Mae'n broses sy'n adrodd hanes y cynllun gan gynorthwyo dealltwriaeth o'i ddatblygiad.

Bydd camau'r gwaith IIA yn y dyfodol yn cynnwys ymgynghori â gwahanol sefydliadau ac unigolion er mwyn sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n parhau i gael eu casglu a'u hystyried wrth gwblhau CTRh De-orllewin Cymru. Bydd yr IIA yn cynnwys hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg.

Cydweithio ag eraill

Datblygu CTRh De-orllewin Cymru

Rôl y WTS yw hwyluso camau gweithredu gan eraill a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau cyffredin, sicrhau'r canlyniadau gorau posibl a helpu i gyflawni'r nodau llesiant. Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn ceisio cyflawni nodau a blaenoriaethau WTS yn Ne-orllewin Cymru.

Rôl IIA

Bydd yr IIA, drwy adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol (Atodiad A), tystiolaeth sylfaenol (Atodiad B), yn helpu i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer CTRh De-orllewin Cymru (Tabl 5-1). Yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori bydd y dystiolaeth, y cynlluniau a'r rhaglenni, a materion a chyfleoedd yn cael eu diweddarau a'u diwygio. Bydd hyn yn arwain at ddiweddariad i'r Fframwaith IIA, y bydd nodau ac amcanion CTRh De-orllewin Cymru yn cael eu profi yn ei erbyn, a bydd yn

helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cydweithredol a sicrhau bod CTRh De-orllewin Cymru mor gynaliadwy â phosibl.

Atal

Datblygu CTRh De-orllewin Cymru

WTS yw un o ysgogwyr y llywodraeth wrth nodi canlyniadau a mesurau yn y dyfodol i fonitro llwyddiant. Mae WTS yn nodi gweledigaeth strategol hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth ynghyd â set o ganlyniadau i gyflawni'r weledigaeth honno, yn ogystal â mesurau fel y gellir olrhain cynnydd. Mae hyn wedi rhoi sail glir ar gyfer cynllunio buddsoddiad a datblygiad y rhwydwaith yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer gwireddu blaenoriaethau ar y cyd, yn ogystal ag atal problemau trafndiaeth yn y dyfodol ac effeithiau trafndiaeth, a bydd CTRh De-orllewin Cymru yn adlewyrchu hyn. Mae WTS hefyd yn darparu ar gyfer diogelwch ac amddiffyniad grwpiau difreintiedig a lleiafrifol yng Nghymru, a gaiff eu hadlewyrchu yn nodau ac amcanion CTRh De-orllewin Cymru. Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn destun rhaglen o fonitro ac adolygu, i gadarnhau ei gynnydd tuag at gyflawni ei ganlyniadau.

Rôl IIA

Mae'r IIA yn seiliedig ar dystiolaeth, ac mae'r dystiolaeth yn bwydo drwy'r Adroddiad Cwmpasu ac yn ffurfio'r Fframwaith IIA (gweler Tabl 6-2). Nododd yr adolygiad o'r dystiolaeth hon faterion a chyfleoedd allweddol ar gyfer CTRh De-orllewin Cymru, sy'n seiliedig ar yr hyn a ddatblygwyd ar gyfer WTS. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â CTRh De-orllewin Cymru, ac yn sicrhau ei fod yn atal canlyniadau negyddol ac yn gwella canlyniadau cadarnhaol lle bo modd (Tabl 5-1). Bydd nodi'r materion a'r tueddiadau hyn yn y cam cynnar hwn yn helpu i ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru drwy lunio amcanion a chwestiynau Fframwaith yr IIA. Mae'r broses IIA yn sicrhau y caiff CTRh De-orllewin Cymru ei fonitro er mwyn sicrhau bod CTRh De-orllewin Cymru yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac yn cyflawni ei amcanion, gan ystyried Fframwaith Monitro a Gwerthuso WTS. Bydd unrhyw faterion a amlygir yn bwydo i mewn i'r adolygiad o CTRh De-orllewin Cymru.

1.9 A fydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal?

1.9.1 Mae Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 92/43/EEC¹⁷ ar warchod cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd') yn ei gwneud yn

¹⁷ Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 92/43/EEC. Ar gael yn: <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:31992L0043&from=EN> [Cyrchwyd: 30.11.21]

ofynnol i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth arbennig (ACA), ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig (yACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl (AGAp) a safleoedd Ramsar), nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle ar gyfer cadwraeth natur, fod yn destun Asesiad Priodol. Troswyd y Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd¹⁸. Cyfeirir at y broses gyffredinol fel HRA.

1.9.2 Ar ôl ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), bydd CTRh De-orllewin Cymru yn destun Sgrinio HRA. Cyhoeddir canlyniad y broses hon ochr yn ochr â CTRh De-orllewin Cymru a'r IIA.

1.10 Pa fath o ymgynghori a gynhelir ar yr Adroddiad Cwmpasu?

1.10.1 Mae ymgysylltu ar CTRh De-orllewin Cymru hyd yma wedi cynnwys gweithdai gyda swyddogion awdurdodau lleol, sesiynau briffio ar gyfer Aelodau etholedig a Chynghorau Cymuned, yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol ar broblemau a materion. Mae'r Adroddiad Cwmpasu ar gyfer IIA CTRh De-orllewin Cymru yn un o'r camau ffurfiol cyntaf wrth ymgysylltu a chydweithio ar gyfer CTRh De-orllewin Cymru. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer ymgynghoriad gyda CNC a Cadw ar 18 Hydref 2024.

1.10.2 Ymatebodd Cadw gan ddweud *“Ystyriwyd yr amgylchedd hanesyddol yn briodol yn yr adroddiad cwmpasu ac rydym yn cytuno â'r methodolegau arfaethedig ar gyfer asesu effaith y strategaeth arno”*.

1.10.3 Ni chafwyd ymateb gan CNC o fewn yr amserlen statudol, er y bydd unrhyw ymateb a geir yn y dyfodol yn cael ei integreiddio i'r adrodd yn y cam nesaf.

1.10.4 Wrth ddatblygu'r opsiynau ac asesu CTRh De-orllewin Cymru, cynhelir gweithdai gyda'r rhai sy'n arwain datblygiad CTRh De-orllewin Cymru er mwyn galluogi'r IIA i ddyllanwadu ar y cwmpas a'r materion a ystyrir o fewn CTRh De-orllewin Cymru.

¹⁸ Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (SI 2010/490). Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2010/490> [Cyrchwyd: 30.11.21]

2 Y Broses Asesu Amgylcheddol Strategol

2.1 Camau yn y Broses Asesu Amgylcheddol Strategol

2.1.1 Mae'r Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb SEA yn rhannu'r broses SEA yn gyfres o gamau. Mae'r camau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr IIA hwn (sy'n ymgorffori SEA ac IWBA) gyda gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu er mwyn sicrhau bod pob un o'r asesiadau integredig yn cael eu hymgorffori. Y bwriad yw bod y broses yn ailadroddus. Mae Ffigur 3-1 yn cyflwyno camau allweddol yr SEA, ochr yn ochr â chamau datblygu allweddol CTRh De-orllewin Cymru, a pha asesiadau fydd yn cael eu hintegreiddio fel rhan o broses IIA. I grynhoi, bydd yr IIA hwn yn cynnwys y broses ganlynol:

Cam A: Gosod y Cyd-destun a'r Amcanion, Penderfynu ar Linell Sylfaen a Chwmpas (Y Cam Hwn)

2.1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gam Cwmpasu elfen SEA yr IIA. Mae'r cam hwn yn darparu'r sail ar gyfer cyflawni camau dilynol yr IIA. Mae'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill a datblygiad amcanion amgylcheddol, gan gynnwys polisiau a chynlluniau cenedlaethol a haen uwch eraill, yn cadarnhau'r cyd-destun ar gyfer CTRh De-orllewin Cymru. Er mwyn rhagfynegi'n gywir sut y gallai cynigion CTRh De-orllewin Cymru effeithio ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, yn gyntaf mae'n bwysig deall cyflwr presennol y ffactorau hyn ac yna archwilio eu hesblygiad tebygol heb weithredu CTRh De-orllewin Cymru. Yna dadansoddir y llinell sylfaen hon, i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol a fydd yn llywio'r CTRh sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd y gallai CTRh De-orllewin Cymru ddylanwadu arnynt. Yn dilyn hyn, bydd y Fframwaith IIA yn cael ei sefydlu, i bennu set o amcanion a chwestiynau allweddol, i'w defnyddio i asesu'r CTRh sy'n dod i'r amlwg a sut y gallai wella'r ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hyn, o fewn cyd-destun y nodau llesiant.

2.1.3 Mae'r broses ymgynghori yn helpu i fireinio'r gwaith hwn fel bod gennym Fframwaith IIA sy'n effeithiol wrth arfarnu CTRh De-orllewin Cymru.

Camau B1 a B2: Datblygu a chaboli ffyrdd eraill posibl ac asesu'r effeithiau (Y Cam Nesaf)

2.1.4 Yn dilyn yr Ymgynghoriad Cwmpasu SEA, bydd yr IIA yn symud i Gam B. Bydd Cam B yn cynnwys gwerthusiad lefel uchel o ddrafft cychwynnol o bolisiau a chynigion CTRh De-orllewin Cymru yn erbyn y Fframwaith IIA sefydledig. Bydd yr asesiad yn

galluogi polisïau a chynigion CTRh drafft De-orllewin Cymru i gael eu hasesu yn gynnar, gan nodi unrhyw opsiynau posibl. Gellir gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau neu ddewisiadau eraill, fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn llywio datblygiad CTRh De-orllewin Cymru i'w ddatblygu a'i fireinio.

Camau B3, B4, B5 a B6: Rhagfynegi a gwerthuso effeithiau CTRh Drafft De-orllewin Cymru, gan gynnwys dewisiadau eraill

2.1.5 Yn dilyn datblygu polisïau a chynigion CTRh diwygiedig De-orllewin Cymru, y cam hwn o'r asesiad yw gwerthusiad o'r effeithiau arwyddocaol a ragwelir. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys llunio barn ynghylch a fyddai'r effeithiau a ragwelir yn amgylcheddol arwyddocaol ai peidio. Mae camau B5 a B6 yn rhan annatod o'r broses hon ac yn cynnwys yr argymhellion ar gyfer gwella canlyniadau a monitro posibl yr effeithiau arwyddocaol a ragwelir (gweler Cam E).

Camau C a D: Adroddiad ac Ymgynghoriad IIA Drafft

2.1.6 Bydd Adroddiad IIA Drafft yn cael ei gyhoeddi (Cam C) i gyd-fynd ag ymgynghoriad statudol CTRh Drafft De-orllewin Cymru (Cam D), y bwriedir ei gynnal ar ddechrau 2025.

2.1.7 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar CTRh Drafft De-orllewin Cymru, bydd yr IIA yn cael ei ddiweddarau eto i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol yn CTRh De-orllewin Cymru o ganlyniad i'r ymgynghoriad (parhad o Gam D). Yna bydd Adroddiad IIA Terfynol yn cael ei lunio i gyd-fynd â CTRh Terfynol De-orllewin Cymru.

Cam E: Monitro Effeithiau Arwyddocaol CTRh De-orllewin Cymru

2.1.8 Mae Cam E o'r broses IIA yn cynnwys cwblhau fframwaith monitro a fydd yn cael ei ddefnyddio i nodi materion, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau arwyddocaol CTRh De-orllewin Cymru dros amser. Yn dilyn mabwysiadu CTRh De-orllewin Cymru, bydd Datganiad IIA ôl-fabwysiadu yn cael ei baratoi, ochr yn ochr â Datganiad o Fanylion Amgylcheddol, yn rhoi manylion am sut mae'r broses AEI wedi dylanwadu ar ddatblygiad CTRh De-orllewin Cymru, yr effeithiau arwyddocaol a ragwelir, yn ogystal â'r fframwaith monitro.

Ffigur 2-1: Camau yn y broses IIA (wedi'u haddasu o OPDM 2005)



3 Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd

3.1 Cyflwyniad

- 3.1.1 Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cael ei ddylanwadu mewn amrywiol ffyrdd gan gynlluniau neu raglenni eraill, neu gan amcanion diogelu amgylcheddol (neu gynaliadwyedd) allanol fel y rhai a nodir mewn polisïau neu ddeddfwriaeth. Gall deall y cydberthnasau hyn alluogi'r CJC i fanteisio ar synergeddau posibl, nodi cyfleoedd ac ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau. Mae nifer mawr o gynlluniau a rhaglenni eraill wedi'u hadolygu mewn perthynas â materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol perthnasol sydd o bwys i bob un o'r meysydd asesu integredig.
- 3.1.2 Bydd natur ailadroddol y gwaith hwn yn sicrhau bod cynlluniau a rhaglenni newydd a gyhoeddir wrth i CTRh De-orllewin Cymru ddatblygu yn cael eu hystyried.
- 3.1.3 Mae'r Rheoliadau SEA yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gynlluniau a rhaglenni perthnasol gael eu hystyried. Mae'r blwch isod yn nodi gofynion y Rheoliadau SEA ar gyfer y cam hwn o'r broses.

Blwch 1: Gofynion Rheoliadau SEA ar gyfer adolygu Rhaglenni Cynlluniau ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd

“Amlinelliad o gynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'r berthynas â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill” (Atodlen 2 (1))

“Yr amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, cymuned neu aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ei baratoi” (Atodlen 2 (5))

- 3.1.4 Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill a allai effeithio ar y gwaith o baratoi CTRh De-orllewin Cymru er mwyn cyfrannu at ddatblygiad yr IIA (gan gynnwys SEA ac IWBA) a CTRh De-orllewin Cymru, a chyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad A. Roedd hyn yn cynnwys:
- Nodi unrhyw amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol neu economaidd y dylid eu hadlewyrchu yn y broses IIA;
 - Nodi unrhyw ddata sylfaenol sy'n berthnasol i'r IIA;

- Nodi unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar baratoi'r ddogfen, er enghraifft materion cynaliadwyedd;
- Nodi unrhyw amcanion neu nodau a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru; a
- Penderfynu a oes gwrthdaro neu heriau posibl amlwg rhwng cynlluniau, rhaglenni neu amcanion amgylcheddol eraill a CTRh De-orllewin Cymru sy'n cael ei ddatblygu.

3.1.5 Roedd yr adolygiad yn cynnwys dogfennau a baratowyd ar raddfa ryngwladol, Ewropeaidd, y DU gyfan ac yn genedlaethol. Ceir crynodeb byr o'r dogfennau a adolygwyd, a cheir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn Nhabl 3-1. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Tabl 3-1: Crynodeb o'r adolygiad o Gynlluniau, Polisiau a Rhaglenni

Lefel	Crynodeb (Cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad A)
Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol	Cynhaliwyd adolygiad o Gonfensiynau Rhyngwladol allweddol a allai ddylanwadu ar ddatblygu CTRh De-orllewin Cymru a'r IIA.
Cynlluniau a Rhaglenni y DU gyfan	Cynhaliwyd adolygiad hefyd o gyhoeddiadau perthnasol gan sefydliadau gan gynnwys, er enghraifft, yr Adran Drafnidiaeth (DfT), yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (DBEIS), ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Mae'r cyhoeddiadau hyn yn amlinellu'r cynlluniau gweithredu a'r strategaethau ar draws ystod o feysydd pwnc, er enghraifft Strategaeth Ansawdd Aer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ¹⁹ a Chynllun Integredig Cenedlaethol ar gyfer Ynni a'r Hinsawdd y DU (NECP) ²⁰ yn ogystal ag Asesiad Annibynnol o Risgiau Newid Hinsawdd y DU Pwyllgor Newid Hinsawdd (2021): Adroddiad Technegol (yn enwedig y 'Crynodeb i Gymru'). Mae angen ystyried amcanion y cynlluniau hyn, yn ogystal â rhai o'r heriau y maent yn eu codi, fel y bo'n briodol. Mae unrhyw Gyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol blaenorol yn cael eu trosi i reoliadau cenedlaethol.
Cynlluniau a Rhaglenni Cymru	Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a gynhyrchwyd ar lefel genedlaethol Cymru. Mae llawer o'r rhain yn cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ac yn mynd i'r afael yn benodol â materion strategol fel yr economi; trafnidiaeth; iechyd; diogelwch; cymunedau cynaliadwy; tai; cyflogaeth; y Gymraeg; a diogelu'r amgylchedd. <ul style="list-style-type: none"> • Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn nodi saith nod llesiant i Gymru. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dangosyddion llesiant

¹⁹ DEFRA (2011) Strategaeth ansawdd aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: Cyfrol 1. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/the-air-quality-strategy-for-england-scotland-wales-and-northern-ireland-volume-1> [Cyrchwyd: 22.08.24]

²⁰ DBEIS (2021) Cynllun Cenedlaethol Ynni a Hinsawdd. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/uk-national-energy-and-climate-plan-necp> [Cyrchwyd: 22.08.24]

enedlaethol cychwynnol²¹, a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o'i chyfraniad at y saith nod llesiant. Mae cyrff cyhoeddus penodedig eraill hefyd wedi nodi eu hamcanion llesiant ar gyfer cyfrannu at y nodau llesiant.

- Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (WTS) yn nodi tair blaenoriaeth a phedair uchelgais llesiant sy'n ceisio gweithredu gweledigaeth WTS. Yna mae WTS yn nodi naw Cynllun Bach sy'n canolbwyntio ar bob dull o deithio, ac yn darparu nodau mwy penodol ar gyfer pob un o'r dulliau trafnidiaeth hyn.
- Mae SoNaRR Cyfoeth Naturiol Cymru 2020, ynghyd â'r Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) hefyd wedi'u cynnwys. Mae pob un yn canolbwyntio ar adnoddau naturiol Cymru, gyda SoNaRR yn darparu asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r NRP yn ceisio gosod y blaenoriaethau cenedlaethol mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r dogfennau hyn, yn benodol, yn ddogfennau cenedlaethol allweddol y bydd CTRh De-orllewin Cymru yn eu defnyddio. Maent yn cynnwys nodau cyffredin, a rhennir ystod o dystiolaeth rhyngddynt. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys prif ddylanwadau cynlluniau ar lefel ryngwladol a'r DU drwy'r 'effaith diferu i lawr'. Dylent hefyd ddarparu ffocws strategol i Gymru. Drwy nodi'r themâu hyn a'u hymgorffori yn CTRh De-orllewin Cymru y gellir cyflawni synergeddau â dogfennau perthnasol eraill.
- Mae Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru (2020) yn nodi ymrwymiad i gydnabod y ffyrdd presennol y mae strwythurau pŵer sy'n seiliedig ar ffactorau fel rhyw, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gormes. Bydd angen i CTRh De-orllewin Cymru sicrhau bod trafnidiaeth yng Nghymru yn hwyluso annibyniaeth economaidd pawb, gan gynnwys menywod a phobl anneuaid, gyda phob math o waith di-dâl a gwaith cyflogedig yn cael ei gydnabod; yn hwyluso rhyddid menywod i fyw eu bywydau fel y mynnant; yn herio unrhyw strwythurau pŵer presennol a allai fod yn anfanteisiol i fenywod; wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau cyfartal i bob menyw, dyn a pherson anneuaid; yn gosod safbwynt rhywedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau; yn agored, yn dryloyw ac yn croesawu craffu drwy lens rhywedd; yn mynd ati i fonitro cynnydd tuag at gydraddoldeb; ac yn arwain drwy esiampl i sicrhau cydraddoldeb.
- Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi sut y bydd Cymru yn mynd i'r afael â Chynllun Strategol Bioamrywiaeth y

²¹ Llywodraeth Cymru (2021) Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol> [Cyrchwyd: 22.08.24]

Lefel	Crynodeb (Cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad A)
	<p>Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r targedau bioamrywiaeth cysylltiedig Aichi yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi camau gweithredu y gellir eu cyflawni yn y tymor byr ac yn gosod cyfeiriad i gyflawni ymrwymadau tymor hwy y tu hwnt i 2020. Mae'r ymrwymadau a'r camau gweithredu hyn yn berthnasol i IIA CTRh De-orllewin Cymru ac maent wedi llywio Amcanion Fframwaith IIA.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021-2025) yn cynrychioli ymrwymadau a chamau gweithredu arfaethedig Cymru i symud ymlaen i ddyfodol sero net. Mae'r adroddiad yn nodi ymrwymiad Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i 89% ar allyriadau 1991, a gostyngiad o 100% erbyn 2050. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r angen i berfformio'n well na'r targedau hyn, ac felly mae'n nodi camau gweithredu i wella effeithlonrwydd ynni ac integreiddio polisiau er mwyn sicrhau'r budd cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl.
Cynlluniau a Rhaglenni De-orllewin Cymru	Mewn rhai amgylchiadau, mae cynlluniau a rhaglenni penodol ar gyfer De-orllewin Cymru wedi'u paratoi. Mae hyn yn cynnwys Strategaeth Ynni, Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni Economaidd. Mae'r dogfennau hyn yn nodi nodau a blaenoriaethau lleol penodol i hyrwyddo twf a mesurau cynaliadwy yn Ne-orllewin Cymru.

3.2 Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad

3.2.1 Nodwyd llawer o themâu cyffredin yn yr adolygiad o gynlluniau, polisiau a rhaglenni perthnasol. Er y cyflwynir canlyniadau llawn yn Atodiad A, mae Tabl 3-2 yn rhoi crynodeb o'r themâu allweddol a nodwyd. Ystyriwyd y themâu hyn hefyd yn erbyn y saith nod llesiant a lle gallent gyfrannu at gyflawni'r nodau hynny. Nodir mai themâu yw'r rhain sy'n codi o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni, yn hytrach na'r materion cynaliadwyedd allweddol sy'n codi o'r adolygiad o wybodaeth sylfaenol.

Tabl 3-2: Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad o Gynlluniau, Polisiau a Rhaglenni Perthnasol

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (Lle gall y themâu gyfrannu)
Lleihau llygredd aer a sicrhau gwelliannau i ansawdd aer gan gyfrannu at Gymru iachach	Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (Lle gall y themâu gyfrannu)
Hyrwyddo patrymau symudedd cynaliadwy, gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Hybu mwy o gyfle cyfartal i bob dinesydd. Dylai hyn gynnwys ffocws ar sicrhau hygyrchedd cyfartal i bawb, gan gynnwys ar gyfer pobl anabl a phobl agored i niwed, yn ogystal â chanlyniad cyfartal i bob menyw, dyn a pherson anneuaid.	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cynnal a gwella bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau gydag ecosystemau iach a chydnerth sy'n weithredol, gan gynnwys rhwydweithiau cysylltiedig o seilwaith gwyrdd ledled ardaloedd gwledig a threfol.	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Lleihau'r perygl o lifogydd a/neu erydu arfordirol yn awr neu yn y dyfodol drwy addasu'r seilwaith presennol i effeithiau newid hinsawdd, a hyrwyddo amddiffyn gorlifdiroedd neu ardaloedd o adlinio a reolir	Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd, gan gynnwys gostyngiad mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth yn unol â chyllidebau carbon Cymru	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys adnoddau dŵr; adnoddau pridd; tirweddau; morluniau; ac asedau hanesyddol a'u lleoliadau.	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (Lle gall y themâu gyfrannu)
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Rheoli echdynnu mwynau a chynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl, a chynyddu lefelau aildefnyddio ac ailgylchu i reoli gwastraff yn fwy cynaliadwy a lleihau tirlenwi	Cymru gydnerth Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Lleddfu'r pwysau ar adnoddau naturiol drwy gynyddu effeithlonrwydd ynni, ysgogi buddsoddiad ac arloesi a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ynni adnewyddadwy cenedlaethol	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd i greu Cymru iachach	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cyfrannu at lesiant y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru yn y dyfodol	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chystadleurwydd busnesau drwy drafnidiaeth ac arloesi	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Sefydlu economi dwristiaeth gref, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, treftadaeth a hamdden	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru o gymunedau cydlynus

Themâu Allweddol o'r Adolygiad	Nodau Llesiant Cenedlaethol (Lle gall y themâu gyfrannu)
	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Gwella cysylltedd cymunedau presennol a lleihau arwahanrwydd drwy gymunedau'r dyfodol sydd wedi'u cynllunio a'u dylunio'n well, a thrafnidiaeth gyhoeddus fwy cynhwysol.	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus

4 Data Sylfaenol a Nodi Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae gwybodaeth sylfaenol (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) yn darparu'r sail ar gyfer rhagfynegi a monitro effeithiau amgylcheddol, ac yn helpu i nodi materion amgylcheddol a ffyrdd amgen o ymdrin â hwy. Gan mai dogfen ar raddfa ranbarthol yw CTRh De-orllewin Cymru, mae'r gwaith casglu tystiolaeth sylfaenol wedi'i ganolbwyntio ar ddata ar raddfa ranbarthol, gyda rhywfaint o ddata ar raddfa genedlaethol lle ceir bylchau yn y data rhanbarthol.

4.1.2 Mae'r Rheoliadau SEA yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i hyn gael eu hystyried. Mae'r blwch isod yn nodi gofynion y Rheoliadau SEA ar gyfer y cam hwn o'r broses.

Blwch 2: Gofynion Rheoliadau SEA ar gyfer llinell sylfaen a nodi materion cynaliadwyedd allweddol

“Agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r Strategaeth” (Atodlen 2 (2))

“Nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol” (Atodlen 2 (3))

“Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r Strategaeth, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar warchod adar gwyllt(a) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd” (Atodlen 2 (4))

4.1.3 Mae deall nodweddion llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn hanfodol er mwyn gallu deall effeithiau CTRh De-orllewin Cymru. Mae nodweddu'r llinell sylfaen amgylcheddol a chynaliadwyedd, materion a chyd-destun yn weithgarwch pwysig wrth ddiffinio'r Fframwaith ar gyfer yr IIA. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Nodweddu cyflwr presennol llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru;
- Deall tueddiadau'r dyfodol ar sail tueddiadau presennol, a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol a allai effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru; a

- Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi problemau a chyfleoedd presennol y gallai CTRh De-orllewin Cymru ddylanwadu arnynt.

4.2 Methodoleg

4.2.1 Nodweddwyd y llinell sylfaen amgylcheddol, gymdeithasol, economaidd a diwylliannol drwy'r dulliau canlynol:

- Adolygu cynlluniau a rhaglenni rhyngwladol, y DU, cenedlaethol (Cymru) a rhanbarthol (De-orllewin Cymru) perthnasol;
- Ymchwil data yn seiliedig ar gyfres o setiau data sylfaenol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, canllawiau, argymhellion ymgynghoriad blaenorol gan IIAs tebyg a'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru; a
- Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol²², sy'n darparu data ar raddfa genedlaethol ar draws 46 o ddangosyddion cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant.

4.2.2 Roedd deall yr amodau sylfaenol yn fodd i nodi'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol yn Ne-orllewin Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro). Crynhoir y rhain yn Adran 5.3 ac fe'u cyflwynir yn llawn yn Atodiad B.

4.2.3 Mae'r data sylfaenol wedi'i rannu yn ôl saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yna wedi'i ymrannu fesul pynciau. Mae llawer o orgyffwrdd rhwng y setiau sylfaenol a'r pynciau. Cynrychiolir pob un o'r pynciau sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau SEA.

4.2.4 Mae'r Rheoliadau SEA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 'asedau materol' gael eu hystyried yn yr SA/SEA. Mae asedau materol yn cyfeirio at y stoc o asedau gwerthfawr o fewn ardal astudiaeth a gallant gynnwys llawer o bethau o dirweddau gwerthfawr, treftadaeth naturiol a diwylliannol i seilwaith a thir amaethyddol o ansawdd. At ddibenion yr IIA, ymdrinnir yn briodol ag asedau materol Cymru yn yr adrannau sylfaenol canlynol, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn eu pwnc dynodedig eu hunain:

- Bioamrywiaeth, fflora, ffawna a geoamrywiaeth;
- Ansawdd pridd a thir;
- Treftadaeth ddiwylliannol;
- Tirwedd;
- Mwynau a gwastraff;
- Tai;

²² Llywodraeth Cymru (2021) Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol> [Cyrchwyd: 22.07.24]

- Trafnidiaeth.

4.2.5 Mae'n bwysig nodi bod data sylfaenol, materion a chyfleoedd ar gyfer pob un o'r llinynnau asesu integredig wedi'u coladu a'u cynnwys fel rhan o'r broses hon, ac wedi'u cyflwyno o dan y nodau Llesiant perthnasol.

4.3 Materion a Chyfleoedd Allweddol yn Ymwneud â Chynnaladwyedd

4.3.1 Mae Tabl 5-1 yn cyflwyno'r materion a'r cyfleoedd allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd i Gymru a nodwyd ar draws y saith nod Llesiant ac is-benawdau pwnc IIA sy'n deillio o'r data sylfaenol (Atodiad B). Bydd y rhain yn cael eu mireinio a'u diweddarau ochr yn ochr â CTRh De-orllewin Cymru sy'n dod i'r amlwg pan fydd rhagor o fanylion am gynnwys CTRh De-orllewin yn hysbys.

4.3.2 Gall effeithiau amgylcheddol o gynlluniau trafndiaeth, boed yn fuddiol a/neu'n andwyol, ddeillio o wahanol ffynonellau yn ystod y cyfnod adeiladu, o bresenoldeb y seilwaith, ac o'i weithrediad/defnydd. Yn nodweddiadol, rhennir effeithiau yn ddau brif categori:

- Defnydd: yn codi oherwydd newidiadau mewn traffig (traffig ffyrdd neu reilffordd) megis sŵn, llygredd aer a nwyon tŷ gwydr; a
- Seilwaith: yn deillio o bresenoldeb ffisegol seilwaith trafndiaeth newydd neu well a datblygiadau cysylltiedig, megis effeithiau ar ddefnydd tir, tirwedd, bioamrywiaeth, nwyon tŷ gwydr, llygredd aer, treftadaeth a'r amgylchedd dŵr²³.

²³ Yr Adran Drafndiaeth (2019) Prisiad o Effeithiau Ymyriadau a Lliniaru Trafnidiaeth ar y Dirwedd gan Ddefnyddio Dull Gwasanaethau Ecosystem. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/824186/valuation_of_landscape_impacts_of_transport_interventions.pdf [Cyrchwyd: 22.07.24]

Tabl 4-1: Materion a Chyfleoedd Allweddol yn Ymwneud â Chynladwyedd sy'n codi o adolygu'r Llinell Sylfaen

Nodau llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
<p>1. Cymru lewyrchus</p>	<p>Mae'r economi yng Nghymru yn cyd-fynd yn agos ag economi gweddill y DU. Bu newid tuag at gyflogaeth yn y sector gwasanaeth a dirywiad mewn diwydiant trwm; mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu amrywiol o hyd.</p> <p>Mae gwahaniaethau rhanbarthol mewn anweithgarwch economaidd gyda gostyngiadau yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, tra bod Sir Benfro ac Abertawe wedi gweld cynnydd.</p> <p>Yn 2023, roedd lefelau Cymwysterau yng Nghymru yn is na'r DU yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r ddemograffeg iau yn llawer llai tebygol o weithio gartref na grwpiau oedran hŷn.</p> <p>Rhagwelir y bydd Cymru yn gweld y twf mwyaf mewn prisiau tai o fewn y pum mlynedd nesaf o gymharu â gweddill y DU.</p> <p>Mae natur wledig De-orllewin Cymru yn bennaf yn arwain at ardaloedd trefol cymharol fach, a fyddai fel arall yn cael eu cysylltu'n gryfach ag effeithiau cydgrynhoad, yn dylanwadu ar berfformiad economaidd cymharol wael.</p>	<p>Mae'r CTRh yn rhoi cyfle i'r economi gael ei harwain tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Gall hyn fod drwy hyrwyddo seilwaith teithio cynaliadwy a gwella mynediad i ganolfannau cyflogaeth. Gall hefyd ddarparu fframwaith sy'n fwy ymatebol i anghenion yr economi, ac sy'n gallu cefnogi sectorau newydd sy'n dod i'r amlwg a chefnogi'r broses o drosglwyddo'r rhai presennol drwy greu a gwella rhwydweithiau. At hynny, gall hefyd helpu i arwain y gwaith o greu amgylchedd sy'n ddeniadol i fewnffuddsoddiad ac sy'n annog mynediad cynaliadwy at swyddi. Yn yr un modd, efallai y bydd y CTRh yn hwyluso gwelliannau mewn mynediad i gyfleusterau addysg ac iechyd.</p> <p>Gallai'r CTRh geisio helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi ac anghydraddoldeb drwy fynediad at well addysg, gwell cysylltedd rhwng cymunedau a mynediad at swyddi a'r farchnad swyddi.</p> <p>Gallai'r CTRh hybu'r defnydd o deithio llesol i annog y ddemograffeg hŷn i gymudo i'r gwaith. Yn ogystal, gallai hyn helpu i gynnal y cynnydd mewn cyfraddau anweithgarwch economaidd yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot os yw swyddi'n fwy hygyrch drwy gysylltiadau trafnidiaeth, gan leihau'r cynnydd yn Abertawe a Sir Benfro ar yr un pryd.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
		<p>Mae cyfle i hyrwyddo'r defnydd o deithio llesol i ysgolion cynradd ac uwchradd drwy gynlluniau cerdded i'r ysgol. Gellid addasu ac ehangu hyn i annog oedolion i ddefnyddio dulliau teithio llesol ar gyfer teithio i'r gwaith a hyfforddiant.</p> <p>Mae'r CTRh yn gyfle i wella dulliau trafndiaeth gynaliadwy a chyhoeddus i leoliadau twristiaid, er mwyn hwyluso cynnydd yn niferoedd twristiaeth.</p> <p>Mae cyfle i'r CTRh leihau tagfeydd drwy hybu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy ailddyrrannu gofod ar y ffyrdd a dulliau teithio cynaliadwy integredig.</p>
<p>2. Cymru gydnherth</p>	<p>Ansawdd Aer</p> <p>Mae ansawdd aer yn Ne-orllewin Cymru yn gyffredinol dda iawn, gan adlewyrchu ei natur wledig yn bennaf a'i hamgylchedd naturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae saith Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Ne-orllewin Cymru ac mae targedau'n cael eu torri ar gyfer nifer o lygryddion allweddol sy'n peri risg i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol, felly mae'n rhaid i'r cynllun trafndiaeth ystyried hyn.</p> <p>Mae 90% o gynefinoedd lled-naturiol sy'n sensitif i nitrogen yng Nghymru yn destun dyddodiad nitrogen uwchlaw'r terfynau llwyth critigol.</p>	<p>Mae'r system drafnidiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd aer ar hyn o bryd, a gallai helpu i leihau llygredd o drafnidiaeth effeithio ar gyfle i leihau'r effaith negyddol hon ar ansawdd aer drwy leihau'r pellter a deithir ac annog dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy. Gallai polisïau dylunio a thirlunio cynaliadwy helpu i ddarparu cyfleoedd i amsugno rhai llygryddion.</p> <p>Gallai llwybrau teithio llesol ddiodeff llygredd aer uchel, a allai gwaethygu problemau iechyd.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>Mae amonia yn parhau i fod yn broblem, fel llygrydd aer lleol ac fel cyfrannwr at ffurfio mater gronynnol eilaidd, gan gynnwys ffurfio gronynnau mân iawn (PM2.5), a all gael effaith fwy difrifol ar iechyd pobl ac ecosystemau nag y PM10s mwy.</p> <p>Mae cludiant ar y ffyrdd yn cyfrif am bron i draean o'r holl allyriadau NO2 yn y DU a thrafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd aer yn y DU.</p>	
	<p>Llygredd Sŵn</p>	
	<p>Mae sŵn o reilffyrdd a phriffyrdd yn Ne-orllewin Cymru yn parhau i fod yn uchel. Nid yw'n glir sut y bydd newidiadau i ddulliau trafndiaeth, megis trydaneiddio, yn effeithio ar lygredd sŵn o ffynonellau trafndiaeth.</p>	<p>Gall y CTRh effeithio ar lygredd sŵn drwy sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar yr egwyddor o leihau allyriadau drwy'r newid i weithredu'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy. Gallai polisïau dylunio a thirlunio cynaliadwy helpu i leihau effaith sŵn ac effaith bosibl trafndiaeth ar ardaloedd tawel.</p>
	<p>Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna a Chydnerthedd Ecosystemau</p>	
	<p>Mae gan Dde-orllewin Cymru amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys cynrychiolaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Fodd bynnag, mae cyflwr nodweddion rhywogaethau mewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd yng Nghymru a chyflwr cynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru yn parhau'n anffafriol ar y cyfan. Rhaid i'r cynllun trafndiaeth wneud ei orau i beidio â rhwystro'r cynefinoedd drwy ddarnio cynefinoedd neu effeithiau</p>	<p>Gall y CTRh fod o fudd i fioamrywiaeth a'i gwella drwy arwain y lleoliad a'r modd y mae seilwaith trafndiaeth newydd yn digwydd. Mae'n darparu cyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella drwy'r system drafndiaeth, nid yn unig o ran safleoedd gwarchodedig ond hefyd o ran bioamrywiaeth a chysylltedd yn gyffredinol. Gallai buddion eraill gynnwys rheoli cynefinoedd yn well; strwythurau newydd e.e. gall pontydd a thwneli ddarparu cynefinoedd i rai</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>anuniongyrchol megis dyddodiad nitrogen, marwolaethau bywyd gwyllt neu aflonyddwch sŵn.</p> <p>Mae bioamrywiaeth ddaearol a morol dan fygythiad gan seilwaith trafndiaeth, llygredd a newid yn yr hinsawdd, sydd i gyd yn effeithiau sy'n dod o'r rhwydwaith trafndiaeth.</p> <p>Newidiadau mewn ansawdd cynefinoedd yn deillio o newidiadau i'r gyfundrefn dŵr daear, newidiadau mewn cyfraddau llif naturiol o arwynebau caled yn cynyddu llifogydd dŵr wyneb.</p> <p>Tarfu ar ffawna oherwydd sŵn, goleuadau a dirgryniadau o ganlyniad i draffig a goleuadau ffyrdd.</p> <p>Gall strwythurau ffyrdd achosi problemau i rai adar/mamaliaid drwy leihau gwelededd.</p> <p>Gall y cynefin ymylol neu'r ecotôn a thraffig ar y ffordd hwyluso gwasgariad rhai rhywogaethau. Gall hyn arwain at wasgaru a sefydlu rhywogaethau estron a goresgynnol neu rywogaethau o blâu a allai gael effeithiau eilaidd ar gymunedau biolegol.</p> <p>Gall cynefinoedd cyfagos gael eu rhoi dan bwysau cynyddol gan y cyhoedd, oherwydd mynediad, gan arwain at effeithiau gan gynnwys tarfu ar anifeiliaid, a dinistrio fflora daear yn ffisegol. Hefyd, gall sbwriel gronni ar hyd y ffordd.</p>	<p>rhywogaethau e.e. ystlumod; a chreu cynefinoedd. Mae cyfle i'r CTRh gyflwyno seilwaith gwyrdd ychwanegol fel rhan o gynigion trafndiaeth yn y dyfodol i gefnogi creu lleoedd yn ogystal â bioamrywiaeth, fflora a ffawna. Gallai adennill hen reilffyrdd ar gyfer llwybrau aml-ddefnyddwyr ganiatáu ar gyfer rheoli bywyd gwyllt a rheoli rhywogaethau trech gan ganiatáu ar gyfer amgylchedd mwy bioamrywiol.</p>

Colli cynefinoedd oddi ar y safle a newidiadau yn ansawdd cynefinoedd mewn perthynas â chael a gwaredu deunyddiau e.e. cloddio am agregau ar gyfer adeiladu ffyrdd.

Gall hyd yn oed colli cynefin cymharol fach, darnio ac effeithiau anuniongyrchol prosiect ffordd unigol, o'i ychwanegu at effeithiau eraill prosiectau a gweithgareddau eraill yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol y gellir ei ragweld yn rhesymol, gyfrannu at effeithiau sylweddol mewn ardal. Dylid ystyried pob math perthnasol o brosiectau a gweithgareddau yn y dyfodol (h.y. nid prosiectau ffyrdd eraill yn unig) gan gynnwys datblygiad ysgogedig.

Hinsawdd, Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Mae effeithiau newid hinsawdd yn cynyddu ac mae addasu i'r hinsawdd a'r gallu i wrthsefyll ei effeithiau yn anghenraid cynyddol. Yn nodedig, mae perygl llifogydd yn broblem sylweddol yn Ne-orllewin Cymru gan gynnwys llifogydd arfordirol, afonol a dŵr wyneb a allai effeithio ar seilwaith trafndiaeth. Mae hyn yn cael ei waethygu gan gynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol, ac mae hyn yn golygu bod eiddo a busnesau yn dod yn fwyfwy mewn perygl. Gall aflonyddwch gael effaith anghymesur ar gymunedau sydd â llai o opsiynau trafndiaeth a llai cydnerth.

Mae gan y CTRh ran sylweddol i'w chwarae o ran ymaddasu i newid hinsawdd a chydnerthedd. Mae llifogydd ac erydu arfordirol yn feysydd allweddol lle teimlir effeithiau newid hinsawdd yn lleol, a gellid dylunio'r rhaglenni a nodir yn y CTRh er mwyn helpu i leihau perygl llifogydd. Dylid dylunio seilwaith trafndiaeth i allu gwrthsefyll erydiad ac effeithiau eraill newid hinsawdd, gan gynnwys mwy o stormydd ac eithafion tymheredd.

Dylai'r CTRh ganolbwyntio ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth yn sylweddol, drwy hyrwyddo dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy megis trafndiaeth gyhoeddus

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Dde-orllewin Cymru mewn ffyrdd heblaw llifogydd yn unig, megis tywydd mwy eithafol, cynnydd mewn stormydd, tymheredd uchafswm ac isafswm tymheredd uwch, sychder mwy difrifol a chyfraddau erydu arfordirol gwaeth. Bydd newid hinsawdd hefyd yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau ledled De-orllewin Cymru.</p> <p>Mae problemau fel tyllau yn y ffordd yn cael eu hachosi gan holltau arwyneb oherwydd tywydd cynnes ac mae glaw yn beryglon beunyddiol i ddefnyddwyr y ffyrdd a beicwyr.</p>	<p>a theithio llesol. Gellid gwneud darpariaeth yn y CTRh ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i annog mwy o bobl i ddefnyddio cerbydau trydan.</p> <p>Gallai'r CTRh annog monitro effaith digwyddiadau tywydd ar y seilwaith presennol, y capasiti a'r pwysau ar y rhwydwaith ehangach.</p>
	<p>Daeareg a Phriddoedd</p> <p>Yn y dyfodol, gall peryglon daearegol newid fel ymateb i newid hinsawdd. Er enghraifft, erydiad arfordirol, tirlithriadau a llygredd o hen safleoedd mwyngloddio. Mae hyn yn peri risgiau sylweddol i'r system drafnidiaeth.</p> <p>Mae'r priddoedd o'r ansawdd gorau a'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a chyfyngedig yng Nghymru, ac mae ansawdd y pridd wedi dirywio dros amser ar draws pob cynefin. Mae hyn yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, cymeriad tirwedd, twristiaeth, cynhyrchiant amaethyddol a gwrthsefyll newid hinsawdd. Mae uwchbridd, yn</p>	<p>Mae gan y CTRh gyfle i arwain y defnydd cynaliadwy o ddaeareg a phriddoedd De-orllewin Cymru yn y system drafnidiaeth o ran eu defnydd wrth adeiladu seilwaith trafndiaeth neu ddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen, a chyfrannu at waith adfer parhaus neu dir a phriddoedd. Gellid nodi agweddau fel hyn, yn ogystal â rheoli neu osgoi peryglon daearegol yn yr IIA ar gyfer prosiectau penodol pellach mewn cynlluniau neu brosiectau lefel is, pe na bai'r manylion gofodol perthnasol yn cael eu cynnwys ar lefel uchel y CTRh.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>enwedig priddoedd mawnaidd yng Nghymru, yn ddalfa garbon fawr sydd angen ei warchod. Rhaid ystyried hyn oll wrth gynllunio lleoliad seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol.</p>	
	<p>Amgylchedd Dŵr</p>	
	<p>Nid yw ansawdd cyrff dŵr yng Nghymru yn bodloni gofynion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr o hyd, gyda dim ond 40% yn cyrraedd statws ecolegol da yn 2020. Gall gweithgareddau trafndiaeth gyfrannu'n fawr at ansawdd dŵr gwael.</p> <p>Mewn llawer o afonydd yng Nghymru, mae llifoedd yn arbennig o agored i newid yn yr hinsawdd oherwydd eu bod yn tueddu i godi a gostwng yn gyflym mewn ymateb i law. Gallai llifoedd dŵr wyneb cynyddol yn ystod y gaeaf, o ganlyniad i fwy o wlybaniaeth o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, gynyddu'r pwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio, a gwasgaru llygredd.</p> <p>Er y canfyddir bod Cymru'n gyfoethog o ran dŵr, mae eisoes yn wynebu heriau o ran cyflenwad a gall adnoddau dŵr ddod yn gymharol brin yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych a chynnes.</p> <p>Gall dŵr ffo o ffyrdd a gollyngiadau ar y ffyrdd ac yn ystod y gwaith adeiladu i gyd arwain at lygredd mewn</p>	<p>Gallai'r CTRh helpu i hwyluso datblygiad seilwaith trafndiaeth a llwybrau trafndiaeth newydd mewn modd sy'n ceisio osgoi llygru cyrff dŵr. Gellid nodi agweddau fel hyn yn yr IIA ar gyfer prosiectau penodol pellach mewn cynlluniau neu brosiectau lefel is, pe na bai'r manylion gofodol perthnasol yn cael eu cynnwys ar lefel uchel y CTRh.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>dyfroedd wyneb, dŵr daear ac amgylcheddau morol (o amgylch porthladdoedd).</p> <p>Mwynau a Gwastraff</p> <p>Weithiau, gall diogelu mwynau wrthdaro â mathau eraill o ddatblygiad e.e. seilwaith trafndiaeth.</p> <p>Gall fod gofynion materol uchel ar gyfer adeiladu seilwaith trafndiaeth gan roi rhagor o straen ar yr adnoddau cyfyngedig.</p>	<p>Gallai'r CTRh o bosibl helpu i arwain y defnydd cynaliadwy o adnoddau o'r fath drwy ei bolisïau. Gellid nodi agweddau fel hyn yn yr IIA ar gyfer prosiectau penodol pellach mewn cynlluniau neu brosiectau lefel is, pe na bai'r manylion gofodol perthnasol yn cael eu cynnwys ar lefel uchel y CTRh.</p>
<p>3. Cymru Iachach a Chymru sy'n Fwy Cyfartal</p>	<p>Mae ystadegau iechyd cyffredinol Cymru yn gwella, gyda disgwyliad oes yn cynyddu a llai o bobl ag iechyd gwael yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw buddion iechyd wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws De-orllewin Cymru ac yn arbennig mae mynediad at wasanaethau yn amrywiol, gan ei fod yn dda mewn ardaloedd mwy trefol ond yn gymharol wael ar draws llawer o ardaloedd gwledig.</p> <p>Ffactorau sy'n benodol i amgylchedd gwledig o gymharu ag amgylcheddau trefol a all effeithio'n fwy sylweddol ar iechyd, ac arwain at anghydraddoldebau ac iechyd gwaeth, megis pellter oddi wrth wasanaethau cyhoeddus a chymorth, y drafnidiaeth sydd ar gael, a'r boblogaeth sy'n heneiddio. Gall mynediad i ofal iechyd fod yn gyfyngedig mewn sawl rhan o dde-orllewin Cymru wledig. Mae trafndiaeth</p>	<p>Gallai'r CTRh gydnabod y potensial ar gyfer mannau gwyrdd naturiol fel mannau ar gyfer iechyd a hamdden, cysylltu cynefinoedd a chefnogi rhyngweithio cymunedol. Gallai gwella mynediad i fannau gwyrdd ac agored, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, annog ffyrdd iachach o fyw yn fawr a gallai poblogaeth iachach alluogi pobl (gan gynnwys plant) i gyflawni eu potensial a gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.</p> <p>Mae diogelu a gwella seilwaith gwyrdd ledled Cymru yn gyfle i wella mynediad pobl i fannau gwyrdd ac agored. Mae mynediad i ystod amrywiol o gynefinoedd lled-naturiol a naturiol, yn ogystal â darparu gofod ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored ac ymgysylltu â'r gymuned, yn hanfodol i lesiant corfforol a meddyliol.</p> <p>Mae gan y CTRh gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at sicrhau bod iechyd dynol yn cael ei ddarparu drwy wella</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>gyhoeddus yn bwysig i gynaliadwyedd ac annibyniaeth cymunedau gwledig.</p> <p>Tra bod pobl yn byw'n hirach a chyfraddau rhai clefydau yn gostwng, gall heriau fel amgylchedd byw a ffyrdd modern o fyw gyfrannu at lefelau cynyddol o glefydau cronig fel diabetes, problemau gyda'r cymalau, clefyd y galon a rhai canserau, a all yn eu tro arwain at anabledd a galw cynyddol ar wasanaethau iechyd. Yn ogystal, gall iechyd meddwl gwael hefyd fod yn ffactor sylfaenol mewn nifer o afiechydon corfforol a ffyrdd afiach o fyw. Gall ansawdd aer gwael, llygredd sŵn a golau yn ogystal â damweiniau ar y ffordd gael effaith uniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth.</p> <p>Gallai lefelau cynyddol y rhai sy'n 65 oed a hŷn gyflwyno pwysau ar draws De-orllewin Cymru (yn dibynnu a yw disgwyliad oes iach h.y. nifer y blynyddoedd y byddwch yn byw bywyd iach, yn parhau i olrhain disgwyliad oes cyffredinol) e.e. darparu gwasanaethau priodol ar gyfer cenhedlaeth hŷn (e.e. trafniadaeth).</p> <p>Mae materion sy'n ymwneud â phobl ifanc yn ymwneud â'u pontio o ddibyniaeth i annibyniaeth, gan fod trafniadaeth yn chwarae rhan bwysig ar 'bwyntiau</p>	<p>mynediad at gyfleusterau iechyd, canolbwyntio ar leihau allyriadau llygredd aer, diogelwch ar y ffyrdd ac annog teithio llesol er mwyn gwella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldebau. (Dylid nodi bod llawer o deithio llesol yn digwydd yng nghyd-destun cadwyno teithiau – unrhyw deithio rhwng dwy angor sy'n uniongyrchol neu ag oedi o 30 munud neu lai yn y cyfamser).</p> <p>Yn gyffredinol, gall y CTRh helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r boblogaeth sy'n heneiddio, drwy hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau trafniadaeth hygyrch wedi'u hategu gan seilwaith cysylltiol i ddiwallu anghenion twf y boblogaeth leol ac anghenion grwpiau unigol.</p> <p>Gall Cymru gyfartal alluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Gallai'r CTRh roi cyfle i leihau arwahanrwydd ac annog datblygiad cymunedau integredig y gellir byw ynddynt drwy ddarparu trafniadaeth gyhoeddus gynhwysol i ganiatáu i bawb gael yr un lefel o fynediad.</p> <p>Dylai'r system drafnidiaeth sicrhau bod pob grŵp yn gallu cael mynediad cyfartal i drafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith trafniadaeth heb ofn na rhagfarn.</p> <p>Gellir lleihau anghydraddoldeb drwy gynyddu mynediad i'r mwyaf difreintiedig yn fwy na'r lleiaf difreintiedig, neu gynyddu mynediad i'r mwyaf difreintiedig a chadw'r lleiaf</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>sbardun' penodol megis symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a symud o addysg i gyflogaeth.</p> <p>Mae anghydraddoldebau iechyd yn adlewyrchu anghydraddoldebau yn nosbarthiad penderfnyddion iechyd, megis mynediad at gludiant, addysg a chyfleoedd cyflogaeth.</p> <p>Gall anabledau a/neu namau symudedd fod yn rhwystrau corfforol a meddyliol i ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth ar draws pob dull teithio.</p> <p>Mae risg uchel o anafiadau ar y ffyrdd i bobl iau o hyd ac mae'n rhaid i'r CTRh fynd i'r afael â hyn.</p> <p>Mae gwahaniaeth mawr o hyd rhwng nifer y trwyddedau gyrru y mae menywod a dynion yn berchen arnynt, gyda menywod yn cael llawer llai.</p> <p>Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i fenywod gael yr un mynediad i gyfleusterau ac amwynderau â dynion.</p> <p>Mae lefelau llygredd sŵn o amgylch ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd dynol.</p>	<p>difreintiedig yn gyson. Byddai unrhyw ffurf arall yn golygu lleihau mynediad i'r naill grŵp neu'r llall neu'r ddau, felly ni ddylai fod yn nod y CTRh.</p> <p>Gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd hefyd drwy bolisïau a seilwaith i hybu teithio llesol, a thrwy hynny gynyddu gweithgarwch corfforol, lleihau llygredd a sŵn. Dylai mesurau teithio llesol ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd er mwyn lleihau anghydraddoldebau.</p>
<p>4. Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<p>Mae prisiau tocynnau bws yn codi ar gyfradd sy'n uwch na chwyddiant, a gallai hyn eithrio rhai pobl neu gymunedau o'r math hwn o drafnidiaeth oherwydd rhwystr pris. Yn 2020, dangosodd mynegeion prisiau</p>	<p>Gallai'r CTRh gefnogi creu cysylltiadau rhwng ac o fewn cymunedau diogel sydd wedi'u cynnal yn dda drwy gyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol, gan gynnwys llwybrau troed a beiciau.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>gwasanaethau bysiau lleol ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr fod cynnydd o 3.5% yng Nghymru a chynnydd o 2.6% ym Mhrydain Fawr, y ddau yn uwch na'r gyfradd chwyddiant o 2.3%²⁴.</p> <p>Bu tuedd hirdymor ar i lawr yn nifer y damweiniau yn rhai lle cafodd person ei ladd neu ei anfu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru²⁵. Mae nifer y damweiniau angheuol wedi bod yn weddol sefydlog dros y naw mlynedd diwethaf hyd at 2019 ar ôl gostwng yn sylweddol dros y degawdau blaenorol. Er gwaethaf hyn, dylid gwneud mwy o ymdrech i wella diogelwch gyrwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill cymaint â phosibl.</p> <p>Mae lefelau llygredd sŵn o amgylch ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd dynol.</p> <p>Gall arwahanrwydd ac unigrwydd gwledig arwain at broblemau iechyd meddwl. Gall hyn gael ei achosi gan system drafnidiaeth lai hygyrch sy'n lleihau mynediad at gymunedau a gwasanaethau lleol, ond hefyd gall ceir sy'n teithio drwy gymunedau wahanu</p>	<p>Gallai'r CTRh hefyd gynllunio ar gyfer lleihau'r angen i deithio; a darparu cyfleoedd i gael mynediad at ddatblygiadau a gwasanaethau newydd a phresennol drwy amrywiaeth o ddulliau teithio cynaliadwy a/neu welliannau i gysylltedd digidol. Drwy leihau nifer y teithiau unigol mewn car, gellid lleihau'r risg i ddefnyddwyr difodur a lleihau'r broblem o arwahanrwydd.</p> <p>Gallai'r CTRh ystyried cynigion trafndiaeth strategol o ran y cyfleoedd y maent yn eu cyflwyno i annog cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â gwella iechyd dynol, tirwedd a gwarchod natur o leihau llygredd sŵn a golau. Gall cynlluniau trafndiaeth wella diogelwch ar y ffyrdd, a all wella diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig ar y ffyrdd. Gellir lleddfu'r straen sydd ar yrwyr hefyd drwy gyflwyno cynlluniau trafndiaeth.</p> <p>Gallai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol geisio mynd i'r afael â'r lefelau bodlonrwydd presennol ag amllder a dibynadwyedd gwasanaethau bysiau a threnau yng Nghymru i hyrwyddo cymunedau hyfyw a chysylltiadau da.</p> <p>Gallai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol geisio annog gwelliant parhaus yng nghyflwr y rheilffyrdd yng Nghymru.</p>

²⁴ Llywodraeth Cymru (2021) Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebriill-2019-i-mawrth-2020-html> [Cyrchwyd: 30.08.24]

²⁵ Llywodraeth Cymru (2021) Datganiad Ystadegol Cyntaf. Damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu, 2020 Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-06/police-recorded-road-accidents-2020-952.pdf> [Cyrchwyd: 30.08.24]

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>cymunedau ac atgyfnerthu arwahanrwydd. Mae canran y bobl o fewn pellter cerdded i ddulliau teithio cynaliadwy yn llawer uwch mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig.</p> <p>Efallai na fydd pobl mewn cymunedau difreintiedig yn gallu fforddio beiciau ac efallai na fydd ganddynt fynediad i ardaloedd storio beiciau, gan gyfyngu ar eu cyfleoedd teithio llesol.</p> <p>Pan fydd pobl yn teithio, dylent allu gwneud hynny heb ofn na bygythiad troseddau.</p> <p>Mae cyllid teithio llesol ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer aneddiadau sydd â phoblogaeth o fwy na 2,000 o breswylwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad seilwaith teithio llesol newydd mewn aneddiadau llai.</p>	<p>Yn ogystal, er mwyn hyrwyddo cynhwysiant, diogelwch a hygyrchedd, gallai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gefnogi'r ddarpariaeth ehangach o fynediad heb risiau mewn gorsafoedd rheilffyrdd yng Nghymru. At hynny, mae data gan Trafnidiaeth Cymru yn awgrymu y gellid gwella gwasanaethau cymorth i gynyddu hygyrchedd annibynnol.</p>
<p>5. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Y Gymraeg</p> <p>Bu tuedd ar i fyny ers y 1990au yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan nodi amrywiadau rhanbarthol mawr; mae cyfleoedd i gynyddu lefelau rhuglder.</p> <p>Mewn rhai achosion, mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, er enghraifft gan nad yw staff gwasanaethau cwsmeriaid yn siarad Gymraeg.</p>	<p>Mae gan y CTRh gyfle i warchod a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r system drafnidiaeth, drwy annog ei defnydd wrth gyfeirio a gweithwyr mewn gorsafoedd bysiau a threnau.</p> <p>Gallai'r CTRh geisio sicrhau bod mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Gymraeg yn cael ei dargedu'n benodol fel rhan o'r nod hwn, i gefnogi'r strategaeth sy'n ceisio ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
		<p>Gallai'r CTRh hefyd geisio cefnogi'r nod o gynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.</p> <p>Gallai'r CTRh hefyd geisio 'cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith' drwy ei bolisïau, gan helpu i gefnogi'r nod o 'Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu ac i gefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.' O fewn y CTRh bydd cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei defnydd mewn cyhoeddiadau gorsafoedd, arwyddion ffyrdd ac arwyddion o fewn gorsafoedd trenau a bysiau.</p>
	<p>Cymeriad Tirwedd a Threflun</p> <p>Mae Cymru'n enwog am ei thirweddau o ansawdd uchel gyda thros 50% o'r arwynebedd tir yn cael ei werthfawrogi'n genedlaethol am ei ansawdd a'i gymeriad golygfaol. Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol yn Dirweddau Dynodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn gorchuddio 25% o Gymru. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer seilwaith trafndiaeth newydd yn yr ardaloedd hyn, a her allweddol ar gyfer rheoli cynaliadwy yw galluogi lefelau priodol o dwf gan gadw hynodrydd lleoedd a thirweddau. Rhaid i hyn hefyd gydnabod</p>	<p>Mae gan y system drafnidiaeth ran fawr i'w chwarae yn y modd y bydd datblygu seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol yn effeithio ar y dirwedd, y treflun ac ymdeimlad o le yn gyffredinol.</p> <p>Mae cyfle i wella mynediad i dirweddau, trefluniau a golygfannau gwerthfawr, gan gynnwys drwy ddulliau teithio cynaliadwy a llesol i leihau effaith traffig moduron.</p> <p>Mae gan y CTRh gyfle i ddarparu cysylltiadau trafndiaeth o ansawdd uchel i Barciau Cenedlaethol ar gyfer twristiaid/ymwelwyr a defnyddwyr hamdden lleol.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>bod cydrannau naturiol a hanesyddol tirwedd yn bwysig i leoedd ac i werth diwylliannol y dirwedd.</p> <p>Gallai colli amwynder gweledol a chymeriad gael effaith ar bobl leol a thwristiaid.</p> <p>Gall traffig moduron, parcio ac effeithiau cysylltiedig ddifetha cymeriad tirweddau a threflun.</p>	<p>Mae cyfle i ymgorffori goleuadau nad ydynt yn amharu ar awyr dywyll mewn datblygiadau newydd i gefnogi'r dynodiadau awyr dywyll ac ymdrechion i'w cynnal, ochr yn ochr â thwristiaeth awyr dywyll.</p>
Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau		
	<p>Mae gan Gymru gyfoeth o asedau hanesyddol a diwylliannol sy'n gydrannau pwysig o hunaniaeth ddiwylliannol genedlaethol. Mae llawer o asedau o'r fath mewn perygl o ddirywiad, ffactorau hinsoddol, esgeulustod a datblygiad amhriodol, er enghraifft. Yn yr un modd â ffactorau amgylcheddol eraill, mae diogelu a darparu mynediad teg i asedau treftadaeth ddiwylliannol yn her allweddol ar gyfer cynllunio'r system drafnidiaeth yn gynaliadwy.</p> <p>Gall datblygiad newydd gael ystod o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y mae angen eu hosgoi neu eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys effeithiau sŵn a llygredd aer o adeiladu llwybrau traffig prysur yn agos at ardaloedd diwylliannol arwyddocaol a allai eu gwneud yn llai deniadol i ymweld â nhw neu leihau eu hamwynder gweledol (effeithiau anuniongyrchol). Mae hefyd yn cynnwys cael gwared ar asedau treftadaeth yn</p>	<p>Yn yr un modd â thirwedd, mae gan y CTRh ran fawr i'w chwarae o ran diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol drwy roi arweiniad i'r system drafnidiaeth. Gallai hyn gynnwys cydnabod bod asedau treftadaeth heb eu dynodi hefyd yn rhan bwysig o gyfansoddiad hunaniaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o le, a bod effeithiau anuniongyrchol ar leoliad asedau hefyd yn ystyriaethau pwysig.</p> <p>Mae cyfleoedd hefyd i'r CTRh hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac annog gwella mynediad i ganolfannau addysg ddiwylliannol.</p> <p>Gallai'r CTRh geisio nodi a diogelu seilwaith trafndiaeth a allai fod o werth treftadaeth ynddo'i hun.</p> <p>Mae gan y CTRh y cyfle i gyfrannu at reoli'r system drafnidiaeth yn effeithlon yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon, hamdden ac adloniant, a digwyddiadau diwylliannol.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>ffisegol oherwydd efallai y bydd angen hyn ar gyfer datblygu seilwaith teithio newydd. Gall effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gynnwys dwysau traffig presennol neu adeiladu ffordd neu reilffordd newydd. Gall lefelau cynyddol o dagfeydd effeithio ar drefi hanesyddol, dinasoedd a chefn gwlad, tra gall datblygu seilwaith trafndiaeth newydd effeithio ar dirweddau hanesyddol a gall achosi difrod uniongyrchol i asedau treftadaeth.</p>	
<p>6. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<p>Ers 2012, mae cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector trafndiaeth ddomestig Cymru wedi bod yn gymharol sefydlog dros amser. Mae'r lefel yn 2021 yn is na'r lefel cyn pandemig COVID-19, sy'n dilyn y duedd hirdymor o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector trafndiaeth ddomestig. Yn 2019, petrolewm sy'n dominyddu'r defnydd o drafnidiaeth gan danwydd, tra bod bio-ynni a gwastraff ond yn cyfrif am 4% o'r cyfanswm.</p> <p>Yn 2021 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cynyddodd Cymru ei chyfran cynhyrchu trydan o ganlyniad i gynhyrchu mwy o danwydd ffosil, yn enwedig nwy. Er bod y pedair gwlad wedi gweld gostyngiad yn eu cyfrannau o gynhyrchu adnewyddadwy, cofnododd Cymru a Lloegr eu cyfrannau uchaf ond un rhwng 2017 a 2021.</p>	<p>Mae gan y CTRh gyfle i helpu hyrwyddo tanwyddau carbon isel, ynni adnewyddadwy a safonau gwell o ran effeithlonrwydd ynni yn y seilwaith trafndiaeth.</p> <p>Gan mai dim ond 3.7% o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru sydd wedi'i drydaneiddio, ym mis Mawrth 2022, a bod y sector trafndiaeth yng Nghymru'n dibynnu'n fawr ar betroliwm fel ffynhonnell tanwydd, dylai'r CTRh annog newid cadarnhaol a fyddai'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â hynny.</p> <p>Dylai'r Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol gefnogi'r cynnydd mewn pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd.</p> <p>Dylai'r CTRh anelu at leihau twf traffig moduron.</p> <p>Dylai'r CTRh ystyried sut y gellir gwella ansawdd trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig.</p>

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
	<p>Yr her o hyd yw sicrhau bod y duedd gadarnhaol o ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth ddomestig yn parhau ac yn cyflymu. Mae'r newid graddol mewn cynhyrchu ynni i danwydd adnewyddadwy a glanach ynghyd â gwelliannau technolegol ac effeithlonrwydd yn faterion allweddol.</p> <p>Mae gan Gymru ôl troed ecolegol yr amcangyfrifir ei fod tua 1.2-1.8 gwaith y cyfartaledd byd-eang. Mae ôl troed ecolegol yn ddangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Dylai datblygiadau trafndiaeth geisio lliniaru hyn tra hefyd yn darparu ar gyfer datblygiad newydd a thwf economaidd.</p> <p>Rhaid cymryd camau i wella diogelwch cerddwyr a beicwyr ar y ffordd, er mwyn eu hyrwyddo fel dulliau teithio hyfyw.</p> <p>Mater allweddol i fynd i'r afael ag ef o fewn y CTRh fydd ymateb yn effeithiol i angen gwledig, yn enwedig o ran trafndiaeth gyhoeddus, gyda golwg ar helpu i leihau'r defnydd o gerbydau preifat.</p> <p>Nodir yn Yr Achos dros Newid ar gyfer Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru mai her allweddol yw sicrhau gwerth i'r gymuned sy'n gysylltiedig â symud nwyddau.</p>	<p>Dylai'r CTRh fynd i'r afael â'r tensiwn rhwng gofynion amwynder lleol a busnes sy'n gysylltiedig â symud HGVs sy'n cludo nwyddau. Yn unol â'r Achos dros Newid, 'bydd angen i newid ddod ar ffurf llwybro effeithiol, cyfleusterau addas ar gyfer parcio HGV a chloi mewn ffyrdd o ddatgarboneiddio defnydd HGV'.</p> <p>Rhaid i'r CTRh hyrwyddo dulliau trafndiaeth cynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol a Cherbydau Allyriadau Isel lawn (ULEVs) a Cherbydau Di-allyriadau (ZEVs)).</p> <p>Gallai'r CTRh helpu i gefnogi busnesau drwy hyrwyddo cynlluniau teithio gwaith a llenyddiaeth ar gyfer opsiynau teithio cynaliadwy.</p> <p>Mae'r CTRh yn gyfle i roi'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gyntaf, drwy leihau'r angen i deithio'n anghynaliadwy: <ul style="list-style-type: none"> ○ dod â gwasanaethau'n agosach at bobl, cynllunio integredig (cymunedau wedi'u hadeiladu o amgylch canolbwyntiau trafndiaeth) ○ TGCh, gweithio hyblyg, gweithio gartref • Yn ail, drwy ehangu a hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy: <ul style="list-style-type: none"> ○ integreiddio, newid dulliau teithio. • Yn drydydd, drwy wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith trafndiaeth presennol:

Nodau Llesiant	Crynodeb o'r Materion Allweddol	Cyfleoedd i CTRh De-orllewin Cymru fynd i'r afael â nhw
		<ul style="list-style-type: none"> ○ rheoli galw, cyfleusterau, capasiti, gwelliannau seilwaith wedi'u targedu

5 Proses Arfarnu a'r Fframwaith IIA

5.1 Gweithredu Asesiadau Effaith

5.1.1 Mae ein dull integredig o asesu effaith CTRh De-orllewin Cymru yn dod ag asesiadau allweddol at ei gilydd mewn un fframwaith arfarnu. Mae'r dull hwn yn eu galluogi i gael eu hintegreiddio'n effeithiol. Mae Tabl 5-3 yn dangos sut mae gofynion yr asesiadau effaith wedi'u cynnwys yn y Fframwaith IIA i'w ddefnyddio i arfarnu CTRh De-orllewin Cymru.

5.1.2 Mae canllawiau ar yr asesiadau effaith, pan fyddant ar gael, yn nodi'r dulliau i'w dilyn ar gyfer pob un o'r asesiadau effaith; yn fras maent yn cynnwys y camau canlynol:

- Sgrinio/cwmpasu.
- Asesiad – nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol a chyfleoedd ar gyfer hybu gan gynnwys cydraddoldeb, iechyd a'r Gymraeg.
- Adrodd ac argymhellion – sicrhau tryloywder y broses a ddefnyddiwyd a nodi manylion y penderfyniadau a wnaed, gan gynnwys pa fesurau osgoi a lliniaru a gynigir.
- Adolygu, monitro a gwerthuso.

Cwmpas Daearyddol yr IIA

5.1.3 Bydd cwmpas daearyddol yr IIA yn cael ei lywio gan gwmpas daearyddol CTRh De-orllewin Cymru, h.y. rhanbarth De-orllewin Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro). Mae effeithiau daearol a morol (hyd at y marc distyll cymedrol) yn bosibl a bydd angen eu hystyried.

Cwmpas Amser yr IIA

5.1.4 Bwriad CTRh De-orllewin Cymru yw gosod cynllun pum mlynedd ar gyfer cyflawni, o fewn cwmpas a fframwaith SDC 20 mlynedd. Bydd yr amserlen hon yn cael ei hadlewyrchu yn yr IIA. Os yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau cynaliadwyedd yn sgil CTRh De-orllewin Cymru a fyddai'n para'n hirach na hyn, byddai'r rhain hefyd yn cael eu hystyried.

Fframwaith yr Asesiad Effaith Integredig

5.1.5 Er mwyn profi perfformiad CTRh De-orllewin Cymru, mae'r adroddiad hwn yn sefydlu Fframwaith IIA sy'n cynnwys 13 o Amcanion IIA (sy'n cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cael ei werthuso yn erbyn pob Amcan IIA yn unigol ac yn gyfannol. Mae

meysydd pwnc wedi'u grwpio ar sail barn broffesiynol er eglurder, ond yn ymarferol, bydd yr asesiad yn cwmpasu'r cydberthnasau rhwng pob un o'r amcanion a chwestiynau arweiniol, lle bo'n berthnasol i'r asesiad.

5.1.6 Er mwyn helpu i fesur perfformiad cydrannau CTRh De-orllewin Cymru yn erbyn Amcanion yr IIA, ategir y rhain gan gyfres o gwestiynau. Mae data sylfaenol ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol wedi'i goladu (gweler Atodiad B), gan fod hyn yn darparu ffordd o bennu perfformiad ledled Cymru ar hyn o bryd, a mesur faint o ymyrraeth neu faint o waith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau cyfeiriad cadarnhaol i gyflawni datblygu mwy cynaliadwy.

5.1.7 Mae Amcanion yr IIA ar wahân i amcanion llesiant ehangach y Llywodraeth, er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt yn unol â Thabl 5-1.

Tabl 5-1: Egluro'r amcanion

Amcanion	Diben
Uchelgeisiau'r WTS	Dylai'r IWBA fynd i'r afael â'r pedwar cwestiwn allweddol yn seiliedig ar bedwar uchelgais Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
Amcanion Arfarnu IIA	Fe'i defnyddir i brofi perfformiad CTRh De-orllewin Cymru er mwyn galluogi i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gael ei ystyried yn llawn.
Pennu amcanion llesiant Llywodraeth Cymru	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 er mwyn helpu i gyflawni ein rhaglen lywodraethu a chynyddu ein cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol a rennir.

Datblygu Amcanion yr IIA

5.1.8 Mae Tabl 5-2 yn cyflwyno'r Amcanion IIA arfaethedig a'r cwestiynau a fydd yn cael eu defnyddio. Nodir y nodau llesiant cyfatebol yn y tabl. Datblygwyd yr Amcanion IIA gan ddefnyddio'r canlynol:

- Adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru;
- Adolygu gwybodaeth sylfaenol, materion a chyfleoedd;
- Mewnbwn o'r llinynnau arfarnu eraill a nodir yn Adran 1 yr adroddiad hwn, yn benodol: Iechyd, Cydraddoldeb a'r Gymraeg;
- Profiad o ddatblygu Amcanion SA/SEA/ISA/IIA eraill yng Nghymru a thu hwnt;
- Y ddealltwriaeth y gellid ychwanegu at y Fframwaith IIA a'i addasu ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid.

- 5.1.9 I grynhoi, nododd yr adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion yn Atodiad A ystod o themâu allweddol (gweler Tabl 3-2). Fel man cychwyn, cynlluniwyd Amcanion yr IIA i adlewyrchu'r themâu allweddol hyn. Yn dilyn adolygiad o ddata amgylcheddol sylfaenol yn Atodiad B lle nodwyd materion cynaliadwyedd allweddol (gweler Tabl 4-1), mireiniwyd Amcanion yr IIA er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi cyfrif am y materion cynaliadwyedd allweddol hyn h.y., er mwyn sicrhau y byddai cyflawni Amcanion yr IIA yn helpu mynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd allweddol yn Ne-orllewin Cymru.
- 5.1.10 Er enghraifft, nododd yr adolygiad yn Atodiad A thema allweddol o'r angen i leihau llygredd aer a sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer. Nododd yr adolygiad o ddata amgylcheddol sylfaenol yn Atodiad B broblem cynaliadwyedd allweddol, sef mynd y tu hwnt i derfynau llygredd aer mewn ardaloedd amrywiol yn Ne-orllewin Cymru. Felly, cynlluniwyd Amcan IIA 8 (gweler Tabl 5-2), sef '*Annog diogelu a gwella ansawdd aer*', i adlewyrchu'r thema allweddol a'r mater allweddol ansawdd aer. Felly bydd asesiadau IIA ac argymhellion ar gyfer Amcan 8 IIA yn fodd o sicrhau bod thema allweddol llygredd aer, a mater allweddol gwella ansawdd aer, yn cael eu hintegreiddio i CTRh De-orllewin Cymru.
- 5.1.11 Mae'r cwestiynau cynorthwyo penderfyniadau a ddefnyddir i arwain yr asesiad yn erbyn pob Amcan yn seiliedig ar brofiad arbenigol asesu effaith integredig ac arferion gorau. Nid yw'r Amcanion IIA wedi'u cynllunio i fod yn nodau CTRh De-orllewin Cymru. Ni fydd pob cwestiwn canllaw yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r asesiad ym mhob cam; bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei asesu a'i berthnasedd ar y cam hwnnw. Bydd y broses asesu yn dryloyw ac yn glir o ran sut y caiff y cynllun ei ddatblygu a bydd yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.
- 5.1.12 Mae'r Amcanion IIA hefyd wedi'u hasesu ar gyfer eu cydweddoldeb mewnol ac mae matrices cydweddoldeb wedi'i gynnwys yn Atodiad C. Diben yr ymarfer hwn yw amlygu unrhyw botensial am anghysondeb yn gynnar er mwyn cydbwysu unrhyw faterion posibl o fewn y Fframwaith. Mae'r matrices yn dangos bod y cydberthnasau rhwng Amcanion yr IIA yn niwtral yn bennaf h.y. dim effaith glir neu'n anghyson. Mae rhai elfennau ansicr hefyd wedi'u nodi; nodir y rhain yn fanylach yn Atodiad C.
- 5.1.13 Mae Amcanion IIA yn aml yn debygol o gael rhywfaint o wrthdaro neu ansicrwydd wrth weithredu cynlluniau penodol. Mae'r broses arfarnu o reidrwydd yn ceisio nodi'r cyfaddawdau rhwng unrhyw wrthdaro ac ansicrwydd o'r fath.
- 5.1.14 Nid yw Amcanion IIA mewn unrhyw drefn benodol ac nid yw eu safle a'u rhif yn y Fframwaith IIA yn arwydd o drefn pwysigrwydd neu ffafriaeth. Bydd CTRh De-orllewin Cymru yn cael ei asesu yn erbyn yr holl Amcanion IIA i'r un lefel o fanylder.

Tabl 5-2: Cwestiynau ac Amcanion yr IIA

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
<p>A yw CTRh De-orllewin Cymru yn dda i bobl a chymunedau?</p>	<p>1. Cyfrannu at welliant mewn iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru</p>	<p>Cydraddoldeb – sut y bydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ffisegol, cymdeithasol, economaidd a rhwystrau eraill i gael mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell/gwledig? • Cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys yn benodol y rhai â nam symudedd, plant a phobl hŷn? • Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw trwy fentrau cynllunio trafnidiaeth a hyrwyddo teithio llesol? • Lleihau effaith seilwaith trafnidiaeth ar gyfyngu ar gysylltedd o fewn cymunedau drwy wahanu? • Gwella hyder defnyddwyr dulliau trafnidiaeth cynaliadwy? <p>Iechyd a llesiant – sut y bydd yn gwella lefelau gweithgarwch a gwella ansawdd aer? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau straen ar yrwyr a'r straen posibl a achosir i ddefnyddwyr eraill ar y ffyrdd? 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru gydnerth</p> <p>Cymru iachach</p> <p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<p>HIA</p> <p>EqIA</p>	<p>Poblogaeth</p> <p>Iechyd Pobl</p> <p>Aer</p>

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<ul style="list-style-type: none"> Lleihau effeithiau trafndiaeth ar iechyd, gan gynnwys effeithiau ansawdd aer a sŵn, megis iechyd anadlol a chardiofasgwlaidd a straen? Cyfrannu at wella mynediad i fannau agored, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae a mynediad i Barciau Cenedlaethol drwy drafndiaeth rhad a hygyrch? Sicrhau bod plant yn gallu datblygu'n iach, a chael mynediad at ofal iechyd o ansawdd da? <p>Sut y bydd yn gwella diogelwch a hyder? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfrannu at leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol? Lleihau perygl traffig ffyrdd, yn enwedig i grwpiau agored i niwed a grwpiau â blaenoriaeth? 			
	2. Creu'r amodau ar gyfer cyflawni gwelliant mewn cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb	<p>Cydraddoldeb – sut y bydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ffisegol, cymdeithasol, economaidd a rhwystrau eraill i gael mynediad at drafndiaeth gynaliadwy? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella hygyrchedd ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus, fel bod mynediad yn deg? Gwella diogelwch, cyfleustra a hygyrchedd llwybrau cerdded, beicio a llwybrau i ddefnyddwyr gwahanol fel bod cerdded, beicio a llwybrau i ddefnyddwyr gwahanol yn cael eu 	Cymru o gymunedau cydlynus Cymru lewyrchus Cymru iachach	HIA EqIA WLIA	Poblogaeth Iechyd Pobl

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<p>hystyried yn ddewisiadau realistig, diogel a deniadol i bobl o bob oed, cefndir a gallu?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu'r amodau ar gyfer lleihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau? • Creu'r amodau ar gyfer lleihau anghydraddoldeb rhwng oedrannau? • Creu'r amodau ar gyfer gwella anghydraddoldebau ar sail anabledd, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd? • Annog a chefnogi cynnydd mewn lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg ar gyfer pob aelod o gymdeithas drwy wella hygyrchedd? • Cefnogi'r trydydd sector a darparwyr trafndiaeth gymunedol ac adnabod cyfleoedd ar gyfer twf er mwyn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau trefol, gwledig a lled wledig? <p>Sut y bydd yn gwella diogelwch a hyder? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu amodau i leihau lefelau trosedd ac ofn troseddau? • Creu'r amodau ar gyfer gwella boddhad pobl â'u cymdogaethau fel lle i fyw? • Creu'r amodau ar gyfer gwella cydraddoldebau neu amgylchiadau? 			

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau teithio diogel i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden? 			
A yw CTRh De-orllewin Cymru yn dda i leoedd a'r economi?	3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy	<p>Sut y bydd o fudd i leoedd, ardaloedd gwledig ac yn darparu swyddi da? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> Cefnogi mynediad teg i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant? Annog mynediad cynaliadwy i gyfleusterau ac atyniadau twristiaeth? Gwella cysylltedd band eang i gefnogi gweithio o bell? Cefnogi gwelliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig drwy annog buddsoddiadau newydd? Cefnogi ac annog gweithgareddau trydydd sector, gan gynnwys trafndiaeth gymunedol? Cefnogi lleihau'r angen i deithio i'r gwaith? <p>Pa arloesi trafndiaeth gynaliadwy y bydd yn ei gyflawni? Sut y caiff nwyddau eu dosbarthu'n fwy cynaliadwy? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> Annog hyrwyddo cysylltiadau trafndiaeth rhyngwladol gwell a chadarn, gan gynnwys ar yr awyr, ar y môr, ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd? 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	HIA EqIA	Poblogaeth Iechyd Pobl

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi cludo nwyddau a gwella dibynadwyedd a gwytnwch y rhwydweithiau cludo nwyddau ar y ffyrdd, y rheilffyrdd ac yn yr awyr <p>Effaith ar fforddiadwyedd ac anfantais economaidd-gymdeithasol. A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi adfywio ardaloedd sy'n tanberfformio? • Annog mewnfuddsoddiad a mynediad at gyfleoedd swyddi newydd? • Annog cynhyrchiant gwell drwy gysylltedd gwell? • Helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol? 			
A yw CTRh De-orllewin Cymru yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg?	4. Gwarchod a hyrwyddo diwylliant Cymru a gwella mynediad i fannau diwylliannol a hamdden	<p>Sut y bydd yn gwella mynediad at y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon drwy drafnidiaeth gynaliadwy? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo mynediad cynaliadwy a chadarn i asedau a gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth Cymru? • Annog gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol, manau hamdden a'u lleoliad? • Cyfrannu at reoli'r system drafnidiaeth yn effeithlon yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon, 	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	WLIA	Poblogaeth lechyd Pobl

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<p>hamdden ac adloniant, a digwyddiadau diwylliannol?</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfrannu at reoli teithio mewn ardaloedd twristiaeth yn effeithlon yn ystod cyfnodau prysur? 			
	5. Annog gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg	<p>Sut y bydd yn effeithio ar y Gymraeg? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> Ceisio cefnogi mynediad gwell drwy ddulliau cynaliadwy i gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg? Ceisio cefnogi'r cynnydd yn yr ystod o wasanaethau a gynigir yn Gymraeg? Cyfrannu at welliant yn hygyrchedd gwasanaethau iechyd a lles cyfrwng Cymraeg? Ceisio cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy fentrau trafndiaeth? Creu'r amodau y mae'r Gymraeg yn ffynnu ynddynt? Ceisio hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei defnydd mewn cyhoeddiadau gorsafoedd, arwyddion ffyrdd ac arwyddion o fewn gorsafoedd trenau a bysiau? 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	EqIA WLIA	Poblogaeth Iechyd Pobl
	6. Hyrwyddo cadwraeth a gwella	<p>Sut y bydd o fudd i dreftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p>	Cymru lewyrchus	WLIA	Poblogaeth Iechyd Pobl

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqlA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
	asedau treftadaeth	<ul style="list-style-type: none"> Annog cadwraeth a gwella asedau treftadaeth a'u lleoliadau, a all gynnwys rhai asedau trafndiaeth eu hunain? Annog uwchraddio asedau treftadaeth presennol, megis pontydd hanesyddol, i fodloni safonau gweithredu wedi'u diweddarau? Annog cadwraeth a gwella'r dirwedd hanesyddol? 	<p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>		<p>Asedau Perthnasol;</p> <p>Treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol</p> <p>Tirwedd</p>
A yw CTRh De-orllewin Cymru yn dda i'r amgylchedd?	7. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth a chyfrannu at newid dulliau teithio	<p>Sut y bydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn cyfrannu at newid dulliau teithio? A fydd CTRh De-orllewin Cymru....?</p> <ul style="list-style-type: none"> Annog gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r seilwaith trafndiaeth presennol? Cyfrannu at leihau allyriadau CO₂ o'r sector trafndiaeth? Annog technoleg lanach ar gyfer trafndiaeth? Creu'r amodau lle mae angen dylunio cynaliadwy i fod yn rhan annatod o ddatblygiad newydd? 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru gydnerth</p> <p>Cymru iachach</p> <p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	HIA EqlA	<p>Ffactorau hinsoddol</p> <p>Ased perthnasol</p> <p>Aer</p> <p>Iechyd Pobl</p>

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqlA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<ul style="list-style-type: none"> • Annog gostyngiad yn y galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni? • Cynyddu'r potensial ar gyfer defnyddio ffynonellau carbon isel neu ddi-ynni? • Lleihau'r traffig ar y ffyrdd drwy leihau'r angen i deithio, lleihau pellteroedd teithio, a chynyddu'r opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael? • Annog cynnwys seilwaith digidol i leihau'r pwysau ar y system drafnidiaeth? 	<p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>		
	8. Galluogi i wrthsefyll newid hinsawdd	<p>A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd? • Annog pob datblygiad trafndiaeth newydd i allu gwrthsefyll newid hinsawdd? • Annog y seilwaith trafndiaeth presennol i gael ei gynnal er mwyn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd a sicrhau capasiti parhaus y rhwydwaith. • Lleihau'r anghydraddoldebau a brofir mewn perthynas â mynediad at drafnidiaeth yn ystod llifogydd? • Lleihau'r perygl cynyddol o lifogydd a/neu lifogydd arfordirol a hyrwyddo amddiffyn gorlifdiroedd neu ardaloedd lle mae perygl llifogydd a reolir? 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru gydnerth</p> <p>Cymru iachach</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	HIA EqlA	<p>Poblogaeth</p> <p>Iechyd Pobl</p> <p>Asedau Perthnasol;</p> <p>Ffactorau Hinsoddol</p> <p>Tirwedd</p> <p>Dŵr</p>

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<ul style="list-style-type: none"> Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella cydnerthedd ecosystemau a swyddogaethau sy'n helpu i leihau bregusrwydd yr hinsawdd? Cyfrannu at weithredu addasiadau arfordirol oherwydd erydiad arfordirol? Cyfrannu at leihau effaith tywydd poeth a sicrhau cydnerthedd y system drafnidiaeth i ddigwyddiadau gwres eithafol? 			
	9. Diogelu a gwella ansawdd aer	A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....? <ul style="list-style-type: none"> Creu'r amodau lle gellir gwella a diogelu ansawdd aer? Lleihau effeithiau negyddol trafndiaeth ar ansawdd aer lleol? Gwella ansawdd aer i ddileu'r angen am Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA's)? Creu'r amodau ar gyfer lleihau allyriadau posibl o draffig a diwydiant? Lleihau effaith anghymesur ansawdd aer gwael ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed? Lleihau effeithiau andwyol ar ansawdd aer ar ecosystemau? 	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	HIA EqIA	Aer Poblogaeth Iechyd Pobl Bioamrywiaeth Ffawna Flora
	10. Gwarchod a gwella nodweddion unigryw lleol	A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....? <ul style="list-style-type: none"> Annog gwarchod a gwella ardaloedd o gymeriad tirwedd, hynodrwydd, amrywiaeth ac ansawdd? 	Cymru lewyrchus	-	Tirwedd Treftadaeth ddiwylliannol

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
	ein tirweddau a'n trefluniau	<ul style="list-style-type: none"> • Annog gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd treflun? • Hyrwyddo dylunio sensitif wrth ddatblygu seilwaith trafndiaeth? • Lleihau effeithiau andwyol traffig ffyrdd a pharcio (e.e. ymwithiad gweledol a sŵn) ar dirweddau a threfluniau gwerthfawr Cymru? 	<p>Cymru sy'n fwy cyfartal</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>		gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol
	11. Hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau	<p>Sut y bydd o fudd i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Helpu i sicrhau rhwydweithiau ecolegol mwy cydlynol a gwydn? • Sicrhau cydnerthedd ecosystemau a'r swyddogaethau ecosystem y maent yn eu cyflawni? • Annog darparu Seilwaith Gwyrdd er mwyn helpu i leihau effaith ynys wres trefol? 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru gydnerth</p> <p>Cymru iachach</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p>	HIA EqIA	<p>Bioamrywiaeth</p> <p>Ffawna</p> <p>Flora</p> <p>Iechyd Pobl</p> <p>Ffactorau Hinsoddol</p>

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqlA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<ul style="list-style-type: none"> • Annog cadwraeth a gwella safleoedd gwarchod natur, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig gan gynnwys eu cysylltedd â'r dirwedd? • Annog cadwraeth a gwella cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn ddynodedig gan gynnwys eu cysylltedd â'r dirwedd? • Darparu gwelliant mewn cyfleoedd i bobl gael mynediad i fywyd gwylt a mannau gwyrdd agored? • Hyrwyddo dyluniad da o seilwaith trafndiaeth er mwyn sicrhau manteision bioamrywiaeth? • Diogelu geoamrywiaeth? 	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang		Asedau Perthnasol; Tirwedd Pridd
	12. Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy	<p>A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at warchod a gwella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb? • Cynyddu cyfleoedd i fwynhau amgylchedd naturiol a rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru? • Annog y defnydd o atebion seiliedig ar natur i liniaru amrywiaeth o effeithiau? <p>Sut y bydd yn lleihau gwastraff? A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog y defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a chynaliadwy wrth ddatblygu seilwaith trafndiaeth, gan ganolbwyntio ar 	<p>Cymru lewyrchus</p> <p>Cymru gydnerth</p> <p>Cymru iachach</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	HIA EqlA	<p>Dŵr</p> <p>Pridd</p> <p>Ffactorau Hinsoddol</p> <p>Tirwedd</p> <p>Iechyd Pobl</p> <p>Asedau Perthnasol;</p>

Uchelgais WTS	Amcan IIA	Cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau	Llywodraeth Cymru Nod Llesiant	HIA/ EqIA/ WLIA	Pynciau SEA sy'n berthnasol
		<p>leihau'r carbon sydd wedi'i ymgorffori mewn seilwaith trafndiaeth newydd?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau cyfanswm y gwastraff drwy fentrau trafndiaeth? • Annog diogelu pridd, gan gynnwys osgoi llygredd pridd? • Annog gwarchod priddoedd mawnaidd? 			
	13. Galluogi gwarchod ardaloedd llonydd a thawel, ac atal llygredd sŵn a golau	<p>A fydd CTRh De-orllewin Cymru yn....?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog osgoi cynefinoedd ac aneddiadau sy'n sensitif i lygredd sŵn? • Annog cynnal ac ehangu ardaloedd tawel? • Hyrwyddo lleihau a defnyddio mesurau lliniaru i leihau llygredd golau, yn enwedig gyda'r nos? • Hyrwyddo'r defnydd o fesurau lliniaru a gwelliannau i ardaloedd y mae llygredd sŵn yn effeithio arnynt? • Lleihau nifer yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan lygredd sŵn? 	<p>Cymru fwy cydnerth</p> <p>Cymru iachach</p> <p>Cymru o gymunedau cydlynus</p>	<p>HIA</p> <p>EqIA</p>	<p>Iechyd Pobl</p> <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Flora</p> <p>Ffawna</p> <p>Tirwedd</p>

Ymdriniaeth â Phynciau'r Gyfarwyddeb SEA ac Aseidiadau Integredig fesul Amcan IIA

5.1.15 Mae Tabl 5-3 yn nodi ymhle y rhoddir cyfrif am bob un o'r pynciau amgylcheddol a restrir yn Atodiad 1(f) y Gyfarwyddeb SEA, yn ogystal â phob un o'r gwahanol aseidiadau effaith sy'n ffurfio'r IIA yn Amcanion yr IIA.

Tabl 5-3: Pynciau Cyfarwyddeb SEA a phrif Amcanion IIA sy'n berthnasol

Pwnc SEA/Aseiad Integredig	Amcan(ion) yr IIA
SEA: Bioamrywiaeth	7, 8, 9, 10 ac 11
SEA: Poblogaeth	1, 2, 3, 5, 7, 8 ac 12
SEA: Iechyd Pobl	1, 2, 7, 8, 9 ac 13
SEA: Ffawna	7, 8, 9, 10 ac 11
SEA: Flora	7, 8, 9, 10 ac 11
SEA: Pridd	7, 8, 9, 10 ac 11
SEA: Dŵr	7, 8, 11 ac 12
SEA: Aer	7, 8, 9, 11 ac 12
SEA: Ffactorau Hinsoddol	3, 7, 8, 9, 10, 11 ac 12
SEA: Asedau Perthnasol;	3, 7, 8, 9, 10 ac 12
SEA: Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol	4, 5, 6 a 9
SEA: Tirwedd	4, 6, 9, 10 ac 13
Aseidiadau Integredig: Iechyd	1, 2, 7, 8, 9 ac 13
Aseidiadau Integredig: Cydraddoldebau	1, 2 a 3
Aseidiadau Integredig: Y Gymraeg	4 a 5
Aseidiadau Integredig: Prawfesur Gwledig	1, 3, 9 ac 13
Aseidiadau Integredig: Hawliau Plant	1 a 2
Aseidiadau Integredig: Newid Hinsawdd	3, 7, 8, 9, 10, 11 ac 12
Aseidiadau Integredig: Datblygu Economaidd	1, 2, 3, 9, 10 ac 12

6 Y Camau Nesaf

6.1.1 Y cam nesaf ar gyfer CTRh De-orllewin Cymru yw cyhoeddi CTRh Drafft De-orllewin Cymru. Bydd Adroddiad IIA yn cael ei gyhoeddi ac ymgynghorir arno ochr yn ochr â hyn. Bydd yr Adroddiad IIA yn:

- Dangos sut mae'r IIA wedi llywio datblygiad CTRh De-orllewin Cymru;
- Nodi'r fethodoleg ar gyfer yr arfarniad;
- Nodi'r opsiynau a ystyriwyd, sut y cawsant eu nodi ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigiwyd;
- Nodi effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol CTRh De-orllewin Cymru; a
- Disgrifio'r cynigion ar gyfer monitro.

6.1.2 Ceir rhagor o wybodaeth am gamau'r broses IIA yn y dyfodol yn Adran 2.1 o'r adroddiad hwn.

Atodiad A

Cwmpasu'r SEA: Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd

Atodiad B

Cwmpasu'r SEA: Data Sylfaenol, Materion a Chyfleoedd Allweddol yn Ymwneud â Chynladwyedd

Atodiad C

Cydweddoldeb Mewnol Amcanion IIA

Mae'r 13 Amcan IIA wedi'u profi i weld a ydynt yn gyson â'i gilydd. Yn gyffredinol, aseswyd cydnawsedd mewnol Amcanion yr IIA fel niwtral h.y. dim effaith glir neu mor gadarnhaol gan eu bod i gyd yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd a chynaliadwyedd yng Nghymru. Fodd bynnag, aseswyd bod cysondeb rhai Amcanion IIA yn ansicr.

Sgoriwyd ansicrwydd yn erbyn Amcan 6 IIA 'Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth a chyfrannu at newid dulliau teithio' ac Amcanion IIA 9, 10 a 13 oherwydd bod gan ddarparu seilwaith ynni adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt y potensial i effeithio ar gymeriad y dirwedd, asedau treftadaeth, llonyddwch ac ansawdd.

Aseswyd a oedd y cysondeb yn ansicr rhwng Amcan 3 IIA 'Cefnogi twf economaidd cynaliadwy' a nifer o Amcanion yr IIA, gan y gallai mesurau i hybu'r economi arwain at gynydd yn y gofynion tir, a thrwy hynny arwain at rai effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.

Cydweddoldeb Mewnol Amcanion IIA

Amcanion yr IIA	1														Amcanion yn gyson = + Yn anghyson â'i gilydd = - Cysondeb anhysbys = ? Dim effaith glir ar ei gilydd = (yn wag)
	2	+													
	3	+	+												
	4	+	+	+											
	5	+	+	?	+										
	6	+	+	?											
	7	+	+	?			+								
	8	+	+	?			+	+							
	9	+	+	?	+	?	?	+	+						
	10	+	+	?	+	+	?	+	+	+					
	11	+	+	?			+	+	+	+	+				
	12	+	+	?			+	+	+	+	+	+			
	13	+	+	?			?	?	?	+	+	?	+		
		1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	
		Amcanion yr IIA													

Mae Amcanion yr IIA wedi'u rhestru isod:

1. Cyfrannu at welliant mewn iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru
2. Creu'r amodau ar gyfer cyflawni gwelliant mewn cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb
3. Cefnogi datblygu cynaliadwy

4. Gwarchod a hyrwyddo diwylliant Cymru a gwella mynediad i fannau diwylliannol a hamdden
5. Annog gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg
6. Hyrwyddo cadwraeth a gwella asedau treftadaeth
7. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth a chyfrannu at newid dulliau teithio
8. Galluogi i wrthsefyll newid hinsawdd
9. Diogelu a gwella ansawdd aer
10. Gwarchod a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau a'n trefluniau
11. Hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
12. Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy
13. Galluogi gwarchod ardaloedd llonydd a thawel, ac atal llygredd sŵn a golau

Atodiad A

Cwmpasu'r AAS: Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion
Diogelu'r Amgylchedd

Tabl A-1: Rhestr o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd Perthnasol

Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol
Y Cenhedloedd Unedig (1994) Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd
Y Cenhedloedd Unedig (1997) Protocol Kyoto i Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd
Y Cenhedloedd Unedig (2002) Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy
Y Cenhedloedd Unedig (2006) Y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau
Y Cenhedloedd Unedig (2009) Cytgord Copenhagen
Y Cenhedloedd Unedig (2010) Fframwaith Addasu Cancún
Y Cenhedloedd Unedig (2015) Nodau Datblygu Cynaliadwy
Y Cenhedloedd Unedig (2016) Cytundeb Paris
Y Cenhedloedd Unedig (2016) Adroddiad Argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn
Y Cenhedloedd Unedig (2019) Y Partneriaethau PEP
Y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad Iechyd y Byd a Chomisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (2017) Beicio a Swyddi Gwyrdd
Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (1998) Confensiwn Aarhus
Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (1999) Protocol Gothenburg ar Leihau Asideiddio, Ewtroffeiddio ac Osôn ar Lefel y Ddaear
Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (1948)
Sefydliad Iechyd y Byd (1999) Canllawiau ar gyfer Sŵn Cymunedol 1999
Sefydliad Iechyd y Byd (2004) Cynllun Gweithredu Ewrop ar Amgylchedd ac Iechyd Plant
Sefydliad Iechyd y Byd (2014) Datblygu Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar Drafnidiaeth, Iechyd a'r Amgylchedd
Sefydliad Iechyd y Byd (2018) <i>Making THE (Transport, Health and Environment) Link</i>
Cynlluniau a Rhaglenni'r DU
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2008) <i>Building a Low-Carbon Economy - the UK's Contribution to Tackling Climate Change</i>
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2020) <i>Sixth Carbon Budget</i>
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2021) <i>UK Climate Risk Independent Assessment (CCRA3) Technical Report</i>
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2020) <i>The UK's Integrated National Energy and Climate Plan</i>
Defra (2007) <i>The Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland</i>
Defra (2007) <i>Conserving Biodiversity the UK Approach 2007</i>
Defra (2011) <i>Air Quality Plans for the Achievement of EU Air Quality Limit Values for Nitrogen Dioxide (NO₂) in the UK: List of UK and National Measures</i>
Defra (2011) <i>The Natural Choice: Securing the Value of Nature (Natural Environment White Paper)</i>
Defra (2011) <i>The Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland</i>
Defra (2011) <i>Mainstreaming Sustainable Development</i>
Defra (2017) <i>UK Climate Change Risk Assessment: Government Report</i>
Defra a'r Adran Drafnidiaeth (2017) <i>Air Quality plan for NO₂ in the UK</i> , Defra (2013) <i>The National Adaptation Programme: Making the Country Resilient to a Changing Climate</i>
Defra (2018) <i>Clean Air Strategy</i>
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2009) <i>UK Ports for the Offshore Wind Industry: Time to Act</i>
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2011) <i>Carbon Plan: Delivering our Low Carbon Future</i>
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2011) <i>National Policy Statements for Energy Infrastructure</i>
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2011) <i>UK Renewable Energy Roadmap</i>
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2017) <i>UK National Energy Efficiency Action Plan</i>
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2007) <i>Heritage Protection for the 21st Century</i>
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2013) <i>Scheduled Monuments & Nationally Important but Non-Scheduled Monuments</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2007) <i>Ports Policy Review Interim Report</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2008) <i>Delivering a Sustainable Transport System</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2012) <i>National Policy Statement for Ports</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2016) <i>Rail Freight Strategy</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2017) <i>Transport Investment Strategy – Moving Britain Forward</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2017) <i>Transport Infrastructure Efficiency Strategy</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2017) <i>Connecting People: A Strategic Vision for Rail</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2017) <i>Cycling and Walking Investment Strategy</i>
Yr Adran Drafnidiaeth (2018) <i>Aviation 2050: The future of UK Aviation</i>

Atodiad A

Yr Adran Drafndiaeth (2018) <i>The Inclusive Transport Strategy: Achieving Equal Access for Disabled People</i>
Yr Adran Drafndiaeth (2018) <i>Connecting communities with the railways: the community rail development strategy</i> (diweddarwyd yn 2020)
Yr Adran Drafndiaeth (2019) <i>Future of Mobility: Urban Strategy</i>
Yr Adran Drafndiaeth (2019) <i>Clean Maritime Plan: Maritime 2050</i>
Yr Adran Drafndiaeth (2019) <i>Port Air Quality Strategies</i>
Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru (2015) <i>The Invasive and Non-Native Species Framework Strategy for Great Britain</i>
Asiantaeth yr Amgylchedd (2010) <i>Managing the Environment in a Changing Climate</i>
Asiantaeth yr Amgylchedd (2018) <i>The Environment Agency's Approach to Groundwater Protection V1.2</i>
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (2007) <i>Children's Environment and Health Action Plan</i>
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (2008) <i>Health Effects of Climate Change in the UK 2008 - An update of the Department of Health report 2001/2002</i>
Llywodraeth EF (1949) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (diwygiwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2023)
Llywodraeth EM (1973) Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 (diwygiwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2013)
Llywodraeth EM (1979) Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (diwygiwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2022)
Llywodraeth EM (1981) Y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (diwygiwyd ddiwethaf ym mis Awst 2024)
Llywodraeth EM (2020) Y Ddeddf Amaethyddiaeth
Llywodraeth EM (1990) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
Llywodraeth EM (2000) Deddf Trafndiaeth 2000
Llywodraeth EM (2002) Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018
Llywodraeth EM (2003) Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017
Llywodraeth EM (2006) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
Llywodraeth EM (2006) Deddf Tiroedd Comin 2006
Llywodraeth EM (2007) Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 2007 (fel y'u diwygiwyd yn 2010)
Llywodraeth EM (2008) Deddf Newid Hinsawdd 2008
Llywodraeth EM (2008) Deddf Ynni 2008
Llywodraeth EM (2009) Gorchymyn Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Targed 2020, Terfyn Credyd a Diffiniadau) 2009
Llywodraeth EM (2009) Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009
Llywodraeth EM (2009) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009
Llywodraeth EM (2010) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
Llywodraeth EM (2010) Y Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer
Llywodraeth EM (2010) Deddf Cydraddoldeb 2010
Llywodraeth EM (2010) Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol – sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu
Llywodraeth EM (2010) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd yn 2011)
Llywodraeth EM (2010) Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010
Llywodraeth EM (2010) Y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)
Llywodraeth EM (2013) Y Fframwaith Polisi Hedfanaeth
Llywodraeth EM (2015) Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn 2015
Llywodraeth EM (2017) Strategaeth Ddiwydiannol: Adeiladu Prydain sy'n barod at y dyfodol
Llywodraeth EM (2017) Y Strategaeth Twf Glân
Llywodraeth EM (2017) Deddf Cymru
Llywodraeth EM (2017) Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd yn 2019)
Llywodraeth EM (2018) <i>The Road to Zero</i>
Llywodraeth EM (2018) <i>A Green Future: Our 25 Year Plan to Improve the Environment</i>
Llywodraeth EM (2019) <i>Clean Air Strategy 2019</i>
Llywodraeth EM (2021) <i>Net Zero Strategy: Build Back Greener</i>
Llywodraeth EM (2021) Deddf yr Amgylchedd 2021
Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru (2011) Datganiad Polisi Morol y DU
Trysorlys EM (2014) Cynllun Seilwaith Cenedlaethol
Trysorlys EM (2021) <i>Build Back Better: Our Plan for Growth</i>
Tŷ'r Cyffredin (2016) <i>Regional Airports</i>
Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Defra (2012) <i>UK Post-2010 Biodiversity Framework</i>
Natural England a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2011) <i>Marine Conservation Zone (MCZ) Project</i>

Atodiad A

Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (2010) <i>Marine Environmental Mapping Programme (MAREMAP)</i>
<i>Strategic Plan for Biodiversity 2011-2020</i> (2010)
Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (2010) <i>Sustainable Development: The Key to Tackling Health Inequalities</i>
<i>UK Marine Monitoring and Assessment Strategy (2010) Charting Progress 2: The State of UK Seas</i>
<i>UK National Ecosystem Assessment (2011) UK National Ecosystem Assessment: Understanding Nature's Value to Society</i>
Cynlluniau a Rhaglenni Cenedlaethol (Cymru)
Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru
Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2015) Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2015 - 2020
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2021) Tystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad Annibynnol Risgiau Newid Hinsawdd y DU (CCRA3): Crynodeb ar gyfer Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2021) Asesiad Annibynnol Risgiau Newid Hinsawdd y DU: Adroddiad Technegol, Crynodeb ar gyfer Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2020) Y llwybr i Sero Net a chynnydd ar leihau allyriadau yng Nghymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) (2001) Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) (2015) Asesiad Morwedd Cenedlaethol Cymru, LUC, Cyfoeth Naturiol Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020) Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol
Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (yn parhau) Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol
Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (2020) Cynllun Addasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol
Cyfoeth Naturiol Cymru (yn parhau) Rhaglen LANDMAP
Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru
Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015 – 2021
Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) Datganiad Polisi Adnoddau Naturiol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2019) Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Datganiad Ardal Morol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Datganiad Ardal De-orllewin Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Bae Caerfyrddin
Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro
Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Bae Abertawe
Cyfoeth Naturiol Cymru (2014) Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Teifi a Gogledd Ceredigion
GIG Cymru (2016) Law yn Llaw at Iechyd
Oxfam (2020) Toesen Cymru – Fframwaith ar gyfer Cynaliadwyedd Amgylchedd a Chyfiawnder Cymdeithasol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2019) Cynllun Rheoli 2020 - 2024
Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Cymru Iachach, Hapusach a Thecach
Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Strategaeth Hirdymor 2018-2030
Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) Ein Cynllun Strategol 2019 – 2022
Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (2009) Cymru Carbon Isel
Cyngor Abertawe (2017) Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr 2017
Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021)
Cyngor Gweithredu Gwifoddol Cymru (2016) Llundio Eich Dyfodol – senarios y dyfodol: Goblygiadau i'r trydydd sector yng Nghymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru
Llywodraeth Cymru (2022) Strategaeth Ddigmwyddiadau Genedlaethol Cymru 2022 i 2030

Atodiad A

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2010) Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru
Llywodraeth Cymru (2006) Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae
Llywodraeth Cymru (2006) Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru
Llywodraeth Cymru (2007) Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir
Llywodraeth Cymru (2007) Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru: Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru
Llywodraeth Cymru (2009) Strategaeth Coetiroedd i Gymru
Llywodraeth Cymru (2009) Byw'n Dda - Byw Bywyd Annibynnol
Llywodraeth Cymru (2010) Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd
Llywodraeth Cymru (2010) Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru
Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Cymru
Llywodraeth Cymru (2010) Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llywodraeth Cymru (2010) Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol
Llywodraeth Cymru (2011) Datganiad Polisi: Paratoi ar gyfer Hinsawdd sy'n Newid
Llywodraeth Cymru (2011) Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
Llywodraeth Cymru (2011) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Llywodraeth Cymru (2012) Gweithio'n Wahanol – Gweithio Law yn Llaw
Llywodraeth Cymru (2012) Ynni Cymru: Newid Carbon Isel
Llywodraeth Cymru (2012) Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd ar Ffordd Newydd o Reoli Adnoddau Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru (2012) Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru
Llywodraeth Cymru (2021) Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru
Llywodraeth Cymru (2020) Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 – 2025
Llywodraeth Cymru (2013) Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
Llywodraeth Cymru (2013) Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru
Llywodraeth Cymru (2013) Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd
Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
Llywodraeth Cymru (2013) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
Llywodraeth Cymru (2014) Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru
Llywodraeth Cymru (2014) Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol
Llywodraeth Cymru (2015) Strategaeth Ddŵr i Gymru
Llywodraeth Cymru (2016) Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru
Llywodraeth Cymru (2016) Rhaglen Plant Iach Cymru
Llywodraeth Cymru (2016) Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol
Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi
Llywodraeth Cymru (2017) Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru
Llywodraeth Cymru (2018) Fframwaith Parth Aer Glân i Gymru
Llywodraeth Cymru (2018) Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Papur Gwyn)
Llywodraeth Cymru (2018) Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol
Llywodraeth Cymru (2018) Adolygiad o'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru
Llywodraeth Cymru (2018) Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028
Llywodraeth Cymru (2019) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft 2020 – 2040
Llywodraeth Cymru (2019) Pwysau Iach: Cymru Iach
Llywodraeth Cymru (2019) Rheilffordd i Gymru: yr achos dros ddatganoli
Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach
Llywodraeth Cymru (2024) Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach - Adroddiad Diweddar am y Gwaith a Wnaed ar y Camau Gweithredu
Llywodraeth Cymru (2019) Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru): Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft
Llywodraeth Cymru (2019) Strategaeth Ryngwladol – Drafft ar gyfer Ymgynghori
Llywodraeth Cymru (2019) Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel
Llywodraeth Cymru (2019) Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd
Llywodraeth Cymru (2020) Cysylltu Cymunedau
Llywodraeth Cymru (2020) Adroddiad Grŵp Tasglu 20mya
Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21

Atodiad A

Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040
Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru; Rhifyn 12
Llywodraeth Cymru (2021) Cynllun Cymru Gyfan 2021-25 Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net
Llywodraeth Cymru (2021) Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2 (2021 – 2025)
Llywodraeth Cymru (2021) Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
Llywodraeth Cymru/ y GIG (2016) Mesur iechyd a llesiant cenedl: Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd i Gymru
Llywodraeth Cymru (2009) TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
Llywodraeth Cymru (2010) TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru (2005) TAN 8: Ynni Adnewyddadwy
Llywodraeth Cymru (1997) TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed
Llywodraeth Cymru (1997) TAN 11: Sŵn
Llywodraeth Cymru (2016) TAN 12: Dylunio
Llywodraeth Cymru (1997) TAN 13: Twristiaeth
Llywodraeth Cymru (1998) TAN 14: Cynllunio'r Arfordir
Llywodraeth Cymru (2004) TAN 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd
Llywodraeth Cymru (2007) TAN 18: Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru (2013) TAN 20: Cynllunio a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru (2014) TAN 23: Datblygu Economaidd
Llywodraeth Cymru (2017) TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol
Llywodraeth Cymru: Sgwrs Genedlaethol y Gymru a Garem, 2015
Dŵr Cymru (2008) Strategaeth Rheoli Dŵr Wyneb
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun 10 Pwynt i Ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru, Papur Gwyn: Adroddiad Manwl, Mehefin 2019
Llywodraeth Cymru (2020): Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
Cynlluniau a Rhaglenni Rhanbarthol (De-orllewin Cymru)
Cyngor Abertawe (2019) Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010 – 2025
Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2016) Cynllun Datblygu Lleol (2011 – 2026)
Cyngor Sir Penfro (2013) Cynllun Datblygu Lleol: Cynllunio Dyfodol Sir Benfro (hyd at 2021)
Cyngor Sir Caerfyrddin (2014) Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006 - 2021
Grŵp Craidd Ynni De-orllewin Cymru (2022) Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru
Llywodraeth Cymru (2021) Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru
Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol De-orllewin Cymru (2021) Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru
Gweithgor Agregau Rhanbarthol y De a Gweithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd (Medi 2020) Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru - Ail Adolygiad (DTRh2)
White Consultants a Phrifysgol Caerdydd (2017) Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe
Prif Awdurdodau Lleol yn Ne-orllewin Cymru (2022/23) Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cynllun Buddsoddi ar gyfer De-orllewin Cymru
Cyngor Abertawe (2017) Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr 2017
Grŵp Arfordirol De Cymru (2012) Cynllun Rheoli Traethlin 20 – Trwyn Larnog i Benrhyn Santes Ann
Gorllewin Cymru (2011) Cynllun Rheoli Traethlin 21 – Penrhyn Santes Ann i Ben y Gogarth
Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Datganiad Ardal De-orllewin Cymru
Cyngor Abertawe (2024) Cynllun Hawliau Dynol a Chydraddoldeb Strategol Abertawe 2024 - 2028
Cyngor Sir Penfro (2024) Cynllun Cydraddoldeb Sir Benfro 2024 - 2028
Cyngor Sir Caerfyrddin (2024) Cynllun Cydraddoldeb Strategol Sir Gaerfyrddin 2024 - 2028
Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2024) Cynllun Cydraddoldeb Strategol Castell-nedd Port Talbot 2024 - 2028
Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2013) Strategaeth Ansawdd Aer Castell-nedd Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot (2024) Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (2024 – 2029)
Cyngor Sir Caerfyrddin (2019) Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Abertawe (2022) Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur 2022-2030

Atodiad A

Mae Tabl A-2 yn crynhoi canlyniadau'r adolygiad o gynlluniau, polisiau ac amcanion diogelu'r amgylchedd Rhyngwladol, Ewropeaidd, y DU, Cenedlaethol a Rhanbarthol. Nododd hwn themâu allweddol a'r goblygiadau i'r AEI a CTRh Doc gan ddangos sut mae'r rhain yn cysylltu â datblygiad fframwaith yr AEI. Mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n berthnasol i'r themâu sy'n berthnasol i'r AEI hefyd wedi'u cynnwys yn Nhabl A-2. Rhestrir y nodau isod:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Tabl A-2: Themâu Cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag Amcanion yr AEI

Themâu sy'n berthnasol i'r AEI o'r CTRh	Nodau Perthnasol	Ffynhonnell						Prif Bynciau'r AAS	Amcan Perthnasol yr AEI Drafft
		Rhyngwladol ac Ewropeaidd	Y DU	Cenedlaethol	Rhanbarthol	Goblygiadau i'r CTRh	Goblygiadau i'r AEI		
Lleihau llygredd aer a sicrhau gwelliannau i ansawdd aer gan gyfrannu at Gymru iachach	2, 3 a 7	Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd; Protocol Kyoto i Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd; Datganiad o Hawliau Dynol; Cytgord Copenhagen; Fframwaith Addasu Cancún (2010); Cytundeb Paris (2016).	<i>Building a Low-Carbon Economy - the UK's Contribution to Tackling Climate Change; Air Quality Plans for the Achievement of EU Air Quality Limit Values for Nitrogen Dioxide (NO₂) in the UK: List of UK and National Measures; The National Adaptation Programme: Making the Country Resilient to a Changing Climate; Carbon Plan: Delivering our Low Carbon Future; UK</i>	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru; Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Cymru; Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru; Paratoi ar gyfer Hinsawdd sy'n Newid; Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd; Ynni Cymru: Newid Carbon Isel; Strategaeth Drafnidiaeth Cymru; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Annibynnol Risgiau Newid Hinsawdd y DU	Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru; Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru; Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru; Buddsoddi ar gyfer De-orllewin Cymru,	Dylai CTRh Doc geisio ymgorffori mesurau i wella ansawdd aer fel hyrwyddo mentrau carbon isel a dulliau teithio cynaliadwy. Dylai CTRh Doc sicrhau bod gallu cynefinoedd naturiol Cymru i amsugno llygryddion a gwella ansawdd aer mor fawr â phosibl. Mae'r cynlluniau, y rhaglenni a'r amcanion diogelu'r amgylchedd yn ceisio gwella ansawdd aer trwy fentrau a pholisiau carbon isel. Gallai cynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd sy'n	Dylai Fframwaith yr AEI gynnwys amcanion sy'n ceisio gwella ansawdd aer ac iechyd trwy amrywiaeth o gyfleoedd posibl fel trafnidiaeth, tai, datblygu economaidd a gwelliannau i'r amgylchedd naturiol a gwasanaethau ecosystemau.	Aer, Poblogaeth, Iechyd Pobl a Ffactorau Hinsoddol	1, 7, 8, 9 11 a 12

Atodiad A

Themâu sy'n berthnasol i'r AEI o'r CTRh	Nodau Perthnasol	Ffynhonnell						Prif Bynciau'r AAS	Amcan Perthnasol yr AEI Drafft
Ffigur B-47: Cyfanswm yr allyriadau CO₂ o'r sector trafndiaeth yng Nghymru (cilodunelli)	B114
Ffigur B-48: Teithio Llesol drwy Gerdded, fesul Awdurdod Lleol	B117
Ffigur B-49: Y Nwyddau Môr a Gludwyd drwy Borthladdoedd Mawr yng Nghymru	B119
Ffigur B-50: Holl draffig porthladdoedd i mewn ac allan ledled y Deyrnas Unedig	B120
Ffigur B-51: Refeniw a Chyfalaf trafndiaeth rheilffordd yng Nghymru	B121
Ffigur B-52: Punnoedd sterling fesul cilometr a deithir ar gyfer gwahanol ddulliau cludo	B122
Ffigur B-53: Yr arian sy'n cael ei wario ar draws gwahanol ddulliau cludo yng Nghymru	B122
Ffigur B-54: Sut mae TrC yn bwriadu gwario ei chyllid Llywodraeth Cymru yn 2022–23	B123

1 Cyflwyniad

1.1.1.1 Mae'r atodiad hwn yn darparu'r data cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sylfaenol ar gyfer De-orllewin Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) a ddefnyddir i helpu i ymgymryd â'r agweddau canlynol ar yr Asesiad Effaith Integredig (AEI):

- Nodi'r sefyllfa cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sylfaenol presennol yn ne-orllewin Cymru o'i chymharu ag effaith debygol y CTRh a rhagwelir.
- Nodi materion allweddol tueddiadau a chyfleoedd i'r AEI a'r CTRh eu hystyried.
- Datblygu Fframwaith yr AEI i'w ddefnyddio i arfarnu'r CTRh.
- Yn y pen draw, cynorthwyo i ddatblygu fframwaith monitro er mwyn monitro effeithiau sylweddol y CTRh.

1.1.1.2 Mae'r atodiad wedi ei strwythuro o amgylch pob un o'r saith nod llesiant. O dan yr is-benawdau hynny, mae'r data gwaelodlin wedi eu hisrannu'n gyfres o bynciau AEI. Strwythurir pob adran fel a ganlyn:

1. Nod Llesiant a nodi pynciau AEI perthnasol ynddo.
2. Trosolwg o'r Amodau Sylfaenol ar gyfer pob pwnc. Mae hyn yn cynnwys:
 - a. Perthnasedd y pwnc hwnnw i'r CTRh;
 - b. Y tueddiadau a'r cyflyrau sylfaenol a strwythurir o amgylch setiau data sylfaenol;
 - c. Unrhyw fylchau data sy'n cael eu llenwi ar hyn o bryd; a
 - d. Materion Allweddol sy'n deillio o'r uchod sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd iddo fynd i'r afael â nhw.

Nodyn ynghylch y setiau data sylfaenol

1.1.1.3 Ffeithiau ac ystadegau penodol a gesglir gan wahanol sefydliadau gan gynnwys, er enghraifft, Llywodraeth Cymru; Llywodraeth y DU; neu gyrfff statudol megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ymhlith eraill, yw'r setiau data sylfaenol a ddefnyddir. Mae'r rhain wedi eu dewis yn ofalus er mwyn helpu i roi trosolwg priodol o'r tueddiadau a'r cyflyrau sylfaenol dros amser ar raddfa genedlaethol a, pha fo hynny'n angenrheidiol, mwy o fanylion am amrywiadau rhanbarthol yng Nghymru.

1.1.1.4 Y bwriad yw defnyddio'r setiau data sylfaenol fel ffyn mesur ffeithiol i gefnogi'r broses o arfarnu effeithiau y CTRh o'u cymharu â phob un o Amcanion Fframwaith perthnasol yr AEI.

1.1.1.5 Yn y pen draw, pan fydd yr AEI wedi ei gwblhau a'r CTRh yn cael ei fabwysiadu, cynhyrchir dangosyddion i helpu i fonitro effeithiau sylweddol disgwylidiedig y CTRh wrth iddo gael ei ddefnyddio.

1.1.1.6 Mae cannoedd o setiau data sylfaenol posibl y gellid eu defnyddio, a dim ond ychydig yn wahanol yw'r wybodaeth y mae llawer ohonynt yn ei darparu. O'r herwydd, bydd y dangosyddion a ddewisir ar gyfer yr AEI hwn yn canolbwyntio, yn symlach ac yn adlewyrchu'r raddfa ranbarthol a'r dylanwad y disgwylir i'r CTRh ei gael.

1.1.1.7 Mae rhanbarth de-orllewin Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

2 Nod Llesiant: Cymru Ffyniannus

2.1.1.1 Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

"Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd bydeang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas".

2.1.1.2 Mae'r data'n ymwneud yn bennaf â:

- Yr Economi, Cyflogaeth ac Incwm yn Ne-orllewin Cymru; ac
- Addysg yn Ne-orllewin Cymru.

2.2 Yr Economi, Cyflogaeth ac Incwm yng Nghymru

2.2.1 Perthnasedd i CTRh De-orllewin Cymru

2.2.1.1 Mae economi gref yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau cyfoeth, swyddi ac incwm pobl. Mae hyn yn cyfrannu'n fawr at ansawdd bywyd a llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru. Gall buddsoddi mewn rhwydweithiau trafndiaeth ddylanwadu ar weithrediad marchnadoedd llafur, cynhyrchiant busnes a chystadleurwydd. Mae'r effeithiau hyn yn rhyngweithio dros amser a gallant arwain at welliannau mewn allbwn economaidd a dosbarthiad daearyddol gweithgarwch economaidd. Gallant effeithio hefyd ar yr amgylchedd, ansawdd bywyd ac atyniad cyffredinol trefi a dinasoedd.

2.2.1.2 Pwysleisia Ffigur B-1 sut y gallai effeithiau uniongyrchol o fuddsoddiad trafndiaeth greu effeithlonrwydd yn y farchnad gan arwain at benderfyniadau buddsoddi ac adleoli a all, yn eu tro, arwain at newidiadau mewn cynhyrchiant a thwf economaidd¹. Mae'r dulliau ar gyfer cyflawni effeithiau economaidd yn cynnwys:


- Buddion i'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr. Yn achos buddsoddiadau trafndiaeth cyhoeddus, mae'r rhain yn cynnwys llai o allanoldeb negyddol o deithio mewn car (h.y. lleihad mewn tagfeydd ac allyriadau CO₂) a gwerthoedd dewisiadau (h.y. y gwerth a roddir ar gynnal ased neu wasanaeth cyhoeddus hyd yn oed os nad oes llawer o debygolrwydd, neu nad yw'n debygol o gwbl, y bydd yr unigolyn byth yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd).
- Effeithiau cynhyrchiant. Effeithiau cynhyrchiant a gynhyrchir trwy effeithlonrwydd sy'n deillio o well cysylltedd, sy'n dod â busnesau, cyflenwyr a gweithwyr yn agosach at ei gilydd i bob pwrpas. Mae'r buddion hyn yn ychwanegol i fuddion defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr ar lefel genedlaethol.
- Effeithiau buddsoddi a ysgogir. Newidiadau yn lefel neu leoliad buddsoddiad y sector preifat o ganlyniad i fuddsoddiad trafndiaeth. Mae'r buddion hyn yn benodol i gyd-destun a gellir eu dadleoli'n rhannol o ardaloedd eraill.
- Effeithiau cyflogaeth. Effeithiau marchnad llafur sy'n deillio o welliannau cysylltedd, a allai ganiatáu i bobl symud i swyddi mwy gynhyrchiol neu fynd i'r farchnad lafur o ganlyniad i lai o deithiau cymudo a theithiau cymudo rhatach.
- Effeithiau adfywio. Effeithiau economaidd lleol sy'n deillio o ddelwedd lleol gwell ac o ddenu datblygiad defnydd tir. Mewn rhai achosion, gall trafndiaeth weithredu fel catalydd twf

¹ Greener Transport Solutions (2024) Transport and the economy. Ar gael yn: <https://greenertransportsolutions.com/guidance-tool/> [Aed at y wefan: 20.08.24]

economiaidd lleol. Efallai na fydd y buddion hyn yn gwbl ychwanegol ar lefel genedlaethol a gallent godi o ganlyniad i ddadleoli gweithgaredd economicaidd o rywle arall.

2.2.1.3 Yn ogystal â'r effeithiau hirdymor posibl ar gynhyrchiant, mae adeiladu prosiectau seilwaith mawr yn darparu chwistrelliad o adnoddau i economïau lleol yn ystod y gwaith adeiladu a allai greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Er y gallai'r gwariant hwn gael ei ailgyfeirio o weithgareddau eraill y llywodraeth, gallai'r effeithiau lleol fod yn sylweddol yn y tymor byr ac yn gatalytig dros y tymor hwy.

Ffigur B-1: Buddsoddiad trafndiaeth a thwf economicaidd



Ffynhonnell: Greener Transport Solutions: Transport and the economy

2.2.1.4 Mae gan y CTRh swyddogaeth allweddol wrth gefnogi economi De-orllewin Cymru, drwy helpu i arwain datblygiad sy'n ymwneud â'i seilwaith ategol.


2.2.1.5 Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr² yw ceisio hybu gwell cysylltiadau trafndiaeth yn yr awyr, ar y môr, ar y ffordd ac ar reilffyrdd. Gallai CTRh gogledd-orllewin Cymru gefnogi hyn.

² Llywodraeth Cymru (2020) Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-i-2025> [Aed at y wefan: 27.08.24]

2.2.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

- 2.2.2.1 Mae economi Cymru yn alinio'n agos â gweddill y DU. Fodd bynnag, ers amser maith, mae'r allbwn economaidd wedi bod yn is yng Nghymru o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Yn 2022, £74.5 biliwn oedd cyfanswm y gwerth ychwanegol gros yng Nghymru, sy'n gynydd o 9.5% o'i gymharu â 2021 ac yn gynydd o 9.6% o'i gymharu â 2019. Y cynnydd i Gymru ac i'r DU o'u cymharu â 2021 oedd y cynnydd mwyaf ers i gofnodion ddechrau, yn bennaf o ganlyniad i'r adferiad yn sgil pandemig COVID-19. £23,804 oedd y gwerth ychwanegol gros fesul pen yng Nghymru yn 2022, sy'n gynydd o 8.6% o'i gymharu â 2021.
- 2.2.2.2 Roedd y gwerth ychwanegol gros fesul pen yng Nghymru yn 2022 yn 72.1% o ffigur y DU (ac eithrio yr hyn sydd y tu allan i'r rhanbarthau), sef yr isaf ond un ymhlith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr³. Yn fras, mae hyn yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Yn rhanbarth de-orllewin Cymru yn 2022, yn Abertawe yr oedd y gwerth ychwanegol gros fesul pen ar £23,931, dilynid hynny gan Sir Benfro ar £22,844 fesul pen, yna Sir Gaerfyrddin ar £20,215, ac yn olaf Castell-nedd Port Talbot ar £19,556.
- 2.2.2.3 Yn bennaf, mae'r dwysedd cyflogaeth ar draws de-orllewin Cymru yn llai na phum hectar, oherwydd natur wledig Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'r dwysedd cyflogaeth uchaf yn Abertawe (gweler Ffigur B-2).

Ffigur B-2: Dwysedd Cyflogaeth De-orllewin Cymru/ Hectarau – Cyfrifiad 2021



Yr economi wledig

- 2.2.2.4 Mae de-orllewin Cymru yn wledig ei natur i raddau helaeth, gyda 56% o'r tir yn cynnwys 'tir fferm caeedig' ac 17% o goetir. Y sectorau sy'n rheoli'r tir hwn yw amaethyddiaeth, coedwigaeth a

³ Llywodraeth Cymru (2024) Cynnyrch domestig gros rhanbarthol a gwerth ychwanegol gros: 1988 i 2022. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cynnyrch-domestig-gros-rhanbarthol-gwerth-ychwanegol-gros-1988-i-2022> [Aed at y wefan: 28.08.24]

physgodfeydd, sy'n cefnogi bywoliaethau a chymunedau ac, yn bwysig, mae hefyd yn cynnal yr adnoddau naturiol yr ydym yn dibynnu arnynt⁴. Mae amaethyddiaeth yn gyfle nodedig i ddatblygu cynnyrch a brandiau o ansawdd uchel yn Sir Benfro⁵.

Twristiaeth

- 2.2.2.5 Nodweddir ardal de-orllewin Cymru gan ystodau helaeth o dirweddau rheolaidd ac afreolaidd. Mae amgylchedd arfordirol helaeth de-orllewin Cymru yn amrywio o draethau tywodlyd, systemau twyni, aberoedd, morydiau a morfa heli i glogwyni uchel a childraethau creigiog bach, y mae gan bob un ohonynt eu hecosystem benodol ei hun⁶. Cafodd de-orllewin Cymru 22% o ymweliadau twristiaeth Cymru gyfan yn 2022, a 23% o'r holl wariant gan dwristiaid⁷. Yn Sir Benfro roedd dros 20% o'r gyflogaeth mewn diwydiannau twristiaeth, sef yr uchaf ymhlith yr holl awdurdodau lleol⁸.
- 2.2.2.6 Yn ystod cyfnod 2017–2019, cafodd de-orllewin Cymru gyfartaledd o 1.94 miliwn o deithiau domestig dros nos Prydain Fawr fesul blwyddyn. Gwariodd yr ymwelwyr hyn gyfartaledd blynyddol o £383 miliwn yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd de-orllewin Cymru un rhan o bump (20%) o'r holl deithiau domestig dros nos y DU i Gymru, ac 21% o'r gwariant cysylltiedig.
- 2.2.2.7 Er bod nifer teithiau domestig dros nos y DU a'r gwariant cysylltiedig wedi cynyddu ers 2016–2018, gostyngodd y gwariant cyfartalog fesul taith dros nos i de-orllewin Cymru ychydig o £201 yn 2016–2018 i £198 yn 2017–2019. Er mai'r rhanbarth hwn oedd â'r gwariant uchaf fesul taith ddomestig dros nos y DU ymhlith holl ranbarthau Cymru, ar £198. Mewn cymhariaeth, £184 oedd cyfartaledd cyffredinol Cymru ar gyfer yr un cyfnod⁹.
- 2.2.2.8 Mae'r Gronfa Treftadaeth Genedlaethol yn nodi'r canlynol o 'The Impact of heritage tourism for the UK economy'¹⁰, sef yr ail ddilyniant i Investing in Success¹¹, adroddiad gwreiddiol Cronfa Treftadaeth ar dwristiaeth treftadaeth, a gyhoeddwyd mewn partneriaeth â VisitBritain. Mae'r tri adroddiad yn dadansoddi effaith yr economi ymwelwyr ar sail treftadaeth ac yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddiad parhaus o gyllidebau hamdden, diwylliant a threftadaeth wrth gefnogi twristiaeth y DU.
- Mae treftadaeth Cymru yn gwneud cyfraniad gwerth ychwanegol gros sydd werth £1biliwn i economi twristiaeth y DU (Cyfeiria atyniadau diwylliannol, hanesyddol a threftadaeth naturiol at amgueddfeydd, theatrau, tai hanesyddol, parciau hanesyddol neu dirweddau naturiol megis gwlyptiroedd a pharciau cenedlaethol).
 - Mae twristiaeth dreftadaeth yn cefnogi dros 24,000 o swyddi yng Nghymru.

⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Datganiad Ardal De-orllewin Cymru: Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy. Ar gael yn:

<https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-plans-and-policies/area-statements/south-west-wales-area-statement/ensuring-sustainable-land-management/?lang=cy> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

⁵ Cyngor Sir Penfro (2015) Economic Profile of Pembrokeshire. Ar gael yn:

https://www.bing.com/ck/a?!&&p=5480be3c12f156fbJmltdHM9MTcyNTMyMTYwMCZpZ3VpZD0zMzM0NzExYy01NWl3LTZhOGtMDA2Zi02NTc3NTRkNDZiZWmW5zaWQ9NTlWMQ&ptn=3&ver=2&hsh=3&fclid=3334711c-55b7-6a8a-006f-657754d46bec&psq=rural+economy+in+pembrokeshire&u=a1aHR0cHM6Ly93d3cucGVtYnJva2VzaGlyZS5nb3YudWsvb2Jqdmlldy5hc3A_b2JqZWNOX2lkPTQwOTY&ntb=1 [Aed at y wefan ar: 03.09.24]

⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) South West Area Statement: Historic and natural environment. Ar gael yn:

<https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/southwestareastatement.pdf> [Aed at y wefan: 28.08.24]

⁷ BMG (2022) Arolwg Ymweliadau Diwrnod Twristiaeth Cymru: Adroddiad Blynyddol 2022. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2024-05/arolwg-ymweliadau-diwrnod-twristiaeth-cymru-adroddiad-blynyddol-2022.pdf> [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁸ Llywodraeth Cymru (2022) Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/proffil-economi-ymwelwyr-cymru-2021-html> [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁹ Llywodraeth Cymru (2021) – Proffil Twristiaeth 2017–2019 De-orllewin Cymru. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/proffil-twristiaeth-de-orllewin-cymru-2017-2019.pdf> [Aed at y wefan: 03.09.24]

¹⁰ Cronfa Treftadaeth. Ar gael yn: <https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/89335> [Aed at y wefan: 19.08.24]

¹¹ Cronfa Treftadaeth (2010) Investing in Success. Ar gael yn:

https://www.heritagefund.org.uk/sites/default/files/media/about_us/hlf_tourism_impact_single.pdf [Aed at y wefan: 19.08.24]

- Mae mwy na 10 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn yn ymweld ag atyniadau diwylliannol a threftadaeth Cymru.
- Mae twristiaeth dreftadaeth yn bwysicach fel sbardun economaidd yng Nghymru na'r DU yn ei chyfanrwydd.


2.2.2.9 Gyda'i hasedau naturiol a diwylliannol cyfoethog, mae twristiaeth hefyd yn rhan sylweddol a chynyddol o'r economi genedlaethol. De-orllewin Cymru oedd y brif gyrchfan ar gyfer 20% o deithiau. Roedd 1.77 miliwn o deithiau i dde-orllewin Cymru yn 2022¹².

2.2.2.10 Caglwyd y prif bwyntiau canlynol yn adroddiad Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (teithiau undydd yng Nghymru): Hydref i Ragfyr 2023¹³. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, gwnaeth trigolion Prydain Fawr 40.31 miliwn o deithiau hamdden undydd a barodd dair awr neu fwy yng Nghymru, gan wario £1.51 biliwn yn ystod y teithiau hyn.

- Roedd 40% o'r teithiau hamdden undydd a wnaed yng Nghymru yn deithiau twristiaeth undydd, a gwnaed 16.00 miliwn o deithiau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023, gyda gwariant cysylltiedig o £665 miliwn.
- Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2023, gwnaeth trigolion Prydain Fawr 167.77 miliwn o deithiau hamdden undydd a barodd dair awr neu fwy yng Nghymru, gan wario £5.43 biliwn yn ystod y teithiau hyn.

2.2.2.11 Daw'r adroddiad i'r casgliad hefyd mai ymweld â chyfeillion neu berthnasau oedd y prif weithgaredd amlaf a wnaed ar deithiau twristiaeth undydd yng Nghymru a Phrydain Fawr (gweler Ffigur B-3).

Ffigur B-3: Cyfran y teithiau twristiaeth undydd yng Nghymru a Phrydain Fawr fesul y prif weithgaredd a wnaed, Ionawr–Rhagfyr 2023




¹² Llywodraeth Cymru (2023) Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (teithiau dros nos yng Nghymru): 2022 Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-twristiaeth-ddomestig-prydain-fawr-teithiau-dros-nos-yng-nghymru-2022.html> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

¹³ Llywodraeth Cymru (2024) Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (teithiau undydd yng Nghymru): Hydref i Ragfyr 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-twristiaeth-ddomestig-prydain-fawr-teithiau-undydd-yng-nghymru-hydref-i-ragfyr-2023.html> [Aed at y wefan: 20.08.24]

Y trydydd sector

2.2.2.12 Ystod amrywiol iawn o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol, sy'n rhannu set o werthoedd a nodweddion yw'r trydydd sector, fel y'i diffinnir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn 2022, roedd y sector elusennol/gwirfoddol yn cyfrif am 15.5% o'r gyflogaeth yn ne-orllewin Cymru, a chyflogid oddeutu 41,842 o bobl mewn sefydliadau sector elusennol/gwirfoddol (gweler Ffigur B-4)¹⁴.

Ffigur B-4: Nifer y gweithwyr a gyflogir yn y sector gwirfoddol yn ne-orllewin Cymru fesul



Microfusnesau

2.2.2.13 Yn 2023, amcangyfrifwyd bod 248,000 o fentrau yn weithredol yng Nghymru a oedd yn cyflogi oddeutu 1.2 miliwn o bobl. Roedd mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru yn cyfrif am 62.3% o'r gyflogaeth a 43.4% o'r trosiant, ac roedd mentrau mawr yn cyfrif am y gweddill. Roedd mwyafrif y mentrau gweithredol yn fentrau bach a chanolig eu maint (0–249 o gyflogeion), gan gyfrif am 99.3% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru yn 2023. Roedd microfentrau (0–9 o gyflogeion) yn cyfrif am 94.6% o gyfanswm y mentrau yng Nghymru¹⁵.

Gweithgarwch Economaidd

2.2.2.14 Yn 2010, nododd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd¹⁶, ddau ffactor pwysig sy'n gyfrifol am sefyllfa economaidd gwannach Cymru o'i chymharu â gweddill y DU. Cyfradd cyflogaeth isel a chyflogau cyfartalog isel (sy'n adlewyrchu cynhyrchiant cyfartalog isel) yw'r rhain. Ym mis Tachwedd 2021, 73.8% oedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru o'i chymharu â 75.4% yn y DU¹⁷. Ym mis Mehefin 2024, 68.9% oedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru o'i chymharu â 74.5% yn y DU¹⁸. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â mis Tachwedd 2021, i Gymru ac i'r DU.

2.2.2.15 Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 73.5% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, sef cynnydd o 0.5 pwynt canran o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyfradd y DU oedd 75.4%, sy'n gynydd o 0.1 pwynt canran dros y flwyddyn¹⁹. Yn 2024,

¹⁴ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2024) Y Sector Gwirfoddol yng Nghymru. Ar gael yn: <https://wcva.cymru/cy/ly-sector-gwirfoddol-yng-nghymru/> [Aed at y wefan: 19.08.24]

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2023) Dadansoddiad o Faint y Busnesau, 2023. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-12/size-analysis-of-active-businesses-in-wales-2023-165.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2010) Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/docs/det/report/100705-economic-renewal-a-new-direction-cy.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2021) Trosolwg o'r farchnad lafur: Tachwedd 2021. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-tachwedd-2021> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2024) Trosolwg o'r Farchnad Lafur: Awst 2024. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-awst-2024> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁹ Llywodraeth Cymru (2024) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-r-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebryll-2023-i-fawrth-2024.html>. [Aed at y wefan ar 03.09.24]

mae cyflogaeth yn Abertawe wedi gostwng o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd cyflogaeth Abertawe yn is ledled Cymru yn ei chyfanrwydd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023²⁰.

2.2.2.16 Yn ôl maes cyflogaeth²¹ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)²² 2019 (gweler Ffigur B-5), yng nghymoedd de Cymru ac mewn rhai o drefi arfordirol gogledd Cymru yr oedd y lefelau uchaf o amddifadedd cyflogaeth. Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 74.1% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, sef cynnydd o 0.7 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Profodd Castell-nedd Port Talbot un o'r achosion mwyaf o gynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 4.3% i 73.8%). Y gyfradd gyflogaeth yn y Canolbarth a de-orllewin Cymru oedd 73.3%, ac ni newidiodd hyn yn ystod y flwyddyn²³.

²⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Employment, unemployment and economic inactivity in Swansea. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000011/> [Aed at y wefan ar 03.09.24]


²¹ Llywodraeth Cymru (2019) Adroddiad Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2019 Results. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report.pdf> [Aed at y wefan: 19.08.24]

²² Mae MALIC yn rhestru pob un o'r 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru o ran lefel yr amddifadedd y mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn ei harddangos ar gyfer maes penodol. Felly, mae'r rhai a leolir yn y 191 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% sydd fwyaf difreintiedig yn genedlaethol.

²³ Llywodraeth Cymru (2024) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth): 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/6/3/1719406014/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynnyddol-or-boblogaeth-2023.pdf>. [Aed at y wefan: 19.08.24]

Ffigur B-5: Map MALIC 2019 ar gyfer Cymru, Maes Cyflogaeth

**Welsh Index of Multiple Deprivation 2019
Employment Domain**




Ffynhonnell: MALIC 2019

2.2.2.17 Dengys data cyflogaeth yn y gweithle yn 2018, fod oddeutu 311,400 o bobl yn gweithio yn ne-orllewin Cymru, a bod bron i 40 y cant ohonynt wedi eu lleoli yn Abertawe. Y lefel cyflogaeth cyfartalog ar draws pedwar awdurdod lleol y rhanbarth oedd oddeutu 77,900 o bobl. Er mai hyn yw'r

lefel uchaf ymhlith y pedwar rhanbarth, mae'n cael ei ogwyddo'n gadarnhaol oherwydd y gyfran cyflogaeth uchel yn Abertawe²⁴.

2.2.2.18 Mae prisiau yng Nghymru wedi gostwng yn 2023, wrth i'r cynnydd mewn cyfraddau morgais leddfu'r galw. Mae fforddiadwyedd yng Nghymru o dan lai o bwysau nag mewn mannau eraill, sy'n golygu bod effaith cyfraddau morgais cynyddol yn llai difrifol. Y twf o 21.4% mewn prisiau yng Nghymru a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf yw'r cryfaf o unrhyw ran o'r DU (Ffigurau B-6 a B-7)²⁵.

Ffigur B-6: Y twf cyfartalog mewn prisiau (y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2023)




Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir EF (chwe mis wedi eu llyfnhau)

²⁴ Llywodraeth Cymru (2020) Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru: 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-05/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-de-orllewin-cymru-2020-312.pdf> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²⁵ Savills (2023) Welsh Housing Market and Supply Update – Tachwedd 2023. Ar gael yn: https://www.savills.com/research_articles/255800/354555-0 [Aed at y wefan: 03.09.24]

Ffigur B-7: Y gyfradd gyflogaeth, rhanbarthau economaidd, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2007 hyd fis Rhagfyr 2023



2.2.2.19 Canran y bobl mewn cyflogaeth yw un o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol. Mae carreg filltir genedlaethol wedi ei gosod ar gyfer y dangosydd cenedlaethol hwn sef dileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r gyfradd gyflogaeth yn y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn y farchnad lafur. Mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol ers 2011 ac mae'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r gyfradd gyflogaeth yn y DU wedi cau'n raddol i 1.7 pwynt canran yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, sef gostyngiad o 0.5 pwynt canran o'i gymharu â'r bwlch flwyddyn yn ddiweddarach²⁶.

2.2.2.20 20.4% oedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yn y Canolbarth a de-orllewin Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, sy'n ostyngiad o 0.2 pwynt canran dros y flwyddyn²⁷. 24.7% oedd anweithgarwch economaidd yn Sir Benfro yn 2024, sydd wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol²⁸. 23.2% oedd anweithgarwch economaidd yn Sir Gaerfyrddin yn 2024, sydd wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol²⁹. 24.2% oedd anweithgarwch economaidd yn Abertawe yn 2024, sydd wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol³⁰. 23.4% oedd anweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2024, sydd wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol³¹.

Enillion

2.2.2.21 Yr enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) ar gyfer oedolion llawn amser yn gweithio yng Nghymru ym mis Ebrill 2023 oedd £633.7. Roedd hyn yn 93.0% o gyfartaledd y DU (£681.7). Yr

²⁶ Llywodraeth Cymru (2024) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebryll-2023-i-fawrth-2024.html> [Aed at y wefan: 03.09.24]

²⁷ Llywodraeth Cymru (2024) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023.html> [Aed at y wefan: 03.09.24]

²⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Employment, unemployment and economic inactivity in Pembrokeshire. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000009/> [Aed at y wefan ar 03.09.24] 03.09.24]

²⁹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Employment, unemployment and economic inactivity in Carmarthenshire. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000010/> [Aed at y wefan: 03.09.24]

³⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Employment, unemployment and economic inactivity in Swansea. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000011/> [Aed at y wefan: 03.09.24]

³¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Employment, unemployment and economic inactivity in Neath Port Talbot. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/labourmarketlocal/W06000012/> [Aed at y wefan: 03.09.24]

enillion wythnosol gros canolrifol yng Nghymru oedd y nawfed uchaf ymhlith 12 o wledydd a rhanbarthau Lloegr y DU³².

Bodddhad Swydd

2.2.2.22 Canfu adroddiad Mynegai Gwaith Da 2024 Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu fod bodlonrwydd swydd yng Nghymru yn uchel yn 2024—mae dros ddau draean o'r cyflogeion yn fodlon ar eu swydd. Mae bodddhad cyflog hefyd yn dangos rhai gwelliannau addawol yn 2024, ac mae bron i hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod eu cyflog yn adlewyrchu eu cyflawniadau a'u cyfrifoldebau. Mae hyblygrwydd a chydbywysedd rhwng bywyd a gwaith yn enwedig o gadarnhaol yng Nghymru eleni, ac mae dros dri chwarter yr ymatebwyr yn ei chael hi'n rhwydd cymryd amser i ffwrdd yn ystod oriau gwaith³³.

Y pellter a deithir i'r gwaith

2.2.2.23 Yn ystod 2021, canran y bobl 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth a oedd yn gweithio gartref yn bennaf neu o'u cartref yn Abertawe oedd 25.3%, yng Nghastell-nedd Port Talbot 21.1%, yn Sir Gaerfyrddin 23.5% ac yn Sir Benfro 23.1%. Yng Nghymru a Lloegr, o'r rhai a deithiai i weithle neu ddepo, roedd 9.8 miliwn o bobl (35.4% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith) yn teithio pellter byr i'r gwaith (llai na 10 cilometr). Gan edrych yn fanylach yn y grŵp hwn:

- teithiai 3.1 miliwn o bobl lai na dau gilometr (11.0% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn cyflogaeth)
- teithiai 3.5 miliwn o bobl o leiaf dau gilometr a llai na phum cilometr (12.6%)
- teithiai 3.3 miliwn o bobl o leiaf pum cilometr a llai na 10 cilometr (11.8%)³⁴

2.2.2.24 Yn 2018, yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -5,700, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r rhanbarth nag i mewn iddo (gweler Ffigur B-8)³⁵.


³² Llywodraeth Cymru (2024) Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2023> [Aed at y wefan: 19.08.24]

³³ Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (2024) Good Work Index 2024. Ar gael yn: <https://www.cipd.org/globalassets/media/knowledge/knowledge-hub/reports/2024-pdfs/8625-good-work-index-wales-2024-report-web.pdf> [Aed at y wefan: 19.08.24]

³⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) Teithio i'r gwaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/traveltoworkenglandandwales/census2021> [Aed at y wefan: 21.08.24]

³⁵ Llywodraeth Cymru (2020) Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru: 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-05/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-de-orllewin-cymru-2020-312.pdf> [Aed at y wefan: 21.08.24]


Ffigur B-8: Y newid mewn poblogaethau awdurdodau lleol yn ne-orllewin Cymru o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2018



2.2.2.25 Dengys data Cyfrifiad 2011, ar gyfartaledd, fod gan breswylwyr 16–74 oed sy'n gweithio ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, bellteroedd hirach i gymudo i'r gwaith na'r cyfartaledd yng Nghymru. Trigolion Sir Benfro oedd â'r teithiau cymudo hwyaf i'r gwaith o ran pellter.

2.2.2.26 O'r trigolion yng Nghymru a oedd dros 16 oed ac mewn cyflogaeth ac a ddywedodd mai gweithle neu ddepo oedd eu prif weithle, y pellter mwyaf cyffredin a deithiwyd oedd rhwng pump a 10 cilometr, ac roedd y rhain yn cyfrif am 21.1% o'r rhai a oedd yn teithio i'r gwaith (gweler Ffigur B-9)³⁶.

Ffigur B-9: Y pellter a deithid i'r gwaith gan breswylwyr arferol 16 oed a hŷn yng Nghymru, 2021



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

³⁶ Llywodraeth Cymru (2022) Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> [Aed at y wefan: 30.08.24]

2.2.2.27 Yn ystod 2022–23, roedd 77% o'r bobl 16 i 24 oed yn teithio i'r un gweithle bob dydd o'u cymharu â 59% o bobl 45 i 64 oed. Mae pobl 16 i 24 oed yn llai tebygol o weithio o bell na grwpiau oedran hŷn, 16% o'u cymharu â 37% ar gyfer y bobl 25 i 44 oed. Dywed 34% o bobl sydd mewn gwaith eu bod yn gweithio o bell am rywfaint o'u horiau gwaith neu eu holl oriau gwaith. O'r rhai nad ydynt yn arfer gweithio o bell, dywed 21% y byddai'n bosibl iddynt wneud eu gwaith o bell³⁷.


Taith i'r gwaith fesul dull

2.2.2.28 Noda Cyfrifiad 2021, yng Nghymru, allan o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd sydd mewn cyflogaeth³⁸:

- Teithiai 772,600 o bobl i'r gwaith drwy yrru car neu fan (56.5% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn cyflogaeth)
- Teithiai 66,000 fel teithwyr mewn car neu fan (4.8%)

2.2.2.29 Roedd y ganran amcangyfrifedig o bobl a yrrai gar neu fan i'r gwaith yn fwy yng Nghymru na Lloegr (44.5%, 11.8 miliwn). Dengys Ffigur B-10 mai'r categori mwyaf heblaw gyrru car neu fan yw cerdded, ac mae hyn yn cyfrif am 7.1% o'r rhai sy'n teithio i'r gwaith.

Ffigur B-10: Dull teithio i'r gwaith heblaw gyrru car neu fan ar gyfer preswylwyr arferol 16 oed a hŷn yng Nghymru, 2021



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Bod yn Berchen ar Gar


2.2.2.30 Mae Cymru'n parhau i fod â'r gyfran uchaf o bobl sy'n teithio i'r gwaith mewn car (oddeutu 75–80%) o'i chymharu â gwahanol ranbarthau Lloegr neu'r Alban. Mae'r mwyafrif o deithiau personol yng Nghymru o bellter cymharol fyr, wyth milltir ar gyfartaledd. Mae amrywiaeth rhwng lefelau teithio llesol mewn lleoliadau trefol a lleoliadau gwledig. Cerddodd 70% o bobl mewn ardaloedd trefol am fwy na 10 munud fel dull teithio o leiaf unwaith y mis, o'u cymharu â 56% o bobl mewn ardaloedd gwledig.

³⁷ Llywodraeth Cymru (2023) Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-prif-ganlyniadau-ebriill-2022-i-fawrth-2023-html> [Aed at y wefan: 19.08.24]

³⁸ Llywodraeth Cymru (2022) Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> [Aed at y wefan: 30.08.24]

- 2.2.2.31 Car preifat yw'r prif ddull teithio o hyd ac mae'n cyfrif am y mwyafrif llethol o deithiau yng Nghymru. Wrth gyfuno data o 2011 a 2012, ceir preifat sy'n cyfrif am 69% o'r holl deithiau, a 84% o'r pellter a gwmpesir mewn blwyddyn³⁹.
- 2.2.2.32 Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos yr aelwydydd yn ne-orllewin Cymru sy'n berchen ar un car neu fan. Dengys Cyfrifiad 2021 mai 13.1% oedd canran yr aelwydydd â thri char neu fan yn Sir Benfro, 9.5% yng Nghastell-nedd Port Talbot, 9.2% yn Abertawe, a 13.1% yn Sir Gaerfyrddin⁴⁰ (Ffigur B-11).

Ffigur B-11: Map o aelwydydd sydd ag un car neu fan



Band eang

- 2.2.2.33 Adroddodd Ofcom ym mis Rhagfyr 2023 fod y gallu i gael rhwydweithiau ffibr llawn yn parhau i dyfu yng Nghymru. Mae ffeibr llawn bellach ar gael i 55% fesul 798,000 o safleoedd preswyl, sydd ychydig yn is na chyfartaledd y DU, sef 57%. Mae amrywiaeth sylweddol yn y nifer sy'n defnyddio ffeibr llawn ledled yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae cwmpas daearyddol 4G gan y pedwar gweithredwr wedi aros yn sefydlog yng Nghymru ar 62%. Mae lefel uchel o safleoedd awyr agored 4G yng Nghymru a gwmpesir o hyd, ac mae gan 94% o'r safleoedd gwmpas 4G awyr agored gan y pedwar gweithredwr, o'u cymharu â 98% ledled y DU. Yn gyffredinol, mae defnyddio band eang cyflym iawn a ffeibr llawn yn fwy anodd a chostus mewn ardaloedd gwledig nag mewn dinasoedd a threfi mwy. Cwmpas cyflym iawn Abertawe yw 99%, Sir Gaerfyrddin 91%, Sir Benfro 93% a Chastell-nedd Port Talbot 98%⁴¹.

³⁹ Llywodraeth Cymru (2021) A New Wales Transport Strategy Consultation Draft- Supporting Information Transport data and trends. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-11/supporting-information-transport-data-and-trends.pdf> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

⁴⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth/housing/number-of-cars-or-vans/number-of-cars-5a/3-or-more-cars-or-vans-in-household> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

⁴¹ Ofcom (2023) Cysylltu'r Gwledydd, Adroddiad Cymru 2023. Ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/research-and-data/multi-sector/infrastructure-research/connected-nations-2023/cysylltur-gwledydd-2023-adroddiad-cymru?v=330647> [Aed at y wefan: 19.08.24]

Y Gallu i Ddefnyddio Gwasanaethau

2.2.2.34 Noda MALIC 2019⁴² amddifadedd mewn cysylltiad â'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau. Mae maes mynediad at wasanaethau yn mesur amseroedd teithio i fynd at amrywiaeth o wasanaethau fel procsi ar gyfer mynediad corfforol ehangach at wasanaethau. Ar gyfer MALIC 2019, mae'r maes hefyd yn ystyried y gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol, drwy ddangosydd sy'n dangos y graddau y mae band eang cyflym iawn ar gael. Mae mesurau y maes yn cynnwys y gallu i ddefnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- Siop fwyd
- Meddygfa Meddyg Teulu
- Swyddfa'r Post
- % y diffyg band eang ar 30Mb/eiliad
- Ysgol Gynradd
- Llyfrgell Gyhoeddus
- Cyfleuster Chwaraeon
- Ysgol Uwchradd
- Gorsaf Betrol
- Fferyllfa


2.2.2.35 Mae Ffigur B-12 yn cyflwyno'r sgoriau cyffredinol ledled Cymru. Ym maes gallu i ddefnyddio gwasanaethau MALIC 2019, roedd amddifadedd uchel yn gyffredin ledled ardaloedd gwledig Cymru. Roedd rhai pocedi o amddifadedd i'w cael hefyd yn agos at ardaloedd trefol mawr. Nid oedd gan Gastell-nedd Port Talbot unrhyw ardaloedd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig. Ar gyfer y maes gallu i ddefnyddio gwasanaethau, yr ardal bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cynwyl Gaeo, Sir Gaerfyrddin, yr un fath ag ar gyfer MALIC 2014. Roedd chwech o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2019 yn dal yn y 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2014. Mae'r patrymau amddifadedd cyffredinol o ran gallu i ddefnyddio gwasanaethau ym MALIC 2019 yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer MALIC 2014. Fodd bynnag, bu newidiadau nodedig i safleoedd cymharol ar y pen lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwelliannau sylweddol yn y cyfrifiadau amser teithio, yn ogystal â newidiadau posibl i leoliadau gwasanaethau, trafndiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau ffyrdd ers 2014, a dangosydd newydd y gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol a gynhwysir.

⁴² Llywodraeth Cymru (2019) Adroddiad Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2019 Results. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report.pdf> [Aed at y wefan: 19.08.24]

Ffigur B-12: Gallu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is i ddefnyddio gwasanaethau yng Nghymru

Welsh Index of Multiple Deprivation 2019

Access to Services Domain



Ffynhonnell: MALIC 2019

2.2.2.36 Mae Tabl B-1 yn dangos, ar gyfer Mynegai cyffredinol MALIC 2019, ganran yr ardaloedd bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) ym mhob awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru a oedd ymhlith y 10%, 20%, 30% a 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru⁴³.

Tabl B-1: Mynegai cyffredinol MALIC yn ne-orllewin Cymru

Awdurdod Lleol	Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mewn awdurdod lleol	% yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig, safleoedd 1– 191	% yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 20% mwyaf difreintiedig, safleoedd 1– 382	% yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig, safleoedd 1– 573	% yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig, safleoedd 1– 955
Sir Benfro	71	5.6	11.3	15.5	42.3
Sir Gaerfyrddin	112	4.5	10.7	26.8	54.5
Abertawe	148	11.5	23.6	31.1	45.9
Castell-nedd Port Talbot	91	15.4	33.0	45.1	69.2

2.3 Addysg yng Nghymru

2.3.1 Perthnasedd i CTRh De-orllewin Cymru

2.3.1.1 Mae addysg yn ffactor sylfaenol wrth ddatblygu sgiliau pobl, ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac ar gyfer bywyd yn gyffredinol. Cysylltir gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol yn uniongyrchol â mwy o incwm, cyflogaeth a thwf economaidd cyffredinol. Yn benodol, mae addysg a hyfforddiant i fodloni'r setiau sgiliau sydd eu hangen i dyfu'r economi o'r pwys mwyaf. Mae Pennod 4 o'r atodiad hwn yn nodi gwybodaeth penodol ychwanegol am gysylltiadau rhwng trafndiaeth a phobl ifanc, gan gynnwys mewn cysylltiad â'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd addysgol.

2.3.1.2 Mae gan y CTRh swyddogaeth allweddol o ran sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant ac, wrth wneud hynny, cefnogi datblygiad addysgol ac economi iach.

2.3.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

Addysg/Hyfforddiant

2.3.2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar weithgareddau dysgu a statws marchnad llafur pobl ifanc (16 i 24 oed) yng Nghymru. Mae'r gyfres ddata ar gyfer 2022 yn canolbwyntio ymhellach ar gyfran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. O ran pobl ifanc 16–18 oed, roedd oddeutu 13.3% yn NEET, sef gostyngiad o'r flwyddyn flaenorol pan oedd 14.2% yn NEET. O ran pobl 19–24 oed, yn 2022, roedd oddeutu 14.6% yn NEET, sy'n ostyngiad o 17.3% yn 2021. Yn 2022, roedd 15.5% o'r bobl 16 i 18 oed a ystyriwyd yn NEET yn fenywod o'u

⁴³ Llywodraeth Cymru (2019). Adroddiad Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2019 Results. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report-024.pdf> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

cymharu â 11.2% o wrywod. Ar gyfer pobl 19–24 oed, roedd 11.2% o'r NEET hynny yn fenywod o'u cymharu â 17.6% o wrywod⁴⁴.

2.3.2.2 O ran pobl 19–24 oed yn ystod 2022, roedd 29.5% ohonynt mewn addysg llawn amser ac roedd 4.1% mewn addysg ran-amser. Roedd cyfran uwch o fenywod (10.9%) mewn addysg llawn amser o'u cymharu â 9.1% o wrywod 19–24 oed yn 2022⁴⁵.

2.3.2.3 Yn 2023, roedd lefelau Cymwysterau yng Nghymru yn is na'r DU yn ei chyfanrwydd. Amcangyfrifwyd nad oedd gan 7.9% o'r oedolion o oed gweithio yng Nghymru unrhyw gymwysterau yn 2023. Gostyngiad o 0.4 pwynt canran o'i chymharu â 2022. Roedd gan 67.4% gymwysterau lefel 3 neu uwch, ac roedd gan 45.0% gymwysterau lefel 4 neu uwch. Roedd benywod yn fwy tebygol na gwrywod o fod yn gymwys hyd at lefel 4 neu uwch, ac roeddent yn llai tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau. O blith yr holl oedolion oedran gweithio, grŵp oedran 25 i 34 oedd y gyfran uchaf a chanddynt gymwysterau yn 2023⁴⁶. Mae Tabl B-2 yn dangos lefelau cymhwyster uchaf oedolion o oed gweithio ledled Cymru.

2.3.2.4 Mae canlyniadau addysgol ôl-16 gwaeth yng Nghymru, gyda chyfran uwch o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant nag yng ngweddill y DU (11% o'u cymharu â 5–9%), lefelau is yn cyfranogi mewn addysg uwch (yn enwedig ymhlith bechgyn) a lefelau is o gyflogaeth ac enillion i'r rhai sydd o gefndiroedd difreintiedig⁴⁷.

Tabl B-2: Lefelau cymhwyster uchaf oedolion o oed gweithio fesul rhanbarthau Cymru a chymhwyster (Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ym Mis Rhagfyr 2023)

Ardal	Dim cymwysterau	Cymwysterau yn is na lefel 2	Cymwysterau hyd at lefel 2 neu uwch	Cymwysterau hyd at Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 3 neu uwch	Cymwysterau hyd at Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 4 neu uwch
Cymru	7.9%	4.7%	87.4%	67.4%	45.0%
Gogledd Cymru	8.0%	5.7%	86.3%	65.1%	43.8%
Canolbarth Cymru	4.5%	3.2%	92.2%	71.4%	45.7%
De-orllewin Cymru	8.0%	4.1%	87.9%	69.4%	45.0%
De-ddwyrain Cymru	8.3%	4.7%	87.0%	66.9%	45.5%

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru

⁴⁴ Llywodraeth Cymru (2023) Amcangyfrif o unigolion 16–24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Lifelong-Learning/Participation-of-Adults-and-Young-People/estimated1624neet-by-economicactivity-agegroup> [Aed at y wefan: 21.08.24]

⁴⁵ Llywodraeth Cymru (2022) StatsCymru: Cyfranogiad unigolion 16–30 oed mewn addysg yn ôl dull, oedran a blwyddyn. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Lifelong-Learning/Participation-of-Adults-and-Young-People/participationof1630yearoldsineducation-by-mode-age-year> [Aed at y wefan: 21.08.24]


⁴⁶ Llywodraeth Cymru (2024) Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddelir-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2023.html> [Aed at y wefan: 21.08.24]

⁴⁷ Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2024) Major challenges for education in Wales. Ar gael yn: https://ifs.org.uk/sites/default/files/2024-03/Major-challenges-for-education-in-Wales-IFS-REPORT_0.pdf [Aed at y wefan: 21.08.24]

2.3.2.5 Mae dosbarthiad Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a'u hamddifadedd cymharol ym maes addysg yn dangos amrywiad rhanbarthol mewn cyrhaeddiad addysgol a'r gallu i gael addysg. Dangosir hyn yn Ffigur B-13 isod. Cymoedd de Cymru yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru o safbwynt addysgol. Mae rhannau o'r ardaloedd trefol megis Abertawe hefyd sy'n dioddef o amddifadedd addysgol.

Ffigur B-13: Amddifadedd Addysg mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru

Welsh Index of Multiple Deprivation 2019 Education Domain




Ffynhonnell: MALIC 2019


Teithio i'r Ysgol

2.3.2.6 Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021–22 yn dangos bod 47% o blant ysgol yn cerdded i'r ysgol o'u cymharu â 33% o blant ysgol uwchradd (gweler Ffigur B-14). Mae'r dull teithio i'r ysgol yn amrywio gan ddibynnu ar a yw'r plentyn yn byw mewn ardal drefol neu wledig. Mae 51% o blant ysgol cynradd sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn cerdded i'r ysgol o'u cymharu â 39% sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (gweler Ffigur B-15). Roedd y gwahaniaeth hwn yn fwy amlwg mewn cymudiadau ysgol uwchradd, lle mae 45% o'r plant mewn ardaloedd trefol yn cerdded i'r ysgol o'u cymharu â 12% o'r plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig⁴⁸.

Ffigur B-14: Dull teithio, fesul math o ysgol



Ffigur B-15: Dull teithio i/o'r ysgol Uwchradd drwy ddsbarthiad trefol/gwledig



(a) Efallai na fydd y cyfansymiau yn dod i 100% oherwydd y gellir dewis dulliau lluosog o deithio.

2.3.3 Bylchau data

- Data sy'n ymwneud â'r rhwystrau i gerdded i'r ysgol yng Nghymru.

⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2022) Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-prif-ganlyniadau-ebriill-2021-i-fawrth-2022-html> [Aed at y wefan: 21.08.24]

- Data sy'n ymwneud â rhaniad moddol teithiau trafndiaeth yng Nghymru.
- Ar gyfer yr holl ddata a gasglwyd, efallai y bydd gwahaniaethau rhywedd nad adlewyrchir yn y ffynonellau y'u casglwyd ohonynt.
- Gwerth ychwanegol gros yn ne-orllewin Cymru fesul diwydiant
- Microfusnesau yn ne-orllewin Cymru
- Enillion yn ne-orllewin Cymru
- Boddhad swydd yn ne-orllewin Cymru
- Y pellter a deithir i'r gwaith yn ne-orllewin Cymru
- Dull o deithio i'r gwaith yn ne-orllewin Cymru
- Lefelau cymwysterau yn ne-orllewin Cymru
- Teithio i'r ysgol yn ne-orllewin Cymru

2.4 Materion Allweddol sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd i fynd i'r afael â nhw

2.4.1 Materion

- 2.4.1.1 Mae economi Cymru yn alinio'n agos â gweddill y DU. Bu symudiad tuag at gyflogaeth y sector gwasanaeth a dirywiad mewn diwydiant trwm; mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu amrywiol o hyd.
- 2.4.1.2 Mae gwahaniaethau rhanbarthol o ran anweithgarwch economaidd, gyda gostyngiadau yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, ond mae Sir Benfro ac Abertawe wedi gweld cynnydd.
- 2.4.1.3 Yn 2023, roedd lefelau Cymwysterau yng Nghymru yn is na'r DU yn ei chyfanrwydd.
- 2.4.1.4 Mae'r demograffig iau yn llawer llai tebygol o weithio gartref na grwpiau oedran hŷn.
- 2.4.1.5 O'i chymharu â gweddill y DU, disgwylir i Gymru brofi'r twf mwyaf mewn prisiau tai o fewn y pum mlynedd nesaf.
- 2.4.1.6 Mae natur wledig iawn de-orllewin Cymru yn arwain at ardaloedd trefol cymharol fach, a fyddai fel arall yn cael eu cysylltu'n gryfach ag effeithiau ymgasglu, yn dylanwadu ar berfformiad economaidd cymharol wael.

2.4.2 Cyfleoedd

- 2.4.2.1 Mae'r CTRh yn rhoi cyfle i'r economi gael ei harwain tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Gall hyn fod drwy hybu seilwaith teithio cynaliadwy a thrwy wella mynediad i ganolfannau cyflogaeth. Gall hefyd ddarparu fframwaith sy'n fwy ymatebol i anghenion yr economi ac sy'n gallu cefnogi sectorau newydd, sy'n dod i'r amlwg a chefnogi'r broses o bontio rhai presennol drwy greu a gwella rhwydweithiau. Yn ogystal â hynny, gall hefyd helpu i arwain y broses o greu amgylchedd sy'n ddeniadol i fewnuddsoddiad ac sy'n annog mynediad cynaliadwy at swyddi. Yn yr un modd, gallai'r CTRh hwyluso gwelliannau o ran mynediad at gyfleusterau addysg ac iechyd.
- 2.4.2.2 Gallai'r CTRh geisio helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi ac anghydraddoldeb drwy'r gallu i gael gwell addysg, gwell cysylltedd rhwng cymunedau a mynediad at swyddi a'r farchnad swyddi.

- 2.4.2.3 Gallai CTRh hybu'r defnydd o deithio llesol er mwyn annog y demograffig hŷn i gymudo i'r gwaith. Hefyd, gallai hyn helpu i gynnal y cynnydd mewn cyfraddau anweithgarwch economaidd yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot os yw swyddi'n fwy hygyrch drwy gysylltiadau trafndiaeth, gan leihau'r cynnydd yn Abertawe a Sir Benfro ar yr un pryd.
- 2.4.2.4 Mae cyfle i hybu'r defnydd o deithio llesol i ysgolion cynradd ac uwchradd drwy gynlluniau cerdded i'r ysgol. Gellid addasu ac estyn hyn er mwyn annog oedolion i ddefnyddio dulliau trafndiaeth llesol ar gyfer teithio i'r gwaith a hyfforddiant.
- 2.4.2.5 Mae'r CTRh yn gyfle i wella dulliau trafndiaeth cynaliadwy a chyhoeddus i leoliadau twristiaeth, er mwyn hwyluso cynnydd yn nifer y twristiaid.
- 2.4.2.6 Mae cyfle i'r CTRh leihau tagfeydd drwy hybu teithio llesol a thrafndiaeth gyhoeddus drwy ailddyrranu lle ar y ffordd a dulliau teithio cynaliadwy integredig.

3 Nod Llesiant: Cymru Gadarn

3.1.1.1 Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).

3.1.1.2 Mae'r data'n ymwneud yn bennaf â:

- Ansawdd yr Aer;
- Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna;
- Yr Hinsawdd a Risg Llifogydd
- Daeareg a Phridd;
- Yr Amgylchedd Dŵr; a
- Mwynau a Gwastraff.

3.2 Ansawdd yr Aer

3.2.1 Perthnasedd i CTRh De-orllewin Cymru

3.2.1.1 Mae aer glân yn bwysig ar gyfer iechyd dynol ac iechyd yr amgylchedd naturiol. Ansawdd aer gwael yw'r risg amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU, oherwydd y gall amlygiad hirdymor i lygredd aer achosi cyflyrau cronig megis clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol yn ogystal â chanser yr ysgyfaint, gan arwain at ddisgwyliad oes is⁴⁹. Amcangyfrifir bod disgwyliad oes pawb yn y DU yn cael ei leihau 7–8 mis ar gyfartaledd oherwydd llygredd aer⁵⁰. Gall llygredd aer effeithio'n uniongyrchol ar llystyfiant (e.e. drwy ddod i gysylltiad â sylffwr deuocsid neu lefelau uchel o osôn), neu effeithio'n anuniongyrchol ar yr amgylchedd ehangach drwy ddyddodi llygryddion. Gall dyddodi llygryddion effeithio'n andwyol ar statws asid a maethynnau priddoedd a dyfroedd, a all, yn ei dro, effeithio ar ansawdd cynefinoedd a'r ffawna a'r fflora y maent yn eu cefnogi. Mae cyflwyno deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae ansawdd aer yn cael ei reoli, er bod gan y system gynllunio swyddogaeth fawr i'w chwarae hefyd.

3.2.1.2 Trafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd aer a sŵn yn y DU. Gall y CTRh ddylanwadu ar ansawdd aer a llygredd sŵn drwy sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar yr egwyddor o leihau allyriadau drwy'r newid i weithredu'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy.

3.2.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

3.2.2.1 Problem lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a achosir gan allyriadau llygryddion yw llygredd aer. Yng Nghymru, mae ansawdd yr aer yn dda iawn ar y cyfan, yn bennaf oherwydd ei natur wledig a'i dirywiad hanesyddol mewn diwydiant trwm sydd wedi arwain at ostyngiad mewn rhai llygryddion a allyrrir, megis deunydd gronynnol a Nitrogen Deuocsid (NO₂). Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r wlad sy'n profi lefelau uchel iawn o lygredd lleol, yn nodedig oherwydd traffig ar y ffyrdd. Mae targedau NO₂, deunydd gronynnol, hydrocarbonau aromatig polysyglig a nicel yn dal i gael eu torri


⁴⁹ Public Health England (2018) Health matters: air pollution. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/health-matters-air-pollution/health-matters-air-pollution> [Aed at y wefan: 20.08.24]

⁵⁰ Defra (2011) The Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland, Volume 1. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/the-air-quality-strategy-for-england-scotland-wales-and-northern-ireland-volume-1> [Aed at y wefan: 20.08.24]

mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae hynny'n peri bygythiad i iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol⁵¹.

3.2.2.2 Mae 44 Ardal Rheoli Ansawdd Aer dynodedig yng Nghymru ar hyn o bryd⁵². Mae tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin, un yng Nghastell-nedd Port Talbot, dwy yn Sir Benfro ac un yn Abertawe (gweler Ffigur B-16). Mae naw Ardal Rheoli Ansawdd Aer dynodedig sydd wedi eu diddymu yng Nghymru, ac ym Mro Morgannwg yn 2021 y diddymwyd yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer olaf.

Ffigur B-16: Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Ne-orllewin Cymru




3.2.2.3 Mae trafndiaeth ar y ffyrdd yn cyfrif am bron i draean o'r holl allyriadau NO₂ yn y DU, a thrafnidiaeth yw'r ffnhonnell fwyaf o lygredd aer yn y DU (gweler Ffigur B-17). Y prif gyfrannwr at allyriadau NO_x yn y DU yw trafndiaeth ar y ffyrdd, sef y sector sydd hefyd wedi cofnodi'r gostyngiad mwyaf mewn allyriadau ers 1990.

⁵¹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-structure-and-contents/?lang=cy> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁵² Llywodraeth Cymru (2021) : Ansawdd Aer Cymru: Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Ar gael yn: <https://www.airquality.gov.wales/cy/laqm/air-quality-management-areas> [Aed at y wefan: 30.08.24]

Ffigur B-17: Allyriadau blynyddol ocsidau nitrogen y DU fesul ffynonellau allyriadau mawr 1990, 2005, 2018 a 2019



3.2.2.4 Mae amonia hefyd yn parhau i fod yn broblem, fel llygrydd aer lleol ac fel cyfrannwr at ffurfio deunydd gronynnol eilaidd, gan gynnwys ffurfio gronynnau mân iawn (deunydd gronynnol 2.5), a all gael effaith mwy difrifol ar iechyd dynol na deunydd gronynnol 10 sy'n fwy o ran maint. Yn wir, mae 88% o gynefinoedd sensitif Cymru yn tueddu i gael dyddodiad nitrogen sydd y tu hwnt i'r terfynau llwyth critigol, gan gynnwys 61% o'r coetir lled-naturiol hynafol yng Nghymru sy'n cael crynodiadau amonia sydd dros y Lefel Gritigol ar gyfer ecosystemau sy'n gyfoethog o ran cennau a mwsogl. Ceir achosion tebyg o fynd y tu hwnt i'r terfynau llwyth mewn corsydd, rhostiroedd a glaswelltiroedd asid⁵³. Gall hyn arwain at wenwyndra uniongyrchol yn yr ecosystemau a newidiadau mewn casgliadau rhywogaethau. Gall amonia godi, o'r sector nwyddau yn bennaf, o ganlyniad i lithriad amonia o Ostyngiad Catalytig Dewisol, a ddylunnir i leihau gollyngiadau ocsidau nitraidd.

3.2.2.5 Mae gan Gymru rywfaint o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU, sy'n syndod o ystyried ei dwysedd poblogaeth isel a'i dinasoedd cymharol fach. Canfu adroddiad yn 2018 fod gan Gaerdydd a Chastell-nedd Port Talbot lefelau uwch o ddeunydd gronynnol 10 na Birmingham neu Fanceinion. Mae pum safle hefyd ar gefnffyrdd traffordd (lle mae crynodiadau NO₂ sy'n uwch na lefel y terfyn) lle y cyflwynwyd terfynau cyflymder ym mis Mehefin 2018 er mwyn gwella ansawdd yr aer⁵⁴.

3.2.2.6 Dengys Ffigur B-18 y tueddiadau mewn llygredd aer amgylchynol rhwng 1990 a 2022⁵⁵. Er nad oedd unrhyw achosion o dorri terfynau ansawdd aer yr UE yn 2020 o ran deunydd gronynnol 10;


⁵³ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-structure-and-contents/?lang=cy> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁵⁴ Llywodraeth Cymru (2019) Mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd yng Nghymru. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/mynd-ir-afael-a-chrynodiadau-o-nitrogen-deuocsid-wrth-ymyl-y-ffordd-yng-nghymru_0.pdf [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁵⁵ Llywodraeth Cymru (2020) Ansawdd Aer Cymru 2020. Ar gael yn: https://www.airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2021-10/AQ-Wales-2020_Welsh_Final.pdf [Aed at y wefan: 30.08.24]

aed y tu hwnt i'r terfynau NO₂ mewn dau safle. NO₂ oedd y catalydd ar gyfer dynodi pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer yng Nghymru (ac eithrio un). Mae trafnidiaeth ar y ffyrdd yn cyfrif am bron i draean o'r holl allyriadau NO₂ yn y DU.

Ffigur B-18: Tueddiadau Llygredd Aer Amgylchynol yng Nghymru 1990–2022



(Ffynhonnell: Ansawdd Aer Cymru 2022/23)

- 3.2.2.7 Yn 2022, roedd crynodiadau amgylchynol o ddeunydd gronynnol 10 yn 'gymedrol' ar 40 diwrnod, yn 'uchel' ar wyth diwrnod ac yn 'uchel iawn' ar un diwrnod (fel y'u diffinnir gan fandiau Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol). Ar y cyfan, roedd lefelau llygredd yng Nghymru yn isel am 284 diwrnod, yn gymedrol am 66 diwrnod, yn uchel am 14 diwrnod ac yn uchel iawn am un diwrnod. Felly, yn ystod 78% o'r amser, roedd y lefelau llygredd yn isel ledled Cymru gyfan.
- 3.2.2.8 Mae sawl rhwydwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol sy'n gweithredu ledled Cymru. Defnyddir y rhwydweithiau hyn i sicrhau bod gofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni ac i ddarparu gwybodaeth am ansawdd aer i ymchwilwyr, y gymuned feddygol ac aelodau o'r cyhoedd⁵⁶.
- 3.2.2.9 Mae sgrinio wedi digwydd ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn 2023. Nod y bil hwn yw gwella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd dynol, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi. Anelir hyn ar lefel Cymru gyfan, ar lefel lleol a rhanbarthol a thrwy gymdeithas⁵⁷.
- 3.2.2.10 Er nad yw osôn yn cael ei ollwng yn uniongyrchol o gerbydau, ffurfir y cyfansoddyn yn yr atmosffer drwy adweithiau sy'n cynnwys allyriadau cerbydau, gan gynnwys hydrocarbonau ac ocsidau nitraidd, a golau haul. Mae'r gyfradd y mae'r adweithiau yn mynd rhagddynt yn gysylltiedig â thymheredd a dwyster golau yr haul.

Bylchau data

- A oes gan y manau lle ceir problemau o ran ansawdd aer gwael unrhyw berthynas ag ardaloedd lle mae anghyfartaledd economaidd?

⁵⁶ Llywodraeth Cymru (2022) Ansawdd Aer Cymru 2022/23. Ar gael yn: https://www.airquality.gov.wales/sites/default/files/documents/2023-11/AQ-Wales-2022-Welsh_Final.pdf [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁵⁷ Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-03/environment-air-quality-and-soundscapes-wales-bill-health-impact-assessment.pdf> [Aed at y wefan: 23.08.24]

- Y dull trafnidiaeth unigol yn cyfrannu at ansawdd aer yn hytrach na thrafnidiaeth ar y ffyrdd.
- Data llygredd aer amgylchynol ar gyfer de-orllewin Cymru.

3.3 Sŵn


3.3.1 Perthnasedd i'r CTRh

3.3.1.1 Gall llygredd sŵn gael effaith niweidiol ar iechyd pobl a'r amgylchedd, o darfu ar gynefinoedd gwarchoddedig i gollu clyw a thitinws. Mae trafnidiaeth yn gyfrifol am lawer o lygredd sŵn yn y DU. Rhaid i'r CTRh gynllunio rhwydweithiau trafnidiaeth er mwyn osgoi ardaloedd sy'n sensitif i lygredd sŵn. Rhaid iddo geisio gweithredu mesurau hefyd a fydd yn ceisio lleihau traffig yn gyffredinol, gan arwain at leihad yn y llygredd sŵn cyffredinol a lleihad mewn pwysau ar amgylcheddau llonydd.

3.3.2 Tueddiadau a Chyflyrau Sylfaenol

3.3.2.1 Mae llygredd sŵn o reilffyrdd yn digwydd yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot⁵⁸. Dengys Ffigur B-19 y sŵn o'r rheilffyrdd yn 2019.

Ffigur B-19: Sŵn o'r rheilffyrdd yn ne-orllewin Cymru




Ffynhonnell: Extrium

3.3.2.2 Pwysleisia Ffigur B-20 fod sŵn ffyrdd o ffyrdd yn canolbwyntio o amgylch yr M4 yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin ac Abertawe a ffyrdd 'A' cyfagos.

⁵⁸ Extrium (2019) Wales Noise Viewer – Rail. Ar gael yn: <http://extrium.co.uk/walesnoiseviewer.html> [Aed at y wefan: 06.08.24]

Ffigur B-20: Sŵn o'r ffordd yng Nghymru



Ffynhonnell: Extrim


- 3.3.2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn nifer o gwynion am sŵn trafndiaeth⁵⁹. Mae Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru yn ystyried sut mae'r sŵn a gynhyrchir gan y system drafndiaeth yn newid wrth i fwy o ddulliau trafndiaeth trydanol gael eu datblygu. Mae'r dulliau trydan hyn yn lleihau llygredd sŵn yn sylweddol. Ym mis Medi 2023, lleihaodd Llywodraeth Cymru'r terfyn cyflymder diodyn ar ffyrdd yn ardaloedd adeiledig Cymru o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr, ac mae hyn wedi lleihau llygredd clywadwy hefyd.
- 3.3.2.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â sŵn ffyrdd mewn gwahanol leoliadau ar draws Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal treialon i leihau sŵn ffyrdd ar gerbyttyrdd concrit drwy ddefnyddio Wyneb Tenau lawn a Osodir yn Oer (CAUTS) fel troshaen wyneb a Rhynghaen Pilen Amsugno Straen (SAMI) ar draws uniadau concrit. Cadarnhawyd mai cerbyttyrdd concrit sy'n cynhyrchu'r lefelau uchaf o sŵn traffig ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac felly cafodd y safleoedd hyn eu blaenoriaethu ar gyfer mesurau lliniaru dros y pum mlynedd ddiwethaf.
- 3.3.2.5 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r mapiau sŵn newydd i nodi meysydd blaenoriaeth lle bo angen lliniaru sŵn rhwng 2023 a 2028. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu dewis ar sail lefelau sŵn wedi eu modelu, y boblogaeth yr effeithir arni a'r canfyddiad o sŵn. Yn aml, lleolir yr ardaloedd y bydd sŵn yn effeithio arnynt fwyaf yn agos at rannau o wyneb ffordd gwael ac uniadau pontydd, felly mae'n debygol y bydd y mesurau lliniaru yn gyson â threfnau cynnal a chadw parhaus ac arfaethedig.
- 3.3.2.6 Dylid nodi bod sŵn bellach yn cael ei ystyried yn fath o lygredd aer ac o'r herwydd fe'i cwmpesir gan Gynllun Aer Glân Llywodraeth Cymru⁶⁰.
- 3.3.2.7 Yng Nghymru, mae dynodiad swyddogol ar gyfer ardaloedd llonydd, y cynhaliwyd yr astudiaeth ar eu cyfer yn 2009, ac mae'r gwahanol ardaloedd hyn wedi eu mapio isod yn Ffigur B-21⁶¹.

⁵⁹ Llywodraeth Cymru (2023) Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023–2028. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/cynllun-swn-a-seinwedd-i-gymru-2023-2028.pdf> [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁶⁰ Llywodraeth Cymru (2023) Cynllun aer glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru-awyr-iach-cymru-iach> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁶¹ CNC (2009) Ardaloedd Llonydd Cymru. Ar gael yn: <https://mapdata.llyw.cymru/info/lle-decommissioned> [Aed at y wefan: 23.08.24]

Ffigur B-21: Map o ardaloedd Llonydd Cymru 2009



- Heb ei Dosbarthu
- Trefol
- Parth B
- Parth C

Ffynhonnell: CNC

3.3.3 Bylchau data

- Llygredd sŵn sy'n deillio o drafnidiaeth yn ne-orllewin Cymru
- Y data a'r manylion diweddaraf sy'n ymwneud ag ardaloedd llonydd ledled de-orllewin Cymru

3.4 Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna

3.4.1 Perthnasedd i'r CTRh

- 3.4.1.1 Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at amrywiaeth yr holl organeddau byw. Gellir ei gweld ar sawl lefel, o ran yr amrywiaeth o fewn rhywogaethau, yr amrywiaeth rhwng gwahanol rywogaethau, ac amrywiaeth gwahanol ecosystemau (h.y. yr amgylcheddau y mae rhywogaethau'n byw ynddynt). Mae lefelau uchel o amrywiaeth yn sicrhau bod cynefinoedd a rhywogaethau yn fwy cadarn ac yn gallu ymdopi â newidiadau yn yr amgylchedd, o ran amrywiadau naturiol a'r rhai a achosir gan weithgarwch dynol, gan gefnogi eu goroesiad hirdymor.
- 3.4.1.2 Bydd sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu, gan gynnwys cynefinoedd morol a daearol pwysig, rhywogaethau a safleoedd gwarchoddedig, yn ogystal â bioamrywiaeth yn gyffredinol (gan gynnwys safleoedd heb eu dynodi) a'r manteision sy'n deillio o hynny o ran gwasanaethau ecosystemau, yn eu tro, gan gyfrannu at well iechyd economaidd a chymdeithasol ardal. Felly, yn ogystal â chyflawni ein cyfrifoldeb byd-eang, bydd gwarchod bioamrywiaeth yn gwella ansawdd bywyd trigolion Cymru ac yn helpu i gynnal ei hatyniad fel lle i fyw ac i ymweld â hi.
- 3.4.1.3 Gall y CTRh ddylanwadu ar fioamrywiaeth drwy helpu i arwain penderfyniadau drwy gynllunio seilwaith trafndiaeth er mwyn sicrhau bod nodweddion o bwysigrwydd ecolegol, yn ogystal â'u cysylltedd a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu, yn cael eu diogelu a'u gwella. Mae gan y CTRh y potensial o gyfrannu at dargedau bioamrywiaeth lleol, yn enwedig ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny sy'n gyffredin ar rwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru.
- 3.4.1.4 Yn gynyddol, mae'r ystad feddal yn cael ei chydabod fel un sy'n dal gwerth am fioamrywiaeth. Gall hyn fod oherwydd presenoldeb gweddillion cynefinoedd gwreiddiol, gwerth ecolegol tir cyfagos sy'n isel yn aml, ei werth fel coridor bywyd gwyllt ac mewn rhai achosion, o ganlyniad i'r rheolaeth a gymhwysir. Gall lleiniau ymyl ffordd fod o werth penodol os ydynt yn cynnwys cynefin gwerthfawr yn gynhenid sydd hefyd yn ffinio ag ardaloedd mwy o'r un math o gynefin, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu safleoedd bywyd gwyllt lleol.
- 3.4.1.5 Mae'r RSPB⁶² wedi darparu canllawiau ar yr effeithiau posibl i'w hystyried mewn cynlluniau trafndiaeth (yn enwedig ffyrdd). Mae'r rhain yn cynnwys:

Effeithiau colli cynefinoedd

- Colli cynefin ar safle yn barhaol
- Colli cynefinoedd dros dro ar safle e.e. tir a ddefnyddir gan offer adeiladu/ffyrdd dros dro
- Dileu priddoedd a llystyfiant yn ffisegol

Effeithiau darnio cynefinoedd

- Gall llai o gysylltedd rhwng cynefinoedd yn y dirwedd amharu ar y perthnasoedd sefydledig rhwng gwahanol gynefinoedd neu fannau o'r un cynefin e.e. gellid ymyrryd yn ffisegol mewn llwybrau sy'n cysylltu manau cysgu neu glwydo â manau bwydo neu lwybrau mudo

⁶² H. Byron (2000) Biodiversity and Environmental Impact Assessment: A Good Practice Guide for Road Schemes.

- Gall rhwystrau ar rywogaethau effeithio ar symudiadau bywyd gwyllt: gellid effeithio ar hyfywedd poblogaeth os gwahanir poblogaethau rhywogaeth prin, yn enwedig os oes ganddynt weithgareddau gwasgaru gwael
- Mwy o farwolaethau oherwydd anafiadau bywyd gwyllt
- Effeithiau ymylol—os caiff llystyfiant ei ddileu, mae'r bwloch llinellol newydd yn creu microhinsawdd newydd a newid mewn cyflyrau ffisegol sy'n gallu ymestyn bellteroedd amrywiol oddi wrth ymyl y ffordd. Gallai'r cynefin newydd hwn ddarparu cynefin i rywogaethau ymylol a hwyluso rhai rhywogaethau i wasgaru.
- Gallai lleihau maint y man leihau poblogaethau o rywogaethau planhigion allweddol a allai, yn ei dro, effeithio ar y digonedd o bryfed, gan gynnwys glöynnod byw y maent yn eu cefnogi.
- Mae hyn yn gofyn am isafswm ardal i gynnal poblogaethau hyfyw a gallant, yn eu tro, effeithio ar rywogaethau eraill e.e. adar rheibus. Hefyd, efallai na fydd maint bach y manau yn gallu cefnogi'r ystod o strwythur cynefinoedd sydd ei hangen i gynnal amrywiaeth o wahanol rywogaethau.

Newidiadau mewn ansawdd cynefinoedd ac effeithiau anuniongyrchol eraill

Newidiadau i brosesau naturiol

- Trefnau dŵr daear—gallai newidiadau yn y drefn dŵr daear effeithio'n andwyol ar gynefinoedd sy'n ddibynnol ar y lefel trwythiad e.e. cors a ffen.
- Gan ddibynnu ar y ddaear, gall lleihau'r lefel trwythiad effeithio ar gynefinoedd sydd gryn bellter oddi wrth y datblygiad.
- Llifoedd afonydd/ffrydiau—Cynnydd neu ostyngiad mewn cyfraddau llif naturiol e.e. gallai llifogydd sydyn o arwynebau caled effeithio ar ecosystemau dyfrol.
- Gall cronni gwastraff adeiladu newid llif, cyfaint a chyfansoddiad dŵr. Mae'r solidau cynyddol hyn yn cynyddu tyrfedd a all achosi difrod drwy grafu a rhwystro tagellau pysgod ac arwain at ddiflaniad infertebratau sy'n bwyta drwy hidlo.
- Trefnau llifogydd.
- Trwytholchi pridd a newidiadau yn strwythur y pridd.
- Patrymau erydu pridd.

Llygredd dŵr

- 3.4.1.6 Gall llygredd dŵr o ollyngiadau damweiniol, cemegau dadrewi, dŵr ffo, a llwch dŵr ar ffyrdd arwain at newidiadau andwyol mewn bioamrywiaeth ddyfrol fel y gall newidiadau mewn gwaddodion a llwythi solet mewn cyrsiau dŵr.

Llygredd pridd

- 3.4.1.7 Gellir dyddodi llwch dŵr ar ffyrdd, allyriadau cerbydau a llwch a gronynnau eraill (gan gynnwys deunyddiau agregau a selio a ddefnyddir wrth adeiladu ffyrdd) yn uniongyrchol ar y tir neu drwy ddyfodiad llygredig a thrwy ddŵr daear
- 3.4.1.8 llygredig. Gall y rhain newid pH a strwythur pridd. Hefyd, gall cyflyrau pridd newid gwenwyndra effeithiol llygryddion i raddau helaeth.

Llygredd aer

- 3.4.1.9 Gall allyriadau plwm, sinc, nitrogen, deunyddiau dadrewi a gronynnau megis llwch effeithio ar fioamrywiaeth.

Newidiadau i ficrohinsawdd

3.4.1.10 Gall allyriadau golau ac ymbelydredd newid y microhinsawdd. Gallai'r newidiadau microhinsoddol hyn fod yn ddigon sylweddol i newid perfformiad rhai rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.

Sianelu gwynt

3.4.1.11 Pan fo coetiroedd yn cael eu dwyrannu, mae coed mewnol yn dod yn agored i effeithiau chwythu'r gwynt, sy'n arwain at newidiadau yn y llystyfiant ymylol newydd. Gall toriadau gael effaith 'jet' ychwanegol o ran sianelu gwynt, gan gynyddu'r gwynt sy'n chwythu ac anweddiad a allai arwain at ddiffyg cyflenwad dŵr a allai arwain at newidiadau yng nghyfansoddiad rhywogaethau.

Aflonyddwch

3.4.1.12 Gall sŵn, goleuadau a dirgryniadau o draffig a thrwy oleuadau ffyrdd aflonyddu ar ffawna.

Llai o welededd

3.4.1.13 Gallai strwythurau ffyrdd e.e. pontydd a thraphontydd achosi problemau i rai adar/mamaliaid drwy leihau gwelededd

Cyflwyno rhywogaethau ecsotig

3.4.1.14 Gallai'r cynefin ymylol neu'r cyffindir a'r traffig ar y ffordd hwyluso rhai rhywogaethau i wasgaru. Gallai hyn arwain at wasgaru a sefydlu rhywogaethau estron a goresgynnol neu rywogaethau plâu a allai gael effeithiau eilaidd ar gymunedau biolegol.

3.4.1.15 Newidiadau o ran rheoli cynefinoedd e.e. amllder torri ymyl y ffordd.

Pwysau cyhoeddus

3.4.1.16 Gellid rhoi cynefinoedd cyfagos o dan bwysau cyhoeddus cynyddol, oherwydd mynediad, gan arwain at effeithiau gan gynnwys aflonyddu ar anifeiliaid, a dinistrio fflora daear yn ffisegol. Hefyd, gall sbwriel gronni ar hyd y ffordd

Colli cynefinoedd oddi ar y safle a newidiadau yn ansawdd cynefinoedd

3.4.1.17 Mewn cysylltiad â chaffael a gwaredu deunyddiau e.e. mwyngloddio am agregau er mwyn adeiladu ffyrdd.

Effeithiau cronol

3.4.1.18 Gall colli cynefinoedd cymharol fach hyd yn oed, darnio ac effeithiau anuniongyrchol prosiect ffordd unigol, o'u hychwanegu at effeithiau eraill y gorffennol, y presennol a'r hyn sy'n rhesymol ragweladwy yn y dyfodol yn sgil prosiectau a gweithgareddau eraill, gyfrannu at effeithiau sylweddol mewn ardal. Dylid ystyried pob math perthnasol o brosiectau a gweithgareddau yn y dyfodol (h.y. nid prosiectau ffyrdd eraill yn unig), gan gynnwys datblygiad a ysgogir.


Effeithiau cadarnhaol

- Gwella cynefinoedd
- Rheoli cynefinoedd yn well
- Gallai strwythurau newydd e.e. pontydd a thwneli ddarparu cynefinoedd i rai rhywogaethau e.e. ystlumod
- Creu cynefinoedd

3.4.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

3.4.2.1 Mae arwynebedd tir Cymru yn cwmpasu 2,078,224 hectar. Mae ardal forol Cymru yn ymestyn 12 milltir forol, gan gwmpasu ychydig o dan 15,000 km² neu 41% o diriogaeth Cymru. Mae gan dde-orllewin Cymru amrywiaeth enfawr o gynefinoedd ac maent yn cynnal llawer o rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae de-orllewin Cymru yn cynnwys llawer o safleoedd o bwys rhyngwladol, cenedlaethol a lleol (gweler Ffigur B-22)⁶³.

Ffigur B-22: Cyflwr nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (yr asesiad diweddaraf) ar gyfer ACAau sydd yn ne-orllewin Cymru yn gyfan gwbl neu'n rhannol



3.4.2.2 Mae gan dde-orllewin Cymru nifer mawr o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau).


3.4.2.3 Mae gan Gymru dirwedd a bioamrywiaeth amrywiol sydd wedi eu siapio gan weithgarwch dynol dros ganrifoedd lawer. Amcangyfrifir mai 59,000 yw nifer y rhywogaethau daearol ym Mhrydain gydag 8,500 o rywogaethau morol eraill, ac mae cyfanswm y rhywogaethau yng Nghymru yn debygol o fod yn fwy na 50,000⁶⁴. Mae 21 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu) ar gyfer poblogaethau o adar o bwys rhyngwladol a 95 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ar gyfer rhywogaethau eraill sydd dan fygythiad a chynefinoedd naturiol⁶⁵. Mae 1,078 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) yng Nghymru, sy'n cwmpasu dros 12% o arwynebedd tir y genedl. Mae llawer o'r un rhywogaeth i'w chael ar safleoedd sydd hefyd yn gymwys ar gyfer eu cynefin (gweler Ffigur B-23).

⁶³ Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth a'i hadfer. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-plans-and-policies/area-statements/south-west-wales-area-statement/reversing-the-decline-of-and-enhancing-biodiversity/?lang=cy> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁶⁴ Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2024) Gwybodaeth am Rhywogaethau. Ar gael yn: <https://www.biodiversitywales.org.uk/Rhywogaethau-yng-Nghymru> [Aed at y wefan ar 03.09.2024]

⁶⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-structure-and-contents/?lang=cy> [Aed at y wefan: 04.09.24]

Ffigur B-23: Ardaloedd SoDdGA yn ne-orllewin Cymru



Rhywogaethau

- 3.4.2.4 Canfu adroddiad cyfarwydded cynefinoedd 2019 y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur fod 46% o'r rhywogaethau rhestredig mewn statws cadwraeth ffafriol ar lefel y DU⁶⁶. Yr un fath yw'r ffigur ar gyfer rhywogaethau yng Nghymru. Yng Nghymru, adroddir bod 44% o'r rhywogaethau yn sefydlog, a bod 17% ohonynt yn dirywio. Yn dilyn tueddiadau byd-eang, mae Cymru'n parhau i wynebu colled mewn bioamrywiaeth, a bod un o bob chwe rhywogaeth a aseswyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu⁶⁷.
- 3.4.2.5 Yng Nghymru, mae gan restr interim Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)⁶⁸ 557 o rywogaethau a 55 o gynefinoedd sydd o bwysigrwydd allweddol. Dewiswyd y rhain yn wreiddiol ar gyfer rhestr Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006⁶⁹ ar gyfer gweithredu â blaenoriaeth gan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU gan ddefnyddio meini prawf ar sail lefel y bygythiad y maent yn ei wynebu, lefel y cyfrifoldeb yng Nghymru am eu poblogaethau ac a ellid cymryd camau unioni i wella eu statws. Mae'r rhestr yn cynnwys rhywogaethau mor amrywiol â'r neidr ddefaid (*Anguis fragilis*), y pry lleidr cacynaidd (*Asilus crabroniformis*) a'r morfarch hirdrwyng (*Hippocampus guttulatus*).

⁶⁶ Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2019) Article 17 Habitats Directive Report 2019. Ar gael yn: <https://jncc.gov.uk/our-work/article-17-habitats-directive-report-2019/> [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁶⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-structure-and-contents/?lang=cy> [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁶⁸ Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁶⁹ Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/16/contents> [Aed at y wefan: 30.08.24]

- 3.4.2.6 Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd megis asideiddio, cynnydd yn rhymeredd y môr a digwyddiadau tywydd eithafol y potensial i effeithio ar rywogaethau morol drwy nifer o ffactorau gan gynnwys dynameg poblogaeth, atgenhedlu a dosbarthu ysglyfaethau.
- 3.4.2.7 Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys rhywogaethau prin megis penigan y porfeydd a'r gardwenynen feinlais a chorryn rafft y ffen⁷⁰. Mae gan y Fwrdeistref Sirol bum Gwarchodfa Natur Lleol, a Bryn Tip yw un ohonynt. Mae'r safle hwn wedi ei adfer i gynefin naturiol ac mae'n gartref i lawer o rywogaethau prin a gwarchoddedig. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys yr unig boblogaeth chwilen ddaear las yng Nghymru, metaboblogaeth brith y gors cryf ac mae'n un o'r cadarnleoedd bridio pwysicaf ar gyfer bodaod y mêl yng Nghymru.
- 3.4.2.8 Mae rhanbarth Abertawe yn cynnwys cyfoeth o gynefinoedd ac yn cefnogi amrywiaeth enfawr o rywogaethau, ac mae 41% o'r rhywogaethau a nodwyd yn rhai o bwysigrwydd cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru wedi eu cofnodi yn Abertawe yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf⁷¹.
- 3.4.2.9 Mae 44 o rywogaethau blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin⁷². Y rhywogaethau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod o arwyddocâd allweddol er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y sir yw llygoden y dŵr, yr ystlum du, y draenog Ewropeaidd, yr ysgyfarnog, y dyfrgi, y bele, llygoden y cynhaeaf, y pathew, y ffwlbart, ystlum Leisler, yr ystlum lleiaf soprano, yr ystlum hirglust, yr ystlum pedol mwyaf a lleiaf, y wiwer goch a'r ystlum lleiaf cyffredin.
- 3.4.2.10 Mae Sir Benfro yn enwog yn rhyngwladol ac yn genedlaethol am ei bioamrywiaeth. Mae llawer o'r rhywogaethau arfordirol, morol, rhostir a choetir yn cefnogi rhywogaethau nad yw'r sir yn fwy na dyrnaid o safleoedd yn y DU, neu yn Ewrop, ar eu cyfer. Ar y cyfan, mae oddeutu 6% o gyfanswm arwynebedd y tir mewn SoDdGA. Mae oddeutu traean y sir wedi ei dynodi'n Barc Cenedlaethol. Effeithiwyd ar fioamrywiaeth yn Sir Benfro gan lawer o ffactorau y dylanwadwyd arnynt gan bobl a ffactorau naturiol, sy'n gydgysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd yn aml. Yn Sir Benfro, mae cadwraeth crafanc y dŵr dridarn yn gyfrifoldeb rhyngwladol mawr i Gymru. Mae dros hanner yr ardaloedd yng Nghymru sy'n cynnal crafanc y dŵr dridarn yn Sir Benfro, mae hyn yn 26% o gyfanswm safleoedd y DU. Fe'u canolir o amgylch Tyddewi a Phenrhyn Marloes. Ceir poblogaethau mwy ynysig hefyd ar ynysoedd Dewi, Skomer a Sgogwm ac i'r tir ar rai safleoedd Tir Comin. Mae Sir Benfro hefyd yn gartref i o leiaf 15 o'r 17 o rywogaethau ystlumod preswyl ym Mhrydain. Mae arbenigedd y sir yn cynnwys ystlumod pedol mwyaf a lleiaf, sef dau o rywogaethau prinnaf Ewrop, ac ystlumod du. Ceir sawl rhywogaeth o adar hefyd sy'n gysylltiedig â thir fferm yn Sir Benfro⁷³.

Cynefinoedd

- 3.4.2.11 Yn fras, gellir rhannu gorchudd tir Cymru yn gynefinoedd lled-naturiol ac yn fathau o orchudd tir addasedig. Mae cynefinoedd lled-naturiol yn cadw llawer o'u rhywogaethau nodweddiadol. Mae'r mathau o orchudd tir addasedig yn cynnwys yr amgylchedd adeiledig yn ogystal â thir lle mae prosesau ecolegol a chyfansoddiad rhywogaethau wedi eu newid i raddau helaeth, er enghraifft, gwell glaswelltir, tir â'r phlanhigfeydd conwydd. Mae cynrychiolaeth cynefinoedd lled-naturiol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae iseldiroedd Cymru wedi eu haddasu i raddau helaeth fel y dangosir yn Ffigur B-24. Ystyrir bod oddeutu 31% o Gymru yn gynefin lled-naturiol. Mae o leiaf 40% o gynefinoedd Cymru wedi eu gwasgaru mewn mannau mor fach fel bod hyn yn awgrymu cydnherthedd isel, gydag ychydig iawn o gynefinoedd a adroddir fel rhai sydd mewn cyflwr da. Yng

⁷⁰ Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2024) Natur yn Castell-nedd Port Talbot. Ar gael yn: <https://www.biodiversitywales.org.uk/Castell-nedd-Port-Talbot> [Aed at y wefan: 30.08.24]


⁷¹ Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2024) Natur yn Abertawe. Ar gael yn: <https://www.biodiversitywales.org.uk/Abertawe> <https://www.biodiversitywales.org.uk/Castell-nedd-Port-Talbot> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁷² Partneriaeth Natur (dim dyddiad) Carmarthenshire Nature Recovery Plan – Mammals. Ar gael yn: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216549/mammals-priority-species-in-carms.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁷³ Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro (2011) Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro. Ar gael yn: <https://www.arfordirpenfro.cymru/wp-content/uploads/2020/03/Cyflwr-Bywyd-Gwyllt-yn-Sir-Benfro-2011.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

Nghymru, mae cysylltedd ar ei isaf mewn cynefinoedd iseldir lle mae'r dirwedd wedi ei symleiddio gan gollu cynefinoedd lled-naturiol ac mae tir a reolir yn ddwys yn dominyddu⁷⁴.

Ffigur B-24: Crynodeb o gynrychiolaeth cynefinoedd lled-naturiol a mathau o orchudd tir addasedig yng Nghymru



- 3.4.2.12 Dylanwedir ar raddau, cyflwr a thueddiadau rhywogaethau daearol yng Nghymru yn bennaf gan reolaeth cynefinoedd a newid hinsawdd. Mae rheolaeth cynefinoedd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyfansoddiad y gymuned planhigion, symiau o swbstrad noeth, cysgodi a'r strwythur llystyfiant. Gall cysgodi oherwydd llechfeddiant prysgwydd, yn dilyn newidiadau yn y drefn bori, fod mor niweidiol i loynnod byw a llawer o grwpiau rhywogaethau eraill â gorbori neu welliant amaethyddol. Dwysseir yr effeithiau hyn gan gollu cynefinoedd uniongyrchol sy'n arwain at ddarnio mathau o gynefinoedd a chynefinoedd addas a dylanwad cynyddol cyfoethogi maetholion sy'n arwain at newidiadau mewn cymunedau planhigion a phatrymau twf. Fel yr uchod, mae newid yn yr hinsawdd hefyd yn fygythiad sylweddol i gynefinoedd a'r rhywogaethau y maent yn eu cefnogi.
- 3.4.2.13 Mae Sir Benfro yn cynnal 36% o gyfanswm rhostir yr iseldir yng Nghymru y mae dwy ran o dair ohono mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau). Collir rhywfaint o rhostir yr iseldir i lechfeddiant prysgwydd yn Sir Benfro o ganlyniad i esgeulustod⁷⁵.
- 3.4.2.14 Mae rhostir a gweundir yn darparu cynefinoedd ar gyfer bron i un rhan o bump o Rywogaethau Blaenoriaeth Castell-nedd Port Talbot, ond dim ond cyfran fach ohonynt sydd mewn cyflwr da⁷⁶. Mae tirwedd ucheldirol Castell-nedd Port Talbot wedi newid yn sylweddol dros y 70 mlynedd ddiwethaf. Plannwyd llawer o'r gweundir a'r rhostir a oedd unwaith yn helaeth yno â chonwydd ac addaswyd rhannau eraill yn dir pori gwell. Fodd bynnag, erys rhai ardaloedd sylweddol o weundir, yn enwedig yn sector gogleddol y sir, e.e. Gwrhyd, Sarn Helen.
- 3.4.2.15 Rhennir Abertawe yn bedair ardal ffisegol yn fras: gweundir agored ucheldiroedd Lliw yn y gogledd; Penrhyn Gŵyr gwledig yn y gorllewin, sy'n cynnwys nifer o arfordiroedd pentrefi gwledig a Thirwedd Genedlaethol Gŵyr (a adwaenid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sef ardal

⁷⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-structure-and-contents/?lang=cy> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁷⁵ Cyngor Sir Penfro (2011) Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro: Astudiaeth o gyflwr cyfredol flora a ffawna yn Sir Benfro. Ar gael yn: <https://www.arfordirpenfro.cymru/wp-content/uploads/2020/03/Cyflwr-Bywyd-Gwyllt-yn-Sir-Benfro-2011.pdf> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

⁷⁶ Partneriaeth Natur Leol CNPT (2024) Rhostir a Gweundir. Ar gael yn: <https://www.naturenpt.cymru/cy/heathlandandmoorland> [Aed at y wefan: 30.08.24]

faestrefol a'r llain arfordirol o amgylch Bae Abertawe. Mae oddeutu 69.5% o arwynebedd tir y sir yn wledig a 30.5% yn drefol⁷⁷.

- 3.4.2.16 Mae amaethyddiaeth yn dominyddu'r dirwedd wledig yn Sir Gaerfyrddin. Yn ôl Dosbarthiad Tir Amaethyddol, mae 203,700 hectar o dir yn Sir Gaerfyrddin a ddosbarthir fel tir amaethyddol, a dosberthir y mwyafrif ohono fel gradd 3a a 3 gyda chyfran fach o dir gradd 2 yn ne-ddwyrain y sir⁷⁸.

Cynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf

- 3.4.2.17 Yng Nghymru, mae 55 o gynefinoedd o bwysigrwydd pennaf ar restr interim Adran 7, a ddewiswyd yn wreiddiol ar gyfer rhestr Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnwys tir daearol, dŵr croyw a morol. Maent yn cynnwys gorsgors, pyllau a gwelyau morwellt ac fe'u dewiswyd ar gyfer gweithredu â blaenoriaeth gan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU gan ddefnyddio meini prawf ar sail lefel y bygythiad y maent yn ei wynebu, eu pwysigrwydd cymharol fel cynefin yng Nghymru ac a fydd camau adfer yn gallu gwella eu statws. Mae cynefinoedd daearol o bwysigrwydd pennaf yn ymestyn dros arwynebedd o 387,300 hectar. Mae'r mwyaf helaeth o'r rhain yng Nghymru (mae gan bob un ohonynt adnodd sy'n fwy na 30,000 hectar) yn cynnwys rhostir yr ucheldir, gorsgors, coetir derw ucheldirol, glaswellt y gweunydd a phorfa frwyn, glaswelltir asid sych yr iseldir a chors pori arfordirol a gorlifdir. Fodd bynnag, mae rhai cynefinoedd allweddol sydd o bwysigrwydd cadwraeth yn brin, yn fach o ran helaethrwydd ac yn hynod o fregus. Mae cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Rhynglanwol morol yn ymestyn dros 15,000 o hectarau. Mae'r cynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Rhynglanwol mwyaf helaeth, fflatiau llaid, yn gorchuddio dros 14,000 o hectarau ac fe'i ceir ar hyd arfordir Cymru.

- 3.4.2.18 Mae de-orllewin Cymru yn wledig ei natur yn bennaf ac fe'i dominyddir gan amaethyddiaeth gyda rhai ardaloedd coedwigaeth⁷⁹. Cwmpesir arfordir Lle De-orllewin Cymru gan Gynlluniau Rheoli Traethlin 'De Cymru' a 'Gorllewin Cymru'. Mae gan Le De-orllewin Cymru arfordir sy'n rhedeg o Fargam yn y dwyrain i Aberteifi yn y gogledd-orllewin. Mae arfordir garw a thraethau tywodlyd hir arfordir Sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr yn denu llawer o ymwelwyr bob blwyddyn, sy'n gwneud twristiaeth yn bwysig iawn i'r economi leol.

Coetir Hynafol

- 3.4.2.19 Ardal y Coetir Hynafol yn Rhestr Goed Hynafol 2011⁸⁰ yw 33,000 hectar, sydd (53%) yn fwy o'i chymharu â Rhestr Goed Hynafol 2004. Yn bennaf, mae'r ffigur diwygiedig yn cynnwys Coetir Lled-naturiol Hynafol sydd â pherchnogion preifat (29,000 hectar). Mae 5,000 hectar yn fwy o Goetir Hynafol wedi ei nodi ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o'i chymharu â Rhestr Goed Hynafol 2004. Mae'r Rhestr Goed Hynafol yn dangos mai cymoedd de Cymru a de Powys yw'r ardaloedd coetir hynafol mwyaf poblog. Planhigfeydd dynodedig ar Safleoedd Coetir Hynafol yw'r rhan fwyaf o'r adnoddau coetir hyn.

Safleoedd a Warchodir gan Ewrop a'r DU

- 3.4.2.20 Mae safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd wedi eu dynodi naill ai fel enghreifftiau o gynefinoedd rhestredig a mathau o rywogaethau neu'n benodol er mwyn gwarchod adar gwyllt a restrir fel rhai sy'n brin ac yn fregus. Mae gwarchod y safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at warchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n byw yno. Mae safleoedd gwarchodedig hefyd yn

⁷⁷ Cyngor Abertawe (2022) Daearyddiaeth. Ar gael yn: <https://www.abertawe.gov.uk/daearyddiaeth?lang=cy> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁷⁸ Cyngor Sir Gaerfyrddin (2023) Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Sir Gaerfyrddin Ar gael yn:

<https://carmarthenshire.oc2.uk/cy/document/14/6061> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁷⁹ Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad) Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd: Lle De-orllewin Cymru. Ar gael yn:

<https://naturalresources.wales/media/10hnbj/frmp-cycle-2-place-section-south-west.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

⁸⁰ CNC (2023) Rhestr Coetiroedd Hynafol. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/identifying-ancient-woodlands/?lang=cy> [Aed at y wefan: 23.08.24]

bodoli yn yr amgylchedd morol, ac mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i sicrhau bod y safleoedd hyn yn cyfrannu at rwydwaith ecolegol cydlynol o ardaloedd morol gwarchoddedig ym moroedd y DU.

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu)

3.4.2.21 Safleoedd a ddiogelir yn llym a ddsberthir yn unol ag Erthygl 4 o Gyfarwyddeb Adar y GE, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 1979, yw AGAAu. Fe'u dosberthir ar gyfer adar prin a bregus (fel y'u rhestrir ar Atodiad I y Gyfarwyddeb), ac ar gyfer rhywogaethau mudol sy'n digwydd yn rheolaidd⁸¹.

3.4.2.22 Ceir yr AGAAu canlynol yn ne-orllewin Cymru: Bae Caerfyrddin; Elenydd Mallaen; Skomer; Sgogwm a moroedd Sir Benfro; Arfordir Castell Martin; Gwales; Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Tyddewi; Cilfach Tywyn; a Mallaen⁸².

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)

3.4.2.23 Safle a ddynodir o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw Ardal Cadwraeth Arbennig (neu ACA). Gelwir y safleoedd hyn, ynghyd ag AGAAu, yn safleoedd Natura 2000 ac maent o bwys yn rhyngwladol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dan fygythiad⁸³.

3.4.2.24 Ceir yr ACAau canlynol yn Sir Gaerfyrddin⁸⁴:

- Afon Teifi
- Afon Tywi
- Afonydd Cleddau
- Bae Caerfyrddin ac Aberoedd
- Twyni Bae Caerfyrddin
- Cwm Doethïe – Mynydd Mallaen
- Caeau Mynydd Mawr
- Cernydd Carmel

Safleoedd Ramsar

3.4.2.25 Mae Safleoedd Ramsar yng Nghymru yn cynnwys gwlyptiroedd yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol o dan Gonfensiwn Ramsar⁸⁵. Ar hyn o bryd mae gan Gymru 10 Safle Ramsar gan gynnwys Aber Afon Dyfrdwy, Llyn Idwal, Llyn Tegid a Chorsydd Môn a Llŷn yn y gogledd, Cors Caron, Cors Fochno a Midland Meres a Mosses yng Nghanolbarth Cymru/Canolbarth Lloegr a Chilfach Tywyn, Cors Crymlyn ac Aber Afon Hafren yn y de.

3.4.2.26 Mae Abertawe yn cynnwys dau safle Ramsar⁸⁶, ac mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys un safle Ramsar⁸⁷.

⁸¹ Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2023) Special Protection Areas – overview. Ar gael yn: <https://jncc.gov.uk/our-work/special-protection-areas-overview/> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁸² CNC (2024) Canfod ardaloedd o dir a môr gwarchoddedig. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/find-protected-areas-of-land-and-sea/?lang=cy> [Aed at y wefan: 02.09.24]

⁸³ Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2023) Special Areas of Conservation – overview. Ar gael yn: <https://jncc.gov.uk/our-work/special-areas-of-conservation-overview/> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁸⁵ Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2022) Designated and Proposed Ramsar Sites in the UK, and the UK's Overseas Territories & Crown Dependencies. Ar gael yn: <https://jncc.gov.uk/our-work/ramsar-sites/#wales> [Aed at y wefan: 23.08.24]

⁸⁶ Cyngor Abertawe (2024) Safleoedd gwarchoddedig yn Abertawe. Ar gael yn: <https://www.abertawe.gov.uk/safleoedd-gwarchoddedig?lang=cy>. [Aed at y wefan: 03.09.24]

Cyngor Sir Gaerfyrddin (2024) Safleoedd Gwarchoddedig. Ar gael yn: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/bioamrywiaeth/safleoedd-gwarchoddedig/> [Aed at y wefan: 03.09.24]

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)

- 3.4.2.27 SoDdGAau yw'r safleoedd pwysicaf ar gyfer treftadaeth naturiol Cymru. Maent yn helpu i warchod a diogelu y gorau o fywyd gwyllt, treftadaeth daearegol a ffisiolegol y genedl er budd cenedlaethau y presennol a'r dyfodol. Mae SoDdGAau Cymru yn cynnwys safleoedd ucheldirol ac iseldirol, dŵr croyw, arfordirol, ac maent yn amrywio o ffeniau bach neu dwyni tywod i goetiroedd a rhannau helaeth o fynyddoedd⁸⁸. Maent yn cynnwys mathau pwysig o dir, planhigion a bywyd gwyllt. Mae safleoedd daearegol yn amrywio o chwareli i frigiadau creigiog a chlogwyni môr enfawr.
- 3.4.2.28 Mae rhanbarth Abertawe yn cynnwys 36 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n cwmpasu oddeutu 21% o arwynebedd tir Abertawe⁸⁹. Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys dros 21 o SoDdGAau⁹⁰. Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys 89 o SoDdGAau sy'n cwmpasu oddeutu 15,300 hectar⁹¹.

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

- 3.4.2.29 Mae cyfanswm o 76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yng Nghymru sy'n tueddu i feddiannu ardaloedd arfordirol y wlad⁹². Mae presenoldeb cryf o warchodfeydd natur yn ardaloedd arfordirol Cymru. I'r dwyrain o Benrhyn Llŷn y mae'r crynodiad uchaf. Mae gan Abertawe bedair Gwarchodfa Natur Genedlaethol⁹³.

Parthau Cadwraeth Morol

- 3.4.2.30 Mae amgylchedd morol Cymru yn cynnwys 2,740 km o arfordir. Mae'r ecosystemau morol yng Nghymru yn ffurfio dau ranbarth bioddaearyddol ehangach: Môr Iwerddon, a Gorllewin Sianel Lloegr a'r Môr Celtaidd. Mae amrywiaeth uchel o gynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys gwaddod a chynefinoedd biogenig, rhywogaethau digoes a hynod symudol. Mae cyfran o gynefinoedd morol yn cael eu harolygu a'u mapio, ond ar gyfer rhai ardaloedd, dim ond o fodelu y daw ein dealltwriaeth.
- 3.4.2.31 Sefydlwyd y Parth Cadwrol Morol cyntaf yn nyfroedd Cymru yn 2014⁹⁴. Lleolir Parth Cadwrol Morol Skomer o amgylch ynys Skomer a Phenrhyn Marloes yn Sir Benfro, de-orllewin Cymru. Cyflwynir hyn yn Ffigur B-25 isod.

⁸⁸ MapDataCymru (2024) Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_SSSI [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁸⁹ Cyngor Abertawe (2024) Safleoedd gwarchoddedig yn Abertawe. Ar gael yn: <https://www.abertawe.gov.uk/sagleoeddgwarchoddedig?lang=cy>. [Aed at y wefan: 02.09.24]

⁹⁰ Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2024) Natur yn Castell-nedd Port Talbot. Ar gael yn: <https://www.biodiversitywales.org.uk/Castell-nedd-Port-Talbot> [Aed at y wefan: 03.09.24]

Cyngor Sir Gaerfyrddin (2024) Safleoedd Gwarchoddedig. Ar gael yn: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/bioamrywiaeth/safleoedd-gwarchoddedig/> [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁹² CNC (2018) Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy> [Aed at y wefan: 01.12.21]

⁹³ Cyngor Abertawe (2024) Safleoedd gwarchoddedig yn Abertawe. Ar gael yn: <https://www.abertawe.gov.uk/sagleoeddgwarchoddedig?lang=cy>. [Aed at y wefan: 03.09.24]

⁹⁴ CNC (2022) Parthau Cadwraeth Morol. Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_MNR [Aed at y wefan: 02.09.24]


Ffigur B-25: Parth Cadwraeth Morol Skomer



3.4.2.32 Mae cadwraeth forol yn enwedig o bwysig yn Sir Benfro oherwydd bod yr amgylchedd morol ac arfordirol yn tanategu'r economi leol. Mae ACA Morol Sir Penfro yn ddynodiad cadwraeth pwysig yn Sir Benfro⁹⁵. Mae gan Gymru rwydwaith helaeth o Ardaloedd Prosiect Morol ar gyfer cynefinoedd morol (gweler Ffigur B-26).

⁹⁵ Sir Benfro Forol Ardal Cadwaeth Arbennig (2024) Cadwraeth Forol yn Sir Benfro. Ar gael yn: <https://www.pembrokeshiremarinesac.org.uk/cy/cadwraeth-forol-yn-sir-benfro/> [Aed at y wefan: 02.09.24]

Ffigur B-26: ACAau cynefinoedd morol fesul rhanbarthol



3.4.2.33 Mae Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cronni a chynnal llawer o arolygon o gynefinoedd Cymru a ddefnyddir i lywio Adroddiadau o Gyflwr Adnoddau Naturiol, maent yn cynnwys meysydd lle mae'r cynefinoedd yn rhagori a meysydd y mae angen eu gwella⁹⁶. Dylai'r meysydd hyn y mae angen eu gwella gael eu hystyried yn y CTRh:

- Mae 20% o'r lleiniau llystyfiant yng Nghymru ar laswelltir niwtral, ond dim ond <1% sydd ar laswelltir lled-naturiol.
- Mae carbon uwchbridd yn yr ucheldiroedd wedi gostwng ers 2007. Mae hyn yn cynnwys glaswelltir asid.
- Nid yw 74–90% o'r caeau glaswelltir a ffermir yn cynnwys unrhyw goed.
- Mae dirywiad carbon uwchbridd diweddar yn yr ucheldiroedd yn cynnwys Mynydd, Gwaun a Rhos.

3.4.3 Bylchau data

- Nifer y safleoedd a ddynodir yn rhyngwladol yng Nghastell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe
- Nifer y SoDdGAau yn Sir Benfro

⁹⁶ Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (2020) Adroddiad ERAMMP-30: Dadansoddi Data Monitro Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 Ar gael yn: <https://erammp.wales/sites/default/files/2023-07/30%20ERAMMP%20Rpt-30%20Dadansoddi%20Data%20Monitro%20ar%20SoNaRR2020%20v1.0.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

- Nifer y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot

3.5 Addasu i Newid Hinsawdd a Risg Llifogydd

3.5.1 Perthnasedd i'r CTRh

- 3.5.1.1 Mae mesuriadau yn dangos, yn ystod y ganrif ddiwethaf, fod tymheredd yr aer a'r môr wedi cynyddu, fod y cyfraddau y mae rhew yn toddi mewn rhewlifoedd dyffryn a chapiau iâ wedi cyflymu a bod lefelau y môr wedi codi. Fodd bynnag, mae rhychwant cynhesu yn y dyfodol a natur a dosbarthiad daearyddol ei effeithiau yn destun llawer mwy o ansicrwydd. Mae gwyddonwyr yn rhagweld y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at gynydd yn lefel y môr, cynnydd yn y tymheredd cyfartalog blynyddol, gaeafau gwlypach a chynhesach, hafau sychach a phoethach, a chynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol. Mae gan y ffactorau hyn oblygiadau sylweddol i'n hamgylchedd dynol a naturiol.
- 3.5.1.2 Mae goblygiadau newid hinsawdd i'r CTRh yn gysylltiedig â'r angen i atal achosion newid hinsawdd, ac i addasu i gyflyrau y dyfodol. Mae llifogydd yn faes allweddol lle teimlir effeithiau newid hinsawdd yn lleol.


3.5.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

- 3.5.2.1 Mae llifogydd yn faes allweddol lle teimlir effeithiau newid hinsawdd yn lleol. Mae risg llifogydd yn broblem sylweddol yng Nghymru gan gynnwys llifogydd arfordirol, afonol a dŵr wyneb.
- 3.5.2.2 Mae ardaloedd yn ne-orllewin Cymru sydd â risg uchel o lifogydd o afonydd a moroedd⁹⁷. Ledled de-orllewin Cymru, mae 19,944 eiddo sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a 7,679 eiddo sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr⁹⁸. Mae hyn yn cyfateb i dros 56,000 o bobl sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a bron i 20,000 o bobl sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr.
- 3.5.2.3 Trwy'r cam Asesu Perygl Llifogydd Rhagarweiniol sy'n gysylltiedig â'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio hwn, nodwyd cymunedau yn "Ardaloedd Risg Llifogydd". Gwnaed yr asesiad yr ymgwymerwyd ag ef i nodi Ardaloedd Risg Llifogydd ledled Cymru gan ddefnyddio statws cymunedau nas amddiffynnir i greu llwyfan er cymhariaeth.
- 3.5.2.4 Dengys Ffigur B-27 y cymunedau ledled de-orllewin Cymru sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr fel y nodir gan y Cofrestr Cymunedau mewn Perygl, a phan fo gweithredu arfaethedig i reoli'r risg llifogydd.

⁹⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru (2024) Mapiau Llifogydd a Risg Erydu Arfordirol. Ar gael yn: <https://flood-risk-maps.naturalresources.wales/?locale=cy> [Aed at y wefan: 02.09.24]

⁹⁸ Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad) Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd: Lle De-orllewin Cymru. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/media/10hbnj/frmp-cycle-2-place-section-south-west.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

Ffigur B-27: Cymunedau yn ne-orllewin Cymru sydd â'r risg fwyaf o lifogydd o afonydd neu'r môr



3.5.2.5 Ledled de-orllewin Cymru, mae 9,944 eiddo sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a 7,679 eiddo sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr. Mae hyn yn cyfateb i dros 56,000 o bobl sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a bron i 20,000 o bobl sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr.

- 3.5.2.6 Mae'r rhwydwaith o amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n deillio o'r môr ledled Lle De-orllewin Cymru yn helpu i leihau'r risg ar gyfer dros 3,000 eiddo (preswyl a dibreswyl) sydd mewn senario 1 mewn 30 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 3.3%) a thros 1,500 eiddo sydd mewn senario 1 mewn 200 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 2%). Yn ogystal â hyn, mae'r rhwydwaith o amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n deillio o afonydd yn helpu i leihau'r risg ar gyfer bron i 3,000 eiddo (preswyl a dibreswyl) sydd mewn senario 1 mewn 30 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 3.3%) a thros 4,500 eiddo sydd mewn senario 1 mewn 100 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 1%). Nid yw amddiffynfeydd llifogydd yn dileu risg yn gyfan gwbl yn yr eiddo hyn gan nad yw amddiffynfeydd rhag llifogydd yn atal risg llifogydd yn llwyr oherwydd y gall llifogydd fynd yn uwch na nhw neu gallant fethu, ond mae'r risg yn cael ei leihau'n sylweddol⁹⁹.
- 3.5.2.7 Mae amcanestyniadau hinsawdd yn dangos y byddwn yn gweld cynnydd mewn amlder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys stormydd yn ystod yr haf a chynnodau gwlyb hirfaith yn ystod cyfnod y gaeaf. Bydd hyn yn cynyddu llifau brig yn ein hafonydd, y disgwylir iddynt gynyddu'r risg o ddigwyddiadau llifogydd sydyn. Anodd iawn yw rhagolwg a rhagfynegi llifogydd o'r fath a gallant fod yn heriol iawn eu rheoli
- 3.5.2.8 Mae risg llifogydd a'r angen i'w rheoli ac i addasu iddi yn fater arwyddocaol iawn i Gymru yn y dyfodol, oherwydd rhagwelir y bydd y risgiau a ddygir yn sgil newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu materion llifogydd yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf i Gymru o Amcanestyniadau Hinsawdd y DU (UKCP18)¹⁰⁰ yn rhagweld, erbyn y 2070au, y bydd cynnydd o 19% yn nyddodiad cymedrig y gaeaf o dan senario allyriadau isel, ac y bydd 29% yn wlypach o dan senario allyriadau uchel. O ran newid yng nglawiad yr haf, rhagwelir y bydd 39% yn sychach o dan senario allyriadau isel a 56% yn sychach o dan senario allyriadau uchel. Gallai'r cyfuniad o hafau cynhesach a glawiad dwysach arwain at gynnydd yn yr achosion o gyflyrau stormus a llifogydd sydyn. Roedd digwyddiadau tywydd garw, gan gynnwys stormydd a llifogydd, yn cyfrif am 6% o'r holl oediadau rheilffyrdd yng Nghymru yn 2021¹⁰¹.
- 3.5.2.9 Ledled de-orllewin Cymru, mae 22km o drac rheilffordd a 240km o ffyrdd sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr¹⁰². Hefyd, mae 53km o drac rheilffordd a 600km o ffyrdd (priffyrdd ac is-ffyrdd) sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd. Mae hyn yn cyfrif am dros 30% o'r holl drac rheilffordd ledled Cymru sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd.
- 3.5.2.10 Ychydig yn llai na 400km² o dir amaethyddol sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr ledled Cymru. Yn ne-orllewin Cymru, mae 85km² sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr, sef 21% o gyfanswm cyffredinol Cymru. Hefyd, mae gan Gymru dros 800km² tir amaethyddol sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd. Mae 18% o gyfanswm cyffredinol y tir amaethyddol sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd yn ne-orllewin Cymru.
- 3.5.2.11 Mae nifer o safleoedd gwarchoddedig sydd mewn perygl o lifogydd ledled de-orllewin Cymru. Mae Tabl B-3 isod yn rhoi gwybodaeth am raddfa y safleoedd sydd mewn perygl yng Nghymru, yn ogystal â'r gyfran berthnasol o'r risg sy'n bresennol yn ne-orllewin Cymru.

⁹⁹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2024). Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Lle De-orllewin Cymru. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/media/10hnbj/frmp-cycle-2-place-section-south-west.pdf>. [Aed at y wefan ar 03.09.2024]

¹⁰⁰ Y Swyddfa Dywydd (2021) UKCP18 key results. Ar gael yn: <https://www.metoffice.gov.uk/research/approach/collaboration/ukcp/key-results> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹⁰¹ Llywodraeth Cymru (2021) Llwybr Newydd A New Wales Transport Strategy Consultation Draft- Supporting Information Transport data and trends. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-11/supporting-information-transport-data-and-trends.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹⁰² Cyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad) Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd: Lle De-orllewin Cymru. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/media/10hnbj/frmp-cycle-2-place-section-south-west.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

Tabl B-3: Nifer y safleoedd dynodedig pwysig Cenedlaethol sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr yn ne-orllewin Cymru

Dynodiad	Llifogydd o'r môr—cyfanswm yr ardal sydd mewn perygl yng Nghymru (km ²)	Llifogydd o'r môr—cyfanswm yr ardal sydd mewn perygl yn y de-orllewin (km ²)	Llifogydd o'r môr—y % o gyfanswm Cymru sydd mewn perygl yn y de-orllewin	Llifogydd o afonydd—cyfanswm yr ardal sydd mewn perygl yng Nghymru (km ²)	Llifogydd o afonydd—cyfanswm yr ardal sydd mewn perygl yn y de-orllewin (km ²)	Llifogydd o afonydd—y % o gyfanswm Cymru sydd mewn perygl yn y de-orllewin
RAMSAR	204	57	28	23	2	9
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	385	152	40	113	32	28
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu)	240	59	25	21	2	8
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)	513	165	32	180	34	19
Henebion Cofrestredig	1	0.2	12	1	0.2	12

3.5.2.12 Erbyn 2120, rhagwelir y bydd pum cymuned yn ne-orllewin Cymru yn profi'r newid mwyaf mewn perygl oherwydd y risg o lifogydd o'r môr, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

3.5.2.13 Yn ogystal â bod yn bwysau ar gymunedau a strwythurau adeiledig, mae llifogydd hefyd yn achosi effeithiau ar yr amgylchedd, fel y gwelwyd yn stormydd gaeaf 2013–14. Achosodd y stormydd hyn £8.1 miliwn o ddifrod i strwythurau amddiffyn rhag llifogydd ledled Cymru, yn ogystal â'r costau ariannol sy'n gysylltiedig ag oddeutu 300 eiddo gorlifedig. Mae'r gwaith gan CNC, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, Byrddau Draenio Mewnol a chwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth wedi ceisio rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Yn ystod stormydd gaeaf 2013/14, amcangyfrifir bod oddeutu 75,000 eiddo a 34,000 hectar o dir amaethyddol wedi eu diogelu rhag llifogydd. Amcangyfrifir bod £2.96 biliwn o ddifrod i eiddo wedi ei osgoi o ganlyniad i ddiogelwch gan amddiffynfeydd.¹⁰³

¹⁰³ Asiantaeth yr Amgylchedd (2016). Delivering benefits through evidence: The costs and impacts of the winter 2013 and 2024 floods. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/603549118fa8f5480a5386be/The_costs_and_impacts_of_the_winter_2013_to_2014_floods_-_report.pdf [Aed at y wefan ar 03.09.24]

- 3.5.2.14 Hefyd, gellid rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith i ddiogelu ardaloedd trefol a gwledig rhag risg llifogydd. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol¹⁰⁴ yn pwysleisio'r defnydd o seilwaith gwyrdd a gwyrddlwyd ar gyfer lleihau'r risg llifogydd, gan gynnwys cyflwyno SDCau a rheoli llifogydd naturiol.
- 3.5.2.15 Mae'r tueddiadau mewn prosesau hydrolegol, sy'n cynnwys codi lefel y môr a stormydd cynyddol, yn debygol o gynyddu tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol. Ers rhyddhau'r Strategaeth Genedlaethol gyntaf yn 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £600 miliwn mewn Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. O ystyried bod oddeutu 245,118 eiddo yn dal mewn perygl ar hyn o bryd, disgwylir i Gymru fuddsoddi dros £350 miliwn mewn gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol erbyn 2021¹⁰⁵.

3.5.3 Bylchau data

- Bylchau data sy'n ymwneud â chysylltiadau a llwybrau trafndiaeth, gan gynnwys llwybrau teithio llesol, yr effeithir arnynt gan lifogydd.
- Bylchau data sy'n ymwneud â strwythurau trafndiaeth yr effeithir arnynt gan sgwrio.
- Bylchau data sy'n ymwneud â demograffeg yr aelwydydd y mae llifogydd fwyaf tebygol o effeithio arnynt.
- Bylchau data sy'n ymwneud â'r risgiau i seilwaith trafndiaeth sy'n gysylltiedig â gwres eithafol

3.6 Daeareg a Phriddoedd

3.6.1 Perthnasedd i'r CTRh

- 3.6.1.1 Yn y dyfodol, gallai peryglon daearegol newid fel ymateb i newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, gallai erydu arfordirol, tirlithriadau a llygredd o hen safleoedd mwynloddio gynyddu o ganlyniad i gynydd mewn glawiad a digwyddiadau llifogydd. Dylid ystyried perthnasedd hyn yn y CTRh. Ymhellach, gallai colli a chywasgu priddoedd a geoamrywiaeth, pan maent o bwysigrwydd, fod yn fater sylweddol wrth gynllunio ar gyfer seilwaith trafndiaeth newydd yn y CTRh. Hefyd, yn olaf, dylid ystyried topograffeg de-orllewin Cymru wrth gynllunio seilwaith newydd, er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn gyflawnadwy.

3.6.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol


- 3.6.2.1 Mae geoamrywiaeth de-orllewin Cymru yn arwyddocaol. Mae geoamrywiaeth yn darparu llawer o adnoddau naturiol Cymru, yn dylanwadu'n gryf ar y dirwedd, y fioamrywiaeth a'r diwylliant, ac mae o bwys rhyngwladol ar gyfer ymchwil geowyddoniaeth. O dros 1,000 o SoDdGAu yng Nghymru, mae 300 o'r rhain yn cynnwys oddeutu 500 o nodweddion daearegol sy'n cwmpasu 48,815 hectar ac mae 93% o'r nodweddion hyn mewn cyflwr ffafriol. Gallai'r rhain fod yn chwareli gweithredol neu segur, gwastraff mwynloddio, toriadau ffyrdd neu reilffyrdd, clogwyni arfordirol meddal neu galed, tirffurfiau gweithredol megis systemau twyni tywod neu afonydd troellog, neu dirffurfiau sefydlog megis cymoedd rhewlifol neu raeanfryniau. Mae Ffigur B-28 yn dangos dosbarthiad SoDdGAu daearegol a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol. Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol yng Nghymru yn cwmpasu oddeutu 20,000 o hectarau a dewiswyd pob un i ychwanegu at y rhwydwaith SoDdGAu, ond maent hefyd yn cynnwys ardaloedd o ddiddordeb

¹⁰⁴ Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru.pdf> [Aed at y wefan ar 02.09.24]

¹⁰⁵ Llywodraeth Cymru (2019) Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 2019. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-atodol-i-adolygiad-y-du-o-gynydd-tuag-at-y-nodau-datblygu-cynaliadwy-2030_1.pdf [Aed at y wefan 02.09.24]

addysgol, esthetig a hanesyddol. Tanategir ardaloedd eraill o Gymru, megis Llwybr Arfordir Cymru, Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, gan geoamrywiaeth ac maent yn hyrwyddo'r dirwedd amrywiol sy'n denu miliynau o dwristiaid ac sy'n cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru¹⁰⁶.

Ffigur B-28: Safleoedd Geoamrywiaeth Cymru



Ffynhonnell: SoNaRR, 2016

3.6.2.2 Mae daeareg de-orllewin Cymru yn amrywiol iawn, ond mae'n cynnwys Ffurfiannau Mesur Glo a Chreigiau Ashgill yn bennaf. Ledled Sir Benfro, carreg laid, tywodfaen a charreg silt yw'r daeareg i raddau helaeth, er mai chreigiau igneaidd a metamorffig hŷn sy'n dominyddu yng ngogledd Sir Benfro, gyda rhai dyddodion arwynebol o dywod rhewlifol a graean. Mae rhai ardaloedd yn ne Sir Benfro sy'n cynnwys Mesurau Glo y Penwynion Isaf a Ffurfiannau Mesurau Glo De Cymru Isaf (Aberllydan hyd Saundersfoot), a rhai ardaloedd bach ger yr arfordir (Penfro hyd Ddinbych-y-pysgod, a Llanfihangel-clogwyn-gofan) sy'n cynnwys Calchfaen¹⁰⁷.

3.6.2.3 Mae'r dopograffeg yn amrywio o ardaloedd arfordirol isel sy'n gymharol wastad yn y de i gymoedd serth yng ngogledd Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Mae drychiadau uchel ledled y sir yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n cyrraedd dros 550m uwchben Datwm Ordnans ym Mharc Coedwig


¹⁰⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) The State of Natural Resources Report (SoNaRR): Assessment of the Sustainable Management of Natural Resources. Annex Technical Annex for Chapter 3. Ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684352/annex-chapter-3-final-for-publication.pdf> [Aed at y wefan ar 02.09.24]

¹⁰⁷ JBA Consulting (2022) Aseiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 – De-orllewin Cymru. Ar gael yn: https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1231251/1-cymhri-jbau-xx-xx-rp-hm-0002-a1-c02-stage_1_sfca-1-1.pdf [Aed at y wefan: 02.09.24]

Afan yn y dwyrain. Sir Gaerfyrddin sydd â'r dopograffeg uchaf, sydd dros 745m uwchben Datwm Ordnans ym Mannau Brycheiniog i'r dwyrain o'r sir.

- 3.6.2.4 Mae priddoedd y tir amaethyddol ansawdd gorau a mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a meidraidd yng Nghymru; mae'n cyfrif am lai na 7% o arwynebedd y tir (gweler Ffigur B-29). Mae ansawdd pridd wedi dirywio dros amser ar draws yr holl gynefinoedd ar wahân i goetiroedd lle bu rhywfaint o welliant.

Ffigur B-29: Map Dosbarthu Tir Amaethyddol yn Rhagfynegol



Ffynhonnell: MapDataCymru

- 3.6.2.5 Mae de-orllewin Cymru yn wledig yn bennaf, gyda 56% o'r tir yn cynnwys 'tir fferm caeedig' ac 17% o goetir. Disgrifir llawer o ardaloedd tir de-orllewin Cymru fel parthau torlannol. Mae'r ardaloedd hyn yn hidlo llygryddion megis maetholion a gwaddodion, ac mae llystyfiant glan afon yn helpu i leihau erydiad. Trwy ddod â natur yn ôl i nentydd ac afonydd trefol a diogelu ffrydiau gwledig rhag sathru gan dda byw, gall hyn helpu i wella ansawdd dŵr a chynyddu bioamrywiaeth¹⁰⁸.
- 3.6.2.6 Er nad yw difrifoldeb a graddau gofodol erydiad y pridd wedi ei feintio'n uniongyrchol yng Nghymru, credir bod cywasgiad pridd difrifol yn effeithio ar oddeutu 10–15% o'r caeau glaswelltir yng Nghymru a Lloegr a bod 50–60% ohonynt mewn cyflwr cymedrol. Fodd bynnag, ar lefel genedlaethol, nid yw'n ymddangos bod priddoedd yn dangos tystiolaeth o gywasgu eang¹⁰⁹.


¹⁰⁸ CNC (2024) Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-plans-and-policies/area-statements/south-west-wales-area-statement/ensuring-sustainable-land-management/?lang=cy> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹⁰⁹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/sonarr2020-structure-and-contents/?lang=cy> [Aed at y wefan: 02.09.24]

3.6.2.7 Cwblhawyd gwaith adfer ar 97 o'r 111 o safleoedd Tir Halogedig a nodwyd yng Nghymru, ond nid yw oddeutu 9,330 o'r safleoedd a allai fod wedi eu halogi wedi eu hymchwilio eto, ac ystyrir bod 414 o'r rhain yn flaenoriaeth uchel.

3.6.2.8 Mae priddoedd Cymru yn cynnwys 410 miliwn tonnell o garbon. Mae dwysedd carbon Cymru ar y cyfan, yn gymharol uchel ac yn rhannau ucheldirol y wlad y mae'r ardaloedd dwysaf yn bennaf. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu natur ucheldirol y wlad a llawer iawn o briddoedd mawnog. Dengys Ffigur B-30 ddwysedd carbon Cymru ar ddyfnder o 0–100cm. Mae crynodiadau carbon uwchbridd yn sefydlog yn gyffredinol ac mae adferiad o asideiddio pridd ar y gweill.

Ffigur B-30: Dosbarthiad carbon pridd yng Nghymru, a ddangosir fel dwysedd carbon (t/ha) ar ddyfnder o 0–100cm



Ffynhonnell: SoNaRR, 2016

3.6.3 Bylchau data

- Data penodol sy'n ymwneud â dosbarthiadau tir amaethyddol ar gyfer de-orllewin Cymru
- Data penodol ar gyfer de-orllewin Cymru mewn cysylltiad â storio carbon mewn priddoedd

- Data penodol sy'n ymwneud â safleoedd daearegol o bwys rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru.
- Data penodol ar gyfer de-orllewin Cymru mewn cysylltiad â halogi tir.
- Peryglon daearegol ar gyfer de-orllewin Cymru

3.7 Yr Amgylchedd Dŵr

3.7.1 Perthnasedd i'r CTRh

3.7.1.1 Mae dŵr yn ganolog i fywyd. Mae Cymru'n dibynnu ar gyfeintiau sylweddol o ddŵr i gynhyrchu adnoddau, i gludo nwyddau, i ddarparu buddion hamdden, megis adnodd yfed ac i dyfu bwyd. Felly, mae ansawdd a chyfaint y dŵr yn hanfodol bwysig. Mae hefyd yn bwysig nodi y gall diffyg dŵr sydd ar gael yn lleol gyfyngu ar seilwaith ac adeiladu. Rhagwelir y gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar ansawdd dŵr yng Nghymru drwy nifer o lwybrau o ganlyniad i gynnydd mewn glawiad a llifogydd, tywydd eithafol sy'n achosi ymchwyddiadau storm, tymheredd uwch a llifoedd isel, codiad yn lefel y môr ac erydu arfordirol.

3.7.1.2 Gallai'r CTRh helpu i reoli'r amgylchedd dŵr drwy helpu i arwain penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu seilwaith trafniadaeth a allai niweidio ansawdd dŵr neu roi pwysau ar adnoddau dŵr.

3.7.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

3.7.2.1 Cynhyrchwyd map nodweddion dŵr Cymru yn Ffigur B-37 o dan ofynion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr. Mae'r map yn dangos dalgylchoedd afonydd a nodweddion dŵr eraill yng Nghymru. Mae ansawdd corff dŵr ledled Cymru yn tueddu i amrywio o ddosbarthiad da i wael, ond yn anaml iawn y cânt eu dosbarthu fel rhai gwael iawn. Yn benodol, dosberthir dalgylchoedd afonydd y de a Bae Ceredigion yn rhai cymedrol neu dda. Mae'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr¹¹⁰ yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gyflawni statws 'da' ar gyfer pob corff dŵr (gan gynnwys afonydd, nentydd, llynnoedd, aberoedd, dyfroedd arfordirol a dŵr daear)¹¹¹.

3.7.2.2 Mewn llawer o afonydd Cymru, mae llifoedd yn enwedig o agored i newid hinsawdd oherwydd eu bod yn tueddu i godi a disgyn yn gyflym mewn ymateb i lawiad. Gallai mwy o lifoedd yn ystod y gaeaf gynyddu'r pwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio a gwasgaru llygredd hefyd. Cynhaliwyd Ymchwiliad diweddar gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (2022)¹¹² mewn ymateb i bryderon "ynghylch amllder gollyngiadau carthion o orlifiadau storm, (ac) effaith andwyol gollyngiadau ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd" a daw i'r casgliad bod gollyngiadau ar "lefel annerbyniol". Mae Adroddiad yr Ymchwiliad yn cydnabod bod mwy o lawiad o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu'n sylweddol at ollyngiadau carthion cynyddol, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2016 (Gweler Tabl B-4)¹¹³.

¹¹¹ Asiantaeth yr Amgylchedd (2023) Water Framework Directive assessment: estuarine and coastal waters. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/guidance/water-framework-directive-assessment-estuarine-and-coastal-waters> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹¹² Senedd Cymru (2022). Report on storm overflows in Wales. Ar gael yn: <https://senedd.wales/media/v4apg5wb/cr-ld15015-e.pdf> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

Tabl B-4: Gollyngiadau carthffosiaeth yng Nghymru 2016–2020

	2020	2019	2018	2017	2016
Nifer y gollyngiadau a gofnodwyd â Monitorau Hyd Digwyddiad	105,751	73,517	48,499	29,878	14,485
Nifer y gorlifoedd storm y gosodwyd Monitorau Hyd Digwyddiad ar eu cyfer	2,041	1,665	1,359	983	545

Ffynhonnell: Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig 2022

- 3.7.2.3 Cyrhaeddodd pob un o'r 105 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru y safon ansawdd dŵr ymdrochi yn 2021, fodd bynnag mae achosion o lygredd yn parhau i ddigwydd ac mae ganddynt oblygiadau i iechyd ac economïau lleol sy'n ddibynnol ar dwristiaeth. Er bod dŵr yfed yng Nghymru o safon ardderchog ar y cyfan, mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (2022) yn nodi bod effeithiau newid yn yr hinsawdd megis sychder a llifogydd yn cynyddu'r risg o algâu, metelau, plaladdwyr ffo a "sylweddau eraill o bryder" sy'n effeithio ar ddŵr¹¹⁴.
- 3.7.2.4 Oherwydd topograffeg Cymru, mae gan Ddŵr Cymru nifer uchel o "barthau adnoddau dŵr" (gweler Ffigur B-31). Mae'r 24 parth adnoddau dŵr yn cynrychioli un rhan o bump o'r cyfanswm ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae Dŵr Cymru wedi nodi nad yw tri o'i 24 o "barthau adnoddau dŵr" yn gydnherth i sychder, a Sir Benfro yw un o'r rhain¹¹⁵.

Ffigur B-31: Parth Adnoddau Dŵr Dŵr Cymru




¹¹⁴ Sefydliad Iechyd y Byd (dim dyddiad) D5.5 Water Supply and Quality. Ar gael yn: <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2023/07/D5.5-Water-Supply-and-Quality-Eng-final.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹¹⁵ Dŵr Cymru (2020) Diwygiedig Parthau Adnoddau Dŵr 2020. Ar gael yn: <https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/final-drought-plan-2020> [Aed at y wefan: 02.09.24]

- 3.7.2.5 O dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, mae angen cynllun rheoli ar gyfer pob Ardal Basn Afon Cymru. Mae CNC yn cynhyrchu dau Gynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Cymru, un ar gyfer dalgylch gorllewin Cymru a'r llall ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Hefyd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynhyrchu'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Afon Hafren. Mae'r cynlluniau'n cael eu diweddarau mewn cylchoedd chwe blynedd ac yn cynnwys gwybodaeth am statws y cyrff dŵr a chrynodeb o'r rhaglen fesurau sydd ei hangen i gyflawni amcanion statudol i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd dŵr. Mae Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch yn cael eu datblygu ar lefel dalgylch i reoli cyfraddau trwyddedu a thynnu dŵr er mwyn sicrhau lefelau dŵr cynaliadwy.
- 3.7.2.6 Mae de-orllewin Cymru yn dod o dan Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (gweler Ffigur B-32). Ym mis Gorffennaf 2022, cynhyrchodd CNC Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2021–2027¹¹⁶. Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cwmpasu ardal o 16,653 km². Mae'r Ardal Basn Afon yn wledig yn bennaf, a defnyddir y tir yn bennaf ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae llynnoedd, afonydd, aberoedd a dyfroedd arfordirol yr ardal yn enwog am eu pysgota. Mae oddeutu 70% o arfordir yr Ardal wedi ei ddynodi yng nghyfraith y DU oherwydd ei ansawdd amgylcheddol, gan gynnwys llawer o draethau ymdrochi o'r radd flaenaf a safleoedd cadwraeth o bwys rhyngwladol. Mae'r holl ddŵr daear yn yr Ardal Basn Afon hon yn ffurfio rhan o Ardal Warchoddedig Dŵr Yfed.

¹¹⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru 2021– 2027 Crynodeb. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/media/695226/western-wales-rbmp-2021_2027-summary-cymraeg.pdf [Aed at y wefan: 02.09.24]


Ffigur B-32: Ardal Basn Gorllewin Cymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

3.7.2.7 Ers cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Basn Afon diweddedig yn 2015, mae CNC wedi parhau i wella ei ddealltwriaeth o'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr. Yn 2015, cyflawnodd 40% o'r cyrff dŵr statws cyffredinol da neu well. Mae'r dosbarthiad diweddaraf yn dangos bod hyn wedi gwella i 42% (gweler Ffigur B-33).

Ffigur B-33: Dalgylchoedd afonydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a symboleiddir gan ddsbarthiad 2015 a 2018



OverallStatus

- Not Assessed
- Bad
- Good
- Moderate
- Poor

Ffynhonnell: Arsylwi Dyfroedd Cymru

- 3.7.2.8 Mae dŵr daear yn darparu traean o'r dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr, ac mae hefyd yn cynnal y llif yn llawer o'n hafonydd. Dosberthir Cymru gyfan fel parth diogelu ffynhonnell fewnol o ddŵr daear. Diffinnir y parth fel yr amser teithio 50 diwrnod oddi wrth unrhyw bwynt islaw'r lefel trwythiad tuag at y ffynhonnell. Mae'r ardaloedd hyn yn berthnasol ar y lefel trwythiad ac o dan y lefel trwythiad. Mae'r meini prawf wedi eu pennu i ddiogelu rhag trosglwyddo cemegau gwenwynig a chlefyd a gludir yn y dŵr.
- 3.7.2.9 Yng Nghymru, daeth Cyfarwyddeb Nitradau yr UE¹¹⁷ i rym drwy Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013¹¹⁸. Ardal o dir sy'n draenio i ddyfroedd daear neu wyneb sy'n uchel mewn nitrad ar y pryd; neu a allai ddod yn uchel mewn nitrad oni chymerir camau gweithredu priodol yw Parth Perygl Nitradau. Yn 2014, roedd oddeutu 2.3% o Gymru mewn Parth Perygl Nitradau¹¹⁹.

¹¹⁷ Cyfarwyddeb 91/676/EEC y Cyngor ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Ar gael yn: <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:01991L0676-20081211&from=EN> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹¹⁸ Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/2506/contents/made> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹¹⁹ Llywodraeth Cymru (2014) Parthau Perygl Nitradau (NVZ). Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/trawsgydydffurfio-parthau-perygl-nitradau-smr-1.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

- 3.7.2.10 Mae Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 wedi eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bydd mesurau i ddiogelu'r amgylchedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol bellach yn berthnasol i'r mwyafrif o'r daliadau yng Nghymru ar ôl y cyfnodau pontio (mae'r rhain yn berthnasol i ddaliadau nad oeddent mewn Parth Perygl Nitradau yn flaenorol). Mae Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru a oedd ar y Gofrestr Ardaloedd Gwarchoddedig yn flaenorol wedi eu dileu¹²⁰.
- 3.7.2.11 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd CNC adroddiad tystiolaeth, Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosforws¹²¹. Mae'r adolygiad tystiolaeth yn dangos, yn gyffredinol, fod toriadau ffosforws yn ACAau Afon Cleddau ac Afon Teifi isaf o'u cymharu â'r targedau tynnach diwygiedig a bennwyd. Er hynny, llwyddodd Afon Tywi i basio'r targedau.

3.7.3 Bylchau data

- Rhyddhau carthion yn ne-orllewin Cymru
- Statws cyrff dŵr cyfredol
- Parthau Perygl Nitradau yn ne-orllewin Cymru
- Bylchau data mewn cysylltiad â phrinder dŵr yn y dyfodol.

3.8 Mwynau a Gwastraff

3.8.1 Perthnasedd i'r CTRh

- 3.8.1.1 Fel y disgrifir uchod, mae daeareg amrywiol Cymru yn darparu adnoddau mwynau pwysig sy'n tanatogu diwydiannau adeiladu ac ynni y wlad ac felly mae'n agwedd bwysig ar yr economi. Gellir ystyried gwastraff fel adnodd hefyd, o ran ailgylchu ac aildefnyddio at ddibenion eraill neu fel ffynhonnell ynni. Bydd dyfodol trafndiaeth yng Nghymru yn rhyngweithio â hyn drwy greu Gwastraff, llwybrau ar gyfer mwynau a gwastraff a defnyddio gwastraff a mwynau wrth ddatblygu seilwaith trafndiaeth. Gellid cyflawni'r defnydd cynaliadwy o'r mwynau a'r adnoddau gwastraff hyn drwy wneud penderfyniadau a dewis prosiectau a rhaglenni yn y CTRh.

3.8.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

- 3.8.2.1 Yn dilyn hanes hir, mae mwyngloddio metel wedi dod i ben, a dim ond cloddio am lo a chwareli llechi lleol sydd yng Nghymru. Y diwydiant agregau yw'r prif ddiwydiant echdynnu mwynau yng Nghymru bellach, gan gynnwys agregau sy'n deillio o'r môr ac o'r ddaear. Yn 2014, calchfaen a dolomit oedd yr echdyniad mwynau mwyaf mewn tunelli (gweler Tabl B-5)¹²².

¹²⁰ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru 2021– 2027 Crynodeb. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/media/695226/western-wales-rbmp-2021_2027-summary-cymraeg.pdf [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹²¹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosforws. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=cy> [Aed at y wefan: 02.09.24]


¹²² Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) The State of Natural Resources Report (SoNaRR): Assessment of the Sustainable Management of Natural Resources. Adroddiad Technegol. Pennod 3. Crynodeb o faint, cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol ac ecosystemau yng Nghymru. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/media/681127/chapter-3-state-and-trends-final-for-publication.pdf> [Aed at y wefan ar 02.09.24]

Tabl B-5: Cynhyrchu Mwynau yng Nghymru ar gyfer 2014

Mwyn	Miloedd o Dunelli a Echdynnwyd
Glo (cloddio dwfn)	91
Glo (brig)	2,343
Craig Igneaidd	1,905
Calchfaen a Dolomit	8,934
Tywod a graean (tirol)	673
Tywod a graean (morol)	632
Tywodfaen	2,774
Cyfanswm	17,352

3.8.2.2 Cyhoeddwyd gwerthiant agregau yng Nghymru yn adroddiad blynyddol 2021 Gweithgor Agregau Rhanbarthol y De¹²³, a dangosir hyn yn Ffigur B-34.

Ffigur B-34: Prif Werthiant Agregau 2012–2021



Ffynhonnell: Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru

3.8.2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12 (Chwefror 2024) (paragraff 5.14.10) yn dweud: “Mae sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau’n fater strategol sy’n chwarae rhan sylfaenol o ran cefnogi datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau.”

3.8.2.4 Paratowyd Datganiad Sefyllfa Technegol Rhanbarthol ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer Is-ranbarth De-orllewin Cymru mewn cysylltiad â thywod a graean a enillir o’r tir (gweler Tabl B-6).

¹²³ Gweithgor Agregau Rhanbarthol y De (2024) Annual Report for 2021. Ar gael yn: http://www.swrawp-wales.org.uk/Html/SWRAWP_Annual_Report_2021_Final.pdf [Aed at y wefan ar 02.09.24]

Tabl B-6: Cyfrifo dyraniadau sy'n ofynnol ar gyfer agregau tywod a graean a enillir o'r tir—is-ranbarth de-orllewin Cymru

Awdurdod Cynllunio Lleol	Dosraniad Blynyddol Newydd ar gyfer tywod a graean (mt)	Cyfanswm y Dosraniad sydd ei Angen dros 22 flynedd.	Cronfeydd wrth gefn presennol ar a ganiatawyd ddiwedd 2016 mewn mt	Isafswm y Dyraniad sydd ei angen i fodloni'r Ddarpariaeth sy'n Ofynnol (mt)	Gwarchodfeydd ychwanegol ar safleoedd segur, 2016 (mt)
Ceredigion	0.188	4.136	0.510	3.626	0
Sir Benfro	0.000	0.000	0.000	0.000	0
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	0.118	2.6000	2.600	0.000	0
Sir Gaerfyrddin	0.003	0.058	0.100	-	0.35

3.8.2.5 Sir Gaerfyrddin yw'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru sydd â gwarged o dywod a graean wrth gefn a ganiateir ar hyn o bryd. Nid oes gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n weddill warged na diffyg o ran darpariaeth tywod a graean ond, yn y mwyafrif o'r achosion, mae hyn oherwydd nad oes ganddynt unrhyw gynhyrchiad na dosraniad ar hyn o bryd. Eithriad i hyn yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd (o ganlyniad i sicrhau na fydd ei ddsraniad yn fwy na'r banc tir presennol) â digon o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod o 22 flynedd sydd ei angen. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd angen i ardaloedd cyfagos eraill gyflenwi'r gofyniad sydd wedi disgyn ar y Parc Cenedlaethol¹²⁴.

3.8.2.6 Nod Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2010–2050¹²⁵ yw i Gymru i fod yn genedl sy'n ailgylchu i raddau helaeth erbyn 2025 ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050. Mae Adroddiad Cynnydd 2015¹²⁶ yn nodi'r ystadegau a'r tueddiadau allweddol canlynol:

- Mae Cymru gryn dipyn o flaen y DU o ran ailgylchu gwastraff trefol, gan gyflawni 54.3% yn 2013/14.
- Cyflawnodd Cymru leihad o 37% yn y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi mewn safleoedd a ganiateir rhwng 2010 a 2013.
- Ers 2009–10, mae Cymru wedi gwneud cynnydd o 1.8% y flwyddyn ar gyfartaledd o ran lleihau gwastraff cartref sy'n codi, a bu cynnydd o 13.8% yn y gyfradd ailgylchu ar gyfer gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol.
- Cyflawnodd Cymru darged 2020 yr UE ar gyfer gwastraff bioddiraddadwy a gesglir gan awdurdodau lleol ac eraill a anfonwyd i safleoedd tirlenwi wyth mlynedd yn gynnar.
- Mae Cymru hefyd wedi cyflawni lleihad o 4.7% y flwyddyn ers 2007 yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o wastraff, gan ragori ar y lleihad targed o 3% y flwyddyn a bennir yn y Strategaeth Newid Hinsawdd.

¹²⁴ Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol Is-ranbarth De-orllewin Cymru (2023) Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithfannau Cyfanredol Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru—Adolygiad 2il. Ar gael yn:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/media/lsmdu0usz/ssrc-position-statement-sw-wales-sub-region-final-cym.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹²⁵ Llywodraeth (2010) Tuag at ddyfodol diwastraff: ein strategaeth wastraff. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/tuag-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹²⁶ Llywodraeth Cymru (2015) Towards Zero Waste 2010–2050 Progress Report July 2015. Ar gael yn:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/towards-zero-waste-progress-report-july-2015.pdf> [Aed at y wefan: 02.09.24]

3.8.2.7 Mae Tabl B-7 yn dangos cyfanswm y gwastraff fesul sector na chafodd ei ailgylchu, ei aildefnyddio na'i gompostio fel canran o'r gwastraff trefol cyffredinol a gynhyrchir¹²⁷. Mae hyn yn dangos lleihad cyson yn swm y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi tan 2021, a welodd gynnydd sydyn.

Tabl B-7: Swm y Gwastraff Trefol a'r Gwastraff Trefol Biogdiraddadwy a anfonwyd i Safleoedd Tirlenwi

Blwyddyn	Gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (miloedd o dunelli)	Gwastraff trefol biogdiraddadwy a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (miloedd o dunelli)
2017	678	311
2018	574	285
2019	507	250
2020	452	221
2021	599	296

3.8.2.8 Rhwng 2022–2023, y cyfraddau aildefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol (targed statudol) yn ne-orllewin Cymru oedd: Sir Benfro 71.6%, Sir Gaerfyrddin 65.4%, Abertawe 71.8% a Chastell-nedd Port Talbot 64.8%¹²⁸.

3.8.2.9 Yng Nghymru, ar gyfer gwastraff a waredwyd i safleoedd tirlenwi yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024¹²⁹:

- Roedd 1,054 mil o dunelli o warediadau awdurdodedig. Mae hyn yn lleihad o 14% o'i gymharu â Ebrill 2022 i Mawrth 2023.
- Arweiniodd y gwarediadau hyn at £29.6 miliwn o dreth a oedd yn ddyledus. Mae hyn 30% yn is na'r dreth a oedd yn ddyledus ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Mae'r rhesymau posibl dros y duedd hon yn cynnwys:
 - effeithiau polisi amgylcheddol wrth annog dulliau llai niweidiol o reoli gwastraff megis ailgylchu a llosgi
 - amrywioldeb yn nifer y gwarediadau mewn safleoedd penodol lle mae'r celloedd tirlenwi yn llawn neu bron yn llawn, a rhai safleoedd tirlenwi sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes
- Roedd deunydd mân yn cyfrif am 41% o'r pwysau gwastraff a waredwyd ar gyfradd is y dreth.
- Roedd y pum gweithredwr safle tirlenwi a oedd yn talu'r mwyaf o dreth yn cyfrif am 88% o gyfanswm y dreth a oedd yn ddyledus.

3.8.2.10 Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol¹³⁰ yn rhoi pwyslais ar fabwysiadu dull ar sail lle ac ar gyflawni atebion ar sail natur. Mae pwyslais yn y ddogfen ar ddefnyddio llinell sylfaen gadarn i ddeall sut i gynllunio'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

3.8.2.11 Y pedair thema polisi, a dynnwyd o'r Polisi Adnoddau Naturiol, oedd:

¹²⁷ DEFRA (2023) ENV23 UK statistics on waste data. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/env23-uk-waste-data-and-management> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹²⁸ StatsCymru (2023) Cyfraddau aildefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol fesul awdurdod lleol. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/annualreuserecyclingcompostingrates-by-localauthority-year> [Aed at y wefan: 06.08.24]

¹²⁹ Llywodraeth Cymru (2024) Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Ionawr i Mawrth 2024. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-r-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-mawrth-2024-html> [Aed at y wefan: 06.08.24]

¹³⁰ Llywodraeth Cymru (2018) Y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol> [Aed at y wefan: 02.09.24]

1. Ansawdd Dŵr Morol a Dŵr Croyw
2. Rheoli Llifogydd Naturiol
3. Plannu Coetir (ar gyfer gwahanol amcanion)
4. Seilwaith Gwyrdd Trefol ac Amdrefol

3.8.3 Bylchau data

- Bwlch data sy'n ymwneud â sut mae deunyddiau wedi eu hailgylchu yn cael eu defnyddio yn y diwydiant trafndiaeth fel canran o gyfanswm y deunyddiau a ddefnyddir ledled Cymru.
- Bylchau data sy'n ymwneud â chludo a rheoli gwastraff a mwynau ledled Cymru.
- Y data cynhyrchu mwynau diweddaraf ledled Cymru
- Cynhyrchu mwynau yn ne-orllewin Cymru

3.9 Materion Allweddol sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd iddo fynd i'r afael â nhw

3.9.1 Materion

Ansawdd yr Aer

- 3.9.1.1 Ar y cyfan mae ansawdd yr aer yn ne-orllewin Cymru yn dda iawn, sy'n adlewyrchu ei natur wledig iawn a'i hamgylchedd naturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae saith Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn ne-orllewin Cymru ac mae targedau'n cael eu torri ar gyfer nifer o lygryddion allweddol sy'n peri risg i iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol, felly mae'n rhaid i'r cynllun trafndiaeth ystyried hyn.
- 3.9.1.2 Mae 90% o gynefinoedd lled-naturiol Cymru sy'n sensitif i nitrogen yn destun dyddodiad nitrogen sydd y tu hwnt i'r terfynau llwyth critigol.
- 3.9.1.3 Mae amonia yn parhau i fod yn broblem, fel llygrydd aer lleol ac fel cyfrannwr at ffurfio deunydd gronynnol eilaidd, gan gynnwys ffurfio gronynnau mân iawn (deunydd gronynnol 2.5), a all gael effaith mwy difrifol ar iechyd dynol ac ecosystemau na deunydd gronynnol 10 sy'n fwy o ran maint.
- 3.9.1.4 Mae trafndiaeth ar y ffyrdd yn cyfrif am bron i draean o'r holl allyriadau NO₂ yn y DU, a thrafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd aer yn y DU.

Llygredd Sŵn

- 3.9.1.5 Mae sŵn o reilffyrdd a phrif ffyrdd de-orllewin Cymru yn parhau i fod yn uchel. Nid yw'n glir sut y bydd newidiadau i ddulliau trafndiaeth, megis trydaneiddio, yn effeithio ar lygredd sŵn o ffynonellau trafndiaeth.

Bioamrywiaeth, Flora a Ffawna a Chydnerthedd yr Ecosystem

- 3.9.1.6 Mae gan dde-orllewin Cymru amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys cynrychiolaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Fodd bynnag, mae cyflwr nodweddion rhywogaethau mewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd yng Nghymru a chyflwr cynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru yn parhau i fod yn anffafriol ar y cyfan; rhaid i'r cynllun trafndiaeth wneud ei orau i beidio ag atal y cynefinoedd drwy ddarnio cynefinoedd neu effeithiau anuniongyrchol fel dyddodi nitrogen, marwolaethau bywyd gwylt neu aflonyddwch sŵn.

- 3.9.1.7 Mae bioamrywiaeth daearol a morol dan fygythiad gan seilwaith trafndiaeth, llygredd a newid yn yr hinsawdd, ac mae pob un ohonynt yn effeithiau sy'n deillio o'r rhwydwaith trafndiaeth.
- 3.9.1.8 Newidiadau yn ansawdd cynefinoedd yn sgil newidiadau i'r drefn dŵr daear, newidiadau mewn cyfraddau llif naturiol o arwynebau caled sy'n cynyddu llifogydd dŵr wyneb.
- 3.9.1.9 Aflonyddwch i ffawna o sŵn, goleuadau a dirgryniadau o draffig a goleuadau ffyrdd.
- 3.9.1.10 Gallai strwythurau ffyrdd achosi problemau i rai adar/mamaliaid drwy leihau gwelededd.
- 3.9.1.11 Gallai'r cynefin ymylol neu'r cyffindir a'r traffig ar y ffordd hwyluso rhai rhywogaethau i wasgaru. Gallai hyn arwain at wasgaru a sefydlu rhywogaethau estron a goresgynnol neu rywogaethau plâu a allai gael effeithiau eilaidd ar gymunedau biolegol.
- 3.9.1.12 Gellid rhoi cynefinoedd cyfagos o dan bwysau cyhoeddus cynyddol, oherwydd mynediad, gan arwain at effeithiau gan gynnwys aflonyddu ar anifeiliaid, a dinistrio fflora daear yn ffisegol. Hefyd, gall sbwriel Gronni ar hyd y ffordd.
- 3.9.1.13 Colli cynefinoedd oddi ar y safle a newidiadau yn ansawdd cynefinoedd mewn cysylltiad â chaffael a gwaredu deunyddiau e.e. mwyngloddio am agregau er mwyn adeiladu ffyrdd.
- 3.9.1.14 Gall colli cynefinoedd cymharol fach hyd yn oed, darnio ac effeithiau anuniongyrchol prosiect ffordd unigol, o'u hychwanegu at effeithiau eraill y gorffennol, y presennol a'r hyn sy'n rhesymol ragweldwy yn y dyfodol yn sgil prosiectau a gweithgareddau eraill, gyfrannu at effeithiau sylweddol mewn ardal. Dylid ystyried pob math perthnasol o brosiectau a gweithgareddau yn y dyfodol (h.y. nid prosiectau ffyrdd eraill yn unig), gan gynnwys datblygiad a ysgogir.

Hinsawdd, Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol

- 3.9.1.15 Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cynyddu ac mae addasu a chadernid i'w heffeithiau yn anghenraid cynyddol. Yn nodedig, mae risg llifogydd yn broblem sylweddol yn ne-orllewin Cymru, gan gynnwys llifogydd arfordirol, afonol a dŵr wyneb a allai effeithio ar seilwaith trafndiaeth. Gwaethygir hyn gan gynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol ac mae hyn yn golygu bod eiddo a busnesau yn dod o dan risg cynyddol. Gall aflonyddwch effeithio'n anghymesur ar gymunedau sydd â llai a llai o ddewisiadau trafndiaeth cydnerth.
- 3.9.1.16 Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar dde-orllewin Cymru mewn ffyrdd heblaw llifogydd yn unig, megis digwyddiadau tywydd mwy eithafol, cynnydd mewn stormydd, cynnydd mewn tymheredd uchaf ac isaf, sychder mwy difrifol a chyfraddau erydu arfordirol sy'n waeth. Bydd newid yn yr hinsawdd hefyd yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau ledled de-orllewin Cymru.
- 3.9.1.17 Mae materion megis ceudyllau a achosir gan graciau ar y wyneb oherwydd tywydd cynnes a glaw yn berygl bob dydd a brofir gan ddefnyddwyr y ffordd a beicwyr.

Daeareg a Phriddoedd

- 3.9.1.18 Yn y dyfodol, gallai peryglon daearegol newid fel ymateb i newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, erydu arfordirol, tirlithriadau a llygredd o hen safleoedd mwyngloddio. Mae hyn yn peri risgiau sylweddol i'r system drafnidiaeth.
- 3.9.1.19 Mae priddoedd y tir amaethyddol ansawdd gorau a mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a meidraidd yng Nghymru ac mae ansawdd y pridd wedi dirywio dros amser ar draws pob cynefin. Mae hyn yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, cymeriad y dirwedd, twristiaeth, cynhyrchiad amaethyddol a

chadernid i newid yn yr hinsawdd. Mae uwchbridd, yn benodol priddoedd mawnog yng Nghymru yn ddalfa carbon mawr sydd angen ei diogelu. Rhaid ystyried hyn i gyd wrth gynllunio lleoliad seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol.

Yr Amgylchedd Dŵr

- 3.9.1.20 Nid yw ansawdd cyrff dŵr Cymru yn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr o hyd, a dim ond 40% oedd o statws ecolegol da yn 2020. Gall gweithgareddau trafndiaeth gyfrannu'n fawr at ansawdd dŵr gwael.
- 3.9.1.21 Mewn llawer o afonydd Cymru, mae llifoedd yn enwedig o agored i newid hinsawdd oherwydd eu bod yn tueddu i godi a disgyn yn gyflym mewn ymateb i lawiad. Gallai mwy o lifoedd dŵr wyneb yn ystod y gaeaf, sy'n deillio o gynnydd mewn dyddodiad oherwydd newid yn yr hinsawdd, gynyddu'r pwysau ar garthffosiaeth a systemau draenio a gwasgaru llygredd.
- 3.9.1.22 Er bod Cymru'n cael ei hystyried yn gyfoethog o ran dŵr, mae eisoes yn wynebu heriau o ran cyflenwi a gall adnoddau dŵr fod yn gymharol brin yn ystod tywydd sych a chynnes hirfaith.
- 3.9.1.23 Gall dŵr ffo oddi ar ffyrdd a gollyngiadau ar ffyrdd ac yn ystod gwaith adeiladu arwain at lygredd mewn dyfroedd wyneb, dyfroedd daear ac amgylcheddau morol (o amgylch porthladdoedd).

Mwynau a Gwastraff

- 3.9.1.24 Hefyd, weithiau, gall diogelu mwynau wrthdaro â mathau eraill o ddatblygiad e.e. seilwaith trafndiaeth.
- 3.9.1.25 Efallai y bydd gofynion deunydd uchel ar gyfer adeiladu seilwaith trafndiaeth, sy'n rhoi straen ychwanegol ar yr adnoddau cyfyngedig.

3.9.2 Cyfleoedd

Ansawdd yr Aer

- 3.9.2.1 Mae'r system drafnidiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd aer ar hyn o bryd, gellid cyflawni cyfle i leihau'r effaith negyddol hon ar ansawdd yr aer drwy helpu i leihau llygredd o drafnidiaeth drwy leihau'r pellter a deithir ac annog dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy. Gallai polisïau dylunio cynaliadwy a thirlunio helpu i ddarparu cyfleoedd i amsugno rhai llygryddion.
- 3.9.2.2 Gallai llwybrau teithio llesol ddioddef llygredd aer uchel, a allai waethygu materion iechyd.

Llygredd Sŵn

- 3.9.2.3 Gall y CTRh effeithio ar lygredd sŵn drwy sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar yr egwyddor o leihau allyriadau drwy'r newid i weithredu'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy. Gallai polisïau dylunio cynaliadwy a thirlunio helpu i leihau effaith sŵn ac effaith bosibl trafndiaeth ar ardaloedd llonydd.

Bioamrywiaeth, Flora a Ffawna a Chydnerthedd yr Ecosystem

- 3.9.2.4 Gall y CTRh elwa a gwella bioamrywiaeth drwy arwain y lleoliad a'r modd y mae seilwaith trafndiaeth newydd yn digwydd. Mae'n darparu cyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella drwy'r system drafnidiaeth, nid o ran safleoedd gwarchoddedig yn unig, ond o ran bioamrywiaeth a chysylltedd yn gyffredinol hefyd. Gallai manteision eraill gynnwys rheoli cynefinoedd yn well; strwythurau newydd e.e. gallai pontydd a thwneli ddarparu cynefinoedd i rai rhywogaethau e.e. ystlumod; a chreu cynefinoedd. Mae cyfle i'r CTRh gyflwyno seilwaith gwyrdd

ychwanegol yn rhan o gynigion trafndiaeth yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r broses o greu lleoedd yn ogystal â bioamrywiaeth, fflora a ffawna. Gallai adennill rheilffyrdd segur ar gyfer llwybrau amlddefnyddiwr ei gwneud yn bosibl i reoli bywyd gwyllt a rhywogaethau dominyddol, gan ganiatáu amgylchedd mwy bioamrywiol.

Hinsawdd, Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol

- 3.9.2.5 Mae gan yr CTRh swyddogaeth sylweddol i'w chwarae o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd i'r newid hwnnw. Mae llifogydd ac erydu arfordirol yn ardaloedd allweddol lle teimlir effeithiau newid yn yr hinsawdd yn lleol, a gellid dylunio'r rhaglenni a nodir yn y CTRh er mwyn helpu i leihau'r risg o lifogydd. Dylid dylunio seilwaith trafndiaeth i wrthsefyll erydu ac effeithiau eraill y newidiadau yn yr hinsawdd, gan gynnwys mwy o stormydd ac eithafion tymheredd.
- 3.9.2.6 Dylai'r CTRh ganolbwyntio ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd o drafnidiaeth yn sylweddol, drwy hybu dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy megis trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Gellid gwneud darpariaeth yn y CTRh i gynyddu'r ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, er mwyn annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan.
- 3.9.2.7 Gallai'r CTRh annog monitro effaith digwyddiadau tywydd ar y seilwaith a'r capasiti presennol, a straen ar y rhwydwaith ehangach.

Daeareg a Phriddoedd

- 3.9.2.8 Mae gan y CTRh gyfle i arwain y defnydd cynaliadwy o ddaeareg a phriddoedd de-orllewin Cymru yn y system trafndiaeth o ran eu defnydd wrth adeiladu seilwaith trafndiaeth neu wrth ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol a chyfrannu at y gwaith adfer parhaus neu dir a phriddoedd. Gellid nodi agweddau fel hyn, yn ogystal â rheoli neu osgoi peryglon daearegol, yn yr AEI ar gyfer prosiectau penodol ychwanegol mewn cynlluniau neu brosiectau lefel is, pe na fyddai'r manylion gofodol perthnasol yn cael eu cynnwys ar lefel uchel y CTRh.

Yr Amgylchedd Dŵr

- 3.9.2.9 Gallai'r CTRh helpu i hwyluso datblygiad seilwaith trafndiaeth a llwybrau trafndiaeth newydd mewn modd sy'n ceisio osgoi llygredd cyrff dŵr. Gellid nodi agweddau fel hyn yn yr AEI ar gyfer prosiectau penodol ychwanegol mewn cynlluniau neu brosiectau lefel is, pe na fyddai'r manylion gofodol perthnasol yn cael eu cynnwys ar lefel uchel y CTRh.

Mwynau a Gwastraff

- 3.9.2.10 Mae'n bosibl y gallai'r CTRh helpu i arwain y defnydd cynaliadwy o adnoddau o'r fath drwy ei bolisiau. Gellid nodi agweddau fel hyn yn yr AEI ar gyfer prosiectau penodol ychwanegol mewn cynlluniau neu brosiectau lefel is, pe na fyddai'r manylion gofodol perthnasol yn cael eu cynnwys ar lefel uchel y CTRh.

4 Nod Llesiant: Cymru Iachach a Chymru Fwy Cyfartal

4.1.1.1 Mae'r adran hon yn darparu data sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

“Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol” a “Darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, gan helpu pawb sydd eu hangen nhw, pan mae eu hangen nhw arnynt, lle mae eu hangen nhw arnynt”.

4.1.1.2 Mae'r data'n ymwneud yn bennaf â:

- Iechyd Dynol;
- Llesiant;
- Poblogaeth.

4.2 Iechyd a Llesiant

4.2.1 Perthnasedd i'r CTRh

4.2.1.1 O ran cydraddoldeb, mae trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig mewn cyflawni Cymru gynhwysol. Dylai pawb, heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol allu, a bod â'r hyder, i wneud teithiau annibynnol di-dor a heb gymorth ar draws pob dull teithio—o ddrws i ddrws a chan droi i fyny a mynd.

4.2.1.2 Mewn sawl ffordd, mae iechyd yng Nghymru yn gwella; mae pobl yn byw'n hirach ac mae cyfraddau rhai mathau o glefydau yn gostwng. Mewn sawl rhan o Gymru, mae iechyd y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn dda ar y cyfan, o'i gymharu ag iechyd y rhai mewn lleoliad mwy trefol. Fodd bynnag, mae ffactorau sy'n benodol i amgylchedd gwledig o'u cymharu â ffactorau mewn amgylcheddau trefol a all effeithio ar iechyd yn fwy sylweddol ac arwain at anghydraddoldeb ac iechyd gwaeth, megis pellter oddi wrth wasanaethau cyhoeddus a chymorth; y drafnidiaeth sydd ar gael; safonau tai; a phoblogaeth sy'n heneiddio.

4.2.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

Teithio Llesol

4.2.2.1 Cerdded neu feicio fel dull o deithio yw 'teithio llesol'; hynny yw cerdded neu feicio er mwyn mynd i gyrchfan benodol megis ysgol, gwaith, siopau, ymweld â chyfeillion a llawer o deithiau eraill. Mewn Bwletin Ystadegol ynghylch y defnydd o deithio llesol yng Nghymru¹³¹, canfuwyd yr hyn a ganlyn:


- Roedd 6% o oedolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Mae hyn yn gynydd o 2% ar yr un cyfnod rhwng 2019 a 2020.
- Roedd 51% o oedolion yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol (gweler Ffigur B-35). Mae hyn yn ostyngiad o 9% o gyfnod 2019–2020.
- Pan ofynnwyd iddynt ba mor aml yr oeddent wedi cerdded am fwy na 10 munud fel dull teithio yn ystod y tri mis blaenorol dywedodd 17% eu bod wedi cerdded am fwy na 10 munud bob dydd, dywedodd 18% eu bod wedi cerdded sawl gwaith yr wythnos a dywedodd 16% unwaith

¹³¹ Llywodraeth Cymru (2023) Teithio llesol (cerdded a beicio): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebryll-2022-i-fawrth-2023-html> [Aed at y wefan: 02.09.24]


neu ddwywaith yr wythnos. Roedd 8% arall yn cerdded unwaith neu ddwywaith y mis a dywedodd 41% eu bod yn cerdded yn llai aml neu byth.

- Roedd pobl heb salwch, anabledd neu wendid hirdymor cyfyngol yn fwy tebygol o fod wedi beicio o leiaf unwaith y mis o'u cymharu â'r rhai â salwch cyfyngol.
- Cerddodd 62% o bobl mewn ardaloedd trefol am fwy na 10 munud fel dull teithio o leiaf unwaith y mis, o'u cymharu â 52% o bobl mewn ardaloedd gwledig (gweler Ffigur B-36).
- Roedd ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol a oedd mewn iechyd 'da iawn' neu 'dda' yn fwy tebygol o gerdded neu feicio yn rheolaidd. Roedd 19% o bobl mewn iechyd da iawn a 18% o bobl mewn iechyd da yn cerdded fel dull teithio bob dydd o'u cymharu â 15% a oedd mewn iechyd gweddol.

Ffigur B-35: Amllder teithio llesol drwy gerdded



Ffigur B-36: Teithio llesol (cerdded) fesul dosbarthiad trefol a gwledig



Ymddygiad ffordd o fyw iach

4.2.2.2 Asesodd Arolwg Cenedlaethol Cymru¹³² a oedd ymatebwyr Cymru yn arddangos yr ymddygiadau ffordd iach o fyw canlynol:

- Peidio ag ysmegu;
- Peidio ag yfed dros y canllawiau dyddiol yn ystod yr wythnos flaenorol;
- Bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol;
- Bod yn egniol yn gorfforol am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol;
- Cynnal pwysau/mynegai màs y corff iach.

4.2.2.3 Nododd oddeutu 8% o oedolion eu bod yn dilyn llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw. Dywedodd dros 50% o oedolion eu bod wedi bod yn egniol am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol a dywedodd 37% bod eu pwysau yn iach. Dywedodd oddeutu 29% o oedolion eu bod wedi bwyta o leiaf pum dogn o ffrwythau neu llysiau y diwrnod blaenorol. Dywedodd oddeutu 13% o oedolion eu bod yn ysmegu a dywedodd 17% eu bod yn yfed mwy na'r canllaw wythnosol.

4.2.2.4 O ran grwpiau penodol, roedd canran yr oedolion a oedd yn dilyn llai na dwy ffordd iach o fyw yn fwy cyffredin ymhlith dynion (14%) na menywod (8%), ac ymhlith oedolion 45–64 oed.

4.2.2.5 Cadarnha'r Arolwg, o ystyried ffordd o fyw oedolion fesul bwrdd iechyd, yr adroddiadau mai 28% yn Abertawe oedd yn 'Egniol am lai na 30 munud yr wythnos', 25% yn Sir Gaerfyrddin, 28% yn Sir Benfro a 29% yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn debyg iawn i'r 31% a nodwyd ledled Cymru gyfan.

4.2.2.6 Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y mwyafrif o'r ymddygiadau ffordd o fyw rhwng 2021–22 a 2022–23, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn y defnydd o e-sigarêts.

Canran y bobl sy'n unig

4.2.2.7 Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru i bobl a oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am eu statws bywyd cyfredol, a nodir y canfyddiadau allweddol isod:¹³³

- Roedd 13% o bobl yn unig yn 2022 i 2023, sy'n gyson â chanlyniadau 2021 i 2022.
- Roedd pobl a ddywedodd eu bod yn 'Wyn—Prydeinig' yn llai tebygol o fod yn unig na'r rhai a ddywedodd eu bod yn Ddu, yn Asiaidd, neu'n rhan o grŵp ethnig lleiafrifol.
- Roedd pobl a oedd yn ystyried eu bod mewn iechyd gwael iawn yn fwy tebygol o fod yn unig na'r rhai a oedd mewn iechyd da.
- Roedd 39% o'r rhai ag afiechyd meddwl (gan gynnwys gorbryder ac iselder) yn unig, ond dim ond 9% o'r rhai heb salwch o'r fath oedd yn unig.
- Defnyddwyr gofal a gwasanaethau cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o gytuno eu bod yn teimlo'n unig yn aml (39% o'u cymharu ag 11% o'r rhai nad oedd yn ddefnyddwyr neu'n ofalwyr).

Cyfleusterau iechyd yng Nghymru

4.2.2.8 Mae nifer o gyfleusterau ysbyty yng Nghymru a wasgerir ar draws nifer o ofynion adrannol, a dangosir y nifer a'r mathau o gyfleusterau yn Nhabl B-8. Yn 2019, roedd 407 o bractisiau meddyg

¹³² Llywodraeth Cymru (2024) Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ffordd-o-fyw-oedolion-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebryll-2022-i-fawrth-2023> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹³³ Llywodraeth Cymru (2023) Unigrwydd (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebryll-2022-i-fawrth-2023-html> [Aed at y wefan: 02.09.24]

teulu yng Nghymru (naw yn llai nag yn 2018) ac roedd 89% ohonynt yn agored am yr holl oriau craidd dyddiol neu o fewn awr i'r oriau craidd (08:00 hyd 18:30), rhwng Llun d dydd Gwener¹³⁴.

Tabl B-8: Y Nifer a'r Math o Gyfleusterau Ysbyty yng Nghymru

Math o Gyfleuster Ysbyty	Nifer
Uned Damweiniau ac Achosion Brys Mawr	15
Uned Damweiniau ac Achosion Brys Bach	0
Uned Mân Anafiadau	27
Aciwt	2
Pwyllgor Lleol Cyngor Iechyd Cymuned	3
Clinig	19
Cymuned	28
Ysbyty Cymunedol Clefyd Meddwl yr Henoed	3
Ysbytai Eraill	
Ysbyty Dydd	5
Aciwt Mawr	2
Seiciatrig: Anabledd Dysgu	2
Seiciatrig: Salwch Meddwl	17
Seiciatrig: Salwch Meddwl/Anabledd Dysgu	2
Aciwt Arbenigol	3

Ffynhonnell: GIG Cymru

Gordewdra yng Nghymru

4.2.2.9 Yn 2022 i 2023, dosberthid 61% o'r oedolion fel pobl a oedd dros bwysau, gan gynnwys 26% a ddsbarthwyd yn ordew¹³⁵.

4.2.2.10 Mae oddeutu un o bob pedwar o blant pedair i bump oed yng Nghymru yn dechrau'r ysgol dros bwysau neu'n ordew, ac mae cyfraddau gordewdra plant yn waeth mewn ardaloedd mwy difreintiedig¹³⁶. Roedd 30.4% o blant dros bwysau neu'n ordew yn Sir Gaerfyrddin yn 2019¹³⁷. Mae pandemig COVID-19 wedi golygu bod teuluoedd ledled Cymru wedi colli incwm, ei chael hi'n anoddach bwyta bwyd iach a gweld gostyngiad yn eu gweithgarwch corfforol. Bydd hyn wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl, sydd hefyd â chysylltiad cryf â gordewdra, ac nid yw ei effeithiau hirdymor yn hysbys eto.

¹³⁴ Llywodraeth Cymru (2020) Mynediad i Feddyg Teulu, 2019. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/gp-access-2019.pdf> [Aed at y wefan ar 02.09.24]

¹³⁵ Llywodraeth Cymru (2024) Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ffordd-o-fyw-oedolion-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebriill-2022-i-fawrth-2023> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹³⁶ Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth pwysau iach (Pwysau Iach Cymru Iach). Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-pwysau-iach-pwysau-iach-cymru-iach> [Aed at y wefan: 02.09.24]

¹³⁷ Cyngor Sir Caerfyrddin (dim dyddiad) Start Well—Help children live healthy lifestyles. Ar gael yn: <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1226775/well-being-objective-2-2021-2022.pdf#:~:text=Levels%20of%20childhood%20obesity%20in%20Carmarthenshire%20are%20amongst,or%20obese%2C%20the%205th%20highest%20figure%20in%20Wales> [Aed at y wefan: 03.09.24]


MALIC 2019: Mynediad at wasanaethau

- 4.2.2.11 Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru (mae cyfanswm o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru) yn cynnwys amseroedd teithio cyfartalog gan ddefnyddio trafndiaeth breifat pan ystyrir mynediad at wasanaethau. Mae canlyniadau parth mynediad at wasanaethau MALIC 2019 wedi dangos bod amddifadedd eang ledled Cymru a hefyd yn enwedig mewn ardaloedd gwledig o ran mynediad¹³⁸. Yn ogystal â hynny, mae rhai pocedi difreintiedig ger ardaloedd trefol mawr.
- 4.2.2.12 Yr awdurdodau lleol â'r gyfran fwyaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau oedd Powys (50.6% a Cheredigion (50.0%).
- 4.2.2.13 Nid oedd gan Gastell-nedd Port Talbot unrhyw ardaloedd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig. Yr ardal bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cynwyl Gaeo, Sir Gaerfyrddin, yr un fath ag ar gyfer MALIC 2014.

Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

- 4.2.2.14 Ar hyn o bryd, cyfyngir mynediad at wasanaethau bws traddodiadol sy'n rhedeg fesul awr i'r ardaloedd trefol a chysylltiadau rhyngdrefol, fel y gwelir yn Ffigur B-37. Mae hyn yn golygu bod mynediad at wasanaethau ar gyfer preswylwyr mewn ardaloedd mwy gwledig wedi ei gyfyngu'n bennaf i ddefnydd car personol.

Ffigur B-37: Rhwydwaith Bysiau Presennol yn Ne-orllewin Cymru



¹³⁸ Llywodraeth Cymru (2020) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: 2019. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diueddariaid-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019> [Aed at y wefan: 02.09.24]


- 4.2.2.15 Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru¹³⁹, roedd 69% o'r bobl a holwyd yn fodlon bod gwasanaethau a chyfleusterau da ar gael yn eu hardal leol, ond dywedodd 3% nad oedd unrhyw wasanaethau na chyfleusterau yn eu hardal. Roedd 80% yn fodlon ar eu gallu i fynd at gyfleusterau a gwasanaeth yr oedd eu hangen arnynt neu i gael mynediad atynt.
- 4.2.2.16 Mae Ffigur B-38 yn dangos lefelau amddifadedd yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau. Mae patrymau amddifadedd iechyd yng Nghymru wedi aros yn ddigyfnewid ers MALIC 2011 i raddau helaeth¹⁴⁰.

¹³⁹ Llywodraeth Cymru (2019) National Survey for Wales, 2018–19 Community cohesion and safety in the local area. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/community-cohesion-and-safety-local-national-survey-wales-april-2018-march-2019-739.pdf> [Aed at y wefan: 01.12.21]

¹⁴⁰ Llywodraeth Cymru (2020) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: 2019. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diueddariat-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019> [Aed at y wefan: 03.09.24]

Ffigur B-38: Map Amddifadedd Mynediad at Wasanaethau Cymru

Welsh Index of Multiple Deprivation 2019 Access to Services Domain



© Crown Copyright and database right 2019. Ordnance Survey 100021874
Cartographics • Welsh Government • MLRS/19.20
November 2019

Ffynhonnell: MALIC 2019


MALIC 2019: Iechyd

- 4.2.2.17 Yn 2019–2020, dywedodd 71% o'r bobl yng Nghymru fod eu hiechyd cyffredinol yn 'Dda iawn' neu'n 'Dda'¹⁴¹. Mae'r crynodiad o ganrannau isel o iechyd cyffredinol 'Da' a gofnodwyd yn 2019 yn cyfateb i hen ganolfannau cloddio am lo a diwydiannol trwm cymoedd Cymru yn 2019, sy'n awgrymu bod y diwydiannau blaenorol hyn wedi peri goblygiadau iechyd hirdymor.
- 4.2.2.18 Mae Ffigur B-39 yn dangos lefelau amddifadedd yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru o ran Parth Iechyd.

¹⁴¹ Llywodraeth Cymru (2020) Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan ar 03.09.24]

Ffigur B-39: Map Amddifadedd Iechyd Cymru

Welsh Index of Multiple Deprivation 2019 Health Domain



4.3 Poblogaeth

4.3.1 Perthnasedd i'r CTRh

- 4.3.1.1 Gall cymdeithas gyfartal yn ne-orllewin Cymru helpu i sicrhau bod gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus yn deg ac yn hygyrch i bawb ac yn gwbl gynhwysol. Gallai'r CTRh gyfrannu'n gadarnhaol tuag at greu cymdeithasau sy'n fwy teg a chynhwysol.
- 4.3.1.2 Mae trafndiaeth ffordd yn cael pum prif effaith ar iechyd y cyhoedd: llygredd aer, anweithgarwch corfforol, diogelwch ar y ffyrdd, sŵn a'r unigedd y mae pobl sy'n agored i niwed yn ei wynebu oherwydd bod ofn perygl ar y ffyrdd arnynt, sy'n eu hatal rhag cael cyfleoedd cyflogaeth neu addysgol, rhwydweithiau cymdeithasol, amwynderau a gwasanaethau lleol (gan gynnwys gofal iechyd), sy'n ychwanegu at y risg o salwch meddyliol a chorfforol.
- 4.3.1.3 Gall materion sy'n ymwneud â menywod yn benodol ymwneud ag ofn trosedd ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- 4.3.1.4 Gallai hygyrchedd i drafnidiaeth effeithio ar bobl anabl sy'n dymuno cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus
- 4.3.1.5 Mae pobl sydd â salwch cronig neu sy'n anabl yn hynod sensitif i sŵn neu llygredd yn aer yn eu hamgylchedd lleol, ac mae effeithiau'n amrywio o anhunedd i orbwysedd.
- 4.3.1.6 Mae pobl ar incwm isel (defnyddir byw mewn ardal ddifreintiedig yn lle incwm isel) nad oes ganddynt gar yn debygol o gerdded ymhellach. Gall eu diffyg dewis o drafnidiaeth, a allai gynnwys fforddiadwyedd trafndiaeth gyhoeddus, gyfyngu ar gyfleoedd bywyd a gwaith. Gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig fod yn enwedig o agored i ddiwyddiadau traffig ar y ffyrdd. Efallai y bydd gan y grŵp hwn lefelau straen uwch hefyd; gellir ystyried amgylchedd ffisegol gwael yn rhwystr i deithio llesol.
- 4.3.1.7 Mae grwpiau lleiafrifol yn fwy tebygol o fyw ar aelwyd heb gar ac felly byddant yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i'r CTRh ddarparu ar gyfer diogelwch a chynhwysiant grwpiau lleiafrifol ar draws pob dull trafndiaeth cyhoeddus.
- 4.3.1.8 Mae menywod a grwpiau lleiafrifol yn fwy tebygol o deithio ar fws, fodd bynnag, rhoddir mwy o fuddsoddiad i reilffyrdd fel dull trafndiaeth cyhoeddus. Rhaid i'r CTRh ddarparu ar gyfer Cymru fwy cyfartal drwy roi'r buddsoddiad angenrheidiol yn y drafnidiaeth gyhoeddus a ddefnyddir fwyaf gan y grwpiau hyn neu ddileu unrhyw rwystrau posibl i fathau eraill o drafnidiaeth i'r grwpiau hyn.
- 4.3.1.9 Mae menywod yn fwy tebygol o fod â phatrymau amrywiol o gysylltu teithiau, yn enwedig wrth fynd gyda phlentyn. Felly, maent yn tueddu i fod yn fwy sensitif yn economaidd i gostau trafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig bysiau, ac yn enwedig gan fod menywod yn tueddu i ennill llai na dynion ar gyfartaledd.

Grwpiau sy'n Agored i Niwed neu Grwpiau Blaenoriaeth

- 4.3.1.10 Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ystyried effeithiau prosiect ar iechyd y boblogaeth yr effeithir arni gan brosiect yn gyffredinol a dosbarthiad yr effeithiau hynny yn y boblogaeth yr effeithir arni. Fodd bynnag, mae angen nodi grwpiau blaenoriaeth penodol oherwydd y gall newidiadau i benderfyniaddion iechyd cyffredinol gael mwy neu lai o effeithiau ar isgrwpiau poblogaeth gan ddiybnu, er enghraifft, ar eu hoedran, statws eu hiechyd, eu hincwm a'u cymorth cymdeithasol.

Mae'r term 'Grwpiau sy'n Agored i Niwed neu Grwpiau Blaenoriaeth' yn deillio o ganllawiau Healthy Urban Development Unit (HUDU)¹⁴².

4.3.1.11 Mae isgrwpiau sy'n agored i niwed yn fwy tebygol o fod yn agored i effeithiau y CTRh na grwpiau cymdeithasol eraill oherwydd ffactorau amrywiol fel yr eglurir yn Nhabl B-9. Gallai'r CTRh effeithio ar grwpiau targed ehangach eraill gan gynnwys oedolion a gweithwyr proffesiynol a'r boblogaeth gyffredinol sy'n byw yng Nghymru hefyd.

Tabl B-9: Grwpiau sy'n Agored i Niwed neu Grwpiau Blaenoriaeth a chanlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â'r CTRh

Grŵp sy'n Agored i Niwed/Blaenoriaeth	Esboniad a'r Canlyniadau Iechyd
Pobl iau (plant a phobl ifanc, hyd at 18 oed)	<p>Mae plant a'r glasoed yn grŵp poblogaeth sy'n agored i niwed yn rhannol oherwydd eu hangen i allu mynd yma a thraw yn rhydd i'r ysgol a gweithgareddau hamdden ac oddi yno, er nad oes ganddynt y profiad na'r farn a ddangosir gan oedolion wrth fynd yma a thraw mewn traffig a manau cyhoeddus. Felly, mae plant a'r glasoed sy'n gerddwyr ac yn feicwyr mewn risg uwch o berygl a berir gan drafnidiaeth modur.</p> <p>Yn ogystal â hynny, mae plant yn fwy sensitif nag oedolion i lygredd aer, sŵn a ffactorau amgylcheddol eraill. Mae plant mewn teuluoedd incwm isel yn grŵp enwedig o sensitif.</p> <p>Mae cerdded, beicio a theithio ar fws yn ddulliau teithio pwysig i bobl ifanc. Mae teithio ar fws yn bwysig i bobl ifanc gael mynediad at y coleg, cyfleusterau hamdden a'r gwaith. Mae fforddiadwyedd teithio yn fater i bobl iau.</p> <p>Plant (0 i 15 oed) oedd y cerddwyr â'r risg fwyaf yn 2023 gyda chyfradd anafiadau o 32 fesul 100,000; yn ail oedd cerddwyr 16 i 24 oed (17 fesul 100,000)¹⁴³.</p>
Menywod	<p>Mae menywod yn fwy tebygol o beidio â bod yn berchen ar gar, ac o ganlyniad, gallant ei chael hi'n anoddach teithio i siopau, cyflogaeth, gofal iechyd a gwasanaethau eraill. Maent yn fwy dibynnol ar ddarpariaeth trafniadaeth cyhoeddus. Efallai y bydd gan fenywod fwy o bryderon diogelwch a sicrwydd wrth deithio ar eu pennau eu hunain hefyd a phan fo mwy o ddieithriaid mewn ardal e.e. o ganlyniad i fewnlifiad o weithwyr adeiladu.</p> <p>Mae amcangyfrifon ar gyfer 2013 yn dangos bod 80% o ddynion a 70% o fenywod yng Nghymru yn ddeiliaid trwydded gyrru llawn, sydd bron yn union yr un fath â Phrydain Fawr yn ei chyfanrwydd. Mae'r Arolwg Teithio Cenedlaethol yn adrodd bod gan fenywod batrymau teithio gwahanol i ddynion a bod gan hyn oblygiadau mawr o ran gofynion teithio. Yn benodol, mae menywod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn fwy tebygol o weithio sifftiau afreolaidd ac o fod angen cymudo y tu allan i oriau gwaith arferol • yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr ac o gymryd teithiau hebrwng • yn fwy tebygol o deithio gyda phaciau, bagiau a chadeiriau olwyn • yn fwy tebygol o fod â chyflwr corfforol sy'n ei gwneud hi'n anodd defnyddio'r bws • yn fwy tebygol na defnyddwyr gwrywaidd o ddweud y byddai'n well ganddynt deithio mewn car • ddwywaith yn fwy tebygol na defnyddwyr gwrywaidd o ddweud eu bod yn

¹⁴² Y GIG (2019) Rapid Health Impact Assessment Tool. Ar gael yn: <https://www.healthyurbandevelopment.nhs.uk/our-services/delivering-healthy-urban-development/health-impact-assessment/#:~:text=HUDU%20is%20able%20to%20provide%20bespoke%20advice%20and,assessing%20the%20indirect%20implications%20for%20the%20wider%20community> [Aed at y wefan: 04.09.24]

¹⁴³ Llywodraeth Cymru (2024) Anafusion ffyrdd adroddwyd amdanynt: 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/anafusion-ffyrdd-adroddwyd-amdanynt-2023.html> [Aed at y wefan: 04.09.24]

teimlo'n anniogel wrth ddefnyddio bws yn y nos

Adrodda Arolwg Teithwyr Bysiau Cymru hefyd fod nifer sylweddol o ddefnyddwyr bysiau sy'n fenywod a oedd hefyd yn teithio gyda phlant a/neu gadair olwyn.

Mae menywod yn llai tebygol o deithio i'r gwaith mewn car (80% o'u cymharu ag 85% o ddynion) ac yn fwy tebygol o deithio ar fws (6% o'u cymharu â 3%).

Mae'r pellter cyffredinol a deithir pob blwyddyn â phob dull teithio yn fwy i ddynion na menywod. Mae dynion yn tueddu i gymudo yn fwy ac o wneud mwy o deithiau busnes na menywod ac o deithio ymhellach at y ddau ddiben. Bydd dynion a menywod yn elwa o gynlluniau i wella'r rhwydwaith ffyrdd, trafndiaeth gyhoeddus a chyfleusterau teithio llesol.

Mae menywod yn tueddu i fod yn fwy tebygol o ddefnyddio trafndiaeth rheilffordd yn llai na bysiau, ac yn llai aml na dynion. Yn 2016/17, £29.1 biliwn oedd y gwariant ar drafndiaeth gyhoeddus y DU (2016/17). Cafodd 54% o hyn ei wario ar y rheilffyrdd, o'i gymharu ag 8% ar 'trafndiaeth gyhoeddus' gan gynnwys bysiau lleol. Yn 2018, bu toriad o 39% mewn cyllid yng Nghymru ar gyfer bysiau, ers 2010/11.

Mae menywod yn llai tebygol o fod yn ddiogel, ac yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel, wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, toiledau cyhoeddus a thacsis, gan gynnwys oherwydd ymddygiad ymosodol corfforol neu eiriol, aflonyddu rhywiol neu fathau eraill o drais.

Mae menywod yn ennill llai ar gyfartaledd, ac yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn fwy ar gyfartaledd, na dynion. Mae gan fenywod gyfraddau uwch o deithiau a gysylltir ac iddynt batrymau amrywiol hefyd oherwydd eu bod yn cyflawni nifer mawr o dasgau, yn enwedig wrth fynd gyda phlentyn. Felly, mae menywod yn fwy sensitif yn economaidd i gost trafndiaeth ac felly maent yn fwy tebygol o wynebu cyfyngiadau ariannol i symudedd.

Gall y ffordd y mae menywod, pobl anneuaid a dynion yn dehongli hygyrchedd mewn termau corfforol, gwybyddol, ariannol ac emosiynol amrywio'n fawr a diffinio sut y maent yn defnyddio trafndiaeth.

Pobl Hŷn (65+)

Yn gyffredinol, yr hynaf yw pobl, yr arafaf yw eu symudiadau a'u hymatebion a'r gwaethaf yw eu clyw a'u golwg. Felly, ystyrir bod pobl hŷn yn fwy sensitif fel defnyddwyr o'u cymharu ag oedolion iau a chanol oed. Gall pobl hŷn fod mewn mwy o berygl o gael anaf, gallent ofni cwmpiaadau, a gallent fod yn bryderus am ddiffyg manau croesi diogel ac amseroedd croesi byr mewn manau croesi diogel. Gall hyn eu hatal rhag gweithgarwch awyr agored, yn enwedig cerdded, a all fod yn hanfodol ar gyfer cryfder cyhyrau ac mae'n lleihau'r risg o syrthio, ymhlith buddion eraill.

Gall pobl hŷn deimlo'n fwy agored i niwed wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae angen iddynt chwilio am wasanaethau iechyd yn aml hefyd. Mae eu hannibyniaeth barhaus gartref yn dibynnu'n aml ar amrywiaeth o ddulliau trafndiaeth a dewisiadau llwybrau sydd ar gael.

Mae oddeutu 48% o aelwydydd pensiynwyr sydd heb gar o'u cymharu â 26% o'r holl aelwydydd.

Pobl sy'n anabl

Mae'n bosibl bod y grŵp hwn yn anallu defnyddio sawl math o drafndiaeth neu fod angen trefniadau arbennig a/neu gymorth arnynt i'w defnyddio nhw. Maent yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd cerdded neu deithio'n annibynnol a gallant fod dan anfantaes oherwydd cost trafndiaeth hefyd.

Gall llygredd aer gael effaith mwy andwyol ar bobl sydd â salwch cronig, er enghraifft, pobl sydd â nam ar swyddogaeth yr ysgyfaint. Mae'r un peth yn wir am unigolion hypersensitif megis pobl sy'n dioddef o asthma. Gall sŵn achosi gorbwysedd a phroblemau cardiofasgwlaidd. Gall y rhai sydd eisoes â'r cyflyrau hyn fod yn fwy cythryblus pan fo sŵn nag eraill.

Gall pobl sydd â salwch corfforol a meddyliol presennol, gan gynnwys anhunedd, gorbryder ac iselder, fod yn fwy sensitif hyd yn oed i newidiadau bach yn eu hamgylchedd lleol.

Mae pobl anabl neu bobl sydd â salwch hirdymor yn llai tebygol na phobl eraill o fod â char (mae chwech o bob deg yn gwneud hynny o'u cymharu ag wyth o bob 10 person arall). Mae pobl anabl cyflogedig bron ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â defnyddio car na phobl eraill.

Adrodda Arolwg Teithwyr Bysiau Cymru 2010 fod gan 25% o'r ymatebwyr anabledd neu salwch hirdymor. Yn y grŵp hwn, roedd gan oddeutu 12% o ddefnyddwyr bysiau broblemau symudedd ac roedd 1% ohonynt yn defnyddio cadeiriau olwyn.

Mae teithwyr anabl sy'n defnyddio bysiau yn eu defnyddio mor ddwys â theithwyr eraill.

Mae oddeutu 75% o ddefnyddwyr bysiau sy'n anabl yn defnyddio bws dair gwaith neu fwy yr wythnos, o'u cymharu â 72% o ddefnyddwyr bysiau nad oes ganddynt anabledd. Mae hyn er bod gan ddefnyddwyr anabl batrwm defnyddio bws sy'n wahanol. O'u cymharu â defnyddwyr bysiau nad ydynt yn anabl, mae pobl anabl yn llai tebygol o ddefnyddio bws i gymudo ac i deithio ar gyfer addysg, ond yn fwy tebygol o ddefnyddio bws ar gyfer siopa, ymweld â chyfeillion a pherthnasau, ac ar gyfer hamdden. Roedd gan oddeutu dwy ran o dair o'r teithwyr a nododd fod ganddynt anabledd neu salwch hirdymor hawl i deithio ar fysiau rhatach am ddim oherwydd eu bod yn bodloni meini prawf oedran neu anabledd y cynllun hwnnw.

Mae gwybodaeth hygyrch sydd ar gael, gan gynnwys cyhoeddiadau clywedol a gweledol a gofal cwsmeriaid o safon uchel i deithwyr yn ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gydraddoldeb o ran cyfleoedd i deithio.

Rheilffordd—Cyhoeddodd Passenger Focus ei adroddiad ar brofiadau teithwyr rheilffyrdd anabl ym mis Hydref 2012. Dyma brif gasgliadau yr adroddiad:

- Gwneir oddeutu 5% o deithiau rheilffordd gan deithwyr sydd ag anabledau neu salwch hirdymor;
- Gwneir hanner y teithiau hyn gan bobl y mae eu symudedd yn ddiffygiol;
- Mae gan oddeutu 1% o'r teithwyr amhariad ar y synhwyrau;
- Mae teithwyr ag anabledau yn tueddu i fod yn hŷn ac yn llai tebygol o fod mewn gwaith o'u cymharu â theithwyr yn gyffredinol;
- Mae 30% o'r teithiau a wneir gan bobl anabl ar gyfer cymudo, er bod hyn yn codi i 40% yn ystod oriau brig;
- Mae 78% o'r teithiau a wneir gan deithwyr anabl yn cael eu gwneud gan bobl sydd ar eu pennau eu hunain, er bod teithwyr anabl yn fwy tebygol o deithio gydag oedolyn arall na theithwyr eraill (22% o'u cymharu â 15%);
- Defnyddir cerdyn rheilffordd mewn 43% o'r siwrneiau a wneir gan deithwyr anabl;

Bydd teithwyr anabl yn elwa o gynlluniau i sicrhau gwell ansawdd a hygyrchedd o ran gwasanaethau bysiau, gan gynnwys hyfforddiant i yrwyr bysiau, i ddarparu cyllid i gefnogi gwasanaethau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol a pharhau i ddarparu cynllun tocynnau rhatach ar gyfer pobl anabl.

Pobl mewn grwpiau incwm isel/Pobl nad oes ganddynt fynediad at gar

Mae pobl ar incwm isel (defnyddir byw mewn ardal ddifreintiedig yn lle incwm isel) nad oes ganddynt gar yn debygol o gerdded ymhellach. Gall eu diffyg dewis o drafnidiaeth, a allai gynnwys fforddiadwyedd trafndiaeth gyhoeddus, gyfyngu ar gyfleoedd bywyd a gwaith.

Gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig fod yn enwedig o agored i ddigwyddiadau traffig ar y ffyrdd (marwolaethau ac anafiadau) sŵn a llygredd aer. Yn aml, nodweddir ardaloedd difreintiedig gan gyfeintiau traffig uwch yn ogystal â

beichiau amgylcheddol eraill megis cyfleusterau diwydiannol.¹⁴⁴ Yn gyffredinol, mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o fod â llai o fynediad at ofal iechyd a chymdeithasol eisoes, yn ogystal â mynediad at wasanaethau ac amwynderau eraill.

Efallai y bydd gan y grŵp hwn lefelau straen cynyddol presennol oherwydd y ffactorau uchod. Hefyd, gall amgylchedd ffisegol gwael fod yn rhwystr i deithio llesol, neu deithio yn gyffredinol. Hefyd, mae'r grŵp hwn yn fwy agored i ansicrwydd bwyd (sy'n golygu bod "diffyg arian ac adnoddau eraill yn cyfyngu ar fynediad cyson at fwyd digonol ar adegau yn ystod y flwyddyn"), sydd â dimensiwn mynediad¹⁴⁵.

Pobl ethnig lleiafrifol e.e. Asiaidd, Du

Mae data yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn dangos bod oedolion ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fyw ar aelwyd lle nad oes mynediad at gar o'u cymharu ag oedolyn gwyn o Brydain, felly gallai mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus fodoli mewn rhannau o Gymru (de-ddwyrain a gogledd-ddwyrain) lle darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau trenau a bysiau. Mae oddeutu 60% o weithgarwch teithwyr ar ardal Masnachfaint Cymru a'r Gororau yn canolbwyntio ar Linellau y Cymoedd ac ardal Caerdydd. Roedd yr un arolwg hefyd yn awgrymu bod oedolion ethnig lleiafrifol yn gwneud dwywaith cymaint o deithiau bws lleol o'u cymharu ag oedolion gwyn.

Cefndir ethnig defnyddwyr bysiau fel y'i lluniwyd o Arolwg Teithwyr Bysiau Cymru 2010 yw bod 93% yn dweud eu bod yn wyn, 5% o gefndir ethnig arall, a 2% yn gwrthod ateb. Mewn cymhariaeth, mae oddeutu 4% o'r bobl yng Nghymru yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol.

Rheilffyrdd—Adroddodd troseddau rheilffyrdd a adroddwyd gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 77 o droseddau â chymhelliad hiliol ar y rheilffyrdd wedi eu cofnodi yn ystod y tair blynedd hyd at 2011/2012, sydd bron yn 13% o'r troseddau treisgar a adroddwyd yn erbyn y person. (Ffynhonnell Rail transport statistics 2011/2012 2011/2012 a gyhoeddwyd gan y SYG 30 Hydref 2012).

Ffynhonnell: Addaswyd o Highways England: M4 Junctions 3 to 12 smart motorway (Arcadis Ltd, Hydref 2015) ac Atkins Limited, South Bristol Link: Environmental Statement Cyfrol 2: Health Impact, Gorffennaf 2013 yn ogystal â Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015—Asesiadau Effaith

4.3.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

4.3.2.1 Defnyddiwyd y dangosyddion llinell sylfaen canlynol i nodweddu cyflyrau presennol sy'n ymwneud â nod 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer poblogaeth Cymru:

Poblogaeth

4.3.2.2 Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, amcangyfrifwyd mai 3,107,494 oedd maint y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru¹⁴⁶. Mae Tabl B-10 yn dangos y boblogaeth ar y pedwar awdurdod lleol yng Nghyfrifiad 2011 a 2021.

¹⁴⁴ Awdurdod Llundain Fwyaf, Comisiwn Iechyd Llundain ac Arsyllfa Iechyd Llundain (2002) Rapid review of health evidence for the draft London Plan; a Jarvis, S., Towner, E. et al 1995 a ddyfynnir yn Cave, B (2001) "Accidents" yn The health of our children gol. Botting, B, Llundain, Swyddfa Cyfrifiadau ac Arolygon Poblogaeth, HMSO

¹⁴⁵ S.Tsang, MHSc, RD (1); A.M.Holt, MHSc(2); E.Azevedo, MSc, RD (1), An assessment of the barriers to accessing food among food-insecure people in Cobourg, Ontario, Chronic Diseases and Injuries in Canada, Cyfrol 31, rhif 3, Mehefin 2011

¹⁴⁶ SYG (2022) Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru: Cyfrifiad 2021. Ar gael yn:

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationandhouseholdestimates/wales/census2021?_gl=1*qtjqcy*_ga*MTQ5NDA4NTYxOS4xNzM2NTY0MTEy*_ga_W804VY6YKS*MTczNzQwMTA0MS4yLjAuMTCzNzQwMTA0MS42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 04.09.24]

Tabl B-10: Newid poblogaeth rhwng 2011 a 2021 fesul awdurdodau lleol yng Nghymru

Awdurdod Lleol	Poblogaeth yng Nghyfrifiad 2011	Poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021	Canran y Newid
Sir Benfro	122,439	123,400	+0.8
Sir Gaerfyrddin	183,777	187,900	+2.2
Abertawe	239,023	238,500	-0.2
Castell-nedd Port Talbot	139,812	142,300	+1.8

Strwythur Oedran

- 4.3.2.3 Yr oedran cyfartalog yng Nghymru yn 2021 oedd 42 oed. Yn ogystal â hynny, roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; roedd cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a hŷn yn 21.3% (sy'n gynydd o 18.4% o'i chymharu â 2011).
- 4.3.2.4 Roedd gan Gymru ganran fwy o boblogaeth 65 oed a hŷn na holl ranbarthau Lloegr ac eithrio de-orllewin Lloegr. Mae Tabl B-11 yn dangos strwythur oedran poblogaeth y pedwar awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru.


Tabl B-11: Strwythur oedran y boblogaeth, 2021, fesul awdurdod lleol yng Nghymru

Awdurdod Lleol	Poblogaeth o dan 15 oed (%)	Poblogaeth 15 i 64 oed (%)	Poblogaeth 65 oed a hŷn (%)
Sir Benfro	15.7	57.9	26.1
Sir Gaerfyrddin	16.2	59.7	24.2
Abertawe	16.0	63.5	20.5
Castell-nedd Port Talbot	16.5	62.3	21.2

Rhywedd

- 4.3.2.1 Yn 2021, roedd 1,586,600 o fenywod (51.1% o'r boblogaeth) a 1,521,000 o ddynion (48.9%) yng Nghymru. Mae Ffigur B-40 yn dangos strwythur oedran a rhywedd y boblogaeth yng Nghymru yng Nghyfrifiad 2011 a 2021.

Ffigur B-40: Oedran a rhyw y boblogaeth, 2011 i 2021 yng Nghymru



4.3.2.2 Mae gan bob un o'r pedwar awdurdod lleol boblogaeth uwch o fenywod na dynion yn ôl Cyfrifiad 2021, fel y dangosir yn Nhabl B-12.

Tabl B-12: Poblogaeth fesul rhywedd ac awdurdod lleol yn 2021

Awdurdod Lleol	Nifer y Dynion	Nifer y Menywod
Sir Benfro	60,069	63,285
Sir Gaerfyrddin	91,681	96,215
Abertawe	117,524	120,965
Port Talbot	69,879	72,412


4.3.2.3 Mae teithio â thrafnidiaeth gyhoeddus yn hynod o ryweddol. Yn 2018, canfuwyd yn Lloegr, fod traean yn fwy o fenywod na dynion yn teithio ar fws a bod dynion wedi gwneud ychydig yn fwy o deithiau rheilffyrdd na menywod¹⁴⁷. Ar y cyfan, £32.5 biliwn oedd gwariant y DU ar dtrafnidiaeth gyhoeddus (2017/18). Mae hyn yn cynnwys £10.5 biliwn ar ffyrdd cenedlaethol a lleol, £2.5 biliwn ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a £18 biliwn ar reilffyrdd.

¹⁴⁷ Women's Budget Group (2019) Public Transport and Gender. Ar gael yn: <https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/TRANSPORT-2019-1.pdf> [Aed at y wefan: 03.09.24]

Tueddiadau Mudo Net

4.3.2.4 Yng Nghymru, canfu Cyfrifiad 2021 mai Gwlad Pwyl oedd y wlad geni mwyaf cyffredin y tu allan i'r DU o hyd (24,832 o bobl, 0.8% o'r holl breswylwyr arferol), gyda 124,557 o breswylwyr arferol (4.0%) yn dal pasbort nad oedd yn basbort y DU, a phasbort Gwlad Pwyl oedd y pasbord mwyaf cyffredin ymhlith y pasbortau nad oedd yn basbort y DU. Mae Ffigur B-41 isod yn dangos canran y preswylwyr ym mhob awdurdod lleol a anwyd y tu allan i'r DU.

Ffigur B-41: Canran y preswylwyr a anwyd y tu allan i'r DU fesul Awdurdod Lleol



Canran y Grwpiau Ethnig

4.3.2.5 Dengys Tabl B-13 isod gyfansoddiad ethnig awdurdodau lleol Cymru o'u cymharu â ffigurau cenedlaethol¹⁴⁸.

Tabl B-13: Canran y Grwpiau Ethnig yng Nghymru ac mewn awdurdodau lleol

Ardal	Pob categori: Grŵp ethnig	Gwyn (%)	Cymysg (%)	Asiaidd (%)	Du (%)	Arall (%)
Cymru	3,107,494	93.83	1.56	2.86	0.89	0.85
Sir Gaerfyrddin	187,898	97.21	0.93	1.24	0.24	0.38
Castell-nedd Port Talbot	142,290	96.64	1.11	1.58	0.37	0.3
Sir Benfro	123,359	97.58	0.94	0.94	0.2	0.34
Abertawe	238,491	91.43	1.6	4.38	1.17	1.42

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

¹⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2012): Bwletin Ystadegol Cyfrifiad 2011: First Results for Ethnicity, National Identity, and Religion for Wales. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/121217sb1262012en.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

4.3.2.6 Yn 2021, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ganran uwch o'r grŵp ethnig gwyn na Chymru yn ei chyfanrwydd. Abertawe sydd â'r ystod ethnigrwydd ehangaf, gyda chanran uwch o'r rhai sydd o ethnigrwydd Asiaidd, du ac arall na Chymru gyfan.

Salwch neu anabledd hirdymor cyfyngol fesul awdurdod lleol

4.3.2.7 Yn ôl Cyfrifiad 2021, yng Nghymru, roedd cyfran lai a nifer llai o bobl yn anabl (21.1%, 670,000), o'i chymharu â 2011 (23.4%, 696,000)¹⁴⁹. Yng Nghymru, Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfran uchaf o bobl anabl (24.6%) yn 2021, ond roedd ag un o'r cyfraddau uchaf yn 2011 hefyd (28.2%).

4.3.2.8 Ledled de-orllewin Cymru, 10.5% oedd canran y bobl a nododd eu bod 'yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: cyfyngir ar weithgareddau o ddydd i ddydd i raddau helaeth' yn Sir Gaerfyrddin; 9.2% oedd hyn yn Sir Benfro, 12.9% yng Nghastell-nedd Port Talbot ac 11.1% yn Abertawe.

4.3.2.9 Yng Nghymru, dangosodd Cyfrifiad 2021, anabledd ar aelwydydd, fod 29.5% (397,000) o aelwydydd yn cynnwys un aelod anabl, ac unwaith eto Castell-nedd Port Talbot oedd un o'r awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf â dau neu fwy o bobl anabl ar yr aelwyd.

4.3.2.10 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd gan 43.1% o'r aelwydydd un neu fwy o bobl anabl ar yr aelwyd; roedd hyn yn 39.8% o'r aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin, 37.5% o'r aelwydydd yn Sir Benfro a 38.8% o'r aelwydydd yn Abertawe.

4.3.3 Bylchau Data

- Data gordewdra ymhlith plant o Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
- Data poblogaeth ar gyfer de-orllewin Cymru sy'n ymwneud â rhywedd, lle gallai hyn fod yn annhraddodiadol.
- Y data diweddaraf ar gyfer de-orllewin Cymru, sy'n ymwneud â mynediad i fannau agored.
- Y data diweddaraf ynghylch dosbarthiad penodol cyfleusterau ysbyty neu ofal iechyd yn ne-orllewin Cymru.
- Effeithiau iechyd cynlluniau fel traffyrdd clyfar
- Data sy'n ymwneud â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
- Data sy'n ymwneud â'r rhwydweithiau cerdded cenedlaethol a Llwybr Arfordirol Cymru

4.4 Materion Allweddol sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd iddo fynd i'r afael â nhw

4.4.1 Materion

4.4.1.1 Mae ystadegau iechyd cyffredinol Cymru yn gwella, gyda disgwyliad oes yn cynyddu a llai o bobl ag iechyd gwael a adroddwyd dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw enillion iechyd yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws de-orllewin Cymru ac mae mynediad at wasanaethau yn benodol yn amrywiol, gan fod yn dda mewn ardaloedd mwy trefol ond yn gymharol wael ledled llawer o ardaloedd gwledig.

4.4.1.2 Ffactorau sy'n benodol i amgylchedd gwledig o'u cymharu â ffactorau mewn amgylcheddau trefol a all effeithio ar iechyd yn fwy sylweddol ac arwain at anghydraddoldeb ac iechyd gwaeth, megis

¹⁴⁹ SYG (2023) Anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Ar gael yn:

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021?_gl=1*1jxkrem*_ga*MTQ5NDA4NTYxOS4xNzM2NTY0MTEy*_ga_W804VY6YKS*MTczNzQwNjAxOC4zLjAuMTczNzQwNjAxOC42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 04.09.24]

pellter oddi wrth wasanaethau cyhoeddus a chymorth, y drafnidiaeth sydd ar gael; a'r boblogaeth sy'n heneiddio. Gall mynediad at ofal iechyd fod yn gyfyngedig mewn sawl rhan o gefn gwlad de-orllewin Cymru. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd ac annibyniaeth cymunedau gwledig.

- 4.4.1.3 Er bod pobl yn byw'n hirach a bod cyfraddau rhai clefydau yn gostwng, gall heriau fel amgylchedd byw a ffyrdd modern o fyw gyfrannu at lefelau cynyddol o glefydau cronig megis diabetes, problemau cymalau, clefyd y galon a rhai canserau a all yn eu tro arwain at anabledd a rhagor o alw ar wasanaethau iechyd. Hefyd, gall iechyd meddwl gwael fod yn ffactor sylfaenol mewn nifer o glefydau corfforol a ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach. Gall ansawdd aer gwael, llygredd sŵn a golau yn ogystal â damweiniau traffig ar y ffyrdd gael effeithiau uniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth.
- 4.4.1.4 Gallai lefelau cynyddol o bobl 65 oed a hŷn achosi pwysau ledled De-orllewin Cymru (gan ddibynnu ar a yw disgwyliad oes iach h.y. nifer y blynyddoedd yr ydych yn byw bywyd iach, yn parhau i ddilyn disgwyliad oes yn gyffredinol) e.e. darparu gwasanaethau priodol ar gyfer cenedlaeth hŷn (e.e. trafndiaeth).
- 4.4.1.5 Mae materion sy'n ymwneud â phobl ifanc yn ymwneud â'u trawsnewidiad o ddibyniaeth i annibyniaeth, oherwydd bod trafndiaeth yn chwarae rhan bwysig ar 'sbardunau' penodol megis symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a symud o addysg i gyflogaeth.
- 4.4.1.6 Mae anghydraddoldeb iechyd yn adlewyrchu anghydraddoldeb wrth ddsbarthu penderfynyddion iechyd, megis mynediad at drafnidiaeth, addysg a chyfleoedd cyflogaeth.
- 4.4.1.7 Gall anableddau a/neu amhariadau symudedd fod yn rhwystrau corfforol a meddyliol i ddefnyddio'r rhwydwaith trafndiaeth ar draws pob dull teithio.
- 4.4.1.8 Mae risg uchel o anafu ar y ffyrdd o hyd i bobl iau y mae'n rhaid i'r CTRh fynd i'r afael â hi.
- 4.4.1.9 Mae gwahaniaeth mawr o hyd rhwng nifer y trwyddedau gyrru a ddelir gan fenywod a dynion; mae llawer llai gan fenywod, sy'n ei gwneud yn anoddach i fenywod gael yr un mynediad at gyfleusterau ac amwynderau â dynion.
- 4.4.1.10 Mae lefelau llygredd sŵn o amgylch ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn beri effeithiau amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd dynol.

4.4.2 Cyfleoedd

- 4.4.2.1 Gallai'r CTRh gydnabod y potensial am fannau gwyrdd naturiol fel lleoedd ar gyfer iechyd a hamdden, cysylltu cynefinoedd a chefnogi rhyngweithio cymunedol. Gallai gwella'r mynediad i fannau gwyrdd ac agored, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, annog ffyrdd iachach o fyw yn fawr a gallai poblogaeth iachach alluogi pobl (gan gynnwys plant) i gyflawni eu potensial a gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.
- 4.4.2.2 Mae diogelu a gwella seilwaith gwyrdd ledled Cymru yn gyfle i wella mynediad pobl i fannau gwyrdd ac agored. Mae mynediad at ystod amrywiol o gynefinoedd lled-naturiol a naturiol, yn ogystal â darparu lle ar gyfer ymarfer corff awyr agored ac ymgysylltu â'r gymuned, yn hanfodol i lesiant corfforol a meddyliol.
- 4.4.2.3 Mae gan y CTRh gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at sicrhau y darperir ar gyfer iechyd dynol drwy wella mynediad at gyfleusterau iechyd, canolbwyntio ar leihau allyriadau llygredd aer, diogelwch ar y

ffyrdd ac annog teithio llesol er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldeb. (Dylid nodi bod llawer o deithio llesol yn digwydd o fewn cyd-destun teithiau a gysylltir, sef unrhyw deithio rhwng dau angor sy'n uniongyrchol neu sydd â stop cyfamserol o 30 munud neu lai).

- 4.4.2.4 Ar y cyfan, gall y CTRh helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r boblogaeth sy'n heneiddio drwy hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau trafndiaeth hygyrch a gefnogir gan seilwaith cysylltiol i ddiwallu anghenion twf poblogaeth lleol ac anghenion grwpiau unigol.
- 4.4.2.5 Gall Cymru gyfartal alluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Gallai'r CTRh ddarparu cyfle i leihau unigedd ac annog datblygu cymunedau integredig y gellir byw ynddynt drwy ddarparu ar gyfer cynwysoldeb trafndiaeth cyhoeddus er mwyn caniatáu i bawb gael yr un lefel o fynediad.
- 4.4.2.6 Dylai'r system drafnidiaeth sicrhau bod pob grŵp yn gallu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith trafndiaeth yn gyfartal a heb ofn na rhagfarn.
- 4.4.2.7 Gellir lleihau anghydraddoldeb drwy gynyddu mynediad i'r rhai mwyaf difreintiedig yn fwy na'r lleiaf difreintiedig neu gynyddu mynediad i'r rhai mwyaf difreintiedig a chadw'r lleiaf difreintiedig yn sefydlog, byddai unrhyw ffurf arall yn golygu lleihau mynediad i'r naill grŵp neu'r ddau grŵp, felly ni ddylai fod yn nod i'r CTRh.
- 4.4.2.8 Gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd drwy bolisïau a seilwaith i hybu teithio llesol hefyd, a gan gynyddu gweithgarwch corfforol, lleihau llygredd a sŵn. Dylid canolbwyntio mesurau teithio llesol mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn lleihau anghydraddoldeb.

5 Nod Llesiant: Cymru o Gymunedau Cydlynus

5.1.1.1 Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

"Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da".

5.1.1.2 Mae'r data'n ymwneud yn bennaf â'r hyn a ganlyn:

- Trosedd a Diogelwch

5.2 Trosedd a Diogelwch

5.2.1 Perthnasedd i'r CTRh

5.2.1.1 Mae creu cymunedau cydlynol sy'n ddeniadol, wedi eu cysylltu'n dda, yn ddiogel ac yn diwallu anghenion y boblogaeth yn bwysig i Gymru. Mae gan yr CTRh swyddogaeth i'w chwarae wrth helpu i arwain penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu lle gwag, a all helpu i leihau troseddau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Ceir rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn ym Mhennod 4 ac mae'n ymwneud ag lechyd a Llesiant. Cynhwysir agweddau eraill sy'n ymwneud â chysylltedd cymunedau drwy gydol yr Atodiad hwn.

5.2.2 Tueddiadau a Chyflyrau Sylfaenol

Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio

5.2.2.1 Yn 2021, yn Arolwg Cenedlaethol Cymru¹⁵⁰, gofynnwyd i bobl pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ar ôl iddi dywyllu:

- Dywedodd 78% o bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu;
- Roedd 97% o bobl yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu;
- Roedd 78% o bobl yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu; ac
- Roedd 97% o bobl yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu.

5.2.2.2 Yn 2022, yn rhan o'r Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i bobl unwaith eto pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ar ôl iddi dywyllu:

- Dywedodd 75% o bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu;
- Roedd 95% o bobl yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu;
- Roedd 76% o bobl yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu; ac
- Roedd 97% o bobl yn teimlo'n ddiogel 'iawn' neu'n 'weddol' ddiogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu.

5.2.2.3 Ym mwyafrif yr achosion, bu rhai gostyngiadau bach (2–3%) mewn diogelwch canfyddedig rhwng 2021 a 2022.

¹⁵⁰ Llywodraeth Cymru (2024) Canlyniadau yr Arolwg Cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan ar 20.08.24]

Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw ynddi

5.2.2.4 Yn 2019, roedd yr Arolwg Cenedlaethol¹⁵¹ yn cynnwys cyfres o gwestiynau ar ansawdd yr ardal leol. Cafodd y rhain eu cynnwys yn yr arolwg er mwyn helpu i ymchwilio i ddimensiwn amgylcheddol llesiant.

- Roedd 72% o bobl yn fodlon ar lefel y sŵn traffig yn eu hardal leol; ac
- Roedd 73% o bobl yn fodlon ar lefel y llygredd aer yn eu hardal leol.

5.2.2.5 Adrodda Trafnidiaeth Cymru y canfuwyd yn 2018–19 fod 15.2% o bobl yn anfodlon ar sŵn traffig yn eu hardal leol¹⁵². Yn 2021–22, dywedodd 10.7% o bobl eu bod sŵn traffig, busnes neu ffatri yn eu hardal leol yn eu poeni.

5.2.2.6 Yn 2021–22, canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod 54% o bobl yn fodlon iawn ar eu hardal leol, a bod 34% yn weddol fodlon¹⁵³. Yn ystod yr un cyfnod, roedd gan 64% o bobl ymdeimlad o gymuned. Roedd 85% o bobl naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar eu gallu i ddefnyddio gwasanaethau lleol.

5.2.2.7 Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021¹⁵⁴ yn dangos cyfanswm y gyfradd droseddau fesul 1,000 o gartrefi sy'n berchen ar gerbyd/aelwydydd sylfaen dibwysau yng Nghymru a Lloegr. Wedi eu dadansoddi mewn ystadegau troseddau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth allweddol, mae'r cyfraddau troseddau o'u cymharu â'r newid o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020 fel a ganlyn:

- Cyfanswm y lladradau sy'n gysylltiedig â Cherbydau – 6/1,000 (-19%)
- Dwyn o gerbydau – 19/1,000 (-28%)
- Dwyn cerbydau – 2/1,000 (-37%)
- Ymdrechion cerbydau ac o gerbydau – 7/1,000 (3%)
- Difrod troseddol i gerbyd – 28/1,000
- Dwyn beiciau – 17/1,000

5.2.2.8 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024¹⁵⁵, y cyfraddau troseddau yn gysylltiedig â throseddau yn ymwneud â thrafnidiaeth a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr oedd:

- Lladradau yn gysylltiedig â cherbyd – 37/1,000 (sylfaen dibwysau—nifer yr aelwydydd)
- Difrod troseddol i gerbyd – 20/1,000 (sylfaen dibwysau—nifer yr aelwydydd)
- Dwyn beiciau – 18/1,000 (sylfaen dibwysau—nifer y perchnogion cerbyd)

¹⁵¹ Llywodraeth Cymru (2024) Canlyniadau yr Arolwg Cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan ar 20.08.24]

¹⁵² Trafnidiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Canran y bobl y mae sŵn o'r tu allan i'r cartref a achosir gan drafnidiaeth yn eu poeni'n rheolaidd. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s24?_gl=1*1h9twh6*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzM3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzQyOTY2OC4xLjEuMTczNzQyOTY3Ni41Mi4wLjA. [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁵³ Llywodraeth Cymru (2024) Canlyniadau yr Arolwg Cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan ar 30.08.24]

¹⁵⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Crime in England and Wales: year ending Jun 2021. Ar gael yn: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingjune2021?_gl=1*4t6ovo*_ga*MTQ5NDA4NTYxOS4xNzM2NTY0MTEy*_ga_W804VY6YKS*MTczNzQzMDUyOC40LjAuMTczNzQzMDUyOC42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 01.12.21]

¹⁵⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Crime in England and Wales: Appendix tables. Ar gael yn: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesappendixtables?_gl=1*accem5*_ga*MTQ5NDA4NTYxOS4xNzM2NTY0MTEy*_ga_W804VY6YKS*MTczNzQzMDUyOC40LjEuMTczNzQzMDk2OS42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 30.08.24]

- 5.2.2.9 Yn yr adroddiad, Family Spending in the UK: April 2019 to March 2020¹⁵⁶, canfuwyd mai'r categorïau gwariant uchaf yng Nghymru yw trafndiaeth ac adloniant a diwylliant, a bod aelwydydd yng Nghymru yn gwario 15% o gyfanswm eu gwariant yn y categorïau hyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ystadegyn bu gan 87% o aelwydydd yng Nghymru fynediad at gar neu fan yn 2021¹⁵⁷. Roedd aelwydydd yng Nghymru yn gwario swm cyfartalog o £35.80 yr wythnos ar weithredu cerbydau personol, sef 45% o gyfanswm y gwariant ar drafnidiaeth.
- 5.2.2.10 Dangosodd data a gasglwyd ar wariant teuluol yn y Deyrnas Unedig: Ebrill 2021 i Mawrth 2022¹⁵⁸, fod aelwydydd yn gwario'r gyfran uchaf o'u gwariant wythnosol ar dai, tanwydd a phŵer, a trafndiaeth. Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022, roedd cynnydd wythnosol yn y gwariant ar drafnidiaeth (cynnydd o £7.80 i £74.40), adloniant a diwylliant (cynnydd o £9.30 i £56.10), bwytai a gwestai (cynnydd o £15.70 i £34.80). Er gwaethaf y cynnydd hwn, arhosodd gwariant yn y categorïau hyn yn is na'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020, cyn pandemig y coronafeirws. Priodolwyd y cynnydd mewn gwariant ar drafnidiaeth i gynnydd mewn gwariant ar ddefnyddio trafndiaeth bersonol, megis tanwydd a chynnal a chadw. Bu lleihad o £11.10 (46%) yn y gwariant ar wasanaethau trafndiaeth, megis bysiau a rheilffyrdd, rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.
- 5.2.2.11 Bu cynnydd o 15.3% yn y troseddau ar y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn 2017–18 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cyn hyn, roedd nifer y troseddau yn gymharol sefydlog. Categorïau mwyaf y troseddau a gofnodwyd oedd troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (308), trais yn erbyn y person (294) a dwyn eiddo teithiwr (199), a oedd yn cyfrif am 59%¹⁵⁹.
- 5.2.2.12 Yn 2022–23, cofnodwyd cyfanswm o 1,430 o droseddau hysbysadwy ar y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru, sy'n ostyngiad bach (1.7%) o'i chymharu â rhifau 2019–20¹⁶⁰. Ers 2013–14, roedd nifer y troseddau yng Nghymru yn gymharol sefydlog, cyn cynyddu yn 2017–18. Categorïau mwyaf y troseddau a gofnodwyd oedd Trais yn erbyn y person (342), Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (277) a Difrod troseddol/drygioni maleisus (251), a oedd yn cyfrif am 60.8% o'r holl droseddau. O'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, bu cynnydd o 5.5% mewn difrod troseddol/drygioni maleisus yn 2022–23, bu lleihad o 18.6% mewn trais yn erbyn y person, a bu cynnydd o 17.0% mewn troseddau rhywiol.

Bodddhad defnyddwyr trafndiaeth

- 5.2.2.13 Casglwyd ffigurau bodddhad teithwyr gan yr Arolwg Cenedlaethol Teithwyr¹⁶¹. Mewn adroddiad o'r enw 'Bodlonrwydd cyffredinol teithwyr â'u taith ar Drenau Arriva Cymru', canfuwyd, yn hydref 2019, fod 8% o'r teithwyr yn anfodlon ar y gwasanaeth, nad oedd 13% yn fodlon nac yn anfodlon a bod 79% yn fodlon ar y gwasanaeth. Ar draws pob gweithredwr rhanbarthol, roedd 82% o'r teithwyr yn fodlon ar y gwasanaeth.

¹⁵⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Family spending in the UK: April 2019 to March 2020. Ar gael yn:

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/bulletins/familyspendingintheuk/april2019tomarch2020?_gl=1*13c4k4p*_ga*MTQ5NDA4NTYxOS4xNzY2M2NTY0MTEy*_ga_W804VY6YKS*MTczNzQzMDUyOC40LjEuMTczNzQzMTM4MC42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁵⁷ Llywodraeth Cymru (2024) Canlyniadau yr Arolwg Cenedlaethol. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan ar 30.08.24]

¹⁵⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) Family spending in the UK: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Ar gael yn:

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/bulletins/familyspendingintheuk/april2021tomarch2022?_gl=1*xf6802*_ga*MTQ5NDA4NTYxOS4xNzY2M2NTY0MTEy*_ga_W804VY6YKS*MTczNzQ2NDIxMi41LjAuMTczNzQ2NDIxMi42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁵⁹ Llywodraeth Cymru (2019) Trafndiaeth Rheilffyrdd, Ebrill 2017 i Fawrth 2018. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/rail-transport-april-2017-to-march-2018-824.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶⁰ Llywodraeth Cymru (2024): Statistical Bulletin. Rail transport, 2022–2023. Ar gael yn:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2024-04/rail-transport-april-2022-march-2023-090.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶¹ Llywodraeth Cymru (2019) Bodlonrwydd cyffredinol teithwyr â'u taith ar Drenau Arriva Cymru ar adeg yr arolwg—hyd at 2019 yn unig.

Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Transport/rail/rail-transport/overallpassengersatisfactionwiththeirjourneyonarrivatrainswales-by-timeofsurvey> [Aed at y wefan: 13.08.24]

- 5.2.2.14 Canfu astudiaeth o Gerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (bysiau a thacsis) y bu cynnydd o 3.5% mewn pris tocyn bws yng Nghymru rhwng 2018 a 2019¹⁶². Hefyd, bu cynnydd o 3.5% mewn pris tocyn bws yng Nghymru yn 2020 o'i chymharu â 2019, sy'n uwch na chyfradd chwyddiant ar gyfer prisiau defnyddwyr y DU dros yr un cyfnod¹⁶³.
- 5.2.2.15 Canfu'r Arolwg Cenedlaethol¹⁶⁴, yn 2022–23, fod 52% naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar amllder gwasanaethau bws, a bod 59% naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar amllder gwasanaethau trên. Yn 2022–23, roedd 56% naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar ddibynadwyedd gwasanaethau bws, a bod 58% naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar ddibynadwyedd gwasanaethau trên. Yn 2022–23, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl am eu prif resymau dros beidio â defnyddio bysiau a threnau yn fwy, ymatebodd y gyfran uchaf o bobl (34%) fod 'car yn fwy cyfleus/haws'. Yr ail a'r trydydd rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd 'dim yn ddigon aml/yn rhedeg ar yr adegau anghywir i mi' a 'dim llwybr uniongyrchol', yn y drefn honno.
- 5.2.2.16 Adrodda Trafnidiaeth Cymru, yn 2022–23, fod 52.4% o bobl yn fodlon ar wasanaethau bysiau a bod 55.2% o bobl yn fodlon ar wasanaethau trên¹⁶⁵. Ym mis Mehefin 2023, darparodd 8.5% o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru fynediad heb risiau i bob plattform. Yn ne-orllewin Cymru, roedd 4.8% o'r gorsafoedd rheilffordd yn darparu mynediad heb risiau i bob plattform, a'r rhanbarth hwn oedd â'r gyfran uchaf (h.y. 95.2%) o orsafoedd rheilffordd â mynediad heb risiau i rai plattformau. Yn 2022–23, adroddodd Trafnidiaeth Cymru fod 67% o'r trac rheilffordd mewn cyflwr da (h.y. trac â bywyd gweddilliol dros 14 mlynedd). Mae bywyd gweddilliol trac rheilffordd ar Linellau Craidd y Cymoedd (trac a gynhelir gan Trafnidiaeth Cymru) wedi cynyddu 2 bwynt canran ers 2021 i 58% yn 2023.

Damweiniau ffordd fesul ardal fesul blwyddyn a phobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd

- 5.2.2.17 Yn 2019, cofnododd heddluoedd yng Nghymru 4,330 o ddamweiniau ffordd yn ymwneud ag anaf personol¹⁶⁶. Arweiniodd y damweiniau hyn at 5,808 o anafiadau, sy'n gynydd o 2.6% o'i chymharu â 2018.
- 5.2.2.18 Yn y 5,808 o anafusion:
- lladdwyd 95 o bobl, sydd 13 yn llai (12.0% yn is) nag yn 2018.
 - cafodd 1,098 o bobl eu hanafu'n ddifrifol, sydd 69 yn fwy (6.7% yn uwch) nag yn 2018.
 - cafodd 4,615 o bobl fân anafiadau, sydd 16 yn llai (0.3% yn is) nag yn 2018.
- 5.2.2.19 Yn 2020, cafodd 819 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol, sy'n ostyngiad o 31% o'i chymharu â 2019. O'r rhain, roedd 72 yn ddamweiniau angheuol, sydd 24.2% yn is nag yn 2019. Cofnodwyd cyfanswm o 3,692 o anafiadau, sy'n ostyngiad o 36% o'i chymharu â 2019, ac o'r rhain, cafodd 2,873 fân anafiadau. Yn ystod 2020, bu gostyngiad o 23.4% mewn traffig modurrol yng Nghymru o'i chymharu â 2019, sef y gostyngiad mwyaf yng ngwledydd y DU. Fodd bynnag, mae'n ansicr a fydd

¹⁶² Llywodraeth Cymru (2021) Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebriill-2019-i-fawrth-2020-html> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶³ Llywodraeth Cymru (2021) Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebriill-2019-i-fawrth-2020-html> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶⁴ Llywodraeth Cymru (2024) Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶⁵ Trafnidiaeth Cymru (2024) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro—Data a chrynodebau ar gyfer pob un o fesurau'r Fframwaith Monitro. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro?_gl=1*11t3eb1*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzMN3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzQ3NDc4Ny4yLjEuUMTczNzQ3NDc5Mi41NzS4wLjA. [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶⁶ Llywodraeth Cymru (2020) Damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu: 2019 (diwygiedig) Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/damweiniau-ffyrdd-wedi-u-cofnodi-gan-yr-heddlu-2019-html> [Aed at y wefan: 13.08.24]

y ffigurau is hyn yn cynyddu eto wrth i effaith pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig leihau¹⁶⁷.

Digwyddiadau Rheilffordd

5.2.2.20 Yn 2020, roedd 11 o farwolaethau ar y rheilffyrdd a hunanladdiad oedd pob un ohonynt¹⁶⁸. Yn 2019–20, cafodd 1,459 o droseddau hysbysadwy eu cofnodi ar reilffyrdd Cymru, sy'n ostyngiad o 5.9% o'i chymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

5.2.2.21 Yn 2023, roedd 12 o farwolaethau ar y rheilffyrdd yr oedd pob un ohonynt yn hunanladdiad¹⁶⁹. Yn 2022–23, roedd troseddau ar reilffyrdd Cymru yn debyg o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol a bu gostyngiad o 1.7% o'i chymharu â 2019–20.

5.2.3 Bylchau Data

- Bylchau data sy'n ymwneud â throedd a marwolaeth/anafiadau ar fysiau neu mewn gorsafoedd bysiau.
- Bylchau data sy'n ymwneud â throedd a marwolaeth/anafiadau ar lwybrau teithio llesol.
- Bylchau data sy'n ymwneud â gwahaniaethau rhyweddol yn y data a gipiwyd.
- Data mwy cyfredol yn ymwneud â damweiniau ffyrdd a gofnodwyd yn ne-orllewin Cymru
- Canran y bobl sy'n teimlo na allant fforddio i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (cesglir y data gan Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru)

5.3 Materion Allweddol sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd iddo fynd i'r afael â nhw

5.3.1 Materion

5.3.1.1 Mae prisiau tocyn bws yn cynyddu mewn cost ar gyfradd sy'n uwch na chwyddiant, gallai hyn eithrio rhai pobl neu gymunedau o'r math hwn o drafnidiaeth oherwydd rhwystr prisiau. Yn 2020, dangosodd mynegeion prisiau gwasanaethau bysiau lleol ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr fod cynnydd o 3.5% yng Nghymru a chynnydd o 2.6% ym Mhrydain Fawr, yr oedd y ddau ohonynt yn uwch na'r gyfradd chwyddiant o 2.3%¹⁷⁰.

5.3.1.2 Bu tuedd hirdymor at i lawr yn nifer y damweiniau lle cafodd pobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru¹⁷¹. Bu nifer y damweiniau angheuol yn sefydlog yn fras dros y naw mlynedd diwethaf hyd at 2019 ar ôl gostwng yn sylweddol dros y degawdau blaenorol. Er gwaethaf hyn, dylid gwneud mwy o ymdrech i wella diogelwch gyrrwyr a defnyddwyr eraill y ffordd gymaint â phosibl.

5.3.1.3 Mae lefelau llygredd sŵn o amgylch ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn beri effeithiau amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd dynol.

¹⁶⁷ Diogelwch Ffyrdd Cymru (2021) Damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu 2020. Ar gael yn:

<https://roadsafetywales.org.uk/statistics/2020/?Language=W> [Aed at y wefan: 13.08.24]

¹⁶⁸ Llywodraeth Cymru (2021) Trafnidiaeth Rheilffyrdd: Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-rheilffyrdd-ebriill-2019-i-fawrth-2020> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁶⁹ Llywodraeth Cymru (2024): Statistical Bulletin. Rail transport, 2022–2023. Ar gael yn:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2024-04/rail-transport-april-2022-march-2023-090.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁷⁰ Llywodraeth Cymru (2021) Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebriill-2019-i-mawrth-2020-html> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁷¹ Llywodraeth Cymru (2021) Statistical First Release. Damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu, 2020. Ar gael yn:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-06/police-recorded-road-accidents-2020-952.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

- 5.3.1.4 Gall unigedd ac unigrwydd gwledig arwain at broblemau iechyd meddwl; gall system trafndiaeth llai hygyrch sy'n lleihau mynediad i gymunedau a gwasanaethau lleol achosi hyn, ond gall ceir sy'n teithio drwy gymunedau wahanu cymunedau ac atgyfnerthu unigedd. Mae canran y bobl o fewn pellter cerdded i ddulliau teithio cynaliadwy yn llawer uwch mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig.
- 5.3.1.5 Efallai na fydd pobl mewn cymunedau difreintiedig yn gallu fforddio beiciau ac efallai na fydd ganddynt fynediad at ardaloedd storio beiciau, gan gyfyngu ar eu cyfleoedd teithio llesol.
- 5.3.1.6 Pan fydd pobl yn teithio, dylent allu gwneud hynny heb ofn neu fygythiad o drosedd.
- 5.3.1.7 Mae cyllid teithio llesol ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer aneddiadau sydd â phoblogaeth dros 2,000 o drigolion. Mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad seilwaith teithio llesol newydd mewn aneddiadau llai.

5.3.2 Cyfleoedd

- 5.3.2.1 Gallai'r CTRh gefnogi'r broses o greu cysylltiadau rhwng cymunedau diogel ac a chynhelir yn dda, ac ynddynt, drwy gyfleoedd trafndiaeth cyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol gan gynnwys llwybrau troed a llwybrau beicio.
- 5.3.2.2 Gallai'r CTRh gynllunio i leihau'r angen i deithio hefyd; a darparu cyfleoedd i gael mynediad at ddatblygiadau a gwasanaethau newydd a phresennol drwy amrywiaeth o ddulliau teithio cynaliadwy a/neu welliannau i gysylltedd digidol. Trwy leihau nifer y teithiau gyrrwr yn unig mewn car, gellid lleihau'r risg i ddefnyddwyr nad ydynt yn defnyddio cerbyd modurol a lleihau unigedd.
- 5.3.2.3 Gallai'r CTRh ystyried cynigion trafndiaeth strategol o ran y cyfleoedd y maent yn eu cyflwyno er mwyn annog cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â gwella iechyd dynol, tirwedd a chadwraeth natur â lleihad mewn sŵn a llygredd golau. Gall cynlluniau trafndiaeth wella diogelwch ar y ffyrdd, a all wella diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig ar y ffyrdd. Gellir gwella straen a brofir gan yrwyr hefyd drwy gyflwyno cynlluniau trafndiaeth.
- 5.3.2.4 Gallai'r CTRh geisio mynd i'r afael â'r lefelau bodlonrwydd presennol ag amllder a dibynadwyedd gwasanaethau bysiau a threnau yng Nghymru er mwyn hybu cymunedau a gysylltir yn dda a dichonadwy.
- 5.3.2.5 Gallai'r CTRh geisio annog gwelliant parhaus yng nghyflwr traciau rheilffordd yng Nghymru.
- 5.3.2.6 Hefyd, er mwyn hybu cynwysoldeb, diogelwch a hygyrchedd, gallai'r CTRh gefnogi'r ddarpariaeth ehangach o fynediad heb risiau yng ngorsafoddd rheilffordd Cymru. Yn ogystal â hynny, mae data gan Trafndiaeth Cymru yn awgrymu y gellid gwella gwasanaethau cymorth er mwyn cynyddu hygyrchedd annibynnol.

6 Nod Llesiant: Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu

6.1.1.1 Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

“Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau adloniant”.

6.1.1.2 Mae'r data'n ymwneud yn bennaf â'r hyn a ganlyn:

- Y Gymraeg;
- Cymeriad Tirwedd a Threflun; ac
- Asedau Diwylliannol ac Etifeddol.

6.2 Y Gymraeg

6.2.1 Perthnasedd i'r CTRh

6.2.1.1 Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, ac mae'r Gymraeg yn elfen bwysig o hunaniaeth a diwylliant cenedlaethol Cymru. O'r herwydd, mae angen i ddiogelu a hybu'r Gymraeg fod yn elfen graidd o'r CTRh. Mae Cymraeg 2050¹⁷² yn nodi mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae Cymraeg 2050 yn cynnwys tair thema allweddol: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu cyflyrau ffafriol drwy seilwaith a chyd-destun.

6.2.1.2 Dylai'r CTRh geisio sicrhau bod mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei dargedu'n benodol yn rhan o'r nod hwn, er mwyn cefnogi'r strategaeth sy'n ceisio ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai'r CTRh geisio cefnogi'r nod o gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Hefyd, gallai'r CTRh geisio 'cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg' drwy ei bolisiau, gan helpu i gefnogi'r nod o 'D[d]atblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu ac i gefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun'. Yn y CTRh, bydd cyfleoedd i hybu'r Gymraeg drwy ei defnyddio mewn cyhoeddiadau gorsafoedd, arwyddion ffyrdd ac arwyddion mewn gorsafoedd rheilffordd a bysiau.

6.2.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol


6.2.2.1 Mae'r dirywiad hanesyddol yn y defnydd o'r Gymraeg wedi ei atal ac mae bellach wedi bod ar duedd at i fyny cyffredinol ers dechrau'r 1990au. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd bod y Gymraeg yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn bwnc gorfodol mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae lefelau rhuglder yn dal i fod yn isel ac mae amrywiadau rhanbarthol mawr. Mae adroddiad Chwefror 2020 'Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau'¹⁷³ yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar y berthynas rhwng y Gymraeg, ac ieithoedd eraill sy'n berthnasol i'r cyd-destun ieithyddol yng Nghymru, a'r economi.

¹⁷² Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> [Aed at y wefan ar 20.08.24]

¹⁷³ Llywodraeth Cymru (2020) Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/y-gymraeg-ar-economi-adolygiad-or-dystiolaeth-ar-dulliau.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

6.2.2.2 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, 32.5% oedd canran y bobl tair oed a hŷn yng Nghymru a allai ddeall Cymraeg llafar. Gostyngiad bach yw hwn, h.y. 1%, o'r flwyddyn flaenorol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, pan oedd 33.5% yn deall Cymraeg llafar. Ceir y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ac mae'r gyfran isaf yn Nhorfaen a Blaenau Gwent. Mae Ffigur B-42 yn dangos rhuglder pobl Cymru ar draws awdurdodau lleol¹⁷⁴.

Ffigur B-42: Rhuglder yn y Gymraeg ar draws Awdurdodau Lleol



6.2.2.3 Mae gan Lywodraeth Leol swyddogaeth hanfodol i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn natblygiad economaidd ardaloedd Cymraeg yn bennaf ac wrth gryfhau'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gweithle a'r gymuned ehangach. Yn ogystal â'u statws fel cyflogwyr a gwarwyr mawr, mae Awdurdodau Lleol hefyd yn dylanwadu ar ddatblygiad economaidd lleol drwy swyddogaethau megis tai, addysg, adfywio a gweithgareddau diwylliannol. Mae rhai o'r swyddogaethau hyn yn statudol, ac nid yw swyddogaethau eraill¹⁷⁵.

Agweddau tuag at y Gymraeg

6.2.2.4 Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022–23 ynghylch y Gymraeg¹⁷⁶, canfuwyd yr hyn a ganlyn:

6.2.2.5 O ran gallu:

- dywedodd 11% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd
- adroddodd 31% eu bod yn rhugl yn y Gymraeg ac adroddodd 15% eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg
- roedd 22% yn gallu darllen Cymraeg
- roedd 19% ysgrifennu yn Gymraeg

¹⁷⁴ Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2024) Gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/welsh-skills-by-la> [Aed at y wefan ar 21.08.24]

¹⁷⁵ Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol (2018) Yr Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/inline-documents/2018-11/datganiad-ysgrifenedig-gweithgor-ar-yr-iaith-gymraeg-ym-maes-datblygu-economaidd-a-gweinyddu-llywodraeth-leol.pdf> [Aed at y wefan ar 20.08.24]

¹⁷⁶ Llywodraeth Cymru (2024) Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan: 30.08.24]

6.2.2.6 Casglodd Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017–2018)¹⁷⁷ ddata am hyder ac agweddau tuag at y Gymraeg na ofynnwyd mewn fersiynau diweddarach o'r Arolwg Cenedlaethol.

6.2.2.7 O ran hyder:

- Roedd 68% o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg. Roedd 72% yn dymuno ei siarad â siaradwyr Cymraeg eraill ac roedd 36% yn bryderus y byddent yn cael eu barnu ar ba mor dda yr oeddent yn ei siarad.
- Roedd cydberthynas cryf rhwng pa mor rhugl yr oedd siaradwyr a'u hyder wrth siarad Cymraeg.
- Roedd 95% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn hyderus wrth siarad Cymraeg; fodd bynnag, roedd 21% o siaradwyr rhugl yn poeni y byddent yn cael eu barnu ar ba mor dda y maent yn ei siarad.
- Roedd menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion o bryderu am deimlo eu bod yn cael eu barnu.


6.2.2.8 O ran agweddau:

- Roedd 86% o bobl yn teimlo bod yr iaith yn rhywbeth i fod yn falch ohono.
- Roedd 68% o'r farn bod angen gwneud mwy o ymdrech i gefnogi'r iaith.
- Hoffai 62% o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg allu ei siarad, ac roedd 85% o'r rhai â rhywfaint o allu yn y Gymraeg yn dymuno ei siarad yn well.
- Roedd pobl lleiaf tebygol o gytuno â'r datganiad 'Bydd y Gymraeg yn gryfach ymhen 10 mlynedd': Roedd 40% yn cytuno â'r datganiad hwnnw. Y rhai yn byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru oedd y lleiaf tebygol o gytuno â'r datganiad hwn.

6.2.2.9 Yn ôl Cyfrifiad 2021, ar gyfartaledd, 39% o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Ar gyfartaledd, mae 17% o'r bobl yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Benfro, 11% o'r bobl Abertawe a 13% yng Nghastell-nedd Port Talbot (gweler Ffigur B-43).

¹⁷⁷ Llywodraeth Cymru (2018) Bwletin Ystadegol, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017–18 Y Gymraeg: Hyder ac agweddau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/arolwg-cenedlaethol-cymru-y-gymraeg-hyder-ac-agweddau-2017-18.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

Ffigur B-43: Canran de-orllewin Cymru o bobl tair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is—Cyfrifiad 2021



- 6.2.2.10 Dengys data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth¹⁷⁸ y bu cynnydd cyffredinol ers 2007 yn y nifer amcangyfrifedig o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, amcangyfrifodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod 28% o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i oddeutu 862,700 o bobl. Ceir y canrannau amcangyfrifedig uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd (76.3%) ac Ynys Môn (59.3%). Dywedodd 14.4% o bobl tair oed neu hŷn eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, 5.4% yn wythnosol a 6.5% yn llai aml. Dywedodd oddeutu 1.7% nad oeddent byth yn siarad Cymraeg er eu bod yn gallu ei siarad, ac nid oedd y 72% sy'n weddill yn gallu siarad Cymraeg.
- 6.2.2.11 Mae Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu monitro data ar ganran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafndiaeth pan fydd y data hyn ar gael. O'r boblogaeth yng Nghymru, adroddodd 34% eu bod yn gallu siarad yr iaith yn 2022–23¹⁷⁹. Canfuwyd mai 35.6% oedd hyn yn ne-orllewin Cymru a bod 12.7% a oedd yn defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Cesglir data hefyd fesul ystod oedran a fesul dosbarthiad trefol/gwledig. Nodir gan Trafnidiaeth Cymru nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd i fesur canran y siaradwyr Cymraeg sy'n

¹⁷⁸ Llywodraeth Cymru (2024) Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ebrill 2023 i Fawrth 2024. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-ebriill-2023-i-fawrth-2024.html> [Aed at y wefan: 30.08.24]

¹⁷⁹ Trafnidiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafndiaeth. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s15?_gl=1*ykr5u1*_ga*MT100TM1MjAxNS4xNzM3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzUwODYyMi40LjEuMTczNzUwODYyMi42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 30.08.24]

defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafndiaeth. Cesglir hyn gan Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

6.2.2.12 Mae Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth¹⁸⁰ yn nodi 27 o argymhellion ar sut y gall datblygu economaidd, a'r sector cyhoeddus, gynorthwyo'r broses o wella'r Gymraeg. Mae'r argymhellion yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau adeiladu ar eu defnydd o'r Gymraeg ar gyfer brandio ac fel offeryn marchnata, gan gynnwys rhagor o adnoddau ar gyfer arloesedd a dewis galluoedd Cymraeg. Dylai contractwyr y sector cyhoeddus a derbynwyr grantiau Llywodraeth Cymru allu dangos y gallu i ddarparu sgiliau yn ddwyieithog. Dylai Cymru ddysgu o brofiad ac arferion da mewn cymunedau dwyieithog eraill megis Gwlad y Basg, Québec, a Chatalwnia, gyda dadansoddiad o'r bygythiadau i'r iaith yn y meysydd sydd mewn perygl a chydabod llwyddiannau cymunedol. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid gwneud gwaith ymchwil i archwilio effaith gwella cyfathrebu ar ffyrdd a rheilffyrdd a gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus rhwng yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf a'r canolfannau cyflogaeth ar y prif goridorau cludo.

6.2.3 Bylchau Data

- Ni chanfuwyd ystadegau penodol o ran bodlonwydd siaradwyr Cymraeg a'u gallu i deithio gan ddefnyddio'r Gymraeg.
- Diffyg data diweddar ynghylch agweddau tuag at siarad Cymraeg a siaradwyr Cymraeg, yn ne-orllewin Cymru.
- Diffyg data diweddar ynghylch hyder siaradwyr Cymraeg wrth siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd yn ne-orllewin Cymru.
- Bylchau data sy'n ymwneud â mynediad at addysg Gymraeg a'r swyddogaeth y mae trafndiaeth yn ei chwarae.
- Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafndiaeth

6.3 Cymeriad Tirwedd a Threflun

6.3.1 Perthnasedd i'r CTRh

6.3.1.1 Mae tirweddau Cymru yn adlewyrchu ehangder a chyflwr amrywiaeth o adnoddau naturiol ac ecosystemau o'u cymharu â chymhlethdod dylanwadau dynol a phenderfyniadau ynghylch defnydd tir. Mae trefluniau a chymeriad trefol hefyd yn adlewyrchu hanes hir o ddatblygiad dynol. Yn yr un modd, mae gwybodaeth morlun yn ategu'r wybodaeth am dirwedd/treflun a chyda'i gilydd mae'r ddau fath o wybodaeth yn darparu dealltwriaeth o'r buddion diwylliannol sydd i'w cael o'r amgylchedd daearol a morol.

6.3.1.2 Mae'r elfennau hyn wedi eu siapio'n gryf gan ymyrraeth ddynol a defnydd tir drwy gydol hanes, a bydd y CTRh yn parhau i chwarae swyddogaeth bwysig wrth siapio'r cymeriad hwn drwy brosiectau a rhaglenni seilwaith. Mae cymeriad tirwedd, treflun a morlun yn bwysig o ran ymdeimlad cryf Cymru o le a hunaniaeth ddiwylliannol gyda chysylltiadau agos â'r diwydiant twristiaeth.


6.3.1.3 Gall trafndiaeth gael llawer o effeithiau posibl ar gymeriad tirwedd a threflun; gallai datblygiadau seilwaith newydd sy'n lleihau amwynder gweledol tirwedd gwerthfawr drwy adeiladu ffordd newydd drwyddo, neu gael gwared ag adeiladau neu fannau gwyrdd mewn trefi a allai fod o werth i'r

¹⁸⁰ Llywodraeth Cymru (2014) Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/adroddiad-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-ar-yr-iaith-gymraeg-a-datblygu-economaidd.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

gymuned leol ar gyfer cynlluniau ehangu ffyrdd, fod yn effeithiau negyddol. Mae gwell mynediad at fannau gwyrdd a safbwyntiau yn effaith cadarnhaol posibl.

- 6.3.1.4 Daw Ffigur B-44 o Landscape Character Assessment 2014 (Dull LCA a addaswyd yn uniongyrchol o ganllawiau 2002) ac mae'n dangos yr amrywiaeth o ffactorau a ystyrir yn rhan o dirlun yn gyffredinol¹⁸¹.

Ffigur B-44: Yr amrywiaeth o ffactorau yr ystyrir eu bod yn rhan o dirwedd yn gyffredinol



6.3.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

- 6.3.2.1 Mae gan Gymru dirwedd amrywiol sydd o ansawdd uchel yn gyffredinol, a gwerthfawrogir dros 50% o arwynebedd y tir yn genedlaethol am ei ansawdd golygfaol a'i gymeriad. Mae llawer o dirweddau Cymru yn eiconig gydag ymdeimlad clir o le a hunaniaeth adnabyddadwy. Mae'r wlad yn wledig ei natur yn bennaf, a diffinnir 59% o'r dirwedd fel Patrwm Cae/Mosäig ac mae 20% wedi ei chategoreiddio fel Tir Agored¹⁸².

- 6.3.2.2 Mae newid tirwedd cenedlaethol hyd at 2015 wedi bod yn fach yn gyffredinol, ond cafwyd rhai newidiadau sylweddol yn lleol. Mae'r cyfranwyr sy'n allweddol i newid tirwedd yn yr amgylchedd adeiledig yn cynnwys: ehangu aneddiadau, datblygiadau masnachol a diwydiannol, chwareli a gwelliannau ffyrdd, ffermydd gwynt ar y tir, tyrbinau a datblygiadau mawr sy'n gysylltiedig ag adloniant. Yn yr amgylchedd gwledig, mae enghreifftiau yn cynnwys: cwmpo conwydd ac ailblannu â llydanddail, ehangu coetiroedd a newid gorchudd rhedyn. Ers 2016, y prif newidiadau fu cynnydd mewn gorchudd coed ar ffermydd, mwy o goetir, glaswelltir mwy parhaol, mwy o dir â'r a mwy o leiniau glaswellt, ochr yn ochr â gostyngiad mewn pori garw a garddwriaeth¹⁸³.

¹⁸¹ Natural England (2014) An Approach to Landscape Character Assessment. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691184/landscape-character-assessment.pdf [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁸² Cyfoeth Naturiol Cymru (2018) Updated All Wales LANDMAP Statistics 2017 Visual and Sensory Aspect. Ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684055/landmap-visual-and-sensory-all-wales-stats-2017.pdf?mode=pad&rnd=131625599140000000> [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁸³ Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) The Second State of Natural Resources Report (SoNaRR2020) Assessment of the achievement of sustainable management of natural resources: Land use and soils Ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/693310/sonarr2020-theme-land-use-and-soils.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

- 6.3.2.3 Dros amser, mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gymeriad tirwedd, gwahanolrwydd ac ansawdd lleol, yn uniongyrchol drwy newid gorchudd tir (cynefinoedd mudo ac amrywiaethau o rywogaethau) ac yn anuniongyrchol drwy ddylanwadu ar benderfyniadau defnydd tir. Efallai y bydd newidiadau i'r dirwedd yn amlwg yn sgil mesurau lliniaru hefyd, megis cynhyrchu ynni adnewyddadwy, rheoli adnoddau dŵr ac addasu drwy ehangu coetiroedd arfaethedig. Mae newid yn yr hinsawdd yn peri risg i dirweddau o blâu, pathogenau a rhywogaethau ymledol hefyd ac o newidiadau mewn amllder a/neu faint tywydd eithafol a digwyddiadau tanau gwyllt.
- 6.3.2.4 Dynodir cyfanswm o 25% o Gymru yn Barc Cenedlaethol neu'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Tirweddau Gwarchoddedig

- 6.3.2.5 Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru: Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri. Mae gan bob Parc Cenedlaethol statws awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru hefyd. Gyda'i gilydd, mae'r Parciau Cenedlaethol hyn yng Nghymru yn cwmpasu oddeutu 20% o arwynebedd tir Cymru. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ne-orllewin Cymru, ac mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y rhanbarth hwn yn rhannol, a lleolir Parc Cenedlaethol Eryri y tu allan i'r ardal hon.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 6.3.2.6 Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro rai o'r golygfeydd mwyaf trawiadol a'r bywyd gwyllt mwyaf amrywiol ym Mhrydain, gan gynnwys gwarchodfeydd natur, daeareg ac archaeoleg o bwys rhyngwladol¹⁸⁴. Dynodwyd y Parc ym 1952 ac mae'n parhau i fod yr unig Barc Cenedlaethol y DU a gydnabyddir yn bennaf oherwydd ei arfordir. Mae'n un o'r Parciau Cenedlaethol lleiaf yn y DU; ond mae ganddo un o'r tirweddau mwyaf amrywiol—traethau tywodlyd, ynsoedd a chlogwyni garw, aber coediog tawel a mynydd-dir gyda golygfeydd mawr o'r môr. Mae'r parc yn cwmpasu 232.5 milltir sgwâr (602 km sgwâr). Ar ei bwynt mwyaf llydan, mae oddeutu 16km o led; ar ei bwynt culaf, mae oddeutu 100m o led. Mae oddeutu 22,500 o bobl yn byw yn y Parc Cenedlaethol. Mae ardal y Parc Cenedlaethol a gwmpesir gan o leiaf un dynodiad (darpar ACA, ACA, AGA, SoDdGA, Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Gwarchodfa Natur Leol) yn 11,787.8 hectar, ac felly mae hyn yn 19.2% o gyfanswm arwynebedd y Parc Cenedlaethol.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

- 6.3.2.7 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys rhai o'r tirffurfiau ucheldirol mwyaf nodedig yn ne Prydain¹⁸⁵. Mae'r Parc yn cwmpasu 520 milltir sgwâr (1,344 km sgwâr) ac mae'n gorwedd rhwng cefn gwlad Canolbarth Cymru a Chymoedd diwydiannol De Cymru. Mae'n dirwedd amrywiol, lle mae ucheldiroedd ysgubol yn cyferbynnu â dyffrynnoedd gwyrdd, gyda rhaeadrau dramatig, coetiroedd hynafol, ogofâu, coedwigoedd a chronfeydd dŵr. Pen y Fan yw'r pwynt uchaf, yng nghanol y Parc Cenedlaethol. Mae ei gopa top bwrdd unigryw yn 886m o uchder, ac mae cannoedd o filoedd o bobl yn ei dringo bob blwyddyn.
- 6.3.2.8 Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn gartref i 33,000 o bobl, dros 9,000 o wahanol blanhigion ac anifeiliaid, ac mae ganddo dreftadaeth Cymreig cryf a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog. Yr anheddiad mwyaf yw tref gadeiriol Aberhonddu sydd â phoblogaeth o oddeutu 7,500. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 6.3.2.9 Mae un Dirwedd Genedlaethol yn ne-orllewin Cymru: Gŵyr.

¹⁸⁴ Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020) Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 (dyddiad gorffen 2031). Ar gael yn: <https://www.arfordirpenfro.cymru/cynllunio/polisiau-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2/> [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁸⁵ Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2013) Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007–2022. Ar gael yn: <https://bannau.cymru/cynllunio/strategaeth-a-pholis/cynllun-datblygu-lleol-parc-cenedlaethol-bannau-brycheiniog/> [Aed at y wefan: 20.08.24]

Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr

6.3.2.10 Dynodwyd Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr ym 1956 oherwydd ei harfordir calchfaen clasurol ac amrywiaeth ei chynefinoedd naturiol. Hi oedd y Dirwedd Genedlaethol gyntaf a ddynodwyd yn y DU¹⁸⁶. Mae golygfeydd Gŵyr yn gyfoethog ac yn amrywiol, ac yn amrywio o dwyni bregus a morfa heli yn y gogledd i'r clogwyni calchfaen dramatig ar hyd arfordir y de, a rhyngdorir gan draethau tywod. Yn fewndirol, mae bryniau Cefn Bryn a Llwybr Cefnen Rhosili yn dominyddu'r dirwedd o gaeau bach traddodiadol, dyffrynnoedd coediog a thir comin agored. Mae Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr yn cwmpasu ardal o 188km². Er nad yw'n rhan o'r rheswm dros ddynodi, mae gan y Dirwedd Genedlaethol dreftadaeth archeolegol ac adeiledig gyfoethog hefyd, gan gynnwys dros 80 o Henebion Cofrestredig, bron i 130 o adeiladau rhestredig, a dwy ardal a gydnabyddir fel Tirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

Ansawdd y Tirweddau

6.3.2.11 Y llinell sylfaen tirwedd mwyaf manwl yng Nghymru sy'n adrodd ar stad, cyflwr a thuedd tirwedd yw LANDMAP¹⁸⁷. Adnodd tirwedd Cymru gyfan lle mae nodweddion a rhinweddau tirwedd, a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso yw LANDMAP. Mae LANDMAP yn esbonio'r dirwedd ffisegol, daearegol, ecolegol, gweledol, hanesyddol a diwylliannol: mae'r disgrifiadau cryno, y gwerthusiadau a'r argymhellion rheoli yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r dirwedd ac yn nodi rhinweddau a nodweddion tirwedd pwysig. Trwy gasglu gwybodaeth am dirwedd amlddimensiwn, mae'n sicrhau y gellir ystyried pob agwedd ar y dirwedd. Dyma'r pwyslais ar gyfer monitro tirwedd yng Nghymru, gan alluogi newid i gael ei olrhain a nodi ffactorau allweddol sy'n pennu newid, cyflwr a chydnerthedd y dirwedd.

6.3.2.12 Adnabyddir Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ar lefel awdurdod cynllunio lleol ac ar lefel genedlaethol, ac mae 48 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol sy'n nodi tirweddau rhanbarthol. Maent yn cynnig crynodebau tirwedd cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r pum haen LANDMAP, nodweddion allweddol, a grymoedd dros newid, a gallent fod yn gysylltiedig ag astudiaethau dylunio neu sensitifrwydd.

6.3.2.13 Mae rhai awdurdodau yn adnabod Ardaloedd Tirwedd Arbennig, sy'n gysylltiedig yn aml ag Ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Mae llawer o'r tirweddau hyn sydd wedi eu dynodi yng Nghymru.

Ardaloedd Cymeriad Morol

6.3.2.14 Mae oddeutu 70% o arfordir Cymru wedi ei ddynodi neu ei gofrestru yn Dirwedd Genedlaethol, yn Barc Cenedlaethol, yn Arfordir Treftadaeth neu'n Dirwedd Hanesyddol¹⁸⁸. Mae gwybodaeth morlun yn ategu'r wybodaeth am dirweddau sydd ar gael a chysylltu'r gilydd mae'r ddau fath o wybodaeth yn darparu dealltwriaeth o'r buddion diwylliannol sydd i'w cael o'r amgylchedd morol. Mae 29 Ardal Cymeriad Morol cenedlaethol¹⁸⁹ ac Asesiadau Cymeriad Morlun Lleol Sir Benfro¹⁹⁰ yn darparu gwybodaeth forlun gynhwysfawr am dde-orllewin Cymru.

¹⁸⁶ Cyngor Abertawe (2017) Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr 2017. Ar gael yn:

<https://www.abertawe.gov.uk/partneriaethgwyr> [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁸⁷ CNC (2024) LANDMAP—linell sylfaen tirwedd Cymru Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap-the-welsh-landscape-baseline/?lang=cy> [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁸⁸ Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/welsh-national-marine-plan_5.pdf [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁸⁹ CNC (2021) Ardaloedd Cymeriad Morol Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/marine-character-areas/?lang=cy> [Aed at y wefan: 20.08.24]

¹⁹⁰ Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2013) Pembrokeshire Coast National Park Authority Seascape Character Assessment: Supplementary Planning Guidance to the Local Development Plan 1 for the Pembrokeshire Coast National Park. Ar gael yn: <https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2020/09/Seascape-SPG-2020.pdf> [Aed at y wefan: 20.08.24]

Tirweddau o Bwysigrwydd Hanesyddol

6.3.2.15 Mae tirwedd Cymru yn adnodd hanfodol ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hefyd wedi ei siapio'n hanesyddol gan weithgaredd dynol ac mae'n gyfoethog o ran tystiolaeth o'r gorffennol. Cydnabod gwerth tirweddau hanesyddol, a chodi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd. Mae Cadw, mewn partneriaeth â CNC ac ICOMOS UK¹⁹¹, wedi llunio data anstatudol sy'n dangos Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru¹⁹². Mae'r Gofrestr yn nodi 58 o dirweddau o ddiddordeb eithriadol neu hanesyddol arbennig, a ystyrir yr enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirweddau hanesyddol yng Nghymru. Ffigur 3—Mae Nodweddion Treftadaeth yn dangos lleoliadau tirweddau hanesyddol. Mae'r Gofrestr yn darparu gwybodaeth i wneuthurwyr penderfyniadau a rheolwyr tirwedd, er mwyn helpu i sicrhau bod cymeriad hanesyddol y dirwedd yn cael ei gynnal, a phan fo newid yn cael ei ystyried, ei fod yn wybodus.

6.3.3 Bylchau Data

- Data sy'n ymwneud â thrafnidiaeth mewn Tirweddau Cenedlaethol yng Nghymru, iddynt, ac ohonynt.
- Data sy'n ymwneud â thrafnidiaeth i ddigwyddiadau diwylliannol mawr yng Nghymru

6.4 Awyr Dywyll ac Ardaloedd Llonydd

6.4.1 Perthnasedd i'r CTRh

6.4.1.1 Cydnabyddir y gall awyr dywyll ac ardaloedd llonydd ddod â manteision i ardal, gan gynnwys gwella'r amgylchedd, denu ymwelwyr a rhoi hwb i'r economi leol. Mae gan y CTRh swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth helpu i arwain penderfyniadau drwy gynllunio rhwydweithiau trafndiaeth newydd.

6.4.2 Tueddiadau a Chyflyrau Sylfaenol

6.4.2.1 Mae ardaloedd awyr tywyll yn ddangosydd da o lygredd golau sy'n isel iawn. Mae sawl lleoliad yng Nghymru sydd wedi eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn rhan o raglen lleoedd awyr tywyll. Wedi ei leoli'n rhannol yn ne-orllewin Cymru, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ei gydnabod yn rhyngwladol fel Gwarchodfa Awyr Tywyll¹⁹³. Nid oes parciau awyr tywyll yn ne-orllewin Cymru.

6.4.2.2 Hefyd, yn ne-orllewin Cymru, cydnabyddir Gŵyr fel cymuned awyr dywyll¹⁹⁴.

6.4.2.3 Mae CNC wedi gwneud gwaith ymchwil i awyr dywyll Cymru, gan nodi bod 68.1% o Gymru yn y band tywyllaf, fel y'i diffinnir gan yr astudiaeth. Nodwyd mai Canolbarth Cymru yw'r rhanbarth tywyllaf, ac mae 95% o'r tri Pharc Cenedlaethol a phum Tirwedd Genedlaethol yn y ddau categori tywyllaf. Er bod posibilrwydd bod sensitifrwydd synwryddion lloeren yn y tonfeddi Deudodau Allyrru Golau yn effeithio arno, mae'n ymddangos bod y golau a ollyngir mewn dinasoedd

¹⁹¹ International Council on Monuments and Sites UK

¹⁹² Llywodraeth Cymru a CNC (2014) Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru. Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:Cadw_HistoricLandscapes [Aed at y wefan: 08.08.24]

¹⁹³ Y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (dim dyddiad) Find a Dark Sky Place. Ar gael yn: <https://www.darksky.org/our-work/conservation/idsp/finder/> [Aed at y wefan: 21.08.24]

¹⁹⁴ Croeso Cymru (dim dyddiad) Discover the Best Dark Sky Spots in Wales. Ar gael yn: <https://www.visitwales.com/inspire-me/days-out/dark-sky-destinations-go-stargazing-wales-winter> [Aed at y wefan ar 21.08.24]

yn gostwng, ond mae'n ymddangos hefyd fod yr ardaloedd o amgylch dinasoedd yn dod yn fwy disglair¹⁹⁵. Mae hyn yn enwedig o amlwg o amgylch Caerdydd a Chasnewydd.

- 6.4.2.4 Comisiynodd CNC asesiad o ardaloedd llonydd yn 2009, yn dilyn asesiad cynharach ym 1997¹⁹⁶. Nododd hyn fod 55% o Gymru (11,600 km²) yn llonydd yn 2009, sy'n golled o 1500km² o'i chymharu â'r tirweddau llonydd ym 1997.
- 6.4.2.5 Mae'r ddwy Ardal Lonydd fwyaf ar Fap 2009 dros 1,000km². Mae'r ardaloedd hyn yn rhannau o'r Berwyn, sy'n ffinio â threfi Dolgellau, Bala, Llangollen a'r Trallwng, a rhan ddeheuol Mynyddoedd Cambria, sy'n ffinio â Llangurig, Rhaeadr Gwy, Llanymddyfri, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron.
- 6.4.2.6 Rhwng 1997 a 2009, collwyd bron i 1,500km² o Ardaloedd Llonydd. Mae hyn dros 6% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru; ac mae'n fwy nag arwynebedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- 6.4.2.7 Cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru adnodd Tranquillity and Place sy'n gyson yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am awyr dywyll ar gael ar gyfer cynllunio¹⁹⁷.

6.4.3 Bylchau Data

- Y data diweddaraf sy'n ymwneud â llonyddwch
- Data sy'n gysylltiedig â seinweddau

6.5 Asedau yr Amgylchedd Hanesyddol, Diwylliannol a Threftadaeth

6.5.1 Perthnasedd i'r CTRh

- 6.5.1.1 Mae treftadaeth ddiwylliannol yn cynnwys olion archeolegol, strwythurau cyflawn a thirweddau creiriol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch dynol yn y gorffennol. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin â gweithgareddau diwylliannol a wneir gan y boblogaeth. Mae gan Gymru nifer mawr o asedau treftadaeth diwylliannol dynodedig a heb eu dynodi sy'n adlewyrchu ei hanes hir o feddiannaeth ddynol. Mae llawer o'r rhain yn darparu atyniadau twristaidd pwysig yn ogystal â bod yn ganolog i adnabyddiaeth diwylliannol Cymreig.
- 6.5.1.2 Mae gan y CTRh swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth ddarparu mynediad, diogelwch a gwella treftadaeth ddiwylliannol drwy brosiectau a rhaglenni seilwaith trafndiaeth. Gall datblygiadau newydd gael amrywiaeth o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y mae angen eu hosgoi neu eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys effeithiau sy'n deillio o sŵn a llygredd aer sy'n deillio o waith adeiladu llwybrau traffig prysur ger ardaloedd diwylliannol arwyddocaol a allai wneud ymweld â nhw yn llai apelgar a lleihau eu mwynder gweledol (effeithiau anuniongyrchol); mae hefyd yn cynnwys cael gwared ar asedau treftadaeth yn ffisegol oherwydd y gallai hyn fod ei angenrheidiol ar gyfer datblygu seilwaith teithio newydd. Gall yr effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gynnwys dwysáu traffig presennol neu adeiladu ffyrdd neu reilffyrdd newydd. Gall lefelau cynyddol o dagfeydd effeithio ar drefi hanesyddol, dinasoedd a chefn gwlad, a gall datblygu seilwaith trafndiaeth newydd effeithio ar dirweddau hanesyddol a gallai achosi niwed uniongyrchol i asedau treftadaeth.

¹⁹⁵ Green C, Manson D, Chamberlain K 2021. Tranquillity and Place—Dark Skies. Adroddiad CNC Rhif: 514, t. 70.

¹⁹⁶ CNC (2009) Ardaloedd Llonydd Cymru. Ar gael yn: <https://mapdata.llyw.cymru/layergroups/inspire-nrw:TranquilAreasWales> [Aed at y wefan: 08.08.24]

¹⁹⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Awyr Dywyll a Llygredd Golau yng Nghymru. Ar gael yn:

<https://luc.maps.arcgis.com/apps/opsdashboard/index.html#/1cd6ba8a1d7d4a62aff635cfcbaf4aec> [Aed at y wefan: 21.08.24]

6.5.1.3 Hefyd, gallai seilwaith trafndiaeth fod yn ased hanesyddol o bwys ynddo ei hun, o lwybrau cynhanesyddol a ffyrdd Rhufeinig, i bontydd canoloesol, datblygiad camlesi a rheilffyrdd yn ystod y chwyldro diwydiannol a chyflwyno trafndiaeth modur ac awyrennau yn yr ugeinfed ganrif.

6.5.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

6.5.2.1 Mae asedau treftadaeth yng Nghymru yn niferus. Mae'r adran hon yn disgrifio'r mathau allweddol o asedau sy'n bresennol.

Safleoedd Treftadaeth y Byd

6.5.2.2 Ystyrir Safleoedd Treftadaeth y Byd fel rhai o bwys cyffredinol ac sy'n 'perthyn i holl bobloedd y byd, ni waeth ar ba diriogaeth y'u lleoli arni'. Fe'u rhestrir gan UNESCO.

6.5.2.3 Ar hyn o bryd, mae gan Gymru bedwar safle treftadaeth y byd, ac nid oes yr un ohonynt a leolir yn ne-orllewin Cymru¹⁹⁸:

Adeiladau Rhestredig

6.5.2.4 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio rhestrau o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; ac adeiladau rhestredig. Defnyddir y rhestrau i helpu awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniadau gan nodi buddiannau yr amgylchedd hanesyddol yn glir. Cadw sy'n ymgymryd â'r gwaith o lunio'r rhestrau. Dosberthir adeiladau rhestredig mewn graddau er mwyn dangos eu pwysigrwydd cymharol. Y graddau yw¹⁹⁹:

- I — Adeiladau o ddiddordeb eithriadol, cenedlaethol fel arfer. Ar hyn o bryd, llai na dau y cant o'r adeiladau a restrir yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer y radd hon;
- II* — Adeiladau o bwys penodol sydd o ddiddordeb mwy nag arbennig; a
- II — adeiladau o ddiddordeb arbennig sy'n cyfiawnhau pob ymdrech sy'n cael ei gwneud i'w diogelu.

6.5.2.5 Mae dros 30,000 o Adeiladau Rhestredig (Gradd I, Gradd II a Gradd II*) yng Nghymru a ddosberthir ar draws ei siroedd gan amrywio o neuaddau a chestyll canoloesol i filâu Edwardaidd. Lleolir 1,632 o Adeiladau Rhestredig yn Sir Benfro, lleolir oddeutu 1,800 yn Sir Gaerfyrddin, lleolir oddeutu 500+ yn Abertawe a lleolir 399 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Henebion Cofrestredig

6.5.2.6 Mae Cadw'n llunio ac yn cynnal Cofrestr o Henebion. Mae'r henebion a gynhwysir yn y Gofrestr hon o bwysigrwydd cenedlaethol ac maent yn cwmpasu ystod amrywiol o safleoedd archeolegol. Efallai y bydd rhai enghreifftiau wedi eu claddu'n gyfan gwbl o dan y ddaear, a dim ond drwy gloddio archeolegol y gellir eu hadnabod. Mae eraill yn fwy amlwg ac yn cynnwys adfeilion mawr cestyll ac abatai canoloesol adnabyddus. Yr enghraifft hynaf y gwyddys amdani yng Nghymru yw ogof naturiol y canfu ei bod yn cynnwys y dystiolaeth gynharaf o bobl yng Nghymru sy'n dyddio i chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ar ben arall y sbectrwm, ceir strwythurau milwrol yr ugeinfed ganrif. Yn aml, mae Henebion Cofrestredig mewn cyflwr adfeilledig neu ledadfeilledig neu ar ffurf cloddweithiau²⁰⁰.

6.5.2.7 Erbyn hyn, mae dros 4,000 o Henebion Cofrestredig sydd wedi eu rhestru ledled Cymru ac mae'r nifer yn cynyddu yn rhan o bolisi arfaethedig parhaus o wella'r Gofrestr. Mae 236 o Henebion

¹⁹⁸ Cadw (2021) Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Ar gael yn: <https://mapdata.llyw.cymru/layergroups/inspire-wg:WorldHeritageSites> [Aed at y wefan: 08.08.24]

¹⁹⁹ Cadw (2021) Adeiladau Rhestredig. Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:Cadw_ListedBuildings [Aed at y wefan: 08.08.24]

²⁰⁰ Cadw (2021) Henebion Cofrestredig. Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:Cadw_SAM [Aed at y wefan: 08.08.24]

Cofrestredig yn Sir Benfro, mae 122 a leolir yn Abertawe, ac mae 96 a leolir yng Nghastell-nedd Port Talbot.

6.5.2.8 Dosberthir Henebion Cofrestredig yng Nghymru ledled ei siroedd.

Meysydd Brwydrau Hanesyddol Cofrestredig

6.5.2.9 Gall y lleoliadau lle bu brwydrau hanesyddol fod yn asedau hanesyddol arwyddocaol. Yn aml, maent yn cadw tystiolaeth topograffig ac archeolegol, gan gynnwys beddau rhyfel, a all gynyddu ein dealltwriaeth o'r digwyddiadau hyn. Gofynnodd Cadw i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru greu rhestr, ac felly crëwyd Rhestr Meysydd Brwydrau Hanesyddol Cymru yn 2017.

Tirwedd Hanesyddol

6.5.2.10 Mae Cadw wedi llunio cofrestr o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol yng Nghymru. Mae 58 o dirweddau hanesyddol sydd wedi eu cofrestru, ac ystyrir mai nhw yw'r enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirweddau hanesyddol. Mae'r gofrestr yn hybu cadwraeth nodweddion allweddol tirweddau hanesyddol wrth i'r tirweddau hynny ddatblygu.

Ardaloedd Cadwraeth

6.5.2.11 Mae dros 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru. Fe'u dynodir gan awdurdodau cynllunio lleol oherwydd eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig²⁰¹. Mae llawer o awdurdodau cynllunio lleol wedi cynnal arfarniadau cymeriad ardaloedd cadwraeth sy'n nodi ardaloedd lle gallai gwella drwy ddatblygu fod yn ddymunol.

6.5.2.12 Dosberthir ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ledled ei siroedd ac fe'u lleolir yn bennaf mewn aneddiadau trefol o bentrefi bach i ardaloedd mewn trefi a dinasoedd. Mae chwe Ardal Gadwraeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, 24 yn Sir Benfro, 28 yn Sir Gaerfyrddin a 31 yn Abertawe.

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol

6.5.2.13 Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys ac yn cyfeirio gwybodaeth am dirweddau, adeiladau, safleoedd archaeolegol a darganfyddiadau hanesyddol. Maent hefyd yn cynnwys cofnodion o ymchwilio a rheoli'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys asedau treftadaeth heb eu dynodi. Cynhelir data cofnod amgylchedd hanesyddol gan bedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru: Clwyd-Powys, Dyfed, Morgannwg-Gwent a Gwynedd. Ceir mynediad cyhoeddus ar-lein i'r wybodaeth graidd sydd yn y cofnod amgylchedd hanesyddol drwy Archwilio²⁰².

Arfordir Treftadaeth

6.5.2.14 'Diffinnir' arfordiroedd treftadaeth yn hytrach na'u dynodi, felly nid oes proses dynodi statudol fel yr un sy'n gysylltiedig â Pharciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol. Fodd bynnag, fe'u lleolir yn bennaf mewn ardaloedd sydd â statws Parc Cenedlaethol neu Dirwedd Genedlaethol²⁰³.

6.5.2.15 Yn ne-orllewin Cymru, mae saith arfordir treftadaeth, sef:

- Gŵyr
- De Sir Penfro
- Marloes a Dale

²⁰¹ Llywodraeth Cymru (2022) Ffiniau Ardaloedd Cadwraeth. Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:conservation_areas [Aed at y wefan: 08.08.24]

²⁰² Archwilio (2024) Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Ar gael yn: <https://archwilio.org.uk/wp/cy/> [Aed at y wefan ar 08.08.24]

²⁰³ CNC (2022) Arfordiroedd Treftadaeth. Ar gael yn: https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-nrw:NRW_HERITAGE_COAST [Aed at y wefan: 08.08.24]

- Bae Sain Ffraid
- Penrhyn Tyddewi
- Pen Dinas
- Llandudoch a Threwyddel

Parciau a Gerddi Hanesyddol

- 6.5.2.16 Mae gan Gymru etifeddiaeth gyfoethog o barciau a gerddi hanesyddol. Maent yn ffurfio rhan bwysig ac annatod o wead hanesyddol a diwylliannol y wlad²⁰⁴. Mae 20 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn Sir Benfro, chwech yng Nghastell-nedd Port Talbot, oddeutu 14 yn Abertawe ac oddeutu 19 yn Sir Gaerfyrddin.
- 6.5.2.17 Mae Cadw wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rhai y credir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol wedi eu cynnwys ar Gofrestr Cadw/ICOMOS o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Lluniwyd y Gofrestr er mwyn cynorthwyo perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, cyrff statudol a phawb sy'n ymwneud â nhw i gadw parciau a gerddi hanesyddol yn wybodus. Trwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016²⁰⁵; mae'n statudol bellach ac mae ganddi chwe chyfrol. Fe'i cwblhawyd yn 2002, fodd bynnag, gellir ychwanegu (neu dynnu) safleoedd ar unrhyw adeg. Mae bron i 400 o safleoedd ar y Gofrestr ar hyn o bryd.
- 6.5.2.18 Mae safleoedd ar y Gofrestr yn cael gradd I, II* a II yn yr un modd ag adeiladau rhestredig. Mae oddeutu 10% ohonynt yn Radd I ac mae oddeutu 23% yn Radd II*. Mae safleoedd Gradd I, megis Bodnant, Castell Powys, Parc Dinefwr, Parc Margam, Erddig, Plas Brondanw a Chastell Rhaglan, o bwysigrwydd rhyngwladol.
- 6.5.2.19 Mae parciau a gerddi ar y Gofrestr yn amrywio o'r Oesoedd Canol hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Mae llawer ohonynt yn amlgyfnod, ac mae ganddynt nodweddion gwahanol arddulliau a chyfnodau.

Treftadaeth mewn Perygl

- 6.5.2.20 Mae gweithredu sy'n gysylltiedig ag asedau treftadaeth sydd mewn cyflwr sy'n dirywio yn elfen allweddol o weithgarwch adfywio treftadaeth Cadw. Mae Cadw wedi bod yn gweithio i nodi nifer a math yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl yng Nghymru²⁰⁶. Cynhelir arolygon o gyflwr adeiladau rhestredig yng Nghymru ers dros 15 mlynedd. Dengys data 2015 fod y duedd ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr 'bregus' neu 'mewn perygl' wedi gostwng ers y data cymharol diwethaf sydd ar gael (2013) ac mae canran yr adeiladau sydd mewn perygl wedi gostwng o 8.92% i 8.54%. Cyfrifir y ffigur hwn gan ddefnyddio data arolwg presennol a'r data diweddaraf sydd ar gael o'r 20% o'r stoc adeiladu a ailarylygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae canran yr adeiladau sydd mewn perygl dros amser wedi gostwng ers 2013.
- 6.5.2.21 Rhoddwyd statws rhestredig i adeiladau ychwanegol dros amser. Nod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw rhoi diogelwch mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; er mwyn gwella rheolaeth gynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol a chyflwyno mwy o

²⁰⁴ Cadw (2021) Parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Ar gael yn: https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/deddfwriaeth-a-chanllawiau/parciau-a-gerddi-hanesyddol-cofrestredig?_gl=1*12jnvbb*_ga*MTU2ODUyMDYxNy4xNzY3MDk2*_ga_B2BCVKM874*MTczNzY2ODgzNi4xLjAuMTczNzY2ODgzNi42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 08.08.24]

²⁰⁵ Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents> [Aed at y wefan: 08.08.24]

²⁰⁶ Cadw (2021) Adeiladau rhestredig sydd mewn perygl. Ar gael yn: https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/adeiladau-rhestredig-sydd-mewn-perygl?_gl=1*119m80z*_ga*MTc2MTgzNjQ1NS4xNzY3MDk2*_ga_B2BCVKM874*MTczNzY3MjA5Ni4xLjAuMTczNzY3MjA5Ni42MC4wLjA.#section-rheoli-adeiladau-rhestredig-sydd-mewn-perygl [Aed at y wefan: 08.08.24]

dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r rhain yn ceisio gwarchod treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn eu tro byddant yn darparu mwy o fudd ariannol i sector twristiaeth Cymru.

6.5.2.22 Adroddodd Trafnidiaeth Cymru ym mis Hydref 2023 fod 48.2% o'r Henebion Cofrestredig ar yr ystad drafnidiaeth yn sefydlog neu'n gwella²⁰⁷, ac roedd 84.3% o'r adeiladau rhestredig ar yr ystad drafnidiaeth mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella. Rhwng 2022 a 2023, bu gostyngiad o 3.8% yng nghyfran yr Henebion Cofrestredig ar yr ystad drafnidiaeth a oedd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella.

Gweithgaredd diwylliannol

6.5.2.23 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru²⁰⁸, yn 2022–23, roedd 72% o bobl wedi mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth, neu gymryd rhan ynddynt, o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, roedd 69% o bobl wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y 12 mis blaenorol ac roedd 63% o bobl wedi ymweld â safle treftadaeth yn ystod y 12 mis diwethaf²⁰⁹. Yn 2018–19, roedd 73% o bobl wedi mynd i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis blaenorol.

6.5.2.24 Yn 2022–23, roedd 75% o bobl wedi defnyddio gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd 8% o bobl yn ymweld â llyfrgell o leiaf unwaith y mis.

6.5.2.25 Pan ofynnwyd i bobl pam nad oeddent wedi mynd i amgueddfa yn ystod y 12 mis blaenorol yn 2018, dim ond 3% a ddyfynnodd ddiffyg trafndiaeth fel eu rheswm (yn gyson â blynyddoedd blaenorol), a dywedodd 6%: "Nid oes digon o amgueddfeydd yn agos at le'r wyf yn byw". Ar gyfer cyfnod 2022–23, pan ofynnwyd i bobl pam nad oeddent wedi ymweld â lle hanesyddol yng Nghymru yn ystod y 12 mis blaenorol, dim ond 4% a ddyfynnodd ddiffyg trafndiaeth fel eu rheswm (yn gyson â blynyddoedd blaenorol), a dywedodd 2%: "Nid oes digon o atyniadau yn agos at le'r wyf yn byw".

6.5.2.26 Pan ofynnwyd i bobl "A fyddent yn mynd i ddigwyddiadau celfyddydol yn amlach pe baent yn nes atynt" yn arolwg 2018–19, cytunodd 25% yn gryf ac roedd 26% yn cytuno, roedd 21% yn niwtral, 19% yn anghytuno a dim ond 9% oedd yn anghytuno'n gryf²¹⁰.

6.5.3 Bylchau Data

- Nifer yr Henebion Cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin.
- Gwerth treftadaeth seilwaith trafndiaeth ei hun.

²⁰⁷ Trafnidiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Canran yr asedau hanesyddol dynodedig ar yr ystad drafnidiaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s27?_gl=1*2wv030*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzM3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3MzI1NC41LjEuMTczNzY3MzI1NC42MC4wLjA. [Aed at y wefan: 28.08.24]

²⁰⁸ StatsCymru (2023) Copi o'r Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ôl awdurdod lleol. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Sport-and-Recreation/percentageofpeoplewhoattendorparticipateinartcultureheritageactivities3ormoretimesayear-by-localauthority-year> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²⁰⁹ Llywodraeth Cymru (2023) Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²¹⁰ Llywodraeth Cymru (2023) Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau> [Aed at y wefan: 21.08.24]

6.6 Materion Allweddol sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd iddo fynd i'r afael â nhw

6.6.1 Materion

Y Gymraeg

- 6.6.1.1 Bu tuedd at i fyny ers y 1990au yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan nodi amrywiadau rhanbarthol mawr; mae cyfleoedd i gynyddu'r lefelau rhuglder.
- 6.6.1.2 Mewn rhai achosion, mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, er enghraifft oherwydd nad yw staff gwasanaethau i gwsmeriaid yn siarad Cymraeg.

Cymeriad Tirwedd a Threflun

- 6.6.1.3 Mae Cymru'n enwog am ei thirweddau o ansawdd uchel, a gwerthfawrogir dros 50% o arwynebedd y tir yn genedlaethol am ei ansawdd golygfaol a'i gymeriad. Tirweddau Dynodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol yw Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol, ac maent yn cwmpasu 25% o Gymru. Mae gan hyn oblygiadau o ran seilwaith trafndiaeth newydd yn yr ardaloedd hyn, a her allweddol ar gyfer rheoli cynaliadwy yw galluogi lefelau priodol o dwf gan gadw gwahanolrwydd y lleoedd a'r tirweddau. Rhaid i hyn gydnabod hefyd fod elfennau naturiol a hanesyddol tirwedd yn bwysig i le a gwerth diwylliannol tirwedd.
- 6.6.1.4 Gallai colli amwynder a chymeriad gweledol gael effaith ar bobl leol a thwristiaid.
- 6.6.1.5 Gall traffig modur, parcio ac effeithiau cysylltiedig amharu ar gymeriad tirweddau a threflun.

Yr Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau

- 6.6.1.6 Mae gan Gymru gyfoeth o asedau hanesyddol a diwylliannol sy'n elfennau pwysig o hunaniaeth diwylliannol cenedlaethol. Mae llawer o asedau o'r fath mewn perygl, er enghraifft, oherwydd pydredd, ffactorau hinsoddol, esgeulustod a datblygiad amhriodol. Fel gyda ffactorau amgylcheddol eraill, mae diogelu a darparu mynediad teg at asedau treftadaeth diwylliannol yn her allweddol wrth gynllunio'r system drafnidiaeth yn gynaliadwy.
- 6.6.1.7 Gall datblygiadau newydd gael amrywiaeth o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y mae angen eu hosgoi neu eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys effeithiau sy'n deillio o sŵn a llygredd aer sy'n deillio o waith adeiladu llwybrau traffig prysur sy'n agos at ardaloedd diwylliannol arwyddocaol a allai wneud ymweld â nhw yn llai apelgar a lleihau eu mwynder gweledol (effeithiau anuniongyrchol); mae hefyd yn cynnwys cael gwared ar asedau treftadaeth yn ffisegol oherwydd y gallai hyn fod ei angenrheidiol ar gyfer datblygu seilwaith teithio newydd. Gall effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gynnwys dwysáu traffig presennol neu adeiladu ffyrdd neu reilffyrdd newydd. Gall lefelau cynyddol o dagfeydd effeithio ar drefi hanesyddol, dinasoedd a chefn gwlad, a gall datblygu seilwaith trafndiaeth newydd effeithio ar dirweddau hanesyddol a gallai achosi niwed uniongyrchol i asedau treftadaeth.

6.6.2 Cyfleoedd

Y Gymraeg

- 6.6.2.1 Mae gan y CTRh gyfle i ddiogelu a hybu'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r system drafnidiaeth drwy annog pobl i'w defnyddio drwy arwyddion a chyflogeion gorsafoedd bysiau a threnau.

- 6.6.2.2 Gallai'r CTRh geisio sicrhau bod mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei dargedu'n benodol yn rhan o'r nod hwn, er mwyn cefnogi'r strategaeth sy'n ceisio ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- 6.6.2.3 Gallai'r CTRh geisio cefnogi'r nod o gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.
- 6.6.2.4 Hefyd, gallai'r CTRh geisio 'cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg' drwy ei bolisïau, gan helpu i gefnogi'r nod o 'D[d]atblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu ac i gefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun'. Yn y CTRh, bydd cyfleoedd i hybu'r Gymraeg drwy ei defnyddio mewn cyhoeddiadau gorsafoedd, arwyddion ffyrdd ac arwyddion mewn gorsafoedd rheilffordd a bysiau.

Cymeriad Tirwedd a Threflun

- 6.6.2.5 Mae gan y system drafnidiaeth swyddogaeth bwysig i'w chwarae o ran sut y bydd datblygiad seilwaith trafndiaeth yn y dyfodol yn effeithio ar dirwedd, treflun ac ymdeimlad o le yn gyffredinol.
- 6.6.2.6 Mae cyfle i wella mynediad at dirweddau, trefluniau a safbwyntiau gwerthfawr, gan gynnwys drwy ddulliau teithio cynaliadwy a llesol i leihau effaith traffig modur.
- 6.6.2.7 Mae gan y CTRh gyfle i ddarparu cysylltiadau trafndiaeth o ansawdd uchel i Barciau Cenedlaethol, ar gyfer twristiaid/ymwelwyr a defnyddwyr hamdden lleol.
- 6.6.2.8 Mae cyfle i ymgorffori goleuadau sy'n gyfeillgar i'r awyr dywyll mewn datblygiadau newydd er mwyn cefnogi'r dynodiadau a'r ymdrechion awyr dywyll i gynnal y rhain, ochr yn ochr â thwristiaeth awyr tywyll.

Yr Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau

- 6.6.2.9 Fel y dirwedd, mae gan y CTRh swyddogaeth bwysig i'w chwarae wrth ddiogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol drwy ganllawiau i'r system drafnidiaeth. Gallai hyn gynnwys cydnabod bod asedau treftadaeth heb eu dynodi hefyd yn rhan bwysig o gyfansoddiad hunaniaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o le a bod effeithiau anuniongyrchol ar osod asedau hefyd yn ystyriaethau pwysig.
- 6.6.2.10 Mae cyfleoedd hefyd i'r CTRh hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac annog gwell mynediad at ganolfannau addysg diwylliannol.
- 6.6.2.11 Gallai'r CTRh geisio nodi a diogelu seilwaith trafndiaeth, a allai fod o werth treftadaeth yn ei rinwedd ei hun.
- 6.6.2.12 Mae gan y CTRh gyfle i gyfrannu at y dasg o reoli'r system drafnidiaeth yn effeithlon yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys chwaraeon, gweithgareddau hamdden ac adloniant a digwyddiadau diwylliannol.

7 Nod Llesiant: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

7.1.1.1 Mae'r adran hon yn darparu data sylfaenol sy'n ymwneud â'r nod llesiant canlynol:

“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang”.

7.1.1.2 Mewn sawl ffordd, mae'r nod llesiant hwn yn ymwneud â'r holl bynciau Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Fodd bynnag, at ddibenion cyflwyno, mae'r data yn yr adran hon yn ymwneud yn bennaf â:

- Defnyddio Ynni, Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ac Ôl Troed Ecolegol

7.2 Defnyddio Ynni, Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ac Ôl Troed Ecolegol

7.2.1 Perthnasedd i'r CTRh

7.2.1.1 Mae Cymru'n genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, ac mae gan y CTRh swyddogaeth bwysig wrth helpu i arwain cynllunio a thrafnidiaeth mewn ffordd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at hyn. Yn benodol, mae defnyddio ynni ac allyriadau tŷ gwydr yn ddau beth sy'n digwydd yn lleol drwy gartrefi, busnesau a thrafnidiaeth ond sy'n cyfrannu at ganlyniadau byd-eang.


7.2.2 Tueddiadau a chyflyrau sylfaenol

Cynhyrchu Ynni

7.2.2.1 Amcangyfrifir bod cynhyrchu trydan adnewyddadwy yng Nghymru yn cyfateb i 59% o ddefnydd trydan Cymru bob blwyddyn²¹¹. Mae hyn yn gynnydd o 4 pwynt canran o'i gymharu â lefelau 2021. Bu cynnydd o bron i 40% yn y trydan a gynhyrchir o nwy yng Nghymru ers 2020. Ni fu unrhyw drydan a gynhyrchir o niwclear a glo yng Nghymru ers 2015 a 2019 yn y drefn honno. Mae Ffigur B-45 isod yn dangos y trydan a gynhyrchwyd trwy danwydd yn 2017–2021 ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

²¹¹ Llywodraeth Cymru (2022) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2022. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/cynhyrchu-ynni-yng-nghymru-2022.pdf> [Aed at y wefan: 31.07.24]

Ffigur B-45: Cynhyrchu Trydan fesul math o danwydd rhwng 2017 a 2021 ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon



Ffynhonnell: BEIS (2022)²¹²

7.2.2.2 Rhwng 2000 a 2013, cynyddodd canran y trydan a gynhyrchid o ffynonellau ynni adnewyddadwy o lai na 3% i dros 10%. Roedd hyn o ganlyniad i gynhyrchu ynni gwynt yn bennaf. Gallai'r defnydd o ynni adnewyddadwy helpu i leihau ôl troed carbon Cymru dros amser.

7.2.2.3 Rhwng 2016 a 2017, cynyddodd yr ynni a gynhyrchir ag ynni adnewyddadwy yng Nghymru o 12.3% i 20.0%, sy'n gynydd o 7.7% mewn blwyddyn yn unig²¹³. Yn 2022, roedd ynni adnewyddadwy yn 27% o'r holl drydan a gynhyrchid yng Nghymru a 3,551MW oedd y capasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru²¹⁴. Bu cynnydd o 3.7% (1.4 Terawat-awr) i 39.2 Terawat-awr yn yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchid yn ystod Chwarter 1, 2024, a chynhyrchu ynni gwynt ar y tir oedd y rhan fwyaf o'r cynnydd²¹⁵. Cyrhaeddodd cyfran adnewyddadwy cyfanswm y trydan a gynhyrchid 50.9% yn ystod Chwarter 1, 2024, sydd 2.2 pwynt canran yn uwch na'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

7.2.2.4 Roedd 798MW o wres adnewyddadwy yng Nghymru yn 2022, ac roedd 60% o hyn yn dod o brosiectau biomas.

Defnyddio Ynni

7.2.2.5 Cyfanswm yr ynni a ddefnyddid yng Nghymru yn 2017 oedd 86.1 Terawat-awr. Mae cyfanswm yr ynni a ddefnyddir wedi gostwng ers 2005, ac yn fwy felly ers 2007, sy'n cyd-fynd â'r dirywiad

²¹² BEIS (2022) Electricity generation and supply in Scotland, Wales, Northern Ireland, and England, 2017 to 2021. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63a2dd608fa8f539108d59be/Regional_electricity_generation_and_supply_2017-21.pdf [Aed at y wefan: 31.07.24]

²¹³ Electricity generation and supply figures for Scotland, Wales, Northern Ireland and England, 2014 to 2017 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/770766/Regional_Electricity_Generation_and_Supply.pdf [Aed at y wefan: 21.08.24]

²¹⁴ Llywodraeth Cymru (2022) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/cynhyrchu-ynni-yng-nghymru-2022.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]

²¹⁵ Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (2024) Energy Trends, UK, January to March 2024. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/667c16427d26b2be17a4b3a5/Energy_Trends_June_2024.pdf [Aed at y wefan: 21.08.24]

economaidd (o 2017). Mae'r sector diwydiant a masnachol yn cyfrif am gyfran fawr o'r dirywiad hwn. Er bod cyfanswm yr ynni a ddefnyddir wedi gostwng, arhosodd yr ynni a ddefnyddir yn y sector trafndiaeth yn gyson rhwng 2005 a 2017, gan arwain at gyfran uwch o gyfanswm yr ynni a ddefnyddid (26%). Mae'r defnydd uchaf o ynni trafndiaeth wedi ei glystyru o amgylch ardaloedd trefol sy'n boblog iawn megis Caerdydd a Chasnewydd. Mae'r lefelau ddefnydd ynni trafndiaeth yn is yn ardaloedd awdurdod arfordir gorllewinol Cymru²¹⁶.

7.2.2.6 Mae adroddiad Defnydd o Ynni yng Nghymru, Ail Rifyn²¹⁷, yn nodi bod cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd yng Nghymru rhwng 2005 a 2019 wedi gostwng o gyfanswm o 109.9 Terawat-awr yn 2005 i 92.8 Terawat-awr yn 2019, sy'n ostyngiad o 16% dros gyfnod o 14 mlynedd. Ar y cyfan, mae'r sectorau diwydiannol, masnachol a domestig wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o ynni ers 2005. Mae trafndiaeth yn cyfrif am gyfran gynyddol o gyfanswm yr ynni a ddefnyddir yng Nghymru, gan godi o 20% yn 2005 i 25% yn 2019²¹⁸.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr

7.2.2.7 Tri deg wyth pwynt naw miliwn tunnell o CO₂e (MtCO₂e) oedd cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwyr yng Nghymru yn 2018. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 31% ar lefelau 1990, er bod y ffigur hwnnw wedi amrywio dros y cyfnod sy'n dangos tuedd at i lawr yn raddol ar y cyfan. Mae'r gostyngiadau allyriadau hyn yn bennaf oherwydd effeithlonrwydd wrth gynhyrchu ynni a gwresogi'r sector busnes, y defnydd o nwy naturiol i gymryd lle rhywfaint o lo a thanwydd eraill yn ogystal â lleihad mewn rhai diwydiannau cemegol, ac amrywiadau mewn allbwn gweithgynhyrchu (e.e. mewn haearn a dur, swmpgynhyrchu cemegolyn).

7.2.2.8 Mae Cymru'n symud i'r cyfeiriad cywir i helpu i fynd i'r afael â rhai o achosion mwyaf difrifol newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynnydd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn enghraifft o hyn. Mae lleihad cyffredinol mewn allyriadau CO₂ yn helpu Cymru a'r DU gyfan i gyflawni ei thargedau lleihad. Fodd bynnag, er ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir, mae angen i newid ddigwydd yng Nghymru a ledled y DU er mwyn sicrhau bod targedau lleihau yn cael eu cyflawni.


7.2.2.9 Mae Ffigur B-46 yn dangos y rhaniad mewn allyriadau rhwng gwahanol ffynonellau yng Nghymru rhwng 1990 a 2019. Mae hyn yn dangos mai'r cyfrannwr mwyaf o hyd yw'r diwydiant cyflenwi ynni. Ers 1990, y sector busnes yw'r sector sydd wedi lleihau ei gyfran o allyriadau fwyaf.

²¹⁶ Llywodraeth Cymru (2018) Defnydd o ynni yng Nghymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/defnydd-o-ynni-yng-nghymru-2018-adroddiad> [Aed at y wefan: 19.08.24]

²¹⁷ Llywodraeth Cymru (2022) Defnydd o ynni yng Nghymru, Ail Rifyn. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/adroddiad-defnyddio-ynni-yng-nghymru.pdf> [Aed at y wefan: 06.08.24]

²¹⁸ Llywodraeth Cymru (2019) Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017–18: Effeithlonrwydd ynni mewn anheddau. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/arolwg-cyflwr-tai-cymru-effeithlonrwydd-ynni-anheddau-ebriill-2017-i-mawrth-2018-794.pdf> [Aed at y wefan: 19.08.24]

Ffigur B-46: Cyfanswm Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr fesul Sector yng Nghymru (KtCO₂e)



7.2.2.10 Adroddodd Llywodraeth Cymru yn 2023, yn rhan o'i hadroddiad Llesiant Cymru²¹⁹, yr amcangyfrifwyd yn 2021 fod cyfanswm yr allyriadau a ryddhawyd i'r atmosffer yn uniongyrchol o Gymru (a elwir yn allyriadau tiriogaethol) yn 36.3 miliwn tonnell o garbon deuocsid cyfatebol (MtCO₂e), sy'n gynydd o 7% o'i chymharu â 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn 2021 o ganlyniad i gynydd mewn allyriadau o orsafoedd pŵer, cynhyrchu haearn a dur, a thrafnidiaeth ffyrdd, sy'n gyson â mwy o weithgarwch yn y sectorau hyn yn dilyn pandemig COVID-19. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn 2021, amcangyfrifir bod allyriadau Cymru yn parhau i fod 6% yn is na'r lefel a fodolai yn 2019 cyn y pandemig.

7.2.2.11 Daw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau amcangyfrifedig o'r sector cyflenwi ynni, sy'n cynhyrchu 26% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Dominyddir y sector hwn gan allyriadau o orsafoedd pŵer nwy. Y sector busnes yw'r ffynhonnell fwyaf ond un, ac mae'n ffurfio 24% o allyriadau Cymru. Dominyddir y sector hwn gan hylosgi tanwydd ffosil mewn gwaith cynhyrchu diwydiannol, wrth gynhyrchu haearn a dur yn bennaf.

²¹⁹ Llywodraeth Cymru (2023) Llesiant Cymru, 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/4/1695889903/llesiant-cymru-2023.pdf> [Aed at y wefan: 30.08.24]


Newidiadau mewn dwysedd traffig

7.2.2.12 Hyd at 2019, bu cynnydd o 1.5% yn nwysedd y traffig ffyrdd yng Nghymru o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu'r dwysedd uchaf o draffig modur a gofnodwyd ar 32.1 biliwn o gilometrau cerbyd, neu 10,186 km fesul pen.

Newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafndiaeth

7.2.2.13 Yn ôl y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, mae cyfradd yr allyriadau CO₂ o'r sector trafndiaeth yng Nghymru yn lleihau²²⁰. Mae Ffigur B-47 yn nodi cyfanswm yr allyriadau CO₂ o'r sector trafndiaeth domestig yng Nghymru hyd at 2019.

Ffigur B-47: Cyfanswm yr allyriadau CO₂ o'r sector trafndiaeth yng Nghymru (cilodunelli)



7.2.2.14 O ran trafndiaeth ddomestig, mae data o'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol yn dangos lleihad yn 2020 a 2021 yng nghyfanswm y cilodunelli/allyriadau CO₂ cyfatebol (o'u cymharu â 2019), gyda chynnydd yn 2022 (o'i chymharu â'r ddwy flynedd flaenorol). Credir bod hyn yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig. Mae'r cyfanswm yn 2022 yn llai na'r hyn ar gyfer 2019 (cyn COVID-19). Mae'r categori 'Hedfan a morgludiant rhyngwladol' yn dilyn yr un patrwm.

7.2.2.15 Yn ôl Trafndiaeth Cymru, ar ôl lleihad o 21.3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafndiaeth domestig yn 2020, bu cynnydd o 11.5% mewn nwyon tŷ gwydr yn 2021 ond maent yn dal yn is na'r lefelau a fodolai cyn y pandemig²²¹. Yn 2021, roedd ceir yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafndiaeth (56%), sydd ychydig yn is na'r gyfran yn 2017 (59.7%). Bu lleihad o 19.4% yng nghyfanswm yr allyriadau ceir, mewn cilodunelli CO₂ cyfatebol (KtCO₂e), dros y cyfnod hwn. Mae cyfran lorïau ysgafn (19.1%) a lorïau trwm a bysiau (17%) wedi cynyddu ers 2017 (16.3% a 15.4% yn y drefn honno), ac ochr yn ochr â cheir, maent yn cyfrannu dros 90% o gyfanswm y sector trafndiaeth. Er bod eu cyfran o gyfanswm yr allyriadau wedi cynyddu, dim ond

²²⁰ StatsCymru (2024) Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl Blwyddyn. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Greenhouse-Gas/emissionsofgreenhousegases-by-year> [Aed at y wefan: 06.08.24]

²²¹ Trafndiaeth Cymru (2023) Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafndiaeth. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/m6?_gl=1*1sdomz2*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3NzI4OS41Mi4wLjA. [Aed at y wefan: 21.08.24]

lorïau ysgafn sydd wedi gweld cynnydd yng nghyfanswm eu hallyriadau KtCO₂ (o 1,030 i 1,035) ers 2017. Mae pob dull teithio arall wedi lleihau eu hallyriadau KtCO₂e.

Ynni o ffynonellau adnewyddadwy a ddefnyddir gan drafnidiaeth gyhoeddus

7.2.2.16 Yn ôl adroddiad ar y defnydd o ynni yng Nghymru²²², defnyddiwyd oddeutu 92.8 Terawat-awr o ynni ledled Cymru yn 2019. Mae'r defnydd o ynni ar gyfer trafndiaeth ffyrdd a rheilffyrdd yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson yn ystod y degawd diwethaf, a 23.4 Terawat-awr a ddefnyddiwyd yn 2019. Rhennir defnydd ar gyfer trafndiaeth yn ôl tanwydd yn 2019 yn betroliwm (96%) a bio-ynni a gwastraff (4%)²²³.

Cerbydau Di-allyriadau a Cherbydau Allyriadau Isel iawn

7.2.2.17 Roedd 314,000 o geir di-allyriadau a gofrestrwyd am y tro cyntaf yn 2023, sy'n gynydd o 18% o'i chymharu â 2022²²⁴. Roedd ceir di-allyriadau yn cyfrif am 16% o'r holl gofrestrïadau ceir newydd, na ddangosodd fawr o newid yn 2022. Roedd hyd at 22,000 o gerbydau nwyddau ysgafn di-allyriadau a gofrestrwyd am y tro cyntaf yn 2023, sy'n gynydd o 63% o'i chymharu â 2022. Fel yn 2022, roedd cerbydau nwyddau ysgafn di-allyriadau yn cyfrif am 6% o'r holl gofrestrïadau newydd.

7.2.2.18 Adrodda Trafnidiaeth Cymru bod nifer y cerbydau allyriadau isel iawn yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013²²⁵. Mae cyfanswm y cerbydau allyriadau isel iawn (ac eithrio tacsis a cherbydau hurio preifat) wedi cynyddu mewn nifer o 283 yn 2013 i 22,708 yn 2022. Gyda chyfraddau twf o 54% yn 2020 ac 81.1% yn 2021, ni chafodd pandemig COVID-19 unrhyw effaith amlwg ar y nifer a ddefnyddiodd gerbydau allyriadau isel iawn.

7.2.2.19 Hefyd, mae data Trafnidiaeth Cymru yn dangos bod 2,246 o ddyfeisiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ar hyn o bryd, a 440 o ddyfeisiau gwefru chwim ym mis Ionawr 2024²²⁶. Castell-nedd Port Talbot sydd â'r nifer isaf o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth (16.9). Sir Benfro yw'r awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o ddyfeisiau gwefru sydd ar gael i'r cyhoedd.

Teithiau a wneir trwy ddulliau teithio cynaliadwy

7.2.2.20 Cyrhaeddodd nifer y teithiau trên a wneir gan deithwyr yng Nghymru y lefel uchaf erioed yn 2017–18²²⁷, roedd 31 miliwn o deithiau rheilffordd a wnaed gan deithwyr a ddechreuodd neu a ddaeth i ben yng Nghymru, sy'n gynydd o 1.9 y cant o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad o 3.8% yn hyn o beth rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, i 29.9 miliwn o deithwyr. Mae'r data hyn yn cynnwys cyfnod bach ar ddechrau pandemig COVID-19, y mae'n bosibl y'i hadlewyrchir yn y data²²⁸.

²²² Llywodraeth Cymru (2022) Defnydd o ynni yng Nghymru, Ail Rifyn. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/adroddiad-defnyddio-ynni-yng-nghymru.pdf> [Aed at y wefan: 28.08.24]

²²³ Llywodraeth Cymru (2022) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/cynhyrchu-ynni-yng-nghymru-2022.pdf> [Aed at y wefan: 28.08.24]

²²⁴ Yr Adran Drafnidiaeth (2024) Vehicle licensing statistics: 2023. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/vehicle-licensing-statistics-2023/vehicle-licensing-statistics-2023#new-registrations-of-vehicles-overview> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²²⁵ Trafnidiaeth Cymru (2023) Canran y cerbydau allyriadau isel iawn neu dim allyriadau. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/m2?_gl=1*fenj0t*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3NzU1NC41NS4wLjA. [Aed at y wefan: 21.08.24]

²²⁶ Trafnidiaeth Cymru (2023) Nifer y manau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd. Ar gael yn:

https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s10?_gl=1*ohtf09*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3NzY1Ny41Ni4wLjA. [Aed at y wefan: 21.08.24]

²²⁷ Llywodraeth Cymru (2019) Trafnidiaeth Rheilffyrdd, Ebrill 2017 i Fawrth 2018. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/rail-transport-april-2017-to-march-2018-824.pdf> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²²⁸ Llywodraeth Cymru (2021) Trafnidiaeth rheilffyrdd: Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-rheilffyrdd-ebryll-2019-i-fawrth-2020> [Aed at y wefan: 21.08.24]

- 7.2.2.21 Cynyddodd teithiau rheilffordd a wnaed gan deithwyr yng Nghymru i 21.5 miliwn yn 2017–18, sy'n gynydd o 1.3 y cant o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Caerdydd oedd y gyrchfan fwyaf cyffredin ar gyfer teithiau yng Nghymru, gan gyfrif am 41% o'r holl deithiau. Yn 2019–2020, roedd teithiau i Gaerdydd yn cyfrif am 42.9% o'r teithiau rheilffyrdd yng Nghymru.
- 7.2.2.22 Yn 2022–23, bu cynnydd o 30.8% mewn teithiau trên yng Nghymru, a chynnydd o 35.8% mewn teithiau i neu allan o Gymru o'i chymharu â 2021–22²²⁹. Caerdydd yw'r gyrchfan fwyaf cyffredin o hyd ar gyfer teithiau yng Nghymru (5.9 miliwn o deithiau teithwyr), gan gyfrif am 40.0% o'r holl deithiau.
- 7.2.2.23 Adrodda Trafnidiaeth Cymru ar 31 Mawrth 2022 fod 1,526km o lwybr rheilffordd a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer teithiau teithwyr neu nwyddau²³⁰. O hyn, mae 56km (3.7%) yn drydanol.
- 7.2.2.24 Gwnaed cyfanswm o 99.9 miliwn o deithiau teithwyr ar fysiau lleol yng Nghymru yn 2017–18. Cwmpasodd y gwasanaethau hyn yn gyfanswm o 99.1 miliwn o gilometrau cerbyd²³¹. Yn yr un modd â theithiau rheilffyrdd, mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar nifer y teithiau bws a wnaed rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, oherwydd bod 88.8 miliwn o deithiau teithwyr a wnaed yn ystod y cyfnod hwn²³².
- 7.2.2.25 Yn ystod 2022–23 (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023), roedd 61.0 miliwn o deithiau teithwyr ar fysiau lleol yng Nghymru, sy'n gynydd o 15.7% o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond 33.5% yn is na 2019–20 (lefelau cyn COVID-19)²³³. Dros yr un cyfnod, bu cynnydd o 4.5%, i 2,330, yn nifer y bysiau lleol a cherbydau coets a oedd yn gweithredu.

Teithio llesol

- 7.2.2.26 Mewn Bwletin Ystadegol ynghylch y defnydd o deithio llesol yng Nghymru (2019–2020)²³⁴ a (2022–2023)²³⁵, canfuwyd yr hyn a ganlyn (gweler Ffigur B-48):
- Roedd 4% o oedolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol. Mae hyn yn ostyngiad o 2% ar yr un cyfnod rhwng 2018 a 2019. Yn ystod 2022–23, cynyddodd hyn fel a ganlyn: Roedd 6% o bobl yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol.
 - Roedd 60% o oedolion yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol. Mae hyn yn gynydd o 3% o'i gymharu â'r blynyddoedd diweddar. Yn 2022–23, roedd 51% o bobl yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol.
 - Cerddodd 74% o bobl mewn ardaloedd trefol am fwy na 10 munud fel dull teithio o leiaf unwaith y mis, o'u cymharu â 59% o bobl mewn ardaloedd gwledig. Mae cyfraddau cerdded trefol a gwledig wedi cynyddu o'u cymharu â 2018–2019. Yn 2022–23, cerddodd 62% o bobl mewn ardaloedd trefol am fwy na 10 munud fel dull teithio o leiaf unwaith y mis, o'u cymharu â 52% o bobl mewn

²²⁹ Llywodraeth Cymru (2024): Statistical Bulletin. Rail transport, 2022–2023. Ar gael yn:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2024-04/rail-transport-april-2022-march-2023-090.pdf> [Aed at y wefan: 28.08.24]

²³⁰ Trafnidiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Canran y rhwydwaith rheilffyrdd sydd wedi'i drydaneiddio. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s7?_gl=1*8prt0k*_ga*MT10OTM1MjAxNS4xNzY3M3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3NzkyOC41Ny4wLjA. [Aed at y wefan: 28.08.24]

²³¹ Llywodraeth Cymru (2019)

Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis), Ebrill 2017 i Mawrth 2018. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/public-service-vehicles-buses-and-taxis-april-2017-to-march-2018_0.pdf [Aed at y wefan: 19.08.24]

²³² Llywodraeth Cymru (2021) Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2019 i Mawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebryll-2019-i-mawrth-2020-html> [Aed at y wefan: 19.08.24]

²³³ Llywodraeth Cymru (2024) Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebryll-2022-i-fawrth-2023-html> [Aed at y wefan: 21.08.24]


²³⁴ Llywodraeth Cymru (2020) Teithio llesol (cerdded a beicio): Ebrill 2019 i Fawrth 2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebryll-2019-i-fawrth-2020-html> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²³⁵ Llywodraeth Cymru (2023) Teithio llesol (cerdded a beicio): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/teithio-lleso-cerdded-beicio-ebryll-2022-i-fawrth-2023-html> [Aed at y wefan: 21.08.24]

ardaloedd gwledig. Adroddodd 17% o bobl mewn ardaloedd trefol a gwledig eu bod yn cerdded bob dydd fel dull teithio yn 2022–23.

- Roedd dynion a'r rhai heb salwch cyfyngus hirdymor yn fwy tebygol o feicio nag eraill.
- Yn 2018–19, roedd 44% o blant yn teithio'n llesol i'r ysgol gynradd, a 34% i'r ysgol uwchradd.
- Cafodd 226 o feicwyr pedal a anafwyd yn ddirifol eu derbyn i'r ysbyty yn 2019–2020. Mae hyn yn cyfateb yn fras i'r blynyddoedd blaenorol, ac yn ostyngiad o 16% ar niferoedd 2014.

Ffigur B-48: Teithio Llesol drwy Gerdded, fesul Awdurdod Lleol



Ffynhonnell: Llyw.Cymru (2018–19)

7.2.2.27 Adrodd Trafnidiaeth Cymru fod dulliau teithio cynaliadwy (cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus) yn cyfrif am o leiaf 28.1% o'r holl deithiau yng Nghymru yn 2012²³⁶. Cerdded (21.5%) oedd y dull cynaliadwy mwyaf poblogaidd, a ddilynir gan dtrafnidiaeth gyhoeddus (6.6%). Cerbydau preifat oedd y dull teithio mwyaf poblogaidd. Gwnaed bron i 70% o'r teithiau mewn car neu fan, naill ai fel y gyrrwr (45.7%) neu fel teithiwr (23.7%). Mae data Arolwg o'r Llafurlu y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod 78.8% o bobl wedi cymudo i'r gwaith mewn car yn 2022. Chwech pwynt naw y cant o bobl oedd yn cymudo i'r gwaith gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn 2022; nid yw hyn yn awgrymu unrhyw newidiadau mawr yn y defnydd o dtrafnidiaeth gyhoeddus.

7.2.2.28 Adrodd Trafnidiaeth Cymru, yn 2023, o'i chymharu â 2019, fod cynnydd o 5.4 pwynt canran yn y gyfran o boblogaeth de-orllewin Cymru a oedd o fewn pellter cerdded i lwybrau teithio llesol, gan

²³⁶ Trafnidiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Canran y teithiau yn ôl cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/m1?_gl=1*n8b5zv*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3OTQzMi41Ny4wLjA. [Aed at y wefan: 28.08.24]

gynyddu i 47.2%²³⁷. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 6.3% yng nghanran y bobl (yn y rhanbarth hwn) a oedd o fewn pellter cerdded i wasanaethau bysiau.

Ôl troed ecolegol

7.2.2.29 Amcangyfrifodd astudiaeth yn 2011 mai 10.05 miliwn hectar byd-eang oedd ôl troed ecolegol Cymru, sydd oddeutu pum gwaith maint Cymru, neu 3.28 hectar byd-eang fesul pen. Amcangyfrifir bod hyn oddeutu 1.2–1.8 gwaith y cyfartaledd byd-eang. Amcangyfrifir mai 34MtCO_{2e}, neu 11tCO_{2e} fesul pen, yw ôl troed carbon Cymru²³⁸.

7.2.2.30 Tir carbon (tir a môr sydd eu hangen i atafaelu allyriadau CO₂) yw'r elfen bwysicaf, sy'n cyfrif am 63% o ôl troed ecolegol cyffredinol Cymru. Mewn geiriau eraill, allyriadau carbon deuocsid sy'n deillio o losgi tanwydd ffosil yw'r ffactor pwysicaf sy'n pennu'r baich amgylcheddol cyffredinol. Mae'r defnydd o fwyd, tai, trafndiaeth, eitemau defnyddwyr, gwasanaethau preifat a gwasanaethau cyhoeddus gyda'i gilydd yn cyfrif am oddeutu 85% o'r ôl troed ecolegol.

Hectarau o ecosystemau iach sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith trafndiaeth

7.2.2.31 Nodir yng Nghanllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafndiaeth Cymru (2008) bod oddeutu 70% o arfordir Cymru yn cael ei ddiogelu rywsut neu ei gilydd a bod 10% o'r holl arwynebedd tir yng Nghymru wedi ei ddynodi'n SoDdGA. Mae dros 1,500 o safleoedd gwarchoddedig ledled y wlad²³⁹. Adrodda Trafndiaeth Cymru (2023) yn 2022–23 fod 3,145 hectar o gynefinoedd ar y rhwydwaith ffyrdd strategol a gynhelir neu sy'n cael eu gwella er budd bioamrywiaeth²⁴⁰. Oherwydd gwelliannau a wnaed, bu cynnydd o 50% yn lefel yr hectarau sy'n cael eu gwella er budd bioamrywiaeth, o 28 yn 2021–22, i 42 yn 2022–23.

Cludo Nwyddau

7.2.2.32 Yn 2022, 53.9 miliwn o dunelli (Mt) oedd cyfanswm y tunelli o nwyddau a gludid ym mhob porthladd yng Nghymru (y rhai mawr a bach gyda'i gilydd), sy'n gynnydd o 14.5% o'i chymharu â 2021, ac yn gynnydd o 1.8% o'i chymharu â 2019. Gwnaeth porthladdoedd Cymru drin 11.7% o gyfanswm y tunelli o nwyddau a gludwyd yn y DU yn 2022²⁴¹. Mae Ffigur B-49 isod yn dangos cyfanswm y nwyddau môr a aeth drwy borthladdoedd mawr yng Nghymru yn 2022.

²³⁷ Trafndiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafndiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Canran y bobl o fewn pellter cerdded i ddulliau trafndiaeth cynaliadwy. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafndiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s3?_gl=1*ne6qf9*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3OTUwNS41Ni4wLjA. [Aed at y wefan: 28.08.24]


²³⁸ Stockholm Environment Institute and GHD (2015) Ecological and Carbon Footprint Report: Wales. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/adroddiad-ol-troed-ecolegol-charbon> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²³⁹ Llywodraeth Cymru (2008) Welsh Transport Planning and Appraisal Guidance. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-09/welsh-transport-appraisal-guidance-welsh.pdf> [Aed at y wefan: 21.08.24]

²⁴⁰ Trafndiaeth Cymru (2023) Strategaeth Drafndiaeth Cymru: Mesurau Monitro. Hectarau o gynefin ar yr ystâd trafndiaeth sy'n cael eu cynnal neu eu gwella er lles bioamrywiaeth Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafndiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s25?_gl=1*1kr7rsc*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY3OTUwNS41Ni4wLjA. [Aed at y wefan: 21.08.24]

²⁴¹ Llywodraeth Cymru (2023): Bwletin Ystadegol: Cludiant môr: 2022. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/11/3/1701251997/cludiant-mor-2022.pdf> [Aed at y wefan ar 21.08.24]

Ffigur B-49: Y Nwyddau Môr a Gludwyd drwy Borthladdoedd Mawr yng Nghymru



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


7.2.2.33 Yn 2022, Aberdaugleddau oedd y porthladd mwyaf yng Nghymru a'r trydydd porthladd mwyaf yn y DU o ran tunelli o nwyddau, sef olew a nwy yn bennaf. Mae'r tunelli o nwyddau a gludir yn Aberdaugleddau yn cyfrif am 72.2% (mwy na dwy ran o dair) o'r holl nwyddau a gludir trwy borthladdoedd Cymru. Gwnaeth drin 38.9 miliwn o dunelli o nwyddau yn 2022, sy'n 8.5% o gyfanswm y DU yn 2022.

7.2.2.34 Pedwar cant pum deg ac wyth pwynt naw miliwn o dunelli oedd cyfanswm y tunelli o nwyddau a gludwyd trwy borthladdoedd y DU yn 2022, sy'n gynydd o 3.0% o'i chymharu â 2021 ond yn ostyngiad o 4.9% o'i chymharu â 2019. Bu cynnydd o 14.5% yng nghyfanswm y tunelli o nwyddau môr a gludwyd yng Nghymru, a bu cynnydd o 2.0% yng nghyfanswm y nwyddau a gludwyd yn yr Alban. Bu gostyngiad o 5.3% yn y nwyddau môr a gludwyd yng Ngogledd Iwerddon ers 2021.

7.2.2.35 Gellir gweld y newid yn nhrefig porthladdoedd Cymru (hyd at 2020) yn Ffigur B-50, sy'n ei chymharu â gwledydd eraill y DU a'i newid o ran traffig porthladdoedd²⁴².

²⁴² Yr Adran Drafnidiaeth (2021) Statistical data set: Port and domestic waterborne freight statistics: data tables (PORT0301). Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/port-and-domestic-waterborne-freight-statistics-port#port-level-statistics> [Aed at y wefan: 21.08.24]

Ffigur B-50: Holl draffig porthladdoedd i mewn ac allan ledled y Deyrnas Unedig



Ffynhonnell: Addaswyd o'r Adran Drafnidiaeth

7.2.2.36 Mae'r tunelli o nwyddau sy'n cael eu cludo ar y ffyrdd yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2004 a 2020²⁴³. Mae Tabl B-14 yn nodi cyfanswm màs y nwyddau a gludwyd ar y ffyrdd yng Nghymru ers 2004.

Tabl B-14: Nwyddau a gludwyd ar y ffyrdd yng Nghymru 2004–2020

Blwyddyn	Miliynau o Dunelli
2004	86
2005	94
2006	89
2007	96
2008	89
2009	66
2010	73
2011	64
2012	71
2013	59
2014	59
2015	63

²⁴³ Yr Adran Drafnidiaeth (2021) Statistical data set: Domestic road freight activity (RFS01). RFS0121: Goods lifted and goods moved by region and country of origin. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/rfs01-goods-lifted-and-distance-hauled#domestic-road-freight-by-region> [Aed at y wefan: 19.08.24]

Blwyddyn	Miliynau o Dunelli
2016	67
2017	70
2018	62
2019	64
2020	57

7.2.2.37 Adrodda Trafnidiaeth Cymru, yn 2022, fod cyfanswm o 14.4 biliwn o dunelli o nwyddau wedi eu symud yng Nghymru ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd. Mae nwyddau a gludir ar y ffyrdd yn cyfrif am 94.1% o'r cyfanswm, a phriodolir y 5.9% sy'n weddill i nwyddau domestig a gludir ar reilffyrdd²⁴⁴.

7.2.3 Bylchau Data

- Data sy'n ymwneud â gwahaniaethau rhyweddol yn y data a gipiwyd.
- Data sy'n ymwneud ag ynni o ffynonellau adnewyddadwy a ddefnyddir gan drafnidiaeth gyhoeddus

7.2.4 Ffigurau Pennawd y Gyllideb Trafnidiaeth


Ffigur B-51: Refeniw a Chyfalaf trafnidiaeth rheilffordd yng Nghymru

2020/21 (£miliwn)	
Cyfalaf	610
Oddeutu 50% ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, gan gynnwys:	
Gwelliannau rheilffordd	47
Metro De Cymru	142
Metro Gogledd Cymru	23
Teithio Llesol a Chynaliadwy	89
Refeniw	530
Ond dim ond oddeutu 10% o'r gyllideb refeniw y gellid ei hystyried fel gwariant dewisol.	
Masnachfrait rheilffyrdd	185
Gwasanaethau bysiau	58
Gwariant gweithredol ar gefnffyrdd	71
Dibrisiant	188

Ffynhonnell: Grŵp Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru

²⁴⁴ Trafnidiaeth Cymru (2023) Canran y llwythi a gafodd eu cludo ar y tir gan drenau. Ar gael yn: https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro/s8?_gl=1*1fa3gkp*_ga*MTI0OTM1MjAxNS4xNzY3NDI5NjY5*_ga_E6B8G8EZ88*MTczNzY3NzI4MS42LjEuMTczNzY4MDE2Ny41Ny4wLjA. [Aed at y wefan: 21.08.24]

Ffigur B-52: Punnoedd sterling fesul cilometr a deithir ar gyfer gwahanol ddulliau cludo




Ffigur B-53: Yr arian sy'n cael ei wario ar draws gwahanol ddulliau cludo yng Nghymru

	£miliwn a warir	Teithiau (miliynau)	Rhannu moddol	Pellter (biliwn km)	£/taith	£/km a deithir
Car	682	849	62%	36.6	0.80	0.02
Rheilffordd	397	34	2%	1.3	11.63	0.31
Bws	198	103	8%	0.9	1.92	0.22
Teithio llesol	42	384	28%	1.6	0.11	0.03
Cyfanswm	1319					
Cafeatau						
1. Nid yw'r lefelau ariannu yn llinol gyda'r nawdd						
2. Defnyddiwyd y data diweddaraf sydd ar gael o bob ffynhonnell i gynhyrchu'r ffigurau hyn, sy'n golygu nad ydynt bob amser o gyfnodau amser y gellir eu cymharu'n uniongyrchol.						
3. Nid oes data penodol i Gymru ar gael ar gael ar gyfer pob dull, ac os felly gwnaed amcangyfrifon gan ddefnyddio data ar gyfer Lloegr						

Ffynhonnell: Grŵp Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru

7.2.4.1 Yn ei chynllun busnes 2022–23, mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn nodi sut y bydd yn cyflawni ein cylch gwaith ar gyfer 2022–23 gan adlewyrchu referniw a chyfalaf mewn meysydd allweddol²⁴⁵.

Ffigur B-54: Sut mae TrC yn bwriadu gwario ei chyllid Llywodraeth Cymru yn 2022–23



7.2.4.2 Yn ogystal â chyllid Llywodraeth Cymru, bydd TrC yn derbyn ffynonellau incwm sylweddol eraill o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (£106 miliwn) a referniw rheilffyrdd (£177 miliwn) y mae referniw teithwyr yn £146 miliwn o hyn.

7.2.5 Bylchau Data

- Pa mor benodol y mae'r rhwydwaith trafndiaeth yn rhyngweithio â'r ffactorau hyn e.e. sawl hectar o ecosystemau iach y mae'r rhwydwaith trafndiaeth yn ei groesi.
- Faint o'r ynni a ddefnyddir gan y rhwydwaith trafndiaeth sy'n dod o adnoddau adnewyddadwy.
- Faint o ddeunyddiau eildro sy'n cael eu defnyddio wrth adeiladu seilwaith trafndiaeth.

7.3 Materion Allweddol sy'n berthnasol i'r CTRh a chyfleoedd iddo fynd i'r afael â nhw

7.3.1 Materion

7.3.1.1 Ers 2012, mae cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector trafndiaeth domestig Cymru wedi bod yn gymharol sefydlog dros amser. Mae'r lefel yn 2021 yn is na'r lefel a fodolai cyn pandemig COVID-19, sy'n dilyn y duedd hirdymor o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gostwng yn y sector trafndiaeth domestig. Yn 2019, petroliwm sy'n dominyddu'r defnydd o drafnidiaeth fesul tanwydd, a dim ond 4% o'r cyfanswm yw bio-ynni a gwastraff.

²⁴⁵ Trafnidiaeth Cymru (2022) Cynllun Busnes 2022–23. Ar gael yn: https://trc.cymru/sites/default/files/2022-07/017-22_TfW%20Business%20PlanCYM.pdf [Aed at y wefan: 21.08.24]

- 7.3.1.2 Yn 2021 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, cynyddodd Cymru ei chyfran o drydan a gynhrychir o ganlyniad i gynhyrchu mwy o danwydd ffosil, yn enwedig nwy. Er i'r pedair gwlad ddioddef gostyngiad yn eu cyfrannau cynhyrchu adnewyddadwy, cofnododd Cymru a Lloegr eu cyfrannau uchaf ond un rhwng 2017 a 2021.
- 7.3.1.3 Yr her o hyd yw sicrhau bod y duedd gadarnhaol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth domestig yn parhau ac yn cyflymu. Mae'r newid graddol mewn cynhyrchu ynni i danwydd adnewyddadwy a glanach ynghyd â gwelliannau technolegol ac effeithlonrwydd yn faterion allweddol.
- 7.3.1.4 Amcangyfrifir bod ôl troed ecolegol Cymru oddeutu 1.2–1.8 gwaith y cyfartaledd byd-eang. Mae ôl troed ecolegol yn ddangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Dylai datblygiadau trafndiaeth geisio lleddfu hyn gan ddarparu hefyd ar gyfer datblygiad newydd a thwf economaidd.
- 7.3.1.5 Rhaid cymryd mesurau i wella diogelwch cerddwyr a beicwyr ar y ffordd, er mwyn eu hybu fel ffyrdd ymarferol o deithio.
- 7.3.1.6 Mater allweddol i'w ddatrys yn y CTRh fydd ymateb yn effeithiol i angen gwledig, yn enwedig o ran trafndiaeth gyhoeddus, gyda'r bwriad o helpu i leihau'r defnydd o gerbydau preifat.
- 7.3.1.7 Nodir yn Yr Achos dros Newid ar gyfer Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru bod cipio gwerth ar gyfer y gymuned sy'n gysylltiedig â symud nwyddau yn her allweddol.

7.3.2 Cyfleoedd

- 7.3.2.1 Mae gan y CTRh gyfle i helpu i hybu tanwydd carbon isel, ynni adnewyddadwy a gwell safonau effeithlonrwydd ynni mewn seilwaith trafndiaeth.
- 7.3.2.2 Gan mai dim ond 3.7% o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru sydd wedi ei drydaneiddio ym mis Mawrth 2022, a bod y sector trafndiaeth yng Nghymru yn dibynnu'n drwm ar betroliwm fel ffynhonnell tanwydd, dylai'r CTRh annog newid cadarnhaol a fyddai'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector trafndiaeth.
- 7.3.2.3 Dylai'r CTRh gefnogi'r cynnydd mewn pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd.
- 7.3.2.4 Dylai'r CTRh geisio lleihau twf traffig modur.
- 7.3.2.5 Dylai'r CTRh ystyried sut y gellir gwella ansawdd y drafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig.
- 7.3.2.6 Dylai'r CTRh fynd i'r afael â'r tensiwn rhwng amwynder lleol a gofynion busnes sy'n gysylltiedig â symud Cerbydau Nwyddau Trwm sy'n cludo nwyddau. Yn unol â'r Achos dros Newid, '[b]ydd angen newid ar ffurf llwybro effeithiol, cyfleusterau addas ar gyfer parcio Cerbydau Nwyddau Trwm, a sicrhau ffyrdd o ddatgarboneiddio defnydd o'r cerbydau hyn'.
- 7.3.2.7 Rhaid i'r CTRh hybu dulliau trafndiaeth cynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol a Cherbydau Allyriadau Isel lawn a Cherbydau Di-allyriadau).
- 7.3.2.8 Gallai'r CTRh helpu i gefnogi busnesau drwy hybu cynlluniau teithio gwaith a llenyddiaeth ar gyfer dewisiadau teithio cynaliadwy.

7.3.2.9 Mae'r CTRh yn gyfle i weithredu'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy:

- Yn gyntaf, drwy leihau'r angen i deithio'n anghynaliadwy:
 - dod â gwasanaethau'n agosach at bobl, cynllunio integredig (cymunedau sydd wedi eu hadeiladu o amgylch canolfannau trafndiaeth)
 - TGCh, gweithio hyblyg, gweithio gartref
- Yn ail, drwy ehangu a hybu dewisiadau teithio mwy cynaliadwy:
 - integreiddio, newid moddol.
- Yn drydydd, drwy wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith trafndiaeth presennol:
 - rheoli'r galw, cyfleusterau, capasiti, gwelliannau seilwaith wedi eu targedu

Arcadis Consulting (UK) Limited

Lefel 1
2 Glass Wharf
Temple Quay
Bryste
BS2 0FR

Ffôn: +44 (0)117 372 1200

arcadis.com